# HANES Y BEDYDDWYR.

2/6

J. Davis Everett.
[illegible]

Sept 21/79

This Book is Presented
To John Griffiths, As
a Token of esteem towards
him for his faithfullness
towards the Sunday
School, & his readyness
to do all that he could
in all parts of the Lord
s, Vineyard, by his Old
Teacher, At the Tabernacle
Baptist Chapel
Merthyr Tydvil
John Evans

HEc
S

# HANES Y BEDYDDWYR

## A'U HEGWYDDORION,

*O ganrif i ganrif hyd yr amser presenol.*

GAN Y

PARCH. WILLIAM STOKES, MANCHESTER.

(YR AIL ARGRAFFIAD WEDI EI DDIWYGIO.)

Wedi ei gyfieithu i'r Gymmraeg gan y

PARCH. J. ROWLANDS, CWMAVON.

---

Hefyd, gan y Cyfieithydd,

TRAETHAWD

SEF

HANES Y BEDYDDWYR CYMMREIG,

O'u dechreuad yn y canrif cyntaf, hyd yr adeg bresenol.

555501
19. 11. 52

---

CWMAVON:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. GRIFFITHS.
M,DCCC,LXIX.

# RHAGYMADRODD Y CYFIEITHYDD.

DDARLLENYDD ANWYL,—

Gallai y dysgwylir rhesymau dros gyhoeddi y gyfrol hon o eiddo Mr. Stokes yn y Gymmraeg, yn nghyd a'r traethawd ychwanegol ar "Hanes y Bedyddwyr Cymmreig." Teimlid lawer gwaith fod y Bedyddwyr Cymmreig, yn gyffredin, yn annwybodus o hanes, treialon, &c., yr enwad y perthynant iddo; ac nad oedd ganddynt gyfryngau cyfleus at feddu y wybodaeth hono. Nid ydynt yn deall, (oddieithr eithriadau,) y iaith Saesonaeg; ac nid oes ganddynt amser, neu ni chymmerant amser, i ddarllen cyfrolau mawrion. Ac mae yr hyn a ddywedir am y Bedyddwyr, gan haneswyr o enwadau eraill yn unochrog a rhagfarnllyd. O herwydd pethau fel hyn, a'u cyffelyb, tybid fod crynodeb byr a chywir o'u hanes yn angenrheidiol, ac y byddai hefyd yn dderbyniol. Ac wrth ddarllen yr Hanes hwn o eiddo Mr. Stokes, tybid y byddai cyfieithad o hono yn llanw bwlch yn llenyddiaeth Bedyddwyr y Dywysogaeth; ac y dylai gael ei ddarllen, yn neillduol, gan bob Bedyddiwr Cymmreig.

Nid yw y Cyfieithydd yn proffesu mabwysiadu pob syniad *athrawiaethol* o eiddo Mr. Stokes; pethau yn perthyn i Mr. S. ydyw y rhai hyny; ond am y ffeithiau hanesyddol, pethau cyffredinol—yn perthyn i bawb ydynt.

Wrth ddarllen a chyfieithu Hanes Mr. Stokes, teimlai y Cyfieithydd fod ynddo ddiffyg mawr gyda golwg ar gwrdd ag angen y Bedyddwyr Cymmreig, yn neillduol; oblegyd nad oes ynddo ond ychydig yn cael ei ddweyd, (yr hyn ni ellid ei ddysgwyl ychwaith,) am danynt hwy, y rhai ydynt Gristionogion cyntaf, a boncyff Cristionogaeth y Deyrnas hon. Yn ngwyneb hyn, penderfynodd ysgrifenu traethawd yn cynnwys eu hanes, mor fyr, cryno a chywir, ag y gallai yn ol y gofod, o'u dechreuad hyd yn bresenol. Beth bynag a fernir am dano, y mae wedi costio llafur mawr i'w ysgrifenydd, yn neillduol mewn ymchwilio a chymharu. Ymdrechwyd dilyn y llinell hyd yn awr. Pa mor bell y cyrhaeddwyd hyny, y darllenydd biau barnu. Ond gwnaeth gyfiawnder a'r ffeithiau, a dodwyd hwy o flaen y darllenydd yn y modd mwyaf cywir a gonest ag y gallai wneyd. Credir y bydd hwn yn gynnorthwy hyd nes y ceir hanes helaethach a manylach. Dywedwn etto, nad ydym fel enwad yn cael chwareu teg oddiar law haneswyr o enwadau eraill; maent

naill ai'n rhagfarnllyd neu yn annwybodus o'n hanes. Gwna pob un o'r ddau hanes yn annghywir, a gwaeth na diwerth. Bod yn foddion i wneyd ein pobl ieuanc yn fwy hyddysg yn hanes ein henwad, neu y Bedyddwyr Cymmreig, oedd y prif amcan mewn golwg yn ysgrifeniad y traethawd.

Mae egwyddorion gwahaniaethol y Bedyddwyr, yn myned yn fwy fwy ar gynnydd, ac yn ennill tir yn barhaus. Maent yn cael eu haddef gan bregethwyr yr holl enwadau, o'r pwlpudau, yn eu gwaith yn pregethu *Edifeirwch*, *Ffydd*, *Ufudd-dod personol*, &c. Yno pregethir mai edifeirwch, ffydd, ufudd-dod, &c., ydynt ddechreuad crefydd mewn dyn; ac ni chydnabyddir, o'r pwlpudau, ddim yn grefydd yn flaenorol i'r pethau hyn. Daw yr amser pan bydd eu harferiadau yn cyduno a'r hyn a bregethant. Mae wedi dyfod felly eisioes, i raddau helaeth yn America, yn mhlith y gwahanol enwadau; mae bedyddio, neu daenellu mabanod ar ei leihad; a bedydd y crediniol trwy suddiad, ar ei gynnydd yn gyflym. Mae arwyddion yn ymddangos yn y pellter y cymmer yr un peth le, cyn hir, yn ein gwlad ni. Mae rhyw gynhwrf rhyfedd o barthed egwyddorion crefyddol,—o barthed i safon crefydd,—pa un ai yr Eglwys neu y Bibl ydyw. Dyna lle mae y pwnc mawr yn troi. Dyna benderfyna y mater yn y pen draw. Dywedodd yr enwog Spurgeon yn ddiweddar, fod y byd crefyddol yn symud yn gyflym tuag at un o ddau bwynt:—sef at Babyddiaeth ar un llaw; neu y Bedyddwyr ar y llaw arall—at y rhai y mae yr Eglwys yn bob peth, safon ac awdurdod, neu at y rhai y mae y Bibl yn unig yn pob peth—safon ac awdurdod mewn pethau crefyddol. Rhaid fydd *arrivo* cyn hir yn un o'r ddau le yna. Ymddengys i ni y bydd y frwydr fawr ddiweddaf, brwydr egwyddorion crefyddol, yn cael ei hymladd rhwng y ddwy ochr yna. Nid oes ynom bryder pwy a ennilla y dydd. Rhaid i wirionedd yr Ysgrythyrau ennill y maes yn y man. A phan daw y Bibl, a'r Bibl yn unig i gael ei gydnabod yr unig reol, safon, ac awdurdod mewn pethau crefyddol, yna tyr gwawr dedwydd y "MIL BLYNYDDOEDD." Brysied yr amser i ben; a bydded i'r gyfrol hon wneyd ei rhan tuag at ddwyn hyny oddiamgylch.

J. ROWLANDS.

Cwmafon, Mehefin 7, 1869.

# RHAGYMADRODD MR. STOKES I'R AIL ARGRAFFIAD.

TRWY garedigrwydd haelionus y corff o Fedyddwyr yn benaf, fe ddyhysbyddwyd yn fuan yr Argraffiad blaenaf o'r Hanes hwn, ac fe gyrhaeddodd ceisiadau lluosog yr awdwr am gopiau o wahanol barthau o'r deyrnas hon, ac o Unol Dalaethau America, yn mhell ar ol iddynt gael eu gwerthu. Gorfodwyd yr awdwr, o herwydd ei alwedigaethau lluosog, i ohirio, am amser, ddygiad allan yr Ail Argraffiad; ond hydera nad yw wedi troseddu gormod ar amynedd, yr hwn y buasai wedi ei foddloni yn llawer cynt, pe yn ddichonadwy.

Mae yr Argraffiad hwn wedi cael ei *reviso* yn ofalus, a ffurfiau neu ymadroddion gwrthebadwy wedi cael eu nhewid neu eu gadael allan, ac yma a thraw ychwanegiadau ysgafn wedi cael eu gwneyd.

I'r corff o Fedyddwyr yn gyffredinol, y mae yr awdwr yn cyflwyno ei ddiolchiadau cywiraf am y gweithiad cyflym o'r Argraffiad blaenaf, yn nghyd ag am yr hyspysiadau o gymmeradwyaeth; ac fe awgrymai yn barchus fod "i osparth Hanes y Bedyddwyr" yn cael eu ffurfio mewn cyssylltiad a phob eglwys a chynnulleidfa, i'r dyben o addysgu ysgoleigion hynaf yr ysgolion Sabbothol, a phersonau ieuanc eraill yn hanes ein hegwyddorion. Byddai y fath ddosparthiadau o ddefnydd mawr i'r enwad yn gyffredinol; a phe byddai y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio fel llaw-lyfr mewn gwasanaeth mor bwysig diehon y byddai ei gyhoeddiad yn gynnorthwyol, i ryw raddau yn nygiad oddiamgylch gyfnod goleuach, pan bydd GWIRIONEDD Y BIBL YN UNIG, ac nid dyfeisiau dynol, yn llywodraethu Eglwys broffesedig Duw.

W. S.

*Manchester*, Meh. 1866.

## GWELLIANT GWALLAU.

Tudalen 20, llinell 21, yn lle "ag ydoedd bedydd," darllener, "ag ydoedd i fedydd."

Tudalen 23, llinell 27, yn lle "yr Affrica," darllener, "yn Affrica."

# HANES Y BEDYDDWYR.

## Y CANRIF CYNTAF.

"*Bedydd Ioan, o ba le yr oedd,—o'r nef, ai o ddynion?*" (Math. xxi. 25; Marc xi. 30; Luc xx. 4.) Mae y gofyniad hwn yn penderfynu pwnc pwysig, hyny yw, nad defnyddio arferiad ag oedd yn bodoli yn barod yn mhlith yr Iuddewon ddarfu Ioan, fel mae rhai wedi haeru, ond mai dechreu gweinidogaeth o ordeiniad dwyfol ddarfu iddo, a hyny trwy weinyddiad ordinhad o ordeiniad dwyfol *Y bedydd* ei hun (nid y dyn) y gofynid o barthed iddo, ai o'r nef, ynte o ddynion yr oedd. Ar yr un pwynt hwn y mae pwysigrwydd neillduol bedydd yn ymddibynu. Os o ddynion, nid oes ganddo ond awdurdod *dynol;* ond os o'r nef, bydded i ddynion ymochelyd rhag cellwair gyda sefydliad a ddaeth yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. "Gan hyny (medd Storr and Flatt), pwy bynag sydd yn wybodus a gwirfoddol yn gwrthod bedydd, y mae yn trafod gyda difaterwch orchymyn y cenadwr goruchelaf o eiddo Duw (Ioan iii. 31), ie, eiddo yr Arglwydd ei hunan." (Math. xxviii. 18.)

Yr oedd Ioan yn brophwyd neillduol wedi ei anfon gan Dduw i gyflawni gwaith neillduol. Ei swydd ydoedd agorwr, neu barottowr, "i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod," (Luc i. 17.) Efe yn swyddogol a agorodd yr oruchwyliaeth Gristionogol. Efe oedd ei rhagflaenor ordeiniedig, wedi ei anfon yn mlaen fel "Llef un yn llefain yn y diffaethwch, parottowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau

Ef," (Math. iii. 3; Luc iii. 4). Fel mae y seren foreu yn blaenori y dydd, felly yr oedd Ioan Fedyddiwr yn cyhoeddi dyfodiad y Gwaredwr, ac yn parottoi y ffordd i'w ymddangosiad cyhoeddus. Fe ddygwyd yr oruchwyliaeth newydd, i'r hon yr oedd Ioan ei rhagredegydd mawr, i mewn ganddo fe, trwy ddefnyddio ordinhad newydd,—egwyddorol, dechreuol—un ag oedd wedi dyfod yn uniongyrchol o'r nefoedd, yn arddangos marwolaeth yr oruchwyliaeth Fosenaidd o seremoniau, ac adgyfodiad yr un newydd ag oedd yn nghylch ymddangos yn Nghrist. Bedydd ydoedd yr ordinhad yma, neu suddiad i lawr yn arwyddocâd o farwolaeth ac o adgyfodiad i fyny drachefn i fywyd. Arwyddai yr ordinhad newydd, ac mewn effaith, sicrhai fod yr oruchwyliaeth Fosenaidd yn nghylch marw, ac fod dynolryw i edrych arnynt eu hunain o hyn allan, fel wedi eu bedyddio i oruchwyliaeth arall, ac un well. Dyma ydoedd bedydd Ioan; ac fel mae goleuni'r boreu, er yn wan, yn rhan o'r dydd, felly yr oedd bedydd Ioan yn hanfodol yn fedydd Cristionogol, oblegyd fod edifeirwch, yr hwn ydoedd ei nodwedd fawr arbenigol wedi bod erioed yn ras Cristionogol. Yr oedd Paul yn ymresymu o barthed iddo, ac yn ei gydnabod felly, yr hwn, yn mhellach, sydd yn ei gyssylltu â ffydd yn Nghrist (Act. xix. 4); ac yn ganlynol, y dylai bedydd bob amser, gael ei ystyried yn foreu-wawr y dydd Cristionogol.*

Nid ydyw bedydd proselytaidd yr Iuddewon, ar yr hwn y myn rhai fod bedydd Ioan wedi ei sylfaenu, ond ffug-chwedl ar ei wyneb ef. Pa fodd y gallasai bedydd Ioan fod "o'r nef," os nad oedd ond dynwarediad

* "Yr oedd bedydd Ioan yn sylweddol yr un â bedydd Crist; ond yr oedd yn gwahaniaethu yn ffurf y geiriau a ddefnyddid yn ei weinyddiad. Yr oedd bedydd Crist hefyd yn cael ei weinyddu gyda ffurf bwysicach o eiriau, Yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." *Milton on Christian Doctrine, chap.* 28. *See also Dr. Gill on Baptism, in his Body of Divinity.*

o arferiad Iuddewig ag oedd yn bodoli yn barod? Heblaw hyny, y mae yn sicr tu hwnt i ddadl, na cheir yn nghyfraith Moses, nac mewn un rhan arall o'r Hen Destament, fod bedydd, mewn unrhyw ddull, yn cael ei weinyddu i broselytiaid. Os darfu iddo, gan hyny, erioed fodoli mewn ffurf o fedydd proselytaidd, y mae yn ddigon amlwg nad ydoedd o Dduw, ond wedi cael ei ddwyn i fodolaeth gan y Rabbiniaid Iuddewig, traddodiadau ac arferion newyddion y rhai yr oedd yr Iachawdwr yn eu condemnio mor nerthol a phenderfynol. (Math. xv. 2; Marc viii. 3—13.

Ond nid ydyw etto wedi ei *brofi*, fod bedydd broselytaidd wedi bodoli erioed, hyd yn hir ar ol gwasgariad yr Iuddewon. Mae *History of Baptism*, gan Robinson, yn hysbysu yn eglur "fod *puredigaethau* proselytiaid yn bod, ond na fu erioed y fath seremoni a bedydd mewn ymarferiad cyn amser Ioan." Mae Dr. Lardner hefyd yn sicrhau yn benderfynol, "gyda golwg ar fedydd proselytaidd, yr wyf fi yn ei gymmeryd fel perffaith ffug-chwedl y Rabbiniaid, trwy y rhai yr ydym yn rhy fynych wedi goddef ein hunain i gael ein twyllo." Nid ydyw Dr. Jennings yn llai penderfynol pan mae yn dyweyd, "Y mae yn aros etto i gael ei brofi, nid yn unig fod y bedydd Cristionogol wedi cael ei ddwyn i mewn yn lle bedydd proselytaidd, ond fod gan yr Iuddewon y cyfryw fedydd yn amser ein Hiachawdwr." Ac y mae ef yn sylwi yn mhellach—"Nid oes cymmaint a gair am dano yn Philo, na chwaith yn Josephus, er ei fod yn rhoddi hanes proselyteiddio yr Idumeaid gan Hyrcanus." Y mae Dr. Owen yn dyweyd am dano,—"Nid oes esiampl o hono yn yr hen goflyfrau hyny (yr Hen Destament), ac ni ddefnyddiwyd ef erioed i dderbyn i mewn broselytiaid, tra parhaodd yr eglwys Iuddewig. Nid oes crybwylliad am dano yn Philo, yn Josephus, yn hanes Jesus fab Syrach, nac yn yr Hanes Efengylaidd." Ac y mae Dr. Gill, ar ol chwilio

y pwnc gyda gofal neillduol yn gorphen ei draethawd meistrolgar, (yr hwn sydd erioed heb ei ateb), trwy ddyweyd—"Os hyn ydyw sylfaen bedydd mabanod, y mae wedi ei adeiladu ar y tywod, a chyn hir fe syrth, ac ni fydd mwy."

Yr oedd gweinidogaeth mor newydd, mor nodweddiadol, ac yn ymddangosiad mor eofn wahanol i grefydd sefydledig Moses, yn neillduol gyfaddas i gynhyrfu sylw y bobl Inddewig, ac mor belled yr oedd yn cael ei deall, yr oedd yn sicrhau poblogrwydd mawr a chyffredinol. Felly yr oedd gyda bedydd Ioan. Yr oedd y bobl yn cael eu cynhyrfu gymmaint, "fel yr aeth allan ato ef Jerusalem, a holl Judea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen, a hwy a fedyddiwyd ganddo ef yn yr Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau." (Math. iii. 5, 6; Marc i. 5; Luc iii. 3, 7.) Darfu ei bregethu grymus, a'i ymosodiad cyhoeddus yn erbyn y rhagrith cenedlaethol gynhyrfu yr holl deyrnas (Luc iii. 7, 9). Nerth Elias ydoedd (Math. xi. 14; Luc i. 17), i ddeffroi pobl gysglyd, ac i'w parotoi ar gyfer dyfodiad yr Arglwydd.

Ond yr amgylchiad mwyaf pwysig o lawer yn ngweinidogaeth Ioan, ydoedd bedyddiad yr Arglwydd ei hunan. Nid oedd ufudd-dod y bobl i'r ddeddf newydd yn ddim neillduol iawn, pan gofir fod Ioan "yn brophwyd i'r Goruchaf." (Luc i. 76.) Ond fod Arglwydd y nefoedd, Deddfroddwr angelion a dynion, yn ymostwng i ufuddhau i'w ddeddf ei hun, ac yn gosod ei hun ar yr un tir â'r Iuddew mwyaf gostyngedig a ddaeth at Ioan i'w fedyddio, sydd yn arddangosiad o ymostyngiad annghymmarol, ac yn dysgu, tu hwnt i allu y rhesymau cryfaf, y pwysigrwydd o ufudd-dod, hyd y nod mewn pethau bychain. Darfu y Gwaredwr, mewn modd cyssegredig anrhydeddu, yr hyn mae rhai pobl anystyriol yn ddewis alw "yn un o'r gorchymynion lleiaf hyn;" ac os darfu iddo Ef wneyd hyn,—os na ddarfu iddo Ef, y Pryniawdwr

Hollalluog, ddiystyru *bedydd Ioan*, sicr ynte na ddylai neb ddiystyru *bedydd yr Arglwydd ei hun.* Os darfu Crist mor gyhoeddus aurhydeddu bedydd Ioan, bydded ynte i ni oll gydag ufudd-dod santaidd yn yr un ddyledswydd dalu anrhydedd i fedydd Crist ei hun. (Math. iii. 13—17; Marc i. 9—11, &c.)

O ganlyniad, yr oedd Iesu Grist, Arglwydd pawb oll yn Fedyddiwr. Bernir i'r bendigedig Iachawdwr ddyfod o tua *phedwar ugain milldir* o ffordd i gyflawni y ddyledswydd bwysig hon (Math. iii. 13); ac ond i ni gofio arferion pobl y wlad hono yn yr oes grybwylledig, y mae yn hollol debygol iddo deithio yr holl ffordd hono ar ei draed, bob cam. Y fath brawf o barch crefyddol i ddyledswydd; a'r fath gerydd i'r personau sydd yn *gwybod* eu dyledswydd, ag nad ydynt byth yn ei chyflawni! Maent yn wastad yn siarad am dani, ond yn gadael i rwymedigaeth mor bwysig, flwyddyn ar ol blwyddyn, i ddybenu gyda hwy mewn siarad yn unig! Beth raid fydd y cerydd llym a ga y cyfryw bersonau dderbyn oddiwrth y Gwaredwr yn y diwedd? Yr oedd Efe yn gwybod ei ddyledswydd, ac a ufuddhaodd iddi yn wrol a chyhoeddus; ond mae y personau hyn ag sydd yn oedi yr amser, ar wyliadwriaeth gwastadol am esgusodion i noddi eu hesgeulustra eu hunain. Pa fodd y cyfarfyddant yn y diwedd â'i lygad Ef, esiampl yr hwn y darfu iddynt ar hyd eu hoes ei diystyru? Y mae hwn yn ofyniad gorbwysig, ac yn un y dylid ei ystyried gyda'r difrifoldeb dwysaf, cyn yr elo yn rhy ddiweddar.

Ar ol i'r Gwaredwr gael ei fedyddio, dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus trwy bregethu a bedyddio, ac fe ddaeth yn fuan yn BRIF FEDYDDIWR YR OES. Adfeiliodd gweinidogaeth Ioan. Rhag-ganfyddodd Ioan hyn, a rhag-hysbysodd ef hefyd pan ddywedodd; "Rhaid ydyw iddo Ef gynnyddu ac i minau leihau," ac yr oedd yn llawenychu i gael rhoddi ei le i un ag oedd yn fwy nag ef ei hun, (Ioan iii.

28—30). Fe gymmerodd yr Arglwydd yn awr y gwaith mewn llaw, ac Efe a aeth allan trwy'r holl wlad gan addysgu, pregethu, a bedyddio, (Math. iv. 23—25; ix. 35—38, &c.) Fe ddaeth ei fedydd yn fuan iawn yn fwy dylanwadol yn mhlith y bobl nag oedd eiddo Ioan wedi bod. "Yr oedd pawb yn dyfod ato Ef," ac yr oedd y Phariseaid yn teimlo yn flin fod un arall wedi ymddangos, yr hwn "oedd yn gwneyd ac yn bedyddio mwy o ddysgyblion nag Ioan," (Ioan iii. 22—26; iv. 1, 2.) Yr oedd yr Arglwydd yn gweithredu yn y gwaith mawr hwn gydag urddas breninol, yn rhoddi gofal y ddyledswydd i'w ddysgyblion, tra yr oedd Efe fel brenin yn dwyn allan y gyfraith, ac yn gorchymyn ei chyflawniad. Yr oedd hyn yn fawreddog ac yn dywysogaidd. Efe a ddygodd allan y ddeddf, ac a adawodd i'w ddysgyblion i edrych ei bod yn cael ufudd-dod manwyl, (Ioan iv. 2.) Eithr yn mhlith y tyrfaoedd a ddaethant i'r bedydd hwn, ac i fedydd Ioan, nid oes grybwylliad yn cael ei wneyd am blant neu fabanod. Ar un amgylchiad cyfarwyddodd yr Iachawdwr ei sylw at "blant bychain," ond nid i'w bedyddio hwy. Efe a osododd ei ddwylaw arnynt ac a'u bendithiodd hwy, ond nid oes un gair yn cael ei lefaru ag sydd yn eu cyssylltu hwy â bedydd, (Math. xix. 13—15; Marc x. 13—16.) Y cyfryw a ddaethant "gan gyffesu eu pechodau" oeddynt y rhai a fedyddiwyd, (Math. iii. 6), ac ni ellir cymhwyso hyn at neb ond rhai mewn oedran i wybod fod ganddynt bechodau i'w cyffesu. Ond a allasai mabanod wybod am bechod neu ei gyffesu?

Wedi i fedydd, yn gyntaf gan Ioan, ac wedi hyny gan y Gwaredwr ei hun arwyddocâu *dechreuad* yr oruchwyliaeth Gristionogol; nid oedd mwy yn ofynol i roddi iddo bob gallu ac awdurdod o rwymedigaeth barhaol yn yr oruchwyliaeth hono, ond *deddf bendant* gan ei Frenin Goruchaf. Yn absenoldeb y cyfryw ddeddf, buasai dim ond arferiad yn unig o'r

ordinhad hon, yn ei gosod yn amddifad o awdurdod deddf barhaol, a gallasai ddarfod o ddiffyg gorchymyn arbenig i'w gwneyd yn rhwymedig, yn wastadol, a pharhaus. I ragflaenu hyn, ac yn mhellach i brofi fod bedydd i aros yn ddeddf barhaus—yn un o rwymedigaeth gwastadol, cyhyd ag y parhai yr oruchwyliaeth Gristionogol yn mhlith dynion, fe roddodd yr Iachawdwr iddo le ac awdurdod cyfraith neu deddf sefydlog ac annghyfnewidiol, sef hyd ddiwedd y byd," trwy ei ddwyn allan fel ei orchymyn. "Ewch, gan hyny, a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy i enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân;" "Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig." (Math. xxxviii. 19; Marc xvi. 16.)

Tu hwnt i bob dadl dyma Y GYFRAITH,—cyfraith olaf ac annghyfnewidiol Crist, oblegyd pwy ond Crist ei hunan a all gyfnewid, gwrthdroi. neu alw yn ol y ddeddf hon? Wedi derbyn pob gallu, ac mewn canlyniad, pob awdurdod, yn y nefoedd ac ar y ddaiar. Efe a roddodd hon fel Ei gyfraith fawr i wahaniaethu Ei Eglwys a'i bobl Ef "hyd ddiwedd y byd;" ond tra y mae y ddeddf hon yn feddiannol ar bob awdurdod rheol Ddwyfol; tra mae yn sefyll allan fel mynegiad cyhoeddus o'i ewyllys Ef, yr Hwn ni watworir; y mae yn un ag sydd yn amcanu am yr anrhydedd uchelaf trwy sefydlu yr undeb mwyaf perffaith â'r Arglwydd ei hun. Mae ei hamcan i'w bobl i fod yn un ag Ef mewn anrhydedd, trwy fod yn un ag Ef mewn ufudd-dod rhydd ac ewyllysgar. Yn gymmaint ag iddo Ef gael ei fedyddio felly mae yn ewyllysio fod iddynt hwythau hefyd gael eu bedyddio gydag Ef; a lle mae y dyn i'w gael ag sydd yn ddigon haerllug, balch, ac annuwiol i ddywedyd, "Nid ydwyf fi yn ystyried hyn yn un math o anrhydedd?" ni fyddai geiriau a rhesymau gyda y cyfryw ddyn ond oferedd, oblegyd mae y dyn nad yw yn ystyried bod yn debyg i Grist

yn anrhydedd,—y mae y dyn hwnw heb erioed etto ddysgu beth ydyw gwir anrhydedd.

Wedi i'r Gwaredwr hysbysu a sefydlu y gyfraith, darfu iddo ar unwaith awdurdodi ei ddysgyblion i fyned allan i blith yr holl genedloedd, gan orchymyn i bawb a gredent dalu ufudd-dod idd ei ewyllys Ef. Yr oeddynt fel hyn i ledaenu, hyd y nod "i bob creadur" y cyhoeddiad o'r Efengyl, ac i wneyd dysgyblion a thansuddo pa le bynag yr elent. Nid oeddynt i wyro oddiwrth y commisiwn ar un cyfrif yn y byd, ond i ymlynu wrtho yn ddiysgog fel deddf fawr ddiweddaf yr Hwn oedd wedi cael ei "wneuthur yn Ben uwchlaw pob peth i'r Eglwys." Ac ni wyrasant oddiwrthi mewn dim. Wedi aros yn Jerusalem am y "nerth o'r uchelder," (Luc xxiv. 49), a derbyn y cyflawniad nerthol o'r addewid hono ar ddydd y Pentecost, hwy a aethant allan i wneyd ewyllys eu Mheistr, i addysgu a bedyddio y bobl oeddynt yn credu ynddo Ef. Yn Jerusalem, mewn un diwrnod, bu i dair mil gredu a chael eu bedyddio, (Act. ii. 41.) Y Samariaid hefyd, ar eu gwaith yn credu, a fedyddiwyd ac ychwanegwyd hwy at yr Eglwys, "yn wŷr ac yn wragedd," (Act. viii. 12). Felly yr un modd gyda'r Eunuch crediniol—Saul o Tarsis, pan credodd—Cornelius, yn nghyd a'i gyfeillion crediniol—Lydia a'i thylwyth crediniol—ceidwad y carchar—y Corinthiaid—yr Ephesiaid—y Colosiaid—y Rhufeiniaid—y Galatiaid—y rhai hyn oll, ar eu gwaith yn proffesu ffydd yn Nghrist a fedyddiwyd ac a ychwanegwyd at yr Eglwys; fel prawf o hyn, gwel Act. viii. 35; ix. 18; x. 47, 48; xvi. 15, 33, 34; xviii. 8; xix. 5; Col. ii. 10, 12; Rhuf. vi. 3; Gal. iii. 26, 27. Mae yr achosion hyn yn arddangos gweithrediad yr un gyfraith—cyfraith ddiweddaf Crist—ac yn dangos tu hwnt i bob ammheuaeth fod yr oll ag oeddent yn credu yn yr oes Apostolaidd, yn cael eu bedyddio, pa un bynag ai Iuddew ai Cenedl-ddyn, caeth neu rydd;

ac fod holl Eglwys Crist yn yr oes hono yn un Eglwys Fedyddiedig eang yn ei hymledaeniad.

Y mae hyn yn cael ei gadarnhau gan lu o ysgrifenwyr gwahanol oesau a gwledydd, ond ni chaniata ein gofod i ni ddyfynu ond ychydig o honynt.

Mae y MAGDEBURG CENTURIATORS yn dyweyd,—"Yn yr oes hon, maent yn cael allan eu bod yn bedyddio yn unig rai wedi tyfu fyny, neu rai mewn oedran, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenedloedd, o'r hyn dywedant fod genym engreifftiau. Ond gyda golwg ar fedyddio mabanod, cyffesant na ddarllenant am un esiampl."

SALMASIUS a ysgrifena fel hyn:—"Trochiad ydyw *bedydd*, ac yr oedd yn cael ei weinyddu yn yr amseroedd gynt yn unol â grym ac ystyr y gair. Yn awr *rhantism* neu daenelliad yn unig ydyw, ac nid trochiad neu dansuddiad.

CALVIN:—"Oddiwrth y geiriau hyn,—Ioan iii. 23, gellir casglu fod bedydd yn cael ei weinyddu gan Ioan a Christ trwy osodiad yr holl gorff dan ddwfr."

MOSHEIM:—"Y personau hyny sydd wedi tyfu i fyny ag ydynt yn dymuno cael eu bedyddio, y maent yn derbyn *sacrament* y bedydd yn ol y dull henafol a chyntefig o weinyddu y sefydliad hwnw sef trwy drochiad."

Dr. Bloomfield ar Marc i. 9, yn llythyrenol, "a drochwyd neu a dansoddwyd iddo." *Notes on the Greek Testament.*

CURCELLAEUS:—"Ni ddechreuodd yr arferiad o fedyddio mabanod cyn y trydydd canrif ar ol Crist, ac ni ymddengys yr olion lleiaf o hono yn y ddau ganrif cyntaf."

NEANDER:—"Nid hyd gofnod mor ddiweddar (ag o leiaf, yn sicr nid yn gynt nag) Irenaeus yr ymddengys dim o fedydd mabanod."

MILTON:—"Oddiwrth hyn y mae yn canlyn nad ydyw mabanod i gael eu bedyddio, yn gymmaint a'u

bod yn annalluog i dderbyn addysgiaeth, neu i gredu, neu i fyned i gyfammod, neu i wneyd addewid, neu i ateb drostynt eu hunain, neu, hyd y nod, i wrando y gair."

JOHN WESLEY:—"Bydded i waith ein Harglwydd yn ymostwng i fedydd ddysgu i ni fanylwch santaidd mewn ufudd-dod i'r sefydliadau hyny, y rhai y mae rhwymedigaeth iddynt yn ymddibynu yn unig ar orchymyn dwyfol; yn ddiammheuol, fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder." (Sylw ar Math. iii. 16).

Oddiwrth yr awdurdodau hyn, a'r hyn sydd annhraethol bwysicach, o'r Testament Newydd ei hun, mae yn amlwg mai *bedydd y crediniol* oedd yr unig fedydd yn yr oes Apostolaidd. Yr oedd taenelliad yn hollol anadnabyddus, ac nid oedd bedydd maban wedi dyfod i mewn i'r Eglwys i anurddo achos Crist. Achos ydoedd ef y pryd hyny, i "wŷr a gwragedd" ag oeddynt yn credu, y rhai ag oeddynt yn gwisgo am danynt Grist yn ngwyneb byd ag oedd yn gwgu arnynt, y rhai mewn bywyd o santeiddrwydd Efengylaidd a roddasant dystiolaeth i'r gwirionedd eu bod hwy "wedi eu claddu gydag ef trwy fedydd i farwolaeth." Yn ei marweiddiad i'r byd; yn ei hymlyniad crefyddol wrth Grist, yn ei hamynedd mewn dyoddefiadau, ac yn ei pharodrwydd i farw dros y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, yr oedd yr Eglwys yr adeg hono yn sefyll i fyny yn ogoniant y greadigaeth. Nid oedd y fath gymdeithas arall o wŷr a gwragedd yn nghreadigaeth orfawr Duw; ac nid mewn un man arall yr ymddangosodd gras Crist gyda'r fath ardderchawgrwydd nefol—a'r rhai hyn oeddynt FEDYDDWYR Y CANRIF CYNTAF.

## CANRIF YR AIL.

Y MAE dau amgylchiad a ddaliant gyssylltiad agos â'r canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol ag sydd yn galw am sylw byr cyn myned rhagom gyda'r hanes cyffredinol. Yr amgylchiadau hyn ydynt, dygiad yr Efengyl i Frydain, a'r erlidigaethau creulon, y rhai y gorfodwyd canlynwyr ffyddlon y Gwaredwr i'w dyoddef dan deyrniaid Paganaidd y byd Rhufeinig.

Yr oedd dygiad yr Efengyl i Frydain yn amgylchiad pwysig. Gorweddai yr ynysoedd hyn mewn pellder mawr oddiwrth seddle y gallu Rhufeinig, ac nid oeddynt yn adnabyddus ond i raddau bychain, cyn y goresgyniad gan Julius Cæsar, i genedloedd Cyfandir Ewrop. Gan fod y rhai hyn yn gorwedd yn mhell yn y gorllewin, ac mewn cyfeiriad gwahanol i olygfeydd mwy swynol yr hen lywodraeth, y rhai oeddynt *barthau clasurol* yr oes hono o'r byd; yr oedd yr ynysoedd Prydeinig yn mhlith y lleoedd mwyaf annhebyg ar y ddaiar i dynu sylw ac i ddenu dynion i lafurio, y rhai na ddysgwylient am wobr ond *yn y byd hwn yn unig*. Ond yn yr oes Apostolaidd yr oedd dynion i'w cael, y rhai "nad gwerthfawr yn eu golwg oedd eu bywyd eu hunain," y rhai yn awyddfryd tanllyd eu sel i bregethu yr efengyl i bob creadur, a edrychent ar gyflwr gresynol ac esgeulustra yn alwadau ychwanegol ar eu cydymdeimlad, ac yn rhesymau cryfach dros ystyriaeth a gweithgarwch diattreg. Y cyfryw gymhellion, gallwn yn hawdd ddychymmygu, oeddynt yn llywodraethu meddyliau y rhai hyny yn yr oes Apostolaidd; y rhai wedi iddynt glywed am goelgrefyddau Paganaidd y Prydeiniaid, a wnaethant frys i lanio yn ein tiriogaethau, gyda Gair y Bywyd—Efengyl y Bendigedig Dduw.

Y mae braidd tu hwnt i bob ammheuaeth fod y Groes yn cael ei phregethu yn Mrydain yn ystod yr oes Apostolaidd. Nid oes ond ychydig ffeithiau yn

feddiannol ar fwy o brofion uniongyrchol na'r ffaith fod Cristionogaeth wedi cael ei dwyn i'r ynysoedd hyn yn flaenorol i ddinystr Jerusalem, yr hwn gymmerodd le yn y flwyddyn 70. Mae yr Esgob Newton ar y prophwydoliaethau, pen. 18, yn ysgrifenu ar y pwnc yn dra eglur, fel hyn:—"Ymddengys fod ein cyndadau, yn yr ynys hon, yn byw mor belled oddiwrth olygfeydd gweithredoedd ein Hiachawdwr, o'r braidd, ag unrhyw genedl; ac eu bod yn bobl mor anfoesgar ac annghroesawgar, ac mor annhebyg ag unrhyw bobl, pa bynag, i roddi derbyniad i sefydliad mor foesol yn ei natur. Ond etto, y mae rhyw debygolrwydd fod yr Efengyl wedi cael ei phregethu yma gan Simon yr Apostol; y mae llawer mwy o debygolrwydd iddi gael ei phregethu yma gan Paul; ac y mae sicrwydd perffaith fod Cristionogaeth wedi cael ei phlannu yn y wlad hon yn nyddiau yr Apostolion, cyn dinystr Jerusalem. Yn unol â hyn, y mae Eusebius yn ein hysbysu i'r Apostolion bregethu yr Efengyl yn yr holl fyd, ac i rai o honynt fyned dros y môr i'r Ynysoedd Prydeinig. Mae Theodoret hefyd, yr un modd yn sicrhau fod yr Apostolion wedi tueddu pob cenedl a phob math o ddynion i gofleidio yr Efengyl, ac yn mhlith y cenedloedd argyhoeddedig, y mae mewn modd neillduol yn cyfrif y Brythoniaid."

Y mae awdwr diweddarach, yr hwn sydd wedi rhoddi llawer o sylw i'r pwnc hwn, a'r hwn sydd yn ysgrifenu yn rhagorol, gydag eglurder, ac anmhleidgarwch, yn gwneyd y sylwadau canlynol:—"—mae y dystiolaeth sydd wedi cael ei dwyn yn mlaen, yn ein harwain i gasglu fod, yn ol pob tebygolrwydd, y wybodaeth gyntaf am Gristionogaeth wedi cael ei dwyn i'r ynys hon naill ai gan yr Apostol Paul, neu gan BRAN, tad Caractacus, pan oedd Paul yn Rhufain; ac fod y ffydd santaidd hon wedi cael ei chofleidio ar ol hyn gan y Brenin Lucius, ac wedi cael ei derchafu, —lledaenu, trwy ei gymmeradwyaeth a'i ddylanwad,

Hysbysir ni fod y tywysog hwn wedi ymdrechu llawer er hyrwyddo yn ei flaen yr achos Cristionogol —iddo adeiladu lleoedd cyfaddas i addoli, &c., ac fel hyn iddo wneyd llawer tuag at ledaeniad y gwirionedd. . . . . . Mae un amgylchiad, fodd bynag, yn ymddangos yn sicr, sef, fod Cristionogion Prydain, yn ystod y canrifoedd cyntaf a'r ail, yn mwynhau eithriad dedwydd oddiwrth gyfeiliornadau athrawiaethol ag oeddynt yn poeni rhanau ereill o'r Eglwys. Fe gyfododd amrywiol hereticiaid yn Asia ac yn yr Aipht, y rhai a ddygasant i mewn amryw ddaliadau crefyddol a fuont rwystrau ar ffordd mynediad yr Efengyl yn mlaen; ond fe gafodd Cristionogion Prydain eu cadw rhag y pethau hyn, o herwydd eu pellter mawr oddiwrth y lleoedd hyny, yn nghyda'u sefyllfa ynysawl. Parhausant yn hir i fwynhau goleuni yr Efengyl yn ei burdeb cyntefig; ac yr oedd hyn yn gynnorthwy nid bychan i lwyddiant mewnol, yn nghyda diogelwch allanol yr Eglwys ieuanc yn Mhrydain, ac i'w chadw rhag llawer o'r gofidiau a syrthiasant i ran eglwysi eraill, y rhai a lygrwyd trwy yr heresiau hyn." *

Gellir yn hawdd ychwanegu tystiolaethau eraill o bwys mawr ar y pwnc; ond mae y rhai hyn yn berffaith ddigon i warantu y ddau gasgliad canlynol.‡

---

* "Religion of Ancient Britain," by G. Smith, F.A.S.

‡ "However historians may differ as to the precise year of the introduction of Christianity into Britain, they are unanimous in stating that the Gospel was first preached here in the very infancy of the Church. Eusebius positively asserts that the apostles themselves first introduced it. . . . . To these authorities of the first six centuries may be added the later, but very high testimony of Archbishop Parker, who states his persuasion that St. Paul preached the Gospel to the Britons in the interval between his first and second imprisonment at Rome; and with him agree also the opinions of Camden, Usher, Stillingfleet, Cave, Gibson, Godwin, Rapin, and many others who have closely examined the question, and who are all decided in their belief that *St. Paul was the founder of the British Church.*" *Peranzabuloe; or the Lost Church Found, by the Rev. C. T. Collins, M.A., Rector of Timsbury, pp.* 38—42.

Yn gyntaf, fod yn yr oes buraf o eiddo Cristionogaeth, a chanrifoedd cyn i Rufain Babaidd drawsfeddiannu yr awdurdod eglwysig uchelaf, a chyn fod y fath beth yn adnabyddus yn Mrydain, yr oedd Eglwysi Efengylaidd wedi eu sefydlu yn yr ynys hon.

Yn ail, ei fod tuhwnt i bob dadl mai trochiad, credinwyr wedi tyfu i fyny oedd rheol holl Eglwysi Efengylaidd yr oes hono. Eglwysi trochedig neu fedyddiedig oedd Eglwysi cyntaf Brydain, ac o angenrheidrwydd, cyn fod Pabyddiaeth na thaenelliad mabanod wedi ymddangos yn Lloegr. Eglwysi Bedyddiedig oedd yn gwneyd i fyny grefydd y wlad hon. Mae o bwys i gadw y casgliadau hyn yn y côf, gan eu bod yn rhoddi allwedd, heb yr hwn ni ellid rhoddi cyfrif am amddygiad anmhlygedig monachod Bangor-Icoed, y rhai yn nghylch y flwyddyn 697*, a lofruddiwyd mewn modd creulon trwy ystryw Awstin, cenad y Pab i Brydain, am wrthod, yn mhlith pethau eraill, "roddi *Cristionogaeth i blant*," sef eu Cristioneiddio (!) trwy eu bedyddio. Cynnorthwya hefyd i roddi cyfrif am yr ymddangosiad achlysurol o Fedyddwyr yn Lloegr *yn flaenorol i'r diwygiad Lutheraidd*, ac y mae hefyd yn myned yn mhell i gyfiawnhau y dybiaeth fod egwyddorion y Bedyddwyr wedi bodoli yn Mrydain o'r oes Apostolaidd, er eu bod yn fynych yn guddiedig ac anweledig.

Yr ail amgylchiad i'w gofio ydyw yr erlidigaethau ofnadwy ar Eglwys Crist oddiar ddwylaw Ymerawdwyr Rhufain baganaidd. Dechreuodd y cyntaf dan Nero, yn y flwyddyn 64, a'r ail dan Domitian yn y flwyddyn 90.‡ Y Domitian hwn yn y flwyddyn 87, mewn modd cableddus a argymmerodd iddo ei hun

---

* The Anglo-Saxon Chronicle.

‡ Dan y Domitian hwn yr alltudiwyd Ioan i ynys Patmos, lle y gwelodd, clywodd, ac yr ysgrifenodd y pethau a gynnwys "Llyfr y Datguddiad."

urddasau dwyfol, yn hawlio cael ei alw yn Arglwydd ac yn Dduw; a thebygol yw, mai gwrthodiad penderfynol y Cristionogion i'w addoli ef ei hun, neu ei audduwiau Rhufeinig, yn gyssylltiedig a'i ofn eiddigeddus ond annwybodus o'r Brenin Iesu, yr hwn yr oeddynt hwy yn wasanaethu, oeddynt yn mhlith yr achosion penaf o'r erlidigaeth hwnw.

O barthed i'r erlidigaeth cyntaf, dan Nero, mae Tacitus, yr hanesydd Rhufeinig yn rhoddi y darluniad canlynol, fel yn arddangos dyoddefiadau ofnadwy y Cristionogion:—"Yr oeddynt yn cael eu rhoddi i farwolaeth gyda y creulondeb mwyaf arteithiol, ac at eu dyoddefiadau yr oedd Nero yn ychwanegu gwawd a dirmyg. Yr oedd rhai yn cael eu gwisgo â chrwyn bwystfilod gwylltion, a gadewid hwy i gael eu llarpio gan gŵn; eraill yn cael eu hoelio wrth groesau; cafodd nifcroedd eu claddu yn fyw; a lluaws a wisgwyd mewn defnydd llosgadwy, ac a roddwyd ar dân pan fyddai y dydd yn darfod i oleuo yn lle lampau ar hyd y nos. Ac er mwyn cael cyfleustra i weled yr olygfa arswydol hon, yr oedd yr Ymerawdwr yn rhoddi benthyg ei erddi ei hun. Yr oedd hefyd yn ychwanegu at y pethau hyn chwareuyddiaethau y *circus*, ac yn cynnorthwyo ei hunan, weithiau trwy yru mewn cerbyd ysgafn, ac yn achlysurol yn ymgymmysgu efo y dorf anfad yn ngwisg ei gerbydwr.*

Dyna y fath adyn oedd meistr y byd Rhufeinig—weithiau yn gythraul, ac weithiau yn ddrelyn ffol dirmygus. Gwae i ddynolryw pan caniateir i'r fath gymmysgedd o gythreuleiddiwch a ffolineb i eistedd. ar yr orsedd. Ond fe'i tarawodd Duw ef i'r llawr o'r diwedd. Bu fyw yn anghenfil, a bu farw mewn gwarth

Yr oedd yr ail erlidigaeth dan Domitian yn echryslawn tra y parhaodd; ond darfu i Reolwr mawr bren-

† Annal's, Book 15

inoedd a thywysogion alw y gormeswr ymaith yn ddirybudd, ac a waredodd Ei Eglwys anwyl.

Yn awr awn yn mlaen efo'r hanes. Yr oedd yr ail ganrif yn cael ei hynodi gan gymmysgedd galarus o ffyddlondeb ac o nychdod gwirionffol. Er fod, gan mwyaf, ymlyniad cyffredinol wrth wirioneddau a sefydliadau pendant yr Efengyl, etto mae yn hawdd canfod nad oedd yr ymlyniad hwn ond llac mewn amryw gyfeiriadau, a thua diwedd y canrif yr oedd newydd-bethau *(inovations)* o duedd ddirywedig mewn athrawiaeth ac ymarferiad wedi cael derbyniad. Y mae yr holl haneswyr eglwysig ag y gellir ymddibynu arnynt yn cyduno ar gywirdeb yr hysbysiadau canlynol o eiddo Mosheim:—"Yr oedd yr ordinhad o fedydd yn cael ei weinyddu ddwywaith, yn gyhoeddus bob blwyddyn, ar wyliau y Pasc a'r Pentecost, neu y Sulgwyn, naill ai gan yr esgob (bugail), neu gan yr henaduriaid mewn canlyniad i'w awdurdodiad a'i apwyntiad. Yr oedd y personau ag oeddynt i gael eu bedyddio, ar ol iddynt adrodd y credo, cyffesu ac ymwadu â'u pechodau, ac yn enwedig y diafol a'i hudoliaethau rhwysgfawr, *yn cael eu trochi dan ddwfr*, ac yn cael eu derbyn i deyrnas Crist trwy weddi ddifrifol ar y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, yn ol gorchymyn eglur ein Harglwydd bendigedig." Ac yn dylyn yr hysbysiad hwn yn union, y mae yr un hanesydd yn myned yn mlaen ac yn darlunio pethau ag mae yn rhaid i ni eu galw yn ychwanegiadau ffol ac anysgrythyrol, at y sefydliad pwysigaf hwn:—"Ar ol bedydd yr oeddynt yn derbyn *arwydd y groes*, yn cael eu *heneinio*, a thrwy *weddiau* ac *arddodiad dwylaw*, yr oeddynt yn cael eu cyflwyno yn ddifrifol i drugaredd Duw, a'u cyssegru idd ei wasanaeth Ef; mewn canlyniad i hyn yr oeddynt yn derbyn *llaeth a mel*, yr hyn oedd yn dybenu y seremoni." Dygiad i mewn y newydd-bethau hyn ar draws symylrwydd hardd bedydd y crediniol, oeddynt ddechreuadau bychain i Bab-

yddiaeth; y rhai ar ol hyn a chwyddasant i faintioli dadblygiadol y Dyn Pechod. Dyn, heb ymfoddloni ar y perffeithrwydd sydd bob amser yn gwahaniaethu sefydliadau syml y nefoedd, a fyn ychwanegu rhyw beth o'i eiddo ei hun atynt mewn ffordd o *welliant* ar ddoethineb Duw. Ni ad efe i Dduw gyflawni ei waith ei hun, yn ei ffordd ei hun; tra nad yw yn boddloni ar ufuddhau, y mae yn rhyfygus yn argymmeryd â *hyfforddi;* a lle y dylai lawenhau am fod caniatad iddo i wasanaethu, y mae yn argymmeryd arno y swydd o ddeddfroddwr. Y fath greadur gwael yw dyn! Nid ydyw ffolineb dynol yn fwy amlwg mewn dim, neu yn fwy dirmygedig nag yn ei waith yn ymgynnyg at welliant yn neddfau ei Feistr Dwyfol.

Mae cynghor Tertullian o berthynas i fedydd yn dangos mawredd y pwysigrwydd a briodolid iddo yn y canrif hwn gan y rhai oedd yn deall ei gymmeriad gwirioneddol. "Y mae yn well (dywedai) i bob un ohirio ei fedydd yn ol ei sefyllfa, ei dueddiad a'i oedran, yn neillduol y rhai ieuanc. Bydded iddynt ddyfod ar ol iddynt gyrhaedd addfedrwydd oedran; bydded iddynt ddyfod ar ol iddynt feddiannu gwybodaeth ddigonol—wedi iddynt gael eu dysgu paham y maent yn dyfod; bydded iddynt ddyfod yn Gristionogion (trwy fedydd) wedi iddynt gyrhaeddyd gwybodaeth gyfaddas am Grist." Y mae hyn yn gloedigaeth yn erbyn bedydd mabanod, trwy ei fod yn gofyn am wybodaeth o Grist o *flaen* bedydd, ac y mae yn hollol gyfiawnhau sylw Curcellaeus o Geneva, "fod bedydd mabanod yn berffaith anadnabyddus yn y canrif cyntaf a'r ail." Tua diwedd y canrif hwn, er hyny, fe gafodd bedydd ei gamddefnyddio gymmaint fel yr ysgrifenodd Tertullian ei hunan i gondemnio yr arferiad o weinyddu yr ordinhad i bersonau anfoesol.

Yr oedd bedydd yn cael ei weinyddu'n *gyhoeddus* hyd ddiwedd y canrif hwn. Mae Jestyn Martyr yn hysbysu yn bendant o barthed ei gymmeriad cyhoeddus;

ac mae hyn yn cael ei gadarnhau gan Mosheim yn y frawddeg a ddyfynwyd yn barod o'i hanesiaeth. Yn y trydydd canrif fe ddirywiodd i rhyw *ddirgelwch cuddiedig* (*secret mystery*) yn mhlith dyfeisiau dirgelaidd dynol eraill, ac fe barhaodd felly hyd tua channol y pummed canrif, pan daeth bedydd mabanod yn rhy boblogaidd a rhy ennillfawr i'r offeiriadaeth i ymdrafferthu i gadw y *dirgelwch* yn hwy. Yn mhob oes y mae dirgeledigaethau wedi bod yn werthfawr yn ol maint yr *ennill* a ddygent i'w coleddwyr. Pan maent yn peidio talu, rhoddir hwy i fyny yn uniongyrchol i'w tynged eu hun.

Yn ystod y canrif hwn yr oedd cymmundeb yr Eglwys yn gaeth, a'i llywodraeth yn annibynol. O berthynas i'r cymmundeb y mae Dr. Cave yn sylwi:— "Gyda golwg ar y personau a gyfranogent o'r sacrament hwn [Swpper yr Arglwydd], yn y dechreuad yr holl Eglwys, neu gorff y Cristionogion, o fewn cylch y cyfryw amser, ag oeddynt wedi cofleidio athrawiaeth yr Efengyl, a'u bedyddio i ffydd Crist, y cyfryw a arferent ymgynnull gyda eu gylydd wrth Fwrdd yr Arglwydd. Fel yr oedd Cristionogion yn lluosogi, ac angenrheidrwydd am ddysgyblaeth fwy manwl, nid oedd neb yn cael eu derbyn i'r ordinhad hon, hyd nes y cyrhaeddent y cymmeriad (*degree*) o *ffyddlawn*; oblegyd, ag edrych ar Swpper yr Arglwydd fel y weithred uchelaf a mwyaf santaidd ag oedd yn perthyn i grefydd, *yr oeddynt yn ystyried na allent byth gymmeryd digon o ofal yn y gweinyddiad o honi.*"

Ni all un dystiolaeth fod yn eglurach, neu yn fwy i'r pwynt na hon; ac os oedd y Cristionogion boreuol hyn, yn y modd yma yn gaeth yn nghadwrad Cymmundeb Eglwys eu Harglwydd, onid ydyw yn arwydd o ddirywiad fod cynnifer o Fedyddwyr diweddar yn ddifater o berthynas i'r pwnc? A ellir dyweyd am

danynt hwy eu bod yn cymmeryd gofal priodol am etifeddiaeth eu Harglwydd?

Yr oedd Eglwysi y canrif hwn hefyd yn annibynol yn eu llywodraeth. I hyn y mae Mosheim yn dwyn y dystiolaeth ganlynol:—"Yr oedd pob cynnulleidfa Gristionogol yn etifeddiaeth (*estate*) fechan, yn cael ei llywodraethu gan ei deddfau ei hun, naill a'i wedi cael eu sefydlu, neu o leiaf, eu cymmeradwyo gan y Gymdeithas." Yna y mae yn myned yn mlaen i ddangos ymadawiadau graddol yr eglwysi oddiwrth y ffurf Ysgrythyrol yma o lywodraeth, trwy gyngreiriau a chymmanfaoedd (*synods*) lleol, hyd nes oedd esgobyddiaeth wedi addfedu i Babyddiaeth, ac i Esgob Rhufain hawlio llywodraeth yr Eglwys gyffredinol. Yn raddol, ychydig ac ychydig, darfu i'r eglwysi ymadael â'u hunan-lywodraethiad annibynol, a rhoddi fyny yn ddistaw eu *hawl eu hunain* i law yr offeiriadaeth, y rhai yn eu tro, trwy luosogrwydd o addefiadau gwaelion, a greuasant offeryn eu cosp cyffredinol sef y Pab o Rufain. O bob caethwasanaeth, caethwasanaeth crefyddol ydyw y gwaethaf; ond y mae eglwysi yn cynnorthwyo i greu y drwg hwn mewn cyfartaledd i'w gwaith yn peidio bod yn fanwl (*strict*) yn eu llywodraeth, *cymmundeb* neu eu hathrawiaeth. Pan y deuant, yn y neillduolion hyn, yn gydffurfiol a bygythol, y maent o'r foment hono allan, megys yn rhoddi gwahoddiad i iau tra-arglwyddiaethol eglwysyddiaeth. Mae gwir ryddid yn gynnwysedig mewn ymlyniad annibynol wrth egwyddor; a'r mwyaf manwl (*strict*) y byddo eglwysi yn cadw at yr egwyddor hon, mwyaf i gyd fydd y rhyddid a fwynhant. Ond pan fyddont yn llacâu eu gafael yn hyn,—pan fyddont mewn effaith, yn cyfnewid hunan-lywodraethiad, manwl, yn unol â Gair Duw, am *unrhyw* gyfaddawd (*compromise*) dynol, y maent y pryd hyny, yn gwerthu eu genedigaeth fraint am "saig o gawl," ac yn cyduno i fabwysiadu cyfun-

drefn, a'u gwnant yn gynnarach neu yn ddiweddarach, yn gaethion.

---

## CANRIF Y TRYDYDD.

DECHREUODD symlrwydd y gwirionedd Efengylaidd ddyoddef adfeiliad galarus yn y canrif hwn. Os nad oedd yr awyrgylch yn dywyllwch hollol, yr oedd yn gwisgo caddug du a thrymaidd; a chymmylau tewion yn cwhwfan o amgylch y gorwel, yn taflu cysgodion mynych ar draws llwybr yr Eglwys Gristionogol. Yr oedd yn amlwg fod tymhestl yn ymgasglu yn y pellter; ac nid oedd angen am graffter mawr i ganfod, pan fuasai yn dyfod, y buasai yr ymrysonfa rhwng yr elfenau gwrthwynebol yn un erwin iawn. Yr oedd cyfeiliornad mewn amrywiol ffurfiau yn cael ei oddef, os nid ei gofleidio; ac yr oedd yr Eglwys ei hun yn myned yn mlaen yn gyflym yn ei gwaith gresynol o gofleidio golygiadau ac arferiadau, ag oeddynt yn anurddo, neu yn halogi sefydliadau santaidd Mab Duw. Ond nid oedd yr arferiadau newyddion hyn mor eglur a niweidiol i unrhyw athrawiaeth berthynol i'r gwirionedd Efengylaidd ag ydoedd bedydd; ac er i'r arferiadau niweidiol hyn ddyfod yn fwy cyhoeddus a chyflawn ar ol hyn, etto fe hauwyd yn y canrif hwn, yr hâd a'u cynnyrchodd hwy oll, mewn amserau dylynol. Mae cyfeiliornadau, fel chwyn yn cynnyddu ac ymledu gyda chyflymder rhyfeddol, os na "ddiwreiddir hwy;" ond mae gofyn gofal yn yr amaethwr, am yr hwn ofal yr edrychir yn ofer oddiwrth offeiriadaeth esmwyth sydd wedi ymlygru. Un o rasusau uchelaf y cymmeriad Cristionogol, ydyw cariad at wirionedd pur. Lle bynag mae y gras hwn yn cael caniatad i fyw ac i weithredu, y mae yn gwylio fel y gall wrthsefyll dynesiadau *cyntaf* cyfeiliornad; ond pan unwaith yr anmharir ef, y mae yn dirywio i raddau o

ddifaterwch cyflawn, neu i ymfoddlonedd dall mewn twyll, hyd y nod, i gredu celwydd, (2 Thes. ii. 10-12.

Nid ar unwaith neu yn ddisymwth mae yr eithafnod ofnadwy hwn yn cael ei gyrhaedd; etto mae y cam cyntaf mor uniongyrchol yn ei ffafr a'r un diweddaf, yr hon a sudda yr anturiwr diofal yn yr anoddyn du islaw. Gyda golwg ar gynnydd cyfeiliornad, nid ydyw cam diweddaf i ddistryw, ond y cam cyntaf yn cael ei hail-gymmeryd yn fynych. Felly yr oedd gyda bedydd y trydydd canrif Amlwg oedd, fod ei amcan a'i ystyr ysbrydol ar ei leihad, ac fel canlyniad nid oedd yn cael edrych arno yn hollol fel bedydd *y crediniol*. Nid oedd y rhag-ofynol, sef ffydd, ond anmherffaith yn cael ei dal allan; ac fel canlyniad naturiol, daeth mabanod y rhai ni allent gredu, yn bwnc o ddadl fel deiliaid cymhwys i fedydd.

Yr oedd, yn ol y synwyr-graff Bochmer, ddau achos uniongyrchol wrth y gwaith o gynnyrchu y dirywiad hwn; un oedd, cydgorfforiad y seremoniau Iuddewig a Phaganaidd a sefydliadau syml ond pwysig y Gwaredwr; a'r llall oedd llygriad moesau Cristionogol i raddau mawrion.

Yr oedd bedydd mabanod, yn amcanu, yn y cyfnod boreuol hwn, i uno Iuddewon a Phaganiaid, trwy impio ordinhadau cnawdol yr Iuddew, yn nghydag arferiadau eulunaddolgar y cenedl-ddyn ar y sefydliad Cristionogol. Yr oedd yr Iuddew a'r cenedl-ddyn, y naill yn gystal a'r llall, yn dadleu dros y *maban*, gan fod enwaediad yn cael ei arfer ar blentyn *gwrywyr* Iuddew, (*ond nid ar y benyw*), a seremoni eulunaddolgar wrthun gan y cenedl-ddyn ar yr eiddo yntau—yr oedd hyn yn eu gwneyd yr un mor goelgrefyddol gyda golwg ar eu mhabanod, ar eu gwaith hwy yn proffesu dyfod yn Gristionogion eu hunain. Mae Robinson yn rhoddi yr hanes canlynol o'r puredigaeth hwn ar fabanod yn mhlith y Paganiaid:—"Yn Ngroeg, 'roedd y mabanod yn cael eu puro [trwy ddwfr] ar y pummed

dydd ar ol eu geni, ac yn derbyn eu henwau ar y seithfed. 'Roedd y Rhufeiniaid yn cyflawni y seremoni ar y plant benywaidd ar yr wythfed dydd, ac ar y rhai gwryw ar y nawfed. Gweinyddid y puredigaeth gartref, a rhoddid yr enw yr un adeg, yn cael ei ddylyn gan amrywiol weinyddiadau coel-grefyddol, yna dygid y maban i demlau y duwiau, yna edrychid arno fel wedi ei ddwyn i mewn (*initiated*). Yr oedd gwledd yn cael ei gwneyd, perthynasau a chyfeillion yn cael eu gwahodd, y fam yn derbyn dymuniadau da y gwahoddedigion mewn cyfarchiadau moesgar, a chyflwyniad rhoddion yn cael ei wneyd i'r fam a'r plentyn.*

Yn ol y graddau yr oedd yr Eglwys wedi colli ei ffydd yn egwyddorion mawrion y gwirionedd Dwyfol: mewn geiriau eraill, yn ol y mesur 'roedd yr Eglwys wedi myned yn anffyddlawn i Grist, yn ol y graddau hyny yr ymddangosai yn fydol—ddoeth i foddloni yr Iuddewon a'r Paganiaid, trwy wneyd rhyw beth i fabanod y ddau tu fewn i'w muriau ei hun. Beth oedd y rhywbeth hwnw i fod? Mewn gwirionedd, beth allasai fod ond eu bedyddio hwy? Fel hyn y cafodd bedydd mabanod ei ddechreuad mewn bydol gyfrwystra anysgrythyrol, yr hwn y buasai yr Eglwys yn ei ddirmygu, oni bai ei bod hi, fel Samson, wedi colli ei nherth, trwy ymdrythyllu gyda'r byd. Etto, ni fu y peth newydd hwn ond araf, ac megys yn cloffi rhwng dau feddwl am gyfnod hir, a chan na ellid dwyn awdurdod Ysgrythyrol o blaid bedydd mabanod, rhaid oedd cynniweirio am ddyfais, yr hon nad ydyw Pabyddiaeth wedi methu ei defnyddio at amrywiol ddybenion o hyny hyd yn awr.

Dadleuir, er nad oedd awdurdod Ysgrythyrol dros fedydd mabanod, etto, y gellid dwyn traddodiad apostolaidd o'i blaid. Ar y pwnc hwn, y mae Neander yn ysgrifenu (Planting, &c., book iii. ch. 5.)

* Mor debyg y gwneir gyda y seremoni o *daenellu* ar fabanod!

"Nid hyd gyfnod mor ddiweddar ag (o leiaf, mae yn sicr nid yn gynt nag) Irenaeus, y canfyddir olion bedydd mabanod; ac ei fod wedi cael ei gydnabod gyntaf fel traddodiad apostolaidd yn y trydydd canrif, sydd yn brawf yn hytrach yn *erbyn*, yn fwy na *dros* ei dderbyn fel traddodiad apostolaidd." Mae yr hanesydd dysgedig yn berffaith gywir yn ei gasgliad, oblegyd pe buasai awdurdod Ysgrythyrol dros yr arferiad hwn, ni fuasai angen arynt fyned i chwilio am *draddodiad* i'w ddal i fyny. Mae eu gwaith yn defnyddio yr *iselach* yn brawf uniongyrchol, nad oedd ganddynt awdurdod yr *uwch* o blaid bedydd mabanod; ac mae yr ymdrech i'w osod ar *draddodiad* apostolaidd yn brawf union-gyrchol nad oedd ganddynt ddim o'r Ysgrythyr i'w ddal i fyny. Heblaw hyn, onid yw yn beth hynod, ac yn dystiolaeth o dylodi yr holl ddadl, fod, hyd y nod, y traddodiad apostolaidd yn gorwedd yn gladdedig mewn ebargofiant, ac yn hollol anhysbys hyd y *trydydd canrif?* Pa fodd y dygwyddodd, na wyddai y ddau ganrif blaenorol ddim am dano; ac iddo darddu i fyny yn ddisymmwth ar ol distawrwydd perffaith gyda golwg arno am rhyw ddau cant o flynyddoedd; a pha fodd, hyd y nod, y pryd hyny, iddo gael ei ganfod, nid yn Judea, nid yn Ephesus, neu yn un o'r Saith Eglwys; nid yn Corinth, Thessalonica, neu Rufain, lleoedd 'roedd yr Apostolion wedi bod yn llafurio'n bersonol; eithr yr Affrica! y rhan fwyaf dirywedig o'r Eglwys a fodolai y pryd hyny? A dyweyd y lleiaf am y "traddodiad hwn, edrycha ar ei wyneb yn dra ammheus, a chluda gydag ef lawer mwy o debygoliaeth i ddychymmyg nag i wirionedd gonest Cristionogol. Mae dynion yn chwilio am draddodiad fel y noddfa olaf, ac nid hyd nes byddo *pob* awdurdod arall wedi methu. Pan, gan hyny, mae hanesydd neillduol, yn sicrhau, (geiriau yr hwn sydd hyd yn hyn heb eu troi yn ol), mae 'traddodiad'

oedd y rheswm, neu y ddadl gyntaf a ddygwyd yn mlaen dros fedydd mabanod, mae genym brawf argyhoeddiadol, yn y ddadl hono, nad oes gan yr arferiad ddechreuad Ysgrythyrol mewn un modd. Mae ei enedigaeth yn hollol Affricanaidd, ac y mae yn ddyledus am ei fodolaeth yn unig i'r dychymmyg toreithiog ag oedd mewn cyflawnder yn y wlad hono o gyfeiliornad a chymmysgedd." Ymddangosodd bedydd mabanod gyntaf, yn y rhan fwyaf anwybodus a llygredig o'r byd Catholicaidd (Cristionogol, Affrica. Nid ydyw yn hiliogaeth dysgeidiaeth ddofn, neu athrawiaeth gywir, oblegyd fe darddodd allan yn mhlith dynion amddifad o'r ddau; ac ni chymmerodd neb erioed y tadau Affricanaidd yn athronwyr, nac yn ymchwilwyr manwl yn oraclau dwyfol Duw; ac os cymmerir hwy yn ddynion moesol, y maent yn cael eu gor-brisio, oblegyd y mae llygad-dyst wedi eu darlunio yn wahanol."*

Fe argymmerodd yr arferiad newydd hwn ffurf cyfundraethawl (*systematic*), yn y flwyddyn 257, mewn cynnadledd (*council*) Affricanaidd, wedi ei galw yn nghyd gan Cyprian, esgob, neu fugail yr Eglwys yn Ngharthage, pan oedd yn bresenol yn nghylch 60 neu 70 o weinidogion o'r ardaloedd cylchynol. Ymddengys fod Fidus gweinidog gwladaidd, ac yn ddyn hynaws, yn dra awyddus am roddi attalfa, mor belled ag y gallai ar yr arferiad annynol o aberthu mabanod yn nefodau eulunaddoliad Paganaidd, yr hwn arferiad oedd yn ffynu yn y dalaeth bellenig yr oedd ef yn llafurio ynddi. Os gallai efe lwyddo i'w cael hwy, (sef y plant) yn gyssegredig neu yn gyflwynedig i Dduw, buasai yr amcan wedi ei gyrhaedd; ac fe ysgrifenodd at Cyprian ar y pwnc. A Cyprian heb feddu

* Robinson's History, p. 182.

digon o ymddiried yn ei farn ei hun, a ymddiriedodd i farn y Gynnadledd uchod gyda golwg ar gynnwysiad y llythyr. Y rhai a apeliasant at y seremoni Iuddewig o enwaediad, ac at yr hen Destament yn gyffredin, *yn lle at y Newydd*, ac a gydsyniasant idd eu cyflwyniad trwy fedydd. Yr oeddynt yn ymresymu yn mhellach, gan fod pechod Adda wedi bod yn achlysur i halogi mabanod, y buasai eu hiachawdwriaeth yn cael ei sicrhau trwy fedydd. Fel hyn yr oedd y duwinyddion Affricanaidd hyn yn ychwanegu cyfeiliornad at gyfeiliornad; heb ymfoddloni ar droi yr enwaediad i fedydd mabanod, yr oeddynt yn cymmysgu y seremoni allanol â'r gras tu mewnol yn yr athrawiaeth ddisynwyr o ail-enedigaeth yn y bedydd. "Mae yn ffaith (medd Robinson, page 199), mai yn Affrica y clywyd gyntaf am gyflwyno plant i Dduw trwy fedydd. Mae yn sicr fod y syniad o gyflwyniad i'w gael trwy yr holl ymerodraeth o fewn cylch can' mlynedd o'r amser yr ymddangosodd yn Affrica." Mor nerthol mae yr ymledaeniad cyflym hwn o gyfeiliornad yn eglurhau geiriau dwysion yr Apostol; "Canys daw yr amser pryd na ddioddefont athrawiaeth iachus; ac oddiwrth y gwirionedd y troant ymaith eu clustiau, ac at chwedlau y troant;" (2 Tim. iv. 3, 4.) Yn rhy fuan, mwyaf y trueni, er lles yr Eglwys a'r byd, y daeth y brophwydoliaeth effeithiol hon oddiamgylch.

Darfu puredigaeth (*lustration*) a chreulondeb y Pagan, yn unedig â thraddodiad disail, yn nghyda rhagfarn Iuddewig o blaid enwaediad, yn cael eu cymhell o'r Eglwys anwadal ag ydoedd yn gyflym yn dirywio, ddwyn i mewn newydd-beth (*innovation*), yr hwn yn y diwedd a newidiodd holl agwedd Cristionogaeth mewn pwnc neillduol o'r pwys mwyaf. Pan roddwyd y gyfundrefn Ddwyfol hon i'r byd gan yr Iachawdwr a'i Apostolion, yr oedd yn grefydd ffydd

mewn calonau goleuedig wedi eu santeiddio. Lle bynag yr oedd y ffydd hono yn bodoli yr oedd bedydd wedi ei ordeinio i *ddylyn;* ac mae y ddoethineb uwchaf, a'r ystyr anrhydeddusaf yn amlwg yn y trefniant hwn. Mae fod seremoni arddangosol allanol i *ddylyn* gras tumewnol yn brawf o ddoethineb uchel a chyssegredig; ac fod y seremoni pan yn cael ei chyflawni yn arddangos cydsyniad gwirfoddol a deallol y deiliad a'r trefniant Dwyfol. i'r hwn y mae ef neu hi yn ufuddhau, yn llawn o ystyr pwysig, a rheswm cadarn. Mae y dyn neu y ddynes grediniol yn rhoddi eu cydsyniad gwirfoddol a goleuedig gydag ordinhad ddwyfol ag sydd yn arddangos eu hunaniaeth â Christ fel unig sylfaen eu hiachawdwriaeth. Nid oes yma ddim anwadalwch, dirgelwch,—dim tywyllni; ond y mae pob peth yn cyduno ag urddas crefydd, ac â rheswm goleuedig dyn. Mae y pleidiau yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ei gylch, ac y maent yn cyffesu y wybodaeth hono yn ngwydd y byd. Maent yn credu yn Nghrist, ac nid oes arnynt gywilydd hysbysu hyny i bawb o'u hamgylch. Dywedwn etto, fod y fath weithred mor anrhydeddus i'r grefydd sydd yn cael ei phroffesu, ag ydyw i'r personau ag sydd wedi eu galw i'r broffes neillduol hon.

Ond pan ddygwyd i mewn y maban annwybodus yn lle y person mewn oedran yn credu, pan drosglwyddwyd y broffes oddiwrth y blaid, gyda'r hon yr oedd ffydd yn ammod anhebgorol, i un ag 'roedd ffydd yn anmhosibilrwydd perffaith—pan, mewn gair, y ciliodd proffes o'r Efengyl oddiwrth wŷr a gwragedd ffyddlawn, at fabanod diymadferth, fe ymadawodd crefydd Crist a'i chymmeradwyaethau mwyaf anrhydeddus, fel crefydd dynion wedi cael eu troi yn saint; a thrwy ollwng i mewn ddosparth, argyhoeddiad y rhai na fyddai ond gwawdiaeth perffaith i edrych am dano, fe wnaeth, yn ddiofn, fedydd, ac nid ffydd yn

ammod iachawdwriaeth. A dyna'r fath beth oedd ystyr, a'r fath beth oedd canlyniad y cyfnewidiad dinystriol o fedydd y crediniol i fedydd annghrediniol mabanod Y TRYDYDD CANRIF.

---

## CANRIF Y PEDWERYDD.

YN y canrif hwn daeth y tywyllwch yn dewach, ac ymledaenodd fwy nag mewn unrhyw ganrif o'i flaen. Yr oedd yr Eglwys broffesedig yn parotoi y ffordd yn gyflym i'r "Dyn Pechod," neu i lefaru yn fwy cywir, yr oedd yn brysur iawn, trwy bethau cyfleus bydol, yn creu defnyddiau i ffurfio ei gymmeriad. Yr oedd awdurdod Crist yn myned i lawr yn gyflym, ac fel canlyniad annocheladwy, yr oedd eiddo yr "offeiriaid" (*clergy*) yn cael ei dderchafu. Fel hyn y bu pethau, ac fel hyn mae'n rhaid iddynt fod, yn mhob oes. Cadwer allan o'r golwg, neu rhodder yn y cysgodion awdurdod y Meistr, ac yn yr un graddau y rhoddir derchafiad (*prominence*) i eiddo y gwas. Mae yn rhaid i un o'r ddau yma fod *yn mlaenaf.* Os na fydd Crist yn flaenaf, yna fe gymmer yr offeiriad ei le Ef; a lle mae y Gwaredwr wedi ei ddarostwng i fod *yn ail*, y mae awdurdod yr offeiriad yn cael ei dderchafu i fod yn *flaenaf* yn Eglwys Dduw. Yr oedd yr arwydd sicr hwn o ddirywiad yn cael ei uno â llu o ddylanwadau anffafriol eraill, yn tewhau y tywyllwch ag oedd yn crogi uwchben yr Eglwys yn y canrif hwn. Mor foreu â'r flwyddyn 303, darfu Satan ddechreu ar ei waith yn brysur iawn, trwy ddefnyddio Diocletian, yr Ymerawdwr Rhufeinig, fel erlidiwr chwerw i Eglwys Dduw. Yr oedd yr offeiriaid Paganaidd, oelfyddyd ac elw y rhai oeddynt yn awr mewn mwy o berygl nag erioed, yn dylanwadu ar ofnau y tywysog gwan-feddwl hwnw, ac yn ei gymhell, yn y *degfed* erlidigaeth mawr, i benderfynu ar ddinystriad

y Cristionogion o'r holl Ymerodraeth Rufeinig. Fe ddygodd allan gyfraith freninol, yn gorchymyn distrywio yr holl adeiladau ag oeddynt wedi eu codi i gynnal addoliad Cristionogol, ac i losgi yr Ysgrythyrau Santaidd lle bynag y ceid gafael arnynt. Fe gyhoeddodd yr holl Gristionogion yn anaddas i unrhyw swydd anrhydeddus neu fraint yn y llywodraeth wladol; gommeddodd iddynt bob hawliau gwladwriaethol, yn nghyda'r hawl i apelio i lys cyfreithiol; ac a orchymynodd eu bod, pa un bynag ai boneddion, ai cyffredin, dinasyddion neu wladwyr, pawb o honynt, i gael eu rhoddi i'r arteithiau a'r poenau mwyaf ofnadwy a chythreilig oni fuasai iddynt gydsynio i wneyd aberthau i'r duwiau Rhufeinig. Fe gariwyd y gyfraith gythreilig hon allan gyda'r fath gynddeiriogrwydd, nes oedd crefydd y Groes yn ymddangos fel bron wedi darfod trwy yr holl fyd Rhufeinig. Fe ymledodd yr erlidigaeth nes cyrhaeddyd y lleoedd pellaf yn gystal a'r lleoedd mwyaf poblogaidd o'r Ymerodraeth; ac nid oedd pellder lle, urddasolrwydd sefyllfa, na thynerwch rhyw, yn dianc rhag ei nherth creulawn. Yr oedd yr Ymerodraeth, o un cwr i'r llall yn cael ei mhwydo â gwaed saint Duw. Mae ei heffeithiau yn Mrydain yn cael eu darlunio fel hyn gan yr hynaf o'n haneswyr Eglwysig, Gildas:—"Fe ddymchwelwyd yr Eglwysi, pob copi o'r Ysgrythyrau a allwyd cael gafael arno a losgwyd yn yr ystrydoedd, a gweinidogion dewisedig Eglwys Dduw a gigyddiwyd, gyda eu praidd diniwed, i'r dyben, os yn bosibl, na fyddai dim ôl crefydd Crist yn aros mewn cymmaint ag un o'r taleithiau. Y fath ffoadigaethau cywilyddus a gymmerasant le y pryd hyny, y fath laddiadau a marwolaethau a ddefnyddiwyd mewn ffordd o gosp mewn gwahanol ddulliau—y fath wrthgiliadau dychrynllyd oddiwrth grefydd a gymmerasant le; ac o'r tu arall, y fath goronau gogoneddus o ferthyrdod a

ennillwyd, y fath greulondeb gorphwylledig a arddangosodd yr erlidwyr, ac amynedd o ochr y saint oeddynt yn dioddef, y mae hanesiaeth eglwysig yn ein hysbysu: oblegyd yr oedd yr holl Eglwys yn ymdynu yn un corff i adael o'u hol bethau duon y byd hwn, ac yn gwneyd eu goreu o'u ffordd i drigfanau dedwydd y nefoedd fel eu priodol gartref-leoedd" (Sec. 9).

Yn yspaid yr erlidigaeth ofnadwy hwn, fe gynnyrchodd Brydain "fyddin o ferthyron anrhydeddus" dros wirionedd Duw. Yn mhlith nifer mawr o rai eraill, darfu y rhai canlynol, y rhai y mae eu henwau wedi eu cadw, selio â'u gwaed eu hymlyniad wrth achos Crist:—Albanus, y merthyr Sacsonaidd cyntaf; Aaron, Amphibalus, a Julius, yr oll o'r rhai a ddioddefasant yn Verulamium, a elwir yn awr, St. Alban, swydd Hertford, oddiwrth Albanus. Fel hyn, yn mhell o flaen Pabyddiaeth neu cyn bod taenelliad mabanod yn adnabyddus yn Mrydain, yr oedd Cristionogaeth wedi gwreiddo mor gadarn yn y tir fel ag i gynnyrchu merthyron ffyddlawn, mewn cyfnod o erlidigaeth creulawn. Y rhai hyn oeddynt Fedyddwyr—*Bedyddwyr gwreiddiol*—dynion, egwyddorion y rhai, credir, na ddiflanasant erioed yn hollol o'r tir.

Yr oedd Constantius Chlorus, tad Cystenyn fawr, y pryd hyny, yn llywydd Prydain Fawr, ac er nad oedd yn ei allu ef i wrthsefyll y ddeddf freninol, etto fe lafuriodd yn ymdrechol i liniaru ei hangerdd. Ond pan yn y flwyddyn 306, y cyfarchwyd ei fab Cystenyn yn ymerawdwr gan y fyddin, darfu sefyllfa pethau yn fuan gyfnewid er gwell. Llwyddiant mawr a ddylynodd, medd yr hanesydd henafol a ddyfynasom yn barod, "hyd y bradwriaeth Ariaidd, yn farwol fel sarff, yn chwydu ei wenwyn o tu hwnt i'r môr, a achosodd annghydfodau diddiwedd rhwng brodyr a breswylient yn yr un tŷ." Mae yr hybarch Bede yn dwyn tystiolaeth gyffelyb pan y dywed,—"Fe barha-

odd yr heddwch hwn hyd amser y gynddaredd Ariaidd, yr hwn wedi iddo lygru yr holl fyd, a lygrodd yr ynys yma hefyd, yr hon oedd mor bell oddiwrth ranau eraill y ddaiar, gyda gwenwyn ei gyfeiliornadau" (Chap. 8). Ni fyddai yn gysson ac amcan yr hanes hwn i fyned i mewn i'r neillduolion blinedig o'r ymryson Ariaidd annedwydd, na chwaith eiddo y Donatiaid, y *Plutonic Philosophy*, na dadleuon Trinitariaid, *the Council of Nice*. Nid yw y pynciau hyn yn perthyn i'n hamcan; fe fydd gan hyny yn ddigonol i sylwi fod etholiad Cystenyn i orsedd Rhufain wedi dwyn yn ol heddwch i'r Eglwys Gristionogol, ond fe ddygodd hefyd gydag ef berygl dryg-fawr o natur arall.

Gyda y bwriad mwyaf haelionus, ond cyfeiliornus, y darfu yr Ymerawdwr hwn ddwyn i mewn yr egwyddor fwyaf niweidiol i ganiatau i'r llywodraeth yr hyn sydd yn llywodraethyddiaeth (*policy*) daiarol *hollol* i ymyraeth ag amgylchiadau ysprydol Eglwys Dduw. Efe oedd y cyntaf a wnaeth y cynnyg ffol o uno yr haiarn a'r pridd (Daniel ii. 41—43), y gwleidiadol a'r ysprydol; ac fel canlyniad fe niweidiodd yr achos mawr, lles yr hwn yr oedd yn bwriadu ei wasanaethu. Fe weuodd wisg "o gymmysg lin a glân," ac a'i rhoddodd am yr hon y mae ei gwisg i fod "o liain pur gwyn a gwlân." Fe wisgodd yr Eglwys mewn gwisg o law-waith bydol; ac y mae hi, merch y nefoedd wedi bod yn ddigon ffol i ymfalchio yn yr hoew-wisg ddiras a gwag hono byth er hyny.

Ond nid hyn oedd yr oll. Darfu yr Ymerawdwr hwn droi dyledswydd Gristionogol yn ffynnonell elw bydol, ac fel hyn ddigyssegru, fydoleiddio Eglwys Dduw tu hwnt i ddim adnabyddus o'r blaen. Rhoddodd ei balas i Esgob Sylvester i fod yn fedyddfa, ac a gyflwynodd eu rhyddid i'r caethweision hyny *a wnaent*

*dderbyn bedydd.* Fe gynnygiodd wobr i eraill ar eu gwaith yn cofleidio Cristionogaeth, *fel y cafodd* 12,000 *o ddynion, heblaw gwragedd a rhai dan oed eu bedyddio mewn un flwyddyn.** Yn y flwyddyn 319, fe ryddhaodd yr offeiriaid oddiwrth y trethi, ac a ddechreuodd fod yn erlidiwr yn enw crefydd o gariad perffaith, trwy ddwyn allan ddeddf yn erbyn y Donatiaid. Efe a adeiladodd eglwysi ardderchog wedi eu haddurno yn hardd gyda *paintings* a delwau, yn dwyn tebygolrwydd neillduol i demlau paganiaid; ac fel hyn fe ddygodd i mewn chwaeth tuag at ddyscleirdeb bydol, yr hyn sydd wedi bod yn felldith i Eglwys Dduw yn mhob oes, *yr hyn sydd yn ffynu cymmaint yn awr ag erioed.*‡ Yn y pethau hyn yn gystal ag mewn llawer o bethau eraill fe ennillodd yr Eglwys mewn parch allanol i raddau galarus. Gallasai ddyweyd gyda mwy o wirioneddolrwydd nag erioed o'r blaen,—"Myfi a gyfoethogais ac a gynnyddais mewn golud, ac nid oes arnaf eisieu dim."

Darfu i'r gweithrediadau hyn o eiddo Cystenyn gynnyrchu dau o'r canlyniadau mwyaf niweidiol—yn gyntaf, yr oedd yn rhoddi i'r ynad gwladol awdurdod mewn cylch annhraethol uwch na'r eiddo ei hun, ac mewn lle nad oedd ganddo un math o awdurdod cyfreithlon; ac yn ail, yr oedd yn tynu i lawr y sefydliad anrhydeddusaf o eiddo y Gwaredwr ac yn ei osod ar yr un *level* a gwobr wladol ddystadl. Ar y cyntaf ni wnawn un nodiad. Os nad oedd Cæsar yn adnabod ei le ei hun, dylasai yr Eglwys, o leiaf, adnabod ei lle ei hun. Oni bai ei bod yn cysgu buasai yn dywedyd gyda ei Harglwydd; "Rhoddwch eiddo Cæsar i Cæsar," ond nid y cysgod lleiaf yn mhellach.

---

* Minors, sef rhai islaw oedran gwŷr.

‡ Ni fedd gwir Gristionogion Prydeinig ddelwau o fewn eu cyssegr-leoedd, hyd yr adeg hon; "ond hwy a ddeuant mewn amser." "Mae yr yspryd yn barod," ac mae wedi bod felly am rai blynyddoedd bellach.

Ond am yr ail, y mae dyledswydd bwysig yn galw arnom wneuthur rhai sylwadau arno. Meddylier am dalu i ddynion am gymmeryd eu bedyddio!—eu gwobrwyo â manteision gwladwriaethol am ymostwng i ddyledswydd gyssegredig Gristionogol! am dalu cyflog arianol iddynt am gyhoeddi eu hunain yn Gristionogion! Pwy allasai wrthsefyll y fath resymeg auraidd? Pwy, ar ol hyn, na fuasai yn mabwysiadu ffydd yr Ymerawdwr? A dyma ydoedd crefydd Cystenyn! Y ffordd newydd a gwelliannol hon o gymmeryd i fyny y Groes! Gan nad oedd hysbysiadau cyffredinol o gasineb tuag at y fath gynnyg dirywedig a beius yn cael eu gwneyd, mae hyny yn gwasanaethu i ddangos y sefyllfa lygredig a chnawdol yr oedd yr *holl* Eglwys Gristionogol ynddi yn nyddiau Cystenyn.

Mor bellded ag y daliai bedydd gyssylltiad â'r amgylchiadau, fe effeithiodd Cystenyn ei ddiraddiad hollol. O dan ei weinyddiaeth (*policy*) ef, nid oedd yn ddyledus o ddim i argyhoeddiad, ond yr oll i fudd bydol (*interest.*) Fe ddaeth yn *fashionable*. Dyma oedd crefydd y llys, y pendefigion, y boneddigion, ac yn annocheladwy (*crefydd*) y bobl. Gwnaeth yr ymerawdwr hi, trwy esiampl ac elw bydol, yn boblogaidd; ac 'roedd ei phoblogrwydd, dan y fath nodded anrhydeddus, yn gwasanaethu i'w dwyn i barch cyffredinol, ac mor belled, yn parotoi y ffordd i dderbyn mabanod tu fewn i'w chylch noddedig. Os oedd yn gwneyd cymmaint i reini, paham na wnai llawn cymmaint i fabanod? Mewn unrhyw amgylchiad nid oedd argyhoeddiad (gyda golwg ar rai mewn oedran) yn ammod angenrheidiol, paham, ynte, gau allan y maban?

Nid ar unwaith y cyrhaeddwyd y casgliad hwn, ond yr oedd y dynesiadau tuag ato yn annocheladwy. Pan unwaith y troir seremoni grefyddol yn bwnc o lès bydol (*interest*), symudir hi o faes argyhoeddiad

a ffydd, yna ni ellir dwyn un rheswm, na dychymmygu am un, i gadw allan fabanod, neu rhyw fodau annwybodus eraill, o wynfydedigrwydd y cylch swyngyfareddol. Os nad ydyw *argyhoeddiad* na ffydd yn reol, paham y tybir mabanod yn llai cyfaddas na dynion? Paham y cauir hwy allan o'r llês gwleidiadol? Fel yna yr ymresymai gweinyddiaeth (*policy*) Cystenyn; ac fel yna y mae *yr holl* eglwysi *gwladol* wedi bod yn ymresymu byth, o hyny hyd y pryd hwn. Mae y llywodraeth wedi bod yn ddigon da i noddi yr Eglwys, ac i dderbyn i mewn *holl* fabanod bedyddiedig y byd Cristionogol, i bob mantais wleidiadol a all y nodded hwnw o'i heiddo roddi. Mae yr Eglwys a'r llywodraeth wedi bod fel hyn yn chwareu i ddwylaw y naill y llall. "Ymostyngwch i mi," medd y llywodraeth, "ac mi a'ch gwobrwyaf chwi â *pounds, shillings, and pence*."

"Yr wyf yn cyduno," meddai yr Eglwys, "ac mi a fyddaf yn ufudd diesgeulus." Fel hyn y mae un yn hawlio bod yn feistr, a'r llall yn cydsynio i fod yn gaeth. Mae y llywodraeth yn darparu y credo, y ddysgyblaeth, a'r taliadau; ac mae yr Eglwys yn dawel yn rhoddi fyny bob pryder cydwybodol, yn nghyd a phob peth sydd yn perthyn i annibyniaeth mewn meddwl, gair, a gweithred.

Etto, er holl ddirywiad dychrynllyd y canrif hwn, fe barhaodd bedydd i gael ei weinyddu, gyda rhai eithriadau, yn ol yr arferiad Apostolaidd. Yn y flwyddyn 360, mae Athanasius, gweinidog Alexandria, yn sylwi, "Nid mewn modd ysgafn y darfu i'n Harglwydd orchymyn i fedyddio; canys yn mlaenaf oll Fe ddywedodd,—Dysgwch ac yna bedyddiwch; fel y byddai i wir ffydd ddyfod trwy ddysgu, a bedydd i gael ei berffeithio trwy ffydd." Yn y flwyddyn 378, mae Jerom o Dalmatia, yn esbonio Math. xxviii. 19, yn y geiriau canlynol:—"Maent yn gyntaf yn dysgu yr holl genedloedd, yna wedi eu dysgu, hwy a'u bed-

yddiant à dwfr; oblegyd ni all, y dylai y corff dderbyn sacrament bedydd, oddieithr fod yr enaid yn gyntaf wedi derbyn y wir ffydd." Yn yr un flwyddyn y mae Basil, gweinidog yn Cæsarea, yn cyfarch ei wrandawyr fel hyn: "Rhaid i un yn mlaenaf gredu ac yna i gael ei selio â bedydd. Rhaid i ffydd fod yn gyntaf a myned o flaen bedydd. Nid oes neb i gael eu bedyddio ond y rhai sydd yn cael eu hegwyddori (*catechumen*), a'r rhai sydd yn cael eu haddysgu yn iawn yn y ffydd." Yn y flwyddyn 380, mae Chrysostom, gweinidog enwog Caercystenyn yn darlunio bedydd fel hyn:—"Y mae cael ein bedyddio, ein tansuddo yn y dwfr, ac yna ein dadsuddiad, neu ein codiad o hono drachefn, yn arwydd-luno ein disgyniad i'r bedd, ac o'n dyrchafiad o hono fe; ac, o herwydd hyn y mae Paul yn galw bedydd yn gladdu, pan y mae yn dyweyd ein bod ni wedi ein claddu gydag Ef," (Rhuf. vi. 4.) A thua diwedd y canrif hwn, y mae Augustine, neu Austin, gweinidog Hippo, yn Affrica, yn dwyn y dystiolaeth benderfynol ganlynol i natur bedydd y crediniol, fel yr oedd yn cael ei ddeall y pryd hyny; "Y mae gwir ffydd gadwedigol yn gweithio trwy gariad; fel y mae addysgiaeth ymgeiswyr am fedydd (*catechumen*) yn cynnwys moesoldeb yn gystal ag athrawiaethau; felly mae y llafur o egwyddori yn neillduol ddefnyddiol i'r Eglwys; ac fe ddylai personau gael eu hegwyddori (addysgu) cyn y derbyniont fedydd, fel byddo iddynt wybod pa mor ofer ydyw meddwl bod yn gadwedig heb santeiddrwydd, fel gyda yr Eunuch, yr hwn gafodd ei egwyddori cyn iddo gael ei fedyddio."

Y fath yna oedd bedydd yn y pedwerydd canrif, ac yr oedd yr unig engraifft sicr (*proved*) o fedydd mabanod ag a gymmerodd le, yn un tra neillduol. Ac fe ddygwyddodd hyn yn y flwyddyn 370, pan fynodd yr Ymerawdwr Valens, gael ei fab Galetes, yr hwn oedd yn marw, wedi ei fedyddio.

Mae wedi ei ysgrifenu am y teyrn duwiol hwn, ei fod wedi *tyngu* na fynai ef gael ei wrthwynebu yn yr amgylchiad hwn. O gwrs, yr oedd *llw* yr Ymerawdwr yn rheoli y seremoni; ond paham yr oedd eisiau iddo dyngu o gwbl, os nad oedd y bedydd mabanod *hwnw* yn *newydd-beth* i olwg dynion, (*conscious innovation.*)

---

## CANRIF Y PUMMED.

Yr oedd y pummed canrif yn gam pellach, ac i fwy o dywyllwch nag a ganfyddodd yr Eglwys broffesedig erioed o'r blaen. Yr oedd y goleuni yn y pellder yn myned fwy fwy anamlwg, a thywyllwch,—tywyllwch du-dew, yn bygwth ymdaenu dros y byd Cristionogol. Yr oedd esgeulusdod o'r Ysgrythyrau Santaidd ar gynnydd, ac awdurdod Ymerawdwyr, urddasolion Eglwysig, cynghorau, esgobion, ac offeiriaid yn cystadlu â Gair y Duw byw am yr uwchafiaeth. Yr oedd ymchwiliad annibynol yn y Gair hwnw, gydag amcan gonest i wybod "beth a ddywed yr Arglwydd," wedi dyfod yn beth neillduol o brin, ac yn rhoddi lle yn gyflym i'r gofyniad caethwasaidd—"Beth a ddywed yr Eglwys a'r Ymerawdwr?" Fel cyfangorff, yr oedd yr Eglwys broffesedig yn suddo i dywyll-bwll; ac yn y man lle dylasai "goleuni y byd" fod, yno yr oedd torf o offeiriaid troellog, a gwŷr llên annghyfiawn, prif bwynt y cyfryw rai oedd cael gwynt-dwll (*vent*) yn yr ymofyniad, "Beth a ddywed yr esgob?" O gam i gam yr oedd dynoliaeth perffaith anrhydeddus yr Eglwys yn suddo i henaint anamserol. "Yr oedd ceidwaid y tŷ yn crynu, y rhai oedd yn edrych trwy ffenestri yn tywyllu, *a'r ceiliog rhedyn wedi dyfod yn faich*, y llinyn arian wedi ymddattod, a'r cawg aur, gerllaw y ffynnon wedi tori (Preg. xii. 3—6). Tynai pawb a elai heibio ar hyd

y ffordd ei grawn hi; y baedd o'r coed a'i twriai, a bwystfil y maes a'i porai hi, (Salm lxxx. 12. 13). Yr oedd merch Seion wedi ei gadael megys llnesty mewn gwinllan, megys lletty mewn gardd cucumerau, megys dinas warchaeedig," (Isa. i. 8). Yr oedd ysbryd boneddigaidd y Bereaid wedi ymadael bron yn llwyr o'r Eglwys, ac ymostyngiad dirmygus i awdurdod dynol wedi cymmeryd ei le. Heb fod mwyach yn ffyddlawn i'w Rheolwr Dwyfol, darfu i'r Eglwys yn dawel drosglwyddo ei hufudd-dod i'r Ymerawdwr; ac yn gymhwys i'r graddau yr oedd hi yn colli ei golwg ar awdurdod ei Harglwydd nefol, i'r graddau hyny yr oedd hi yn cynnyddu mewn ymostyngiad i'w harglwydd a'i mheistr daiarol. Mewn oes burach y gofyniad oedd, "Beth ddywed Crist?" ond yn awr y prif ofal ymarferol a ddeuai yn uchelaf oedd, "Beth a ddywed Cæsar?" Awdurdod dynol, wedi ei rannu rhwng yr offeiriaid a'r teyrn gwladol, ac yn cyfnewid yn y ffurfiau gwahanol hyn, Ymerawdwr, eglwys, ac offeiriaid, fe dyfodd i fyny i fod yn *ddeddf-lyfr* yr oes blentynaidd hono, nes yn raddol y daeth ymerawdwyr, eglwys, ac offeiriaid, yn baban bychain yn eu gwahanol gylchoedd, a hyny ar draul diarddeliad difrifol o Air Duw.

Fel yr oedd *gwir* dduwioldeb yn adfeilio, os nid yn ymgilio, felly, yn ol y cyfartaledd, yr oedd ordinhadau a seremoniau yn cynnyddu; y mwyrif o'r rhai oeddynt afresymol, ac nid ychydig o honynt yn niweidiol. Fe Iuddeweiddiwyd Cristionogaeth i raddau dychrynllyd; yn gymmaint felly fel na chafodd geiriau bythdeilwng Augustine, erioed eu hammheu, sef "fod yr iau, yr hwn 'roedd yr Iuddewon yn flaenorol yn gruddfan o dano, yn fwy goddefadwy na'r hwn oedd yn cael ei ddodi ar lawer o Gristionogion yn yr amser hwn." Mae Mosheim mewn modd diammheuol yn cadarnhau y dystiolaeth hon trwy ddyfynu tystiolaeth ysgrifenwyr goreu yr oes hono, sef, fod "gwir

rinwedd a duwioldeb wedi eu llethu dan y baich dirfawr o seremoniau, dan y rhai yr oeddynt yn gorwedd ac yn gruddfan yn y canrif hwn." Yr oedd ymprydio yn cael ei gyflawni, fel ffordd i foddloni digofaint Duw; gorymdeithiau pererindodaidd i Palestina, parch i saint ymadawedig, gydag addoliad delwau a phethau, a gweddilledigion (*relics*) y meirw, arogl-darth mewn addoliad dwyfol, arwydd y groes, maddeuant yn cael ei gyflwyno trwy fedydd; a Swpper yr Arglwydd yn cael ei roddi i fabanod. Mae y pethau hyn yn brawfion digonol o'r ymadawiadau dychrynllyd oddiwrth wirionedd pur Crist ag oedd yn hynodi yspryd y newydd-bethau perthynol i'r canrif hwn. Yr oedd crefydd yn gogwyddo i fod yn ddarn o beiriant, yn cael ei osod mewn symudiad gan ddwylaw offeiriadol; eithr heb fywyd, yspryd, na nerth o'i eiddo ei hun; ac fel canlyniad naturiol o'r dirywiad hwn, fe aeth y gweinidogion yn ddiog, beilchion, ac yn ddrygionus i raddau arswydus. "Yr oedd drygau y gwŷr llên (medd Mosheim), yn cael eu cario i eithafion dirfawr; ac mae holl ysgrifenwyr y canrif hwn, y rhai y mae eu gonestrwydd a'u rhinwedd yn eu gosod yn deilwng o grediniaeth, yn unfrydol yn eu hanesiaeth o'r gloddest, coeg-falchedd, trachwant, a thrythyllwch yr urdd offeiriadol. Yr oedd yr esgobion, ac yn neillduol y rhai o'r rhes flaenaf, yn meddu math o lysoedd, lle y byddai y gwŷr eglwysig chwyddedig hyn yn rhoddi gwrandawiad, ac yn derbyn gwarogaeth oddiwrth y dorf wag-ymostyngol." Gyda bugeiliaid o fath y rhai hyn, beth ellid ddysgwyl oddiwrth y praidd? Neu, fe allai, i roddi y gofyniad mewn ffurf mwy gwirioneddol, Beth nad oedd dirywiad ofnadwy y bobl pan yn caniatau dynion fel y rhai hyn i fod yn ddysgawdwyr iddynt? Ni all byth fod gweinidogaeth ddrwg, i raddau helaeth, heb fod yn gyntaf *eglwys ddrwg*. Fe gyrhaeddodd yr ymryson

ffol ac annuwiol rhwng gweinidogion Caercystenyn a Rhufain am yr uwchafiaeth y fath fesur o falchder, fel y daeth ond ychydig islaw bod yn drais ei hunan, ac a osododd achos crefydd yn ddirmyg perffaith yn ngolwg pob dyn meddylgar. Ni wnaeth penderfyniad Cynghor Chalcedon, yn y flwyddyn 451, yr hwn a sefydlodd gyfartalrwydd rhwng y ddau ddosparth o weinidogion, ond ychwanegu fflam at y cynnyd, a chynnyddu ei angerdd, nes ydoedd yn fflamio gydag angerdd ffrwydriad rhuadwy mynydd tanllyd. Darfu gweinidog Jerusalem, neu Elia, yr hyn oedd ei henw y pryd hwnw, wneyd ei ran i fwyhau yr annghydfod halogedig hwn, trwy ddadleu hawl y *fam eglwys* i'r urdd flaenaf yn mhlith yr eglwysi. Rhwng y tri "Arglwydd hyn ar etifeddiaeth Duw," fe anogwyd Eglwys Crist mewn enw i arddangos nwydau mor greulon, mor ffiaidd, ac mor gythreulig ag a felldithiasant mewn unrhyw bryd loddest-wyliau Paganiaeth ei hunan. Mewn gair, fe ddaeth yr Eglwys broffesedig yn bla cyffredinol yn mhlith cenedloedd y byd Ewropaidd ac Asiaidd; ac oni bai gofal byth wyliadwrus Duw, buasai wedi trengu o dan bwys ei chamarferiadau ei hun.

Yn mhlith y camarferiadau hyn, yn nghyfeiriad defodau, fe ddechreuodd bedydd mabanod argymmeryd lle uchel ac amlwg; etto, nid yn fwy amlwg nag oedd o warthus a theilwng o dosturi. Ymdrechwyd yn awr ei orfodi ar ddynion trwy ddeddf eglwysig, ac 'roedd y rhai a wrthodent ufuddhau i gael eu hanathemeiddio mewn ffordd ag oedd yn ymgynnyg bod llawn mor ddrwg ag eiddo amserau duaf Pabyddiaeth. Fe gymmerodd Cynghor enwog Mela, yn Numida, (Affrica unwaith etto!) yn y fl. 416, y cyfeiliornad gwibiog hwn dan ofal ei ddoethineb deddf-wneuthurol ei hun. Yn ei ryfyg ffol fe basiodd y ddeddf ganlynol:—"Hefyd ewyllys yr esgobion yw gorchymyn

pwy bynag a wado fod mabanod newydd gael eu geni o'u mhamau i gael eu bedyddio, neu a ddywedo fod bedydd i gael ei weinyddu er maddeuant eu pechodau (y bedyddedigion) eu hunain, ac nid ar gyfrif pechod gwreiddiol wedi dyfod trwy Adda, ac i gael ei lanhau trwy olchiad yr adenedigaeth—bydded FELLDIGEDIG!" Dyma lle 'roedd taran eglwysaidd gyda dialedd; ond dylai y darllenydd gofio yn ofalus "fod ewyllys yr esgobion i orchymyn" y felldith yma, ac i ddwyn i fodolaeth (*manufacture*) yr anathema ynfyd yma. Nid yr Iachawdwr ydyw, na'r Apostolion, ond yr esgobion (gweinidogion) Affricanaidd hyn, dysgeidiaeth, iawnder credo, yn nghyd a *duwioldeb personol* y rhai sydd yn agored i ammheuon dwysion. Paham na fuasent yn dadleu awdurdod yr Ysgrythyrau, ac nid eu "hewyllys" eu hunain? Yn gyfangwbl am nad oedd ganddynt Ysgrythyr i'w dadleu; a chan nad oedd ganddynt awdurdod Ysgrythyrol dros weithred mor ddisynwyr a chyhoedd-fygythiol, maent yn haeru yr eiddo eu hunain; fel pe gallasai eu "hewyllys" hwy felldithio y rhai nad oedd Duw wedi eu melldithio (Num. xxiii. 8), neu sefydlu deddf i Eglwys Iesu Grist. Fe gymmerwyd y cam yma, dan ddylanwad Augustine, neu, yn debygol, yn unol â'i orchymyn uniongyrchol, ac y mae yn dangos yn eglur i ba eithafion dychrynllyd yr oedd awdurdod yr offeiriaid wedi cymmeryd lle awdurdod y Gwaredwr. Dylid hefyd cadw yn y meddwl, mai fel 'roedd uwchafiaeth yr offeiriadaeth ar y gallu gwladol yn gyflym ddyfod yn brif amcan uchel-geisiol offeiriaid yr oes gnawdol hono, yr oeddynt yn dechreu canfod mai yr hyn fuasai yn rhoddi iddynt lywodraethiad mabanod, fuasai yn y pen draw yn sicrhau eu hamcan yn llywodraethiad pob cymdeithas. Ac yr oeddynt yn ddigon cyfrwys i ganfod, mewn trefn i lywyddu llywodraeth, na ellid dyfeisio un cynllun mor sicr o

ddwyn hyny oddiamgylch a bedyddio mabanod. Buasent, trwy yr ystranc hwn, yn gynnarach neu yn ddiweddarach, yn cael *pob cymdeithas* dan eu traed, yn enwedig gan eu bod yn weithgar yn lledaenu y ddyfais Awstinaidd, sef fod bedydd yn cymmeryd ymaith "bechod gwreiddiol" ac yn sicrhau iachawdwriaeth mabanod. Darfu y twyll hwn osod yn nwylaw yr offeiriaid "agoriadau teyrnas nefoedd," ac o'r cyfnod hwnw allan edrychai offeiriaid dichellddrwg ar fedydd mabanod fel y gwir ddull i lywodraethu y byd. Dynion ag mae eu crefydd yn ymddibynu ar ffydd bersonol ac argyhoeddiad goleuedig, yr hyn ydyw y rheol bob amser lle mae bedydd y crediniol yn ffynu, ni allant byth am amser hir oddef cael eu marchogaeth gan offeiriaid. Mae cymmeriad eu crefydd, yn nghyda deddfau ei ffurfiad yn gwneuthur hyn yn hollol annichonadwy. Ond mewn pwnc mor bwysig, pan mae y *maban* yn cael ei osod yn lle *y dyn*, y mae gweithred annibynol yn cael ei hollol ddiswyddo, a chaniatâd i'r offeiriad i raddau helaeth i gael pobpeth yn ei ffordd ei hun. Ac fel canlyniad y mae bedydd mabanod a Phabyddiaeth, yr hyn yw twyll-offeiriadaeth wedi ei berffeithio, wedi bod erioed yn myned law yn llaw, ac mae yn hynod debygol y cymmer cwymp y naill, le yr un pryd a chwymp y llall.*

Fe ffurfiodd y seremoni, yn awr boblogaidd, o fedydd mabanod, ei chymmeriad yn raddol; a'r elfenau o'r rhai y ffurfiwyd hi wedi bod yn gwneyd eu hymddangosiad yn araf, y naill ar ol y llall. Ar y

* "Y ffaith yw, yr oedd mabanod, euog neu ddiniwed, cyffredin neu annghyffredin, mor anhebgorol angenrheidiol i eglwyswyr fel yr oeddynt yn rhwym o'u cael trwy bob anturiaeth. Gyda phlentyn breninol darfu i'r eglwyswyr ddarostwng dinasoedd, gyda phlant boneddigaidd darfu'r monachod adeiladu a gwaddoli monachdai. Gyda phlant tylodion (fel y mae Basil yn sylwi) darfu'r offeiriaid ffurfio corau(*choirs*)eglwysig; mewn gwirionedd, plant fu'r achos a'u gorfododd i ffurfio y Catholic Church." Robinson's History of Baptism, tudal. 267.

cyntaf traddodiad apostolaidd ydoedd, wedi hyny, canlynydd croesawedig Iuddewiaeth; ac yn olaf, cyfrwys-fudd (*expedient*) gwleidiadol. Rhoddodd y blaenaf i'r seremoni ymddangosiad o awdurdod Ddwyfol; yr ail a'i hamgylchynodd ag edrychiad cymmeradwy; a darfu i'r trydydd ei throi i fod yn angenrheidrwydd cenedlaethol ac eglwysig. Trwy y blaenaf argymmerodd arni ei bod o'r Testament Newydd. Trwy yr ail ei bod o'r Hen Destament; a thrwy y trydydd, ei bod yn *climax* a pherffeithiad y llywodyddiaeth gwladol. Yr oedd yn gwneyd yr holl bleidiau yn gymmodedig, yr Iuddewon a'r cenedloedd, yr offeiriad a'r Ymerawdwr, yr Eglwys a'r Wladwriaeth. 'Roedd hwn y peiriant mwyaf perffaith a ddyfeisiwyd erioed er dyrchafu yr offeiriad i lywyddu y genedl; mae wedi profi ei hun yn gadarn-le Pabyddiaeth yn mhob oes, a phrif gynnaliad pob eglwys sefydledig ar y ddaiar. O ganlyniad, nid yw yn rhyfedd ei fod wedi dyfod y sefydliad mwyaf poblogaidd o eiddo y byd Cristionogol diweddar. Ond mae ei ddyddiau wedi eu rhifo, serch ei sefyllfa lwyddiannus bresenol. "Cleddyf yr Yspryd, yr hwn yw Gair Duw," a'i gosoda cyn hir yn gydwastad â'r llawr.

Er hollbwysigrwydd tybiedig cynuadleddau (*councils*) henafol, ni ddarfu i'r rhai yn Affrica gael ond ychydig ddylanwad ar yr Eglwys yn gyffredinol. Ac felly ni ddarfu penderfyniad ac *anathema* yr esgobion arglwyddaidd yn Mela weithio ond ychydig neu ddim o'u ffordd tuallan i'r eglwysi Affricanaidd. Parhaodd bedydd rhai mewn oedran, trwy drochiad, i fod yn arferiad yr eglwysi trwy y rhan helaethaf o Ewrop, neu trwyddi oll, ac hefyd yn mhlith y *Machineaid*, *Priscillianists*, *Paulicians*, *Vauclois*, a'r Albigensiaid. Yr oeddynt yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd ar bynciau o athrawiaeth, ac mewn rhai amgylchiadau yr oeddynt yn mhell o fod yn gywir, etto gyda golwg

ar fedydd, yr oedd y sectau lluosog hyn, yn dylyn gyda manylwch, yr arferiad Apostolaidd. Mewn rhai amgylchiadau yr oeddynt yn ail-fedyddio y rhai a ymunent â hwy, ac oddiwrth hyn y cawsant yr enw *ail-fedyddwyr* (*Anabaptists*), yr hyn sydd yn arwyddo bedyddio yn adnewyddol, ar y dybiaeth nad oedd y blaenaf yn fedydd yn ol y Testament Newydd. Ond yr oedd yr *eithafion* (ymddangosiadol) hwn o ufudd-dod yn gwahaniaethu, yn unig i ddangos nerth eu hymlyniad wrth y sefydliad dechreuol.

Heblaw hyn, nid oedd y rhesymau ag oeddynt yn cael eu dal allan dros fedydd mabanod, fel y rhoddwyd hwy gan y Gynnadledd Affricanaidd yn Mela mewn un modd yn gyfaddas, i gymmeradwyo y newyddbeth i eglwysi eraill y byd Cristionogol; oblegyd gyda eu holl ddirywiad mewn pethau eraill, yr oeddynt yn gwybod nad bedydd *mewn unrhyw ddull*, eithr gwaed Crist yn unig a allai gymmeryd ymaith bechod, pa un bynag ai gwreiddiol ai personol. Wrth haeru, fel rheswm dros fedydd mabanod, ei fod yn golchi ymaith bechod gwreiddiol, nid oedd yr esgobion Affricanaidd ond haeru mewn geiriau eraill, yr athrawiaeth beryglus ac anysgrythyrol o ail-enedigaeth yn y bedydd, yr hon sydd wedi bod erioed yn trosglwyddo y gobaith am y nefoedd oddiwrth waed Crist i ddwfr bedydd. Yr oedd hwn yn gyfeiliornad dinystriol, ac yn profi yn ddiammheuol pa mor eglur neu ysgrythyrol bynag oedd golygiadau Augustine o barthed pechod gwreiddiol, eu bod yn neillduol dywyll a diffygiol o barthed natur a dyben bedydd. Yr oedd ef yn gywir wrth gredu fod mabanod yn dyoddef canlyniadau pechod gwreiddiol, ond yr oedd yn annghywir wrth dybied y buasai unrhyw gymhwysiad o ddwfr yn cymmeryd y pechod hwnw ymaith. Mor belled ag yr oedd yn myned, 'roedd y bedydd mabanod Affricanaidd hwn yn dymchwelyd yr Efengyl mewn un peth

mawr, trwy wneyd cymhwysiad allanol o ddwfr yn gyfartal â gwaed Crist mewn effeithioldeb.

Ymattaliwn sylwi ar y dadleuon annedwydd a achlysurwyd gan Morgan o Gymmru, yr hwn a alwyd ar ol hyny Pelagius, am nad ydynt yn dyfod o fewn cylch yr hanes hwn o fedydd. Efe oedd y dyn cyntaf a ammheuodd yn *gyfundrefnawl*, rås neillduol Duw, ac a ddygsodd brif egwyddorion Arminiaeth diweddar. Yr oedd ef yn gwadu pechod gwreiddiol, ac yn haeru y buasai Adda yn marw, hyd y nod, pe buasai heb bechu o gwbl. Fe wnaeth ei ddaliadau gwenwynig niwed mawr i'r eglwysi yn Mrydain, yn gystal ag mewn lleoedd eraill. Yr oedd ei dwyll-ddaliadau yn trechu y gweinidogion Brytanaidd, y rhai i waredu yr eglwysi rhag distryw, a wahoddasant Germanus o Anxerre, a Lupus o Troyes, y ddau yn weinidogion rhagorol o Ffrainc, i wrthbrofi ei gyfeiliornadau. Darfu i'w rhesymau Cristionogol orchfygu amcanion Morgan, a dwyn yn ol i ffydd yr Efengyl, y rhif luosocaf o lawer, o'r eglwysi Prydeinig. Ond ni ellir gwadu er hyny i Morgan fod yn rhy lwyddiannus i ledaenu athrawiaethau rheswm ansantaidd, y rhai sydd wedi cael, er y pryd hyny, gartref cydnawseddol yn moesoldeb oer-ddeallawl Sosiniaeth ddiweddar.

---

## CANRIF Y CHWECHED.

Y GALLU bydol neu wleidiadol, yr hwn yr oedd addysgiaeth bedydd mabanod yn drosglwyddo i'r offeiriadaeth, a ddaeth ei brif gymmeradwyaeth yn mhlith yr offeiriaid yn y canrif hwn, yn nghyd a'r rhai nesaf ato ar ei ol. Yr oedd Eglwys Rhufain yn cyflym ucheldremu am lywodraethiad cyffredinol, ac fel moddion i gyrhaedd ei hamcan, hi a argymmerodd noddiad (*patronage*) mabanod, gyda golwg ar

ychwanegiad ei dylanwad eglwysaidd a gwleidiadawl trwy y byd. Etto 'roedd y gochelgarwch gyda'r hwn yr oedd y newydd-beth yma yn cael ei gynnyg, yn nghyd a phryder ei ddyfeiswyr, yn gwasanaethu i brofi, er fod llawer o grefydd ysprydol wedi ymadael o'r Eglwys, etto fod gan fedydd rhai mewn oedran afael rhy gryf ar feddyliau y cyffredinolrwydd i ganiatau iddynt i ymadael ag ef yn fuan er mwyn rhoddi lle i'r ymyrwr dyeithr.

Mae yn amlwg hefyd, fod y newydd-beth, sef bedydd mabanol wedi gweithio ei ffordd yn Ogleddol a Gorllewinol o Affrica, ac mai yn yr Hyspaen yr ymddangosodd gyntaf yn Ewrop, oblegyd yr oedd yn yr adeg hono gydfasgnach helaeth rhwng y ddwy wlad, Affrica a'r Yspaen. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 517, yn ninas Girona, yn Catalonia, ac mor belled ag y mae hanesiaeth, ag y gellir ei chredu yn myned, dyma y cydnabyddiad eglwysig cyntaf o fedydd mabanod a gymmerodd le yn Ewrop. Ac hyd y nod, y pryd hyny, nid oedd ond gweithred neillduedig, fel pe yn cael ei chyflawni yn lledradaidd; er ei bod wedi cael ei dylyn gan ganlyniadau, o'r braidd, cyffredinol, etto nid oedd ond penderfyniad saith o weinidogion yr Eglwys Yspaenaidd. Y rhai hyn oeddynt, John o Tarraco, Frontinianus o Girona, Paul o Ampurias, Agritius o Barcelona; Hebridius o Egara, Orontius o Eliberis, a'r seithfed, nid oes wybod pwy ydoedd. Y dynion hyn yn gymharol ddinodedd, a roddasant eu henwau wrth ddeg o reolau dysgyblaeth, yn un o honynt yr oeddynt yn cyduno i fedyddio mabanod ag oeddynt *gleifion*, ac os bernid yn angenrheidiol, hyd y nod ar ddydd eu genedigaeth. Mae amrywiol amgylchiadau yn uno i brofi cyssylltiad y dynion hyn â Charthage, ac i ddangos fod athrawiaeth Augustine o barthed ail-enedigaeth fedyddiadol yn dechreu llygru eglwysi Ewrop.

Yr oedd hyn yn ganfyddadwy hefyd yn Rhufain, ac mewn lleoedd eraill, a edrychent ar Rufain fel eu patrwn. Mor belled yn ol â'r Gynnadledd Affricanaidd y cyfeiriwyd ati yn y canrif diweddaf (416 A.D.) Yr oedd Innocent y cyntaf yn cymmeradwyo y cyfnewidiad, ac fe ysgrifenodd at Augustine yn dadgan y cymmeradwyaeth hwnw. Ond yr oedd yr Innocent hwn yn llawer mwy cysson ag ef ei hun na'r Affricanaidd ddygwyr newydd-bethau, oblegyd fe ychwanegodd ef gymmundeb mabanod at fedydd mabanod, ac felly yn gosod y ddau sacrament yn gyfartal gydbwys. Yr oedd ef yn barnu yn ddoeth, sef nad oedd y ddau byth i gael eu gwahanu; ond yn mha le bynag y mae un, i fod rhaid i'r llall fod yno hefyd. Yr ydoedd yn y pwnc hwn yn gywir, oblegyd os yw bedydd yn perthyn i'r maban, yr unwedd y mae Swpper yr Arglwydd yn perthyn iddo hefyd. Ac y mae yn aros o hyd i'r eglwysi diweddar i ddangos wrth ba reol o gyssondeb y maent yn derbyn y maban i un o'r sacramentau, ac yn ei gau allan o'r llall.

Ni ellir ychwaith wadu fod bedydd mabanod diweddar yn eglwysi mawrion Ewrop yn dal allan yr athrawiaeth dwyllodrus ac anysgrythyrol o ail-enedigaeth yn y bedydd; yr hyn oedd Augustine yn ddysgu fel prif reswm dros ei ddygiad i fodolaeth. Ac, hyd y nod yn mhlith Ymneillduwyr, mae rhai o'i bleidwyr, pan ofynir iddynt, "Pa lês sydd mewn bedydd mabanod?" yn myned yn mhell iawn yn yr un cyfeiliornad, ac fe elent yr holl ffordd, ond fod eu caredigrwydd yn gwahardd canlyniad naturiol eu dadl eu hunain, sef fod mabanod *difedydd* yn golledig. Mae eu duwioldeb a'u synwyr da yn eu gorfodi i adael eu hathrawiaeth ddewisiedig pan ei gyrir hi i'w chanlyniadau naturiol, a hyny yn cyfodi oddiar gydwybodolrwydd dystaw y byddai iddi arwain yn y pen draw i ail-enedigaeth yn y bedydd.

Mae yr athrawiaeth dwyllodrus hon yn cael ei harddel yn gyhoeddus (mewn geiriau) gan Eglwys Rhufain, Eglwys Loegr, Eglwys Groeg, ac mewn ffurf ychydig yn wanach gan yr Eglwysi Lutheraidd ac Yscotaidd. Mae Eglwys Rhufain yn hyspysu *(Catechism of Council of Trent)* "y gellir darnodi *(define)* bedydd yn gywir ac yn gymhwys, i fod *yn ail-enedigaeth trwy ddwfr yn y gair.* Oblegyd wrth natur yr ydym wedi ein geni o Adda, yn blant digofaint, ond trwy fedydd yr ydym yn cael ein hail-eni yn Nghrist yn blant trugaredd." Mae Eglwys Loegr yn dysgu yr un cyfeiliornad, pan yn gwneyd y maban difeddwl i ateb yn y *Catechism*, "Fy medydd, yn yr hwn y'm gwnaethpwyd yn aelod o Grist yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd." Ac mae ei hoffeiriad wrth fedyddio y maban yn cael ei wneyd i ddyweyd, "Yn gweled yn awr frodyr caredig ac anwyl, fod y plentyn hwn wedi ei ail-eni trwy fedydd, ac wedi ei impio yn nghorff Eglwys Crist, bydded i ni roddi diolch i'r Hollalluog Dduw am y bendithion hyn," &c. A all Eglwys Rhufain ddysgu'r athrawiaeth o ail-enedigaeth yn y bedydd mewn termau mwy eglur, neu mewn iaith fwy uniongyrchol neu fwy eglur a phenderfynol? * Mae Eglwys Groeg yn

* Mae'n alarus i ganfod y *shifts* ag mae offeiriaid anrhydeddus yn cael eu gyru iddynt yn eu dadleuon â'r Pabyddion mewn canlyniad i'r hunaniaeth adnabyddus rhwng y ddwy eglwys o barthed yr athrawiaeth o ail-enedigaeth yn y bedydd. Yn ymwybodus o'u cyfeiliornad eu hun ar y pwnc hwn, ni feiddiant sibrwd cyhuddiad yn erbyn eu mham Rufeinaidd neu fe wnelai hi yn union droi arnynt a'u cyhuddo o fod yn wir "derbyn *stolen goods.*" Fe gadwyd y tawelwch cyfrwysgall hwn gyda doethineb mawr yn y ddadl yn Manchester yn 1839—40, pan ddarfu deuddeg offeiriad draddodi rhes o dair-ar-ddeg o "Areithiau ar Babyddiaeth," ar bob pwnc ag y gellid meddwl am dano o "Rheol Ffydd," hyd "No Peace with Popery." Ond pa le yr oedd ail-enedigaeth fedyddiadol Pabyddiaeth? Foneddigion call! Ar y pwnc hwn yr oeddynt yn dewis dangos "Mor felus a hyfryd ydyw i frodyr drigo yn nghyd."

dysgu yr un athrawiaeth ond yn llai eglur yn y geiriau hyn,—"Bedydd sydd sacrament yn yr hwn pan mae y corff yn cael ei faddo mewn dwfr, y mae eneidiau credinwyr yn cael eu golchi gan waed Crist." Ac mae'n mhellach yn eglurhau yr athrawiaeth trwy sicrhau o barthed y bedyddiedig, ei fod ef "yn gyntaf yn cael ei olchi oddiwrth ei holl bechodau trwy waed Crist; yn ail, mae yn myned i mewn i gyfammod Duw; yn drydydd y mae yn cael ei eni drachefn yn ol gair Crist," (Ioan iii. 5.) Yma, mae'n amlwg fod bedydd ac ail-enedigaeth yn cael eu huno â'u gilydd. Mae yr Eglwys Lutheraidd, trwy ei gweinidogion yn dysgu yr athrawiaeth wenwynig hon trwy amrywiol o deyrnasoedd Ewrop, ac yn erlid y Bedyddwyr yn arw am feiddio dynoethi y cyfeiliornad.

Yn y "*Shorter Assembly's Catechism*," yr hwn ydyw ffurf-lyfr cydnabyddedig Eglwys yr Yscotland, mewn atebiad i'r gofyniad,—"Beth ydyw bedydd?" mae pob person ieuanc yn cael ei ddysgu i ddyweyd, "Bedydd sydd sacrament yn yr hwn y mae golchiad â dwfr yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân, yn arwyddo ac yn selio ein himpiad yn Nghrist, ac o'n cyfranogiad o fendithion y cyfammod grâs, yn nghyd a'n hymrwymiad i fod yn eiddo i'r Arglwydd." Pan mae bedydd yn cael ei wneyd i "*selio* ein himpiad yn Nghrist," ni all fod ddim yn llai nag ail-enedigaeth. A chymmeryd yr Arch-esgob *Protestanaidd* Wake yn esboniwr yr athrawiaeth dros yr oll, yr ydym yn dysgu mai, "fel trwy *fedydd* y cymmerir hwy i *gyfammod* â *Duw;* yr *adgenedlir* hwy trwy yr *Ysbryd Glan;* y maent yn cael eu *santeiddio* a'u *glanhau* oddiwrth eu *pechodau* trwy *waed Crist;* yn *dyfod i feddu hawl* yn ffafr Duw; ac yn cael eu gwneyd yn etifeddion o'i *deyrnas nefol;* fel os bydd iddynt farw cyn cyflawni un

*pechod gweithredol*, yr ydym yn cael ein sicrhau trwy *Air Duw, y byddant yn sicr o fod yn gadwedig*," (*Wake's Catechism*, page 153.) A ddichon twyll-honiadau cryfaf Pabyddiaeth fyned yn mhellach na hyn? A all goruwch-fraint offeiriadol ddymuno allwedd sicrach i deyrnas nefoedd nag mae y bedydd hwn yn roddi? Ac mae y twyll hwn yn egwyddor arweiniol yn nghredo *Tri chan' miliwn* o'r hil ddynol! Trueni meddwl fod y bobl yn gwybod mor ychydig am "ddidwyll laeth y Gair."

Yn un yn mhlith amryw ddyfeisiau eraill, fe drowyd y bedydd mabanod hwn yn fuan yn ffynnonell elw offeiriadol. Tua'r bedwaren olaf o'r canrif hwn, neu yn nghylch y flwyddyn 572, 'roedd y taliadau am fedyddio mabanod mor uchel, fel y darfu i lawer o fabanod *farw yn golledig* (?) yr hyn oedd yn dychrynu mamau ofnus i gydymffurfiad â'r ddefod; ac fel hyn yr oedd y seremoni a'r fasgnach o iachawdwriaeth mabanod yn myned yn mlaen efo eu gilydd." Ond nid elw oedd yr unig gymhelliad a ffynai i roddi bodolaeth sefydlog i fedydd mabanod yn mhlith sefydliadau cydnabyddedig eraill o eiddo yr Eglwys. Yn ddiammheuol, fe fuasai yr elw deilliedig i'r offeiriaid oddiwrth y darganfyddiad newydd hwn, yn pwyso yn annhraethol o'i blaid, fel y mae pob ffynnonell elw wedi gwneyd yn mhob oes, yn mhlith y cyflog-ddynion swyddogol; ond yr oedd pwnc arall heblaw yr elw, yr hwn oedd yn cynnorthwyo yn nerthol i ddwyn i mewn rai dan oed (*minors*), a hyny oedd, sef eu gosod yn ngwasanaeth yr Eglwys yn y swyddi lluosog a fodolai, neu oeddynt yn nghylch cael eu ffurfio. At hyn y mae Gregory Fawr, yn cyfeirio yn ei epistol "at Candidus, yr offeiriad oedd yn myned i etifeddiaeth Gaul. I ofal yr hwn yr oedd yn cymmeradwyo etifeddiaeth Saint Pedr yn Gaul, cyfoeth yr hon oedd

yn ei alluogi i brynu *English boys*, a dillad i'r tylodion." Yn y llythyr hwn y mae yn addysgu Candidus fel hyn, "Ond os bydd i chwi dderbyn rhywbeth o'r trethi, y rhai y dywedir eu bod wedi eu cymmeryd ymaith, nyni a fynwn allan o'r rhai hyny hefyd ddillad i'r tylodion, neu, fel y dywedasom o'r blaen, fechgyn y rhai a fyddant offerynol yn ngwasanaeth yr Hollallnog Dduw; ond gan mai Paganiaid ydynt oll, y rhai a geir yn y lleoedd hyny, mi a drefnaf offeiriad i gael ei anfon drosodd gyda hwy; fel os cymmerir rhai o honynt yn glaf mewn unrhyw afiechyd ar y ffordd, y byddo iddo ef eu bedyddio hwy pan canfydda hwy yn myned i farw. Felly bydded i'ch caredigrwydd weithredu a gwneyd brys i gyflawni y pethau hyn," (*Sammes' Britannia Antiqua Illustrata*, p. 480). Rhwng yr elw a'r un llaw, a'r galwad cynnyddol am wasanaeth bechgyn ar y llaw arall, yn cael eu huno â'r gred ymledaenedig o ail-enedigaeth fedyddiadol, fe ddarfu i fedydd mabanod gynnyddu yn gyflym mewn poblogrwydd tua diwedd y canrif hwn. Gellir casglu ei bwysigrwydd tybiadol oddiwrth atebiad Gregory i Augustine pan ofynodd iddo. "Yn mhen faint o ddyddian ar ol geni y plentyn y gellir ei fedyddio ef, rhag ofn i farwolaeth rwystro hyny i gymmeryd lle?" I'r hyn yr atebodd Gregory, "Nad ydyw mewn unrhyw fodd yn cael ei wahardd, hyd y nod, yn yr awr y genir ef, oblegyd fel mae gras y dirgelwch santaidd i gael ei ddarparu gyda llawer o ddoethineb i'r byw a'r deallus, felly y mae heb unrhyw oediad i gael ei gynnyg i'r hwn fyddo'n marw; rhag pan geisir amser pellach i gyflwyno dirgelwch y prynedigaeth, y bydd i ychydig oediad rwystro hyny, ac i'r person sydd i gael ei brynu i farw a myned ymaith" (Bede, Book I., cap. 27). Cymmerodd yr ohebiaeth yma le yn 597, ac y mae yn gwasanaethu i ddangos y bras-gamau cyflym oedd bedydd mabanod, neu yn hytrach ail-enedigaeth

fedyddiadol yn wneyd, ac fel 'roedd yn cyfodi i sefyllfa gadarn yn mhlith sefydliadau sefydlog yr Eglwys.

Yn y canrif hwn y dygwyd cenadwri Augustine i Frydain, ac hefyd yn y flwyddyn a nodwyd uchod; ond gan na chymmerodd ei ganlyniadau creulon le am rai blynyddoedd ar ol hyny, mae y neillduolion yn cael eu cadw fel pethau yn perthyn i'r canrif nesaf. Yn y flwyddyn 534 y cyhoeddodd yr Ymerawdwr Justinian y Pab o Rufain yn ben ar yr holl Eglwys Gristionogol, ac i fod *y barnwr* eglwysig uchelaf, er nad oedd ef ei hun i gael ei farnu gan neb. Yr oedd hyn yn gam arall tuag at gyflawniad y broffwydoliaeth neillduol hono o eiddo Paul, yn 2 Thess. ii. 4. Fe gynnaliwyd y *bummed* gynnadledd gyffredinol yn Nghaercystenyn, yn 553, yn yr hon yr oedd yn bresenol tua 165 o'r "tadau." Yr oedd yn gynnadledd o gondemniad, ac yn orlawn o anathemau yn erbyn "hereticiaid," pa un bynag ai byw, ai marw oeddynt. Yr oedd hyn yn wenieithio yn y modd ffieiddiaf i'r Ymerawdwr Justinian, yr hwn, i ddangos ei ddiolchgarwch, yn fuan iawn a drodd yn heretic ei hunan. Mae y canrif hwn yn cael ei hynodi ar gyfrif dau amgylchiad arall, un oedd genedigaeth Mahomet yn 569, neu 570, yn ninas Mecca—a'r llall oedd, argymmeriad rhyfygus o'r teitl Esgob Cyffredinol gan Ioan o Gaercystenyn, mewn cynnadledd a gynnaliwyd yn y ddinas hono yn 588, yr hwn a gadarnhawyd iddo gan y pwyllgor hwnw. Gan fod un amgylchiad yn cyssylltu ein hanes â'r "gau broffwyd" (Dad. xvi. 13; xix 20; xx. 10), a'r llall â'r ymryson mawr yn nghylch yr uwchafiaeth arglwyddiaethol rhwng gweinidogion *gostyngedig* Caercystenyn a Rhufain, hwy a gânt beth sylw fel yr elom yn mlaen.

## CANRIF Y SEITHFED.

YR amgylchiad pwysig cyntaf yn y canrif hwn ydyw cenadwri Augustine yn Mrydain, yr hyn sydd yn teilyngu sylw helaeth ar gyfrif dau beth:—Yn gyntaf, am ei fod yn profi fod rhifedi mawr o Gristionogion yn y wlad hon *cyn ei ddyfodiad*; ac yn ail, fod y Cristionogion hyn yn gwahaniaethu oddiwrth Eglwys Rufain, yn mhlith pethau eraill, ar y pwnc o fedydd.

Mae yn ffaith hanesyddol, tuhwnt i bob ammheuaeth, yr hyn sydd yn cael ei dystiolaethu gan awdwyr, hysbysiad a gwirioneddolrwydd y rhai nad oes neb ond dynion annwybodus, neu rai sydd am dwyllo yn fwriadol, yn beiddio ei ammheu, fod proffeswyr Cristionogaeth yn lluosog yn Mrydain Fawr yn flaenorol i'r genadwri Rufeinig swyddogol. "Mae cymmeryd golygiad cyffredinol ar yr holl hysbysiadau a feddiannwn, yn ein tueddu i gredu fod eglwys gywir yn y fydd, a selog i dderchafu teyrnas ogoneddus y Gwaredwr yn mhlith dynion, wedi cael ei sefydlu yn Mrydain yn yr oes apostolaidd; ac fod gwybodaeth o'r gwirionedd wedi ymledaenu yn gyflym trwy y rhan helaethaf o'r ynys; ac er ei fod wedi ei wanhau trwy heresi Ariaidd a Phelagaidd, etto fod llawer o wybodaeth a dylanwad Cristionogol wedi eu cadw yn Mrydain hyd yr amser y gadawyd hi gan y Rhufeiniaid."* Mae Foxe, yn ei "*Acts and Monuments of the Church*" (Book 2nd). yn rhoddi profion eglur o ffynnonellau diammheuol, o'r un ffaith; ac mae awdwr yr "*Incidents of the Apostolic Age*," yn dwyn yn ddamweiniol, dystiolaeth gyffelyb yn y geiriau gofalus canlynol:—"Mewn gair, er y byddai yn fyrbwyll ac anwarantadwy, yn absenoldeb tystiolaeth uniongyrchol i sicrhau enw y cenadwr Cristionogol cyntaf i Frydain, etto y mae llawer o

* *Religion of Ancient Britain, chap.* 5.

bethau i'n tueddu i gyduno â'r dyb gyffredin, sef nad oedd y gweinidog anrhydeddus hwnw yn neb arall, ond Apostol mawr y Cenedloedd—St. Paul."

Na ddarfu i'r "gweinidog anrhydeddus" hwnw, pwy bynag ydoedd, gan yr hwn y dygwyd y ffydd Gristionogol gyntaf i Frydain, lafurio yn ofer, sydd yn cael ei gadarnhau yn ddigonol gan haneswyr eglwysig ac eraill o'r awdurdod mwyaf ymddiriedol. Yr oedd eglwysi Cristionogol wedi cynnyddu yn fawr yn y wlad, a derbynwyr o athrawiaeth y Groes yn helaethion yn holl ffrwythau cyfiawnder. Yn amser yr erlidigaeth dan Diocletian, yn nechreu y pedwerydd canrif.† Yr oedd eglwysi Prydain yn cynnyrchu eu mherthyron dros y gwirionedd a chyffeswyr anrhydeddus i dystiolaeth Iesu. Ar ddiwedd y profedigaeth tanllyd hwnw, a dychweliad heddwch i'r Eglwys, fe alwodd Constantius gymmanfa (*council*) yn Arles, yn agos i Marseilles yn Ffrainc, yn y flwyddyn 314. Yr oedd, o leiaf, dri o weinidogion Prydeinig yn y gynnadledd hono, ac yn cymmeryd rhan yn ei phenderfyniadau. Y rhai hyn oeddynt Eborius o York, Restitutus o Lundain, ac Adelphus, mae'n debygol, o Gaerlleon. Yn y flwyddyn 359, galwyd yn nghyd gynnadledd arall gan Constantius yn Ariminum, yn Itali. Yr oedd uwchlaw pedwar cant o weinidogion yn bresenol yn y gynnadledd hono, yn mhlith y rhai yr oedd amryw o weinidogion eglwysi Brydain. Ymddengys fod yr Ymerawdwr ei hun wedi cynnyg talu treulion yr *oll* a ddaethant i'r gynnadledd hono; ac fod gweinidogion Gaul a Brydain (gyda thri eithriad) wedi gwrthod yr haelioni breninol hwn:—yr oeddynt yn alluog eu hunain i gwrdd â'u treulion. Yr oedd tri eithriad o'r eglwysi Brytanaidd, y rhai, ymddengys, oeddynt yn rhy dylawd i dalu treulion eu gweinidogion, a darfu

† Gwel Canrif y Pedwerydd, tudal. 27.

iddynt hwythau mewn canlyniad dderbyn y cynnorthwy breninol. Ond y mae presenoldeb gweinidogion o'r eglwysi Prydeinig ar *ddau* amgylchiad mor bwysig, mewn gwlad dramor ac mewn cyfnod nad oedd y dulliau cyflym diweddar o drafaelu yn adnabyddus, a hyny trwy draul mawr o amser r arian, yn gwasanaethu i brofi bodolaeth Cristionogaeth o ledaeniad helaeth yn y wlad hon. Y rhai a aethant i'r cynnadleddau hyn, yn ol pob tebyg oeddynt gynddrychiolwyr—gweinidogion o enw a safle uchel; ac fel ar amgylchiadau cyffelyb yn yr oes hon, rhaid fod y nifer oedd gartref, nad aethant gyda y brodyr, yn llawer mwy. A barnu oddiwrth ddeddf tebygolrwydd, yr ydym yn casglu fod yn rhaid fod yn y cyfnod cynnar hwnw nifer mawr o eglwysi Cristionogol yn ngwahanol barthau yr ynys hon.

Felly pan daeth Augustine yma fe gafodd y wir ffydd yn y lle; ac er fod y Sacsoniaid eulunaddolgar wedi achosi niwed, bron, annhraethol i'r eglwysi, etto ni ddarfu iddynt ddiwreiddio Cristionogaeth. Yr ydoedd o hyd yn y wlad, ac ymddengys ei bod wedi cael cysgodfa ar gyrau Cymmru, rhag angerdd yr eulunaddolwyr hyny, ac mewn lleoedd dirgelaidd eraill o'r ynys.

Yr oedd yn *Mangor Iscoed*, yn swydd Fflint, yn y cyfnod hwnw fonachdy nodedig, yn cynnwys uwchlaw dwy fil o bobl Gristionogol, y rhai oedd yn cynnal eu hunain trwy eu diwydrwydd, a'r rhai oedd yn cadw yn eu plith lawer o Gristionogaeth bur—gyntefig. Ond dylid cofio nad oedd y *mynachdy* yma yn dwyn un tebygolrwydd i'r gyfundrefn fynachaidd ffiaidd o eiddo Pabyddiaeth, yr hon, sef y Babyddol, a brofodd mewn oesau ar ol hyn yn felldith gyffredin i Brydain ac i'r holl fyd Cristionogol. Yr ydoedd hwn yn sefydliad ag oedd yn cynnal ei hunan, ac fe ddangosa y darluniad canlynol o'i gymmeriad ei fod o ran ei gyfansoddiad yn dra chyfaddas i gadw syml-

rwydd bywyd Efengylaidd yn mhlith aelodau y gymdeithas:—"Yn Mangor yr oedd athrofa yn cynnwys 2100 o Gristionogion, y rhai oeddynt wedi ymgyflwyno i'r Arglwydd, i'w wasanaethu Ef yn y weinidogaeth fel yr oeddynt yn dyfod yn alluog, i'r rhai y rhoddwyd yr enw *mynachod Bangor*. Etto ni ddarfu iddynt mewn un ffordd gyduno gyda mynachod Pabyddol yr oes hono na'r un oedd yn canlyn, oblegyd nid oeddynt wedi eu gosod mewn unrhyw drefn eglwysig, ond yr oeddynt gan mwyaf yn lleygwyr, y rhai oeddynt yn gweithio gyda eu dwylaw, yn priodi, ac yn dilyn eu galwedigaethau; yn unig yr oedd rhai o honynt, ysprydoedd y rhai yr oedd yr Arglwydd yn eu cymhwyso a'u tueddu idd ei waith mwyaf uniongyrchol, yn cyssegru eu hunain i fyfyrio yr Ysgrythyrau, ac ymarferiadau santaidd eraill mewn trefn i waith y weinidogaeth, y rhai a anfonasant allan luaws o offerynau defnyddiol.* Mae Jameison yn ei "*History of the Culdees*" yn dyweyd am y mynachdai hyn, mai, "Eu hamcan mawr oedd, trwy gyflwyno addysg, i ddwyn eraill i fyny i waith y weinidogaeth." Oddiwrth Bede, Robinson, ac eraill, ymddengys yn amlwg fod trigianyddion y sefydliadau hyn yn cynnal eu hunain trwy waith eu dwylaw eu hun, pan oeddynt, yn yr amgylchiadau mwyaf lluosog, yn ysgolfeistri yr holl ardal (*district*). Mae Thierry yn ei "*History of the Norman Conquest*," pan yn llefaru am y Prydeiniaid, yn sylwi "fod eu mynachod yn fwy llafurus nag oedd rheolau y Pabyddion yn ordeinio; oblegyd ni dderbynid cymmaint ag un i'r fynachlog Brydeinaidd oddieithr ei fod yn feddiannol ar rhyw gelfyddyd neu alwedigaeth; yr oedd crefyddwyr pob mynachlog yn cael eu rhanu i ddau ddosparth, y rhai oeddynt ar y nail yn aros gartref i weddio a myned allan oddiamgylch i weithio" *(Book I)*. Mae Geoffry o Moumouth ar ol desgrifio "yr eglwys fwyaf anrhyd-

* *Danvers's History of Baptism*, p. 336.

eddus" yn Mangor, fel yn cynnwys saith o ddosparthiadau, a phob dosparth yn meddu tri chant o bersonau, mae yn dyweyd am danynt "eu bod oll yn byw trwy lafur eu dwylaw eu hunain."

Y fath yna oedd mynachdy *Bangor Iscoed*, yn nghylch y flwyddyn 603, pan ddarfu Augustine o Rufain, mewn modd trahaus, hawlio eu hufudd-dod i'r Pab Gregory. Gellir yn hawdd gasglu beth oedd natur yr hyn a orchymynid iddynt oddiwrth atebiad y prif fynach yn Mangor, yr hwn a osodir allan fel hyn gan hen awdwr:—"*Bydded hysbys, ac heb ammheuaeth i chwi, ein bod ni oll, a phob un o honom, yn ufudd ac yn ddeiliaid Eglwys Dduw, ac i Bab Rhufain, ac i bob Cristion duwiol, i garu pob un yn ol ei raddau mewn cariad perffaith, ac i gynnorthwyo pob un o honynt, trwy air a gweithred, i fod yn blant Duw; ac nid wyf fi yn gwybod am ufudd-dod heblaw hwn yn ddyledus iddo, yr hwn yr ydych chwi yn ei alw yn Bab, na chwaith i hawlio neu erchi (i gael ei gydnabod) yn Dad y Tadau; a'r ufudd-dod hwn, yr ydym yn barod i'w dalu iddo fe ac i bob Cristion yn barhaus. Heblaw hyny, yr ydym ni dan lywodraeth Esgob Caerlleon-ar-Wysc, yr hwn sydd i lywodraethu dan Dduw drosom ni, i beri i ni gadw y ffordd yn ysprydol.*" Am y gwrthodiad tyner hwn i gydnabod y Pab arglwyddaidd, darfu iddynt dalu fforffed eu bywydau, pan mewn ymosodiad a wnaed arnynt, yn fuan ar ol hyn trwy offerynoliaeth yr Augustine hwn,* pryd y cafodd *deuddeg cant* o honynt eu lladd mewn modd creulon, ac ni ddiangodd ond *deg a deugain* o faes y lladdfa! Fe gafodd y sefydliad ardderchog yn Mangor, yn nghyd â'i lyfr-gell anmhrisiadwy eu distrywio yn hollol, ac ni adferwyd ef byth ar ol y difrod hwn; ac am oesau sydd wedi myned heibio o'r braidd y ceid dim olion i arddangos yr yspotyn y bu unwaith mewn bri.†

---

* Gwel Thierry ac eraill.

† Mae y lle hwn yn sefyll ar lân yr afon Dyfrdwy, yn nghylch tair

Fel Bedyddwyr Prydeinig yr ydym yn teimlo dyddordeb mawr yn y ddadl rhwng Cristionogion Bangor a'r esgob coegfalch o Rufain, oblegyd y mae yn profi tuhwnt i ammheuaeth eu bod yn gwrthod bedyddio mabanod, neu mewn geiriau eraill eu bod yn ymarferyd bedydd y crediniol. Yr oedd hyn yn mhlith pethau eraill yn drosedd anfaddeuol yn erbyn Augustine; ac oddiwrth hyn y cyfododd y gelyniaeth chwerw a ddangosodd o'r dechreu i'r diwedd. Cangen oedd y rhai hyn o gorff mawr y Cristionogion Prydeinig, yn mhlith y rhai yr oedd crefydd yn blodeuo, "yr hon ni wywodd erioed o amser yr Apostolion," a'r rhai a gadwasant eu hunain yn gywir yn y ffydd, yn bur yn eu haddoliad, trefn, a dysgyblaeth Crist fel y derbyniwyd hi oddiwrth yr Apostolion a'r efengylwyr."* Mae y tebygolrwydd, gan hyny, mai Bedyddwyr oeddynt—*Bedyddwyr Cyntefig*—yn gryf, ie, o'r braidd yn amlwg, tuhwnt i bob math o ammheuaeth. Ac mae y tebygolrwydd hwn yn cael 'ei gryfhau yn ddirfawr gan yr hyn a hawliodd Augustine oddiwrthynt, o barthed yr arferiad hwn. Yr oedd yn gofyn iddynt "i weinyddu bedydd trwy yr hwn yr ydym yn cael ein hail-eni i Dduw, yn ol arferiad yr Eglwys santaidd, apostolaidd

milldir o Overton, pump o Wrexham, a thair-ar-ddeg o Gaerlleon (*Chester*). "Yr oedd y Mynachdy yn Mangor yn gyfoethog mewn ysgrif-lyfrau, ac iddo enw mawr cyffredinol ar gyfrif ei lyfr-gell werthfawr; ac y mae Speed yn dyweyd ei fod, o herwydd ei henafiaeth, a nifer ei ddynion dysgedig, yn cael ei gydnabod yn rhiant (*parent*) holl fynachdai eraill y byd." Mae William o Malmsbury, yr hwn oedd yn byw yn fuan ar ol y *Norman Conquest*, yn sicrhau, nad oedd, hyd y nod, yn ei amser ef ond ychydig olion o'i orwychder henafol yn aros; yr oedd, medd efe, gymnifer o eglwysi adfeiliedig (*ruined*) a'r fath bentyrau mawrion o ysbwriel (*rubbish*) na cheid eu bath yn un lle arall. Mae Leland yn dyweyd o barthed iddo, yn amser Harri VII. (1500 O.C.), "fod esgyrn y mynachod, yn nghyd â darnau o'u dillad, wedi cael eu troi i w neb y tir gan yr erydr wrth aredig, a hyny yn amser rhai personau ag oeddynt yn fyw y pryd hyny; hefyd fod peth arian Rhufeinaidd wedi eu cael."—*Panorama of North Wales*, page, 82.

* Geoffry.

Rhufain." Hyny yw, eu bod i fedyddio mabanod, oblegyd beth arall oedd yr "Eglwys santaidd apostolaidd" hono yn wneyd? Mae Thierry,* yr hwn ydym wedi ddyfynu eisioes, yn rhoddi, yn sylweddol, yr un esboniad ar yr hawliad hwn, pan mae yn dyweyd fod y Cristionogion Prydeinaidd hyn yn gwrthod credu "damnedigaeth anfaddeuadwy y mabanod ag oeddynt yn marw yn ddi-fedydd." Ac mae y "*Fabian's Chronicle*" yn gosod pob esboniad arall yn ddisynwyr, pan yn sicrhau fod Augustine yn gorchymyn, "*Fod i chwi i roddi Cristionogaeth i blant*,"—ystyr yr hyn yw, "fod i chwi roddi iachawdwriaeth i fabanod trwy eu bedyddio hwy." Ni ellir rhoddi ystyr arall i'r geiriau heb wneuthur camwri a phob ffaith adnabyddus a ddaliai gyssylltiad â'r amgylchiad. Gregory, gan yr hwn yr anfonwyd Augustine i Loegr, ychydig cyn y cyfnod hwn a basiodd ddeddf fel y canlyn:—"Bydded

*Mae yr hanesydd diduedd uchod yn dwyn y dystiolaeth werthfawr ganlynol i henafiaeth a phurdeb ffydd Cristionogion Prydeinig y *chweched*, yn nghyd a'r canrifoedd o flaen hwnw. Y mae yn cofnodi hanes boreuol y *Bretagne* yn Ngogledd Orllewinol Ffrainc, "lle yr oedd y *Britons* neu *Bretons* wedi cymmeryd noddfa rhag eu goresgynwyr Saxonaidd," ac y mae yn myned yn mlaen i ddyweyd am danynt,—"wedi bod yn Gristionogion am rai oesau, ac feallai y Cristionogion mwyaf selog yn y byd, yr oeddynt wedi dyfod i Gaul, a chyda hwy athrawon mwy dysgedig a gwybodus na'r rhai oedd yn barod yn y Dalaeth bell, yn yr hon y sefydlasant. Hwy a burasant ffydd hen drigolion y wlad, yr hon hyd y pryd hyny oedd yn hynod anmherffaith; hwy a aethant ac a bregethasant yn rhâd yn y tiriogaethau cylchynol; ac fel yr oedd eu cenadon yn dangos nad elw personol oedd mewn golwg ganddynt. yn derbyn dim gan neb hyd y nod ymborth a diod. Yr oeddynt yn mhob man yn cael eu croesawi yn fawr. Darfu dinasyddion Vennes ddewis Brython mudedig yn esgob (gweinidog) iddynt; ac yr oedd y Brythoniaid eu hunain yn ordeinio esgobion mewn amryw drefydd yn eu gwlad newydd, lle nad oedd un wedi bod erioed o'r blaen. Darfu iddynt ffurfio eu crefydd yr un modd ag y darfu iddynt ffurfio eu sefydliad gwladol heb ofyn caniatâd neu gynghor unrhyw allu tramor arall." *Norman Conquest, book I.* Tystiolaeth fwy pendant na hon, ni allem ddymuno gael, o barthed symlrwydd, difrifoldeb a sêl y Cristionogion Prydeinig Cyntefig. A dynion fel hyn oedd y rhai yr oedd y mynach Rhufeinig, Augustine yn sychedu am eu distrywio. Mewn gwirionedd y mae Duw a wna farn ar y ddaiar.

i'r holl blant ieuanc gael eu bedyddio, fel y dylent gael, yn ol traddodiad y Tadau;" ac nid oedd ond peth naturiol i'w ddisgwyl y buasai gwrthwynebiad i'r meistr mewn pwnc mor bwysig, yn cynhyrfu digofaint y gwas balch hwn o eiddo y Pab. Felly pan ddarfu i'r Cristionogion Prydeinig hyn o Fangor wrthod "*rhoddi Cristionogaeth i blant*," wrth archiad yr *Eglwys Santaidd Apostolaidd Rufeinig*, eithr mewn modd duwiol i ddewis "ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion," darfu iddynt gynhyrfu digofaint mab i'r Eglwys hono, gweithredoedd yr hon a'i gwnaeth "hi yn feddw ar waed y saint, ac ar waed merthyron Iesu," (Dad. xvii. 6.) Mae ei holl hanes yn un o erlidigaeth; ond, bendigedig fyddo Duw, y mae ei diwedd yn agos a'i barn nid yw yn oedi, (Dad. xviii. 8.)

Yr oedd rhai pynciau eraill, yn nghylch y rhai yr oedd y Cristionogion Prydeinig hyn ac Augustine yn gwahaniaethu, y penaf o'r rhai hyn oedd y cyfnod i gynnal y Pasc; ond gan na ddaliau y pethau hyn ond cyssylltiad pell â'r amgylchiad, mor bell ag y mae yn perthyn i'r Bedyddwyr, nid oes angen eu holrhain yma. Digon yw dyweyd am yr holl drafodaeth, i un o sefydliadau mwyaf pwysig yr oes hono gael ei ysgybo oddiar wyneb y ddaiar o herwydd gwrthod ymostwng i'r Pab.

Er fod yn amlwg fel hyn fod bedydd mabanod wedi ymdaenu yn helaeth yn y Gorllewin yn y canrif hwn, etto yr oedd bedydd y crediniol yn ffynu yn y Dwyrain, ac hyd y nod yn yr Aipht. Yr oedd dynion ffyddlawn, yma a thraw, yn ymdrechu dros symlrwydd cyntefig, ac heb ddysgu etto dychrynu rhag y Pab o Rufain, yr oeddynt yn sefyll i fyny yn wrol i amddiffyn yr hen wirionedd. Yn mhlith y rhai hyn, yr oedd Adrianus, gweinidog yn Nghorinth, yn sefyll yn neillduol o uchel. Nid yn unig fe ddaliodd wrth yr arferiad cyntefig, ond fe wrthwynebodd fedydd mabanod, trwy wrthod eu bedyddio eu hunan, a thrwy

hefyd ddarbwyllo pawb ag 'roedd ganddo ddylanwad arnynt, i wrthod bedydd iddynt. Fe gafodd mewn canlyniad i hyn, ei gyhuddo gan y Pab Gregory, wrth John, gweinidog, yn Larissa, a'i gyfrif yn euog o'r trosedd "o droi ymaith blant ieuanc oddiwrth fedydd, a gadael iddynt farw hebddo," am yr hyn y daethant yn ei erbyn fel troseddwr mawr. Yr oedd Gregory wedi yfed yn ddwfn i'r twyll Augustinaidd o ail-enedigaeth bedyddiadol; ac o herwydd hyn ei siomedigaeth fod dyn etto i'w gael, yr hwn a feiddiai ddal at y commisswn Efengylaidd,—"Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig." Ei amcan oedd, dodi bedydd yn lle ffydd, a gwneyd y seremoni allanol yn drwydded i'r nefoedd. Mae y ddyfais hon—y traddodiad dynol hwn, wedi parhau o'r dydd hwnw hyd yn awr, neu uwchlaw mil o flynyddoedd.

Yr oedd ymlyniad cyffelyb wrth yr ymarferiad apostolaidd yn parhau yn yr Aipht mor ddiweddar a'r flwyddyn 670. Mae awdurdod ag y gellir ymddiried iddo yn hysbysu "fod bedydd Crist, *ar ol pregethiad ffydd mewn dull cywir yn cael ei arferyd yn yr Aipht*, ac yn y fath barch, fel darfu rhai gwledydd eraill adferyd y grefydd Gristionogol, yn ol eu hesiampl hwy (yn yr Aipht) y rhai oeddynt fel hyn yn gwahaniaethu oddiwrth Eglwys Rufain, ac a osodasant grefydd ar ei sail gyntaf apostolaidd. Hyd y nod yn yr Hyspaen, nid oedd ffydd gyntefig wedi darfod, oblegyd yr ydym yn cael fod Isidore, o Seville, yn nghylch y flwyddyn 610, yn cyhoeddi traethawd ar y Gosodiadau Eglwysig (*Church Institutes*), yn yr hwn y mae yn defnyddio yr iaith ganlynol:—"Mae bedydd yn gynnwysedig o soddiad, yn arddangosiad o gladdedigaeth Crist, ac o ddadsuddiad, yn arddangosiad o'i adgyfodiad."

Ond yn y Gorllewin, lle yr oedd awdurdod y Pab—Dyn newydd Pechod, yn cael ei arferyd yn fwy uniongyrchol, yno yr oedd y newydd-beth, sef bedydd mab-

anod yn cwrdd â hynawsedd, o'r braidd heb un rhwystr. Fe ddaeth yn ddefod (*fashion*) llysoedd, ac a drawsfeddiannodd yn raddol ddylanwad ac awdurdod deddf Genedlaethol. Mewn gwirionedd, y mae yn ammheuus a fuasai byth yn dyfod y peth ydyw yn awr, a'r peth ag mae wedi bod am rhyw 1200 o flynyddoedd, ond trwy nodded y llywodraethwyr gwladol. Y Llywodraeth ac nid egwyddor nac Ysgrythyr sydd wedi ei wneyd y peth ydyw; ac nid oes ynom unrhyw betruster i ddyweyd, na fuasai byth wedi byw mewn unwedd oni bai cefnogiad ac amddiffyniad *gwleidiadol.* Pe buasai wedi cael ei adael i'w hawliau cynhenid—pe buasai wedi gorfod ymddibynu ar ei haeddiannau ei hun, heb gael ei gynnorthwyo gan wênau dau-ddyblyg Cæsar, buasai wedi myned ffordd yr holl ddaiar yn mhell cyn hyn, ac wedi suddo i ebargofiant, yr hyn etto fydd ei dynged olaf ef. Esgeulustra o'r Beibl a roddodd enedigaeth iddo; ond lle bynag y daw y llyfr hwnw yn ddeddf meddwl y byd Cristionogol, o'r ailiad hwnw fe fydd yn marw.

O'r braidd y gwnaeth y newydd-beth mabanaidd hwn, yn un rhan o'r byd Cristionogol, ymdaenu gyda chymmaint o effaith ag y gwnaeth yn Lloegr. Yn y canrif hwn yr oedd yn cadw lle uchel yn neddf-wneuthuriad y cyfnod hwnw, ac ymddengys nad oedd brenin yn wrthwynebol i roddi lle iddo yn ei ddeddf lyfr. Darfu Ina, brenin y Saxoniaid Gorllewinol (Berkshire, Hampshire, Wiltshire, &c., i Cornwal), wneyd deddf yn mhlith deddfau eraill, tua'r flwyddyn 694, "fod y plentyn i gael ei fedyddio o fewn cylch 30 diwrnod ar ol ei eni, ac os na, bydd i'r esgeulustra gael ei gospi â dirwy o ddeg-swllt-ar-ugain,* ac os bydd efe farw cyn cael ei fedyddio, bydd yn fforffedu yr oll a berthyn iddo." Yma yr oedd y brenin yn llefaru dros yr offeiriad, ac yn gwneyd yn drosedd cospadwy, yr hyn

* Swm *mawr iawn* yn y dyddiau hyny.

nad oedd Crist na'i Apostolion wedi ei orchymyn yn unman. Mae'n amlwg fod y Brenin Ina hwn yn bawen i'r offeiriaid, a darfu iddo yn ynfyd feddwl ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw trwy draws argymmeryd awdurdod na roddodd Duw i un dyn erioed. Etto y mae dylanwad *eglwysig* yn amlwg yma, ac y mae ymostyngiad y brenin i'r dylanwad hwnw, yn profi tuhwnt i bob ammheuaeth resymol gynnyddiad dylanwad yr Eglwys Rufeinig yn neddf-wneuthuriad Lloegr.* Yr oedd hyn yn ymadawiad distaw oddiwrth pob apeliad at yr Ysgrythyr, a'i drosglwyddo oll at y llywydd gwladol, yr hwn fel hyn mewn modd tawel a gafodd yr awdurdod o fod yn ben yr Eglwys. Ond yr offeiriad oedd wrth wraidd yr holl drafodaeth, ac ni wnaeth Ina ond cyhoeddi ewyllys ei arglwydd yn Rhufain, yr hwn oedd fwy nag ef.

Mae yn syndod fel darfu i'r newydd-beth—bedydd mabanod brofi ei hun yn yr oes lac ac annwybodus hon, etto, hyd y nod, y pryd hyn, yr oedd bedydd *o ran ei ddull* yn cael ei gadw yn ei burdeb dechreuol. Wedi'r cwbl, *bedydd* ydoedd o hyd, ac nid *taenelliad.* "Yr oedd Augustine a Paulinus," medd *Foxe the Martyrologist*, y pryd hyny yn bedyddio mewn afonydd, ac nid mewn *fonts* cyssegredig." Y mae Gregory o Rufain yn ysgrifenu at Eulogius, o Alexandria, yn hysbysu ac yn llawenhau, "fod, ar gadwad gwyl genedigaeth ein Harglwydd, yr hwn a gymmerodd le yn ol yr *indiction* cyntaf hwn uwchlaw 10,000 o Saeson wedi cael eu bedyddio gan ein brawd hwn a'n

* "Usage prevailed among the Saxons in ecclesiastical as much as it did in secular affairs; but which required the express sanction of the legislature was determined in councils, synods, or as they were then called circgemots; which were summoned, either by the King's authority *or by the archbishops of Canterbury.* The first councils of any importance among the Saxons was summoned A.D. 664. by Oswi, Brenin Northumberland, for the purpose of settling the time of keeping Easter, when it was determined *that it should be kept after the Roman manner.*" Crabb's History of English Law, chapter, 2.

cyd-esgob," sef Augustine.* Mae ysgrifenwr diweddar ar hanes yr Eglwys, yr hwn sydd offeiriad o'r Eglwys Sefydledig, a'r hwn ellir gymmeryd fel tystiolaeth anmhartiol ar y pwnc hwn, yn dyweyd fod bedydd yr amseroedd hyny, yn cael ei weinyddu trwy *drochiad.* Pan yn cofnodi gweithrediadau cymmanfa (*synod*) a gynnaliwyd yn Calcuith, dan yr Arch-esgob Wulfred, O.C. 816, mae yn dywedyd, "fod yr unfed ar ddeg rheol yn dangos fod bedydd, yn gyffredin yn cael ei weinyddu trwy drochiad, gan ei bod yn condemnio taenelliad fel newydd-beth." † Os fel hyn yr oedd yn bod yn y nawfed canrif, o'r braidd y gellir tybied fod *taenelliad* yn cael ei arfer a'i gymhell gan Augustine yn y chweched a'r seithfed canrif. Ac mae y ffaith, fel y mae yn cael ei osod allan gan Foxe, wedi ei ddyfynu yn "*Adam Taylor's Church History*," fod y 10,000 uchod wedi cael eu bedyddio gan yr esgob Rhufeinig, yn yr afon Swale, yn *Yorkshire*, yn brawf cyfochrog mai trochiad, ac nid taenelliad, oedd y dull yn yr oesoedd hyny. Mae yn canlyn, gan hyny, mor belled ag 'roedd unrhyw ddadl fedyddiadol yn bodoli yn y cyfnod hwnw, nad oedd ganddynt unrhyw gyfeiriad *at y dull*, ond at ddeddf newydd Rhufain yn rhoddi "*Cristionogaeth i blant*," trwy eu derbyn i fedydd. Yr oedd yn hawlio *trochiad* ac nid *taenelliad* (yr hwn oedd y pryd hyny yn hollol anadnabyddus) i'r maban yn lle un yn credu.

Gyda golwg ar yr ymrafael ffol a gwarthus, a barhaodd rhwng esgobion Rhufain a Chaercystenyn, am y titl cymhen-falch o esgob *cyffredinol*, ni wnawn sylw o honi. "Nod y bwystfil" ydoedd, ac fe ddarfu iddo fe, yr hwn a ymffrostiodd yn y meddiant o hono yn hollol brofi ei *hawl* i'r rhagoriaeth gwaradwyddus.

* *Indiction*, hyspysiad, cyhoeddiad; cylch (mewn amseryddiaeth) o 15 mlwydd, a sefydlwyd gan Cystenyn Fawr yn y flwyddyn, 313 er côf am y frwydr fawr a ennillodd efe ar Facsen Wledig

† Church History, by J. A. Baxter, M.A., perpetual Curate of Christ Church, Cosely, page 147, (Second Edition.)

Y mae hyn mor wrthwynebol i bob peth sydd yn ostyngedig yn y ffydd Gristionogol, fel y darfu iddo lanw ei feddiannydd â balchder ffiaidd, fel yn fuan iawn y darfu iddo "ymddyrchafu goruwch pobpeth a elwir yn Dduw, neu a addolir; hyd onid yw efe, megys Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw," (2 Thes. ii. 4).*

Mae un amgylchiad arall a gymmerodd le yn y canrif hwn yn haeddu sylw, hyny yw, ymddangosiad Mahomet neu Mahomed yn Arabia, cenadaeth yr hwn, fel crefydd wahaniaethol, sydd yn dyddio o Gorphenaf, 16, 622 o O.C. Mae ef, yn gyffredin, wedi cael ei ystyried fel "gau broffwyd" llyfr y Dadguddiad (Dad. xvi. 13; xix. 20; xx. 10), ac fel gwrth-ran (*counterpart*) Dwyreiniol "y bwystfil" yn Rhufain. Mae ei fod ef, a'i ganlynwyr, wedi bod yn fflangell ofnadwy i'r Eglwys, yn bwnc o hanesyddiaeth tuhwnt i ammheuaeth, ond nid ydyw yn cael ei gadw mewn côf, yn ddigonol, fod esmwythdra, ysbryd cynhenus, ac anffyddlondeb yr eglwysi Dwyreiniol wedi gwahodd os nid creu y fflangell, yr hon y darfu i'r nefoedd gyflawn ganiatâu i ymddangos er eu cospedigaeth haeddiannol. Oblegyd fel y darfu i'r Pab o Rhufain darddu allan oddiwrth gnawdolrwydd yr Eglwys Orllewinol, felly y darfu i Mahommed gyfodi allan o lygredigaeth dychrynllyd yr Eglwys Ddwyreiniol; ac mae y ddau, fel eu gilydd, yn arddangos y ddeddf gyffredinol, sef lle bynag y byddo dyfroedd llygredig a llonydd, y ceir yno yn wastad ffrogaod a llyffaint. Bydded i'r eglwysi presenol gymmeryd rhybydd. Mae "y bwystfil a'r gau broffwyd" yn cyhoeddi fod pob ymadawiad oddiwrth wirionedd syml yr Efengyl—pob dynesiad at falchder bydol, a phob cydsyniad a chyfeiliornad er mwyn budd a lles presenol, y bydd iddynt yn an-

* "Ein Harglwydd Dduw y Pab," oedd yn fynych yn cael ei hawlio gan y Pab o Rufain, ac mae y "*canon law*" yn ei ganiatau etto, oddieithr ei bod wedi ei chyfnewid yn ddiweddar.

ffaeledig ddwyn eu cospedigaeth eu hun, nes o'r diwedd y bydd *triflers* gyda pethau dwyfol "yn cael eu rhoddi fyny i gredu celwydd" (2 Thes. ii. 11). Gyda yr eithriadau lleiaf, y mae saith Eglwys Asia, Eglwysi Colosse, a Galatia, yr Eglwys yn Jerusalem, yr hon "ydyw ein mham ddaiarol ni oll," gydag amrywiol eglwysi Cristionogol eraill yn y parthau eang hyny, wedi hollol ddiflanu oddiar wyneb y ddaiar er ys amser maith bellach. Yn gwrthod gwrando ar gynghorion tyner y Gwaredwr cariadlawn i wneyd "y gweithredoedd cyntaf," hwy a suddasant o lygredigaeth i lygredigaeth, hyd yn rhy ddiwerth ac annuwiol i'w goddef yn hŵy, fe'u hyswyd yn bentwr o adfeilion gan ddiluw tanllyd, sel ynfyd-grefyddol Mahommedaniaeth; ac mae y geiriau dychrynllyd hyn wedi eu hysgrifenu ar eu gweddillion golosgawl, megys mewn llythyrenau o fflamiau—"A'r holl eglwysi a gânt wybod mai myfi yw yr Hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonau; ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd," (Dad. ii. 23.)

Dyna oedd cyflwr gwarthruddol yr Eglwysi Dwyreiniol pan ymddangosodd Mahommed. "Yn wir," medd Washington Irving, yn ei hanes ddyddorol o fywyd y proffwyd, "yr oedd y rhwygiadau a'r anghydfodau chwerwon yn mhlith y Cristionogion Dwyreiniol wedi anmharu eu barn o barthed cywirdeb y ffydd (*orthodoxy*), gwanhau eu sel, ac wedi eu gwneuthur yn dueddol i gael eu harwain ymaith gyda hawdd-der gan athrawiaethau newyddion." Beth raid fod angerddoldeb eu cyflwr drygionus, eu sefyllfa gnawdol, lygredig, pan y gallai yr un ysgrifenydd ddyweyd am foreu oes Mahommed, a'i athrawiaethau cnawdol, sef "fod y ffydd ag oedd ef wedi ei haddysgu hyd yn hyn, yn burach na'r un oedd yn cael ei dal allan gan gau-Gristionogion Arabia?" Yr oedd yr enw Cristion wedi dyfod yn ddiareb ac yn wawd, a Mahommed oedd y fflangell at y rhai anffyddlawn

hyn, sef, y rhai oedd wedi "gadael eu cariad cyntaf."

Onid oes yn hyn oll wers i eglwysi presenol Prydain? At beth mae eu *balchder* yn tueddu yn eu badeiladau gorwych, gyda chlochdai uchel a phinaclau diddefnydd, y rhai sydd yn mhob man yn britho y wlad? I ba beth mae eu *parchusrwydd*, yn yr hwn yr ymffrostiant, yn arwain, pan mae dynion yn cael eu hanrhydeddu yn ol eu cyfoeth, a'u hystyried yn gymhwys i swydd mewn cyfartaledd i swm eu harian? Ac at beth mae eu *cymmundeb agored* yn cyfeirio, ond at sefyllfa pethau lle y caiff llwyddiant a budd presenol fod yn rheol, ac ufudd-dod cyflawn a manwyl i Grist yn eithriad? Bydded iddynt ar bob cyfrif ystyried! Os bydd iddynt barhau yn falch, yn fydol, ac yn llac; os bydd iddynt yn ymarferol ddewis, "yr anrhydedd sydd yn deilliaw oddiwrth ddyn," gallai y caiff rhyw fflangell gyffelyb ganiatâd i'w dwyn yn ol i edifeirwch ac at y Bibl.

---

## CANRIF YR WYTHFED.

"YN nechreuad yr wythfed canrif, yr oedd yr holl fyd Cristionogol (*Catholic*) mor druenus ac annuwiol ag y gellir dychymmygu am dano. Yr oedd y gamdrefn resynol, o gymhwyso wyddoriaeth Iuddewig at grefydd syml Iesu wedi cymmeryd y llywodraeth oddiar ei sylfaen naturiol, a darfu 'r holl deyrnasoedd ddymchwelyd i un pentwr mawr o adfeilion. Pa le bynag yr oedd cyfundrefn o ben-arglwyddiaeth, llywodraethiad eglwysig yn dyfod, yr oedd llywodraethwyr gwladol yn fuan yn canfod y dylai y rhai a gymmerent arnynt arolygu dynolryw, gael eu harolygu eu hunain; ac 'roedd yn rhaid iddynt sefydlu rhyw hawliau newyddion dros eu deiliaid er gwrthbwyso dylanwad offeiriadol. Darfu i'r rhan fwyaf o'r tywysogion ymgyngrheirio â'r goresgynwyr peryglus hyn, ond yr oedd tra-arglwyddiaeth grefyddol

yn cael ei chryfhau gan gyngreiriau tramor, yn tueddu tuag at lywodraeth gyffredinol, yr hon yn y diwedd a wrthbwysodd lywodraethau gwahanedig. Dyma y Gristionogaeth a ddistrywiodd yr ymerodraeth Rufeinig."

Fel yna y mae Robinson mewn dull galarus, yn ysgrifenu yn ei "*Ecclesiastical Researches*" am gyflwr "truenus" ac "annuwiol" y byd Cristionogol, gydag agoriad yr wythfed canrif; ac mae y dystiolaeth hon yn cael ei chadarnhau gan Mosheim, yr hwn sydd yn sylwi, "Fod llygriad moesau, yr hyn oedd yn dianrhydeddu yr offeiriaid yn y canrif blaenorol, yn cynyddu yn lle lleihau yn yr un presenol; ac yn arddangos ei hunan yn y dullweddau mwyaf ffiaidd yn y taleithiau Dwyreiniol a Gorllewinol." Ac mae'r hanesydd hwn yn ychwanegu, "Ac ni allasai yr amrywiol ddeddfau a ddygwyd i fodolaeth yn eu herbyn gan Carloman, Pepin, a Charlemagne, roddi terfyn i'w penrhyddid anystyriol, na chwaith ddwyn oddiamgylch eu hedifeirwch."

Gyda'r fath offeiriaid,—dysgawdwyr, y rhai ag 'roedd eu holl fywyd yn un arddangosfa fawr o benrhyddid cnawdol, beth raid fod sefyllfa yr Eglwys ei hunan? Gyda bugeiliaid, ymddygiad gwastadol y rhai oedd yn waradwydd cyffredin, ac yn wawd cyhoeddus, fe fuasai mor ofer dysgwyl Eglwys bur—Eglwys wedi ei ffurfio ac yn cael ei rheoleiddio yn ol ordinhadau Duw, ag fyddai dysgwyl cael awyr pur ac iachus yn mhlith beddau y meirw. Yr oedd yr offeiriaid a'r bobl yn halogedig, a gellir dywedyd, bron am yr holl Eglwys yn y cyfnod hwn, gyda'r gwirionedd cadarnaf, "o wadn y troed hyd y pen, yr oedd archollion a chleisiau, a gweliau crawnllyd." Yr oedd yr Eglwys yn dŷ aflan y gwahan-gleifion, ac nid oedd y preswylwyr aflan a ymsymudent o amgylch ond dangos pa mor anaddas oeddynt i drigo "yn nhir y rhai byw."

Mewn canlyniad i hyn yr oedd bedydd y crediniol yn cael ei drafod gydag anmharch cynnyddol, ac fe aeth, o'r braidd, yn hollol o'r golwg, o'r byd Cristionogol. Yn unig, yma a thraw, mewn lleoedd neillduedig, a chonglau pell,—yn mhell oddiwrth y canolbarthau poblogaidd a *fashionable*, yr ydoedd yn cael lle i roddi gwadn ei droed i lawr. Yn cynnwys, fel mae yn rhaid iddo yn wastad wneyd, ffydd *bersonol* yn y Gwaredwr, ac ymlyniad *gwirfoddol* wrth ei ddeddfau Ef, fe ddaeth, o'r holl ddefodau crefyddol, y fwyaf anmhoblogaidd a gwrthwyneblyd. Yr ydoedd (bedydd y crediniol) yn cael ei wrthwynebu gan yr offeiriad a'r bobl; gan yr offeiriad am ei fod yn hòni awdurdod uwch na'r eiddo ef; a chan y bobl, am ei fod yn ol eu tyb ffol hwy yn gwadu *iachawdwriaeth mabanod.* Oblegyd gan fod y twyll Augustinaidd o ail-enedigaeth yn y bedydd wedi ymdaenu yn mhlith pobl, y rhai a gredent yr offeiriad yn hytrach na'r Bibl, fe ddaeth yn erthygl yn nghredo proffesedig y byd Cristionogol, gan fod bedydd yn angenrheidiol i ail-enedigaeth, ac fod y nefoedd yn ymddibynu ar yr ail-enedigaeth yma i ddyn, ac oni fyddai i'r maban gael ei fedyddio, na allai *gan hyny* gael ei ail-eni; ac oni fyddai iddo gael ei ail-eni, na allai fod yn gadwedig; o ganlyniad, yr oedd gwrthwynebwyr bedydd mabanod yn cael eu cyfrif gan y lluaws annwybodus, fel yn wrthwynebwyr i iachawdwriaeth mabanod; ac o herwydd hyny yn cael eu cashau gyda chasineb creulawn ac adwythig. Fel hyn fe ddaeth yn bwnc o angenrheidrwydd ac o gallineb cyffredin i gilio i leoedd cymharol annghysbell, tuhwnt i gyrhaedd, neu o leiaf, tu allan i awdurdod yr erlidigaeth poblogaidd; ac yno, yn yr encil-leoedd dirgelaidd hyn, i ymlynu yn ddiysgog, wrth y gwirionedd, ac i'w gadw rhag cael ei ddiffoddi yn hollol o blith dynion. Ac fel hyn y darfu cefnogwyr bedydd y crediniol ymneillduo, ac i'r ffyddlondeb hwn yr ydym yn ddyledus

trwy Dduw, fod yr ordinhad Gristionogol henafol o ymroddiad personol i'r Gwaredwr, trwy gyffelybiaeth apwyntiedig o'i farwolaeth ac o'i adgyfodiad Ef, wedi cael ei diogelu hyd yn awr yn y byd. Yr oedd yr ymlynwyr anrhydeddus hyny. wrth wirionedd pur Crist, yn gallu gadael llysoedd, dinasoedd, a thyrfaoedd defodol (*fashionable*), ond ni allasant adael ffydd etholedigion Duw; yr oeddynt yn llawen, yn gallu aberthu cymdeithas y moesgaryddion (*polished*), manteisicn swydd, a'r holl ffyrdd i gyfoeth ac anrhydedd daiarol, ond ni allent aberthu eu Gwaredwr, eu cydwybodau, na'u Duw. Rhodder pob anrhydedd i'r cyfryw ddynion, "y rhai nid oedd y byd yn deilwng o honynt." Idd eu nheillduedigaeth fynyddig, idd eu sel hunan-ymwadol, a'u cariad anniffoddadwy at wirionedd Dwyfol, yn nesaf i Dduw, yr ydym ni yn ddyledus am ein rhyddid, am ein crefydd, ac am ein Biblau. I bob golwg dynol, oni bai'r ymddygiad hwn o eiddo y fath ddynion, buasai yr oll sydd gyssegredig a santaidd, er ys amser maith cyn hyn, wedi eu halltudio oddiar wyneb y ddaiar. Hwy oeddynt wirioneddol "halen y ddaiar," ac oni bai eu ffyddlondeb diysgog hwy, fel offerynau wedi eu defnyddio gan Dduw y gwirionedd, buasai ein byd ni wedi myned yn esgyrn-dy, yn Gehenna, ac yn fedd mawr agored, yn llawn o esgyrn dynion meirw, yn nghyda phob aflendid.

Yn mhlith y dynion ffyddlawn hyn, mae gweddillion gwasgaredig y gymdeithas ag oedd yn Mangor, a ddisgrifiwyd yn y canrif blaenorol, yn haeddu lle anrhydeddus. Oblegyd er fod y sefydliad gwerthfawr hwnw wedi ei hollol ddistrywio, llawer o'i aelodau wedi eu lladd, a'r gweddill wedi eu gwasgaru, etto, fe fyddai yn groes i bob ffaith adnabyddus, o'r un natur, i dybied, fod eu hegwyddorion wedi hollol ddiflanu. Yn ol y cyfrifon goreu sydd genym ar y pwnc, yr oedd yn Mangor, 2100 o "fynachod;" ac

o'r rhai hyn yr oedd 1200, yn agos i le yr ymladdfa rhwng y Brythoniaid a'r Saxoniaid, ac ni ddiangodd onid deg-a-deugain o honynt. Etto, beth a ddaeth o'r deg-a-deugain hyny, yn nghyd â'r 900 arall a arosant yn Mangor? Y casgliad teg yw, iddynt ymneillduo efo eu gilydd, neu fyned yn wasgaredig i amddiffynfeydd mynyddig Cymmru, lle y cawsant ddiffynfa iddynt eu hunain, ac i'r ffydd, ag oeddynt yn gadw yn anwylach na bywyd. Yno, yn ol pob tebyg, y darfu iddynt sicrhau cartrefle, a dyfod yn *Waldensiaid Prydeinig*—yn warcheidwyr egwyddorion y Bedyddwyr, trwy yr oesau hyny pan ydoedd tywyllwch Pabyddol yn dallu meddyliau pawb eraill trwy holl barthau Gorllewinol a Dwyreiniol y byd Ewropaidd. Mae Dr. Benedict,* yn dyweyd, "Mae yn dra sicr am y Bedyddwyr Cymmreig, fod eu hegwyddorion wedi byw yn gysson yn eu nheillduedda u mynyddig, o'r oes apostolaidd hyd yr amser presenol, er nad oedd y bobl bob amser yn ymgynnull mewn Eglwysi. Yr oedd eu gwlad yn eu golwg yn Piedmont arall, lle yr oedd y tystion dros y gwirionedd wedi cael diffynfa ac ymguddfa mewn amseroedd o dywyllwch a choelgrefydd cyffredinol. Gyda y gwawriad cyntaf o'r goleuni dychweledig, *yn mhell o flaen y cyfnewidiadau eglwysig ar y cyfandir neu yn Lloegr*, yr ydym yn canfod y Bedyddwyr Cymmreig yn mhlith y diwygwyr cyntaf; ac nid ymddangosent i fod yn *newyddianyddwyr* yn y gorchwyl, ond hwy a ddaethant allan i amddiffyn eu hegwyddorion, ac i ddwyn allan weithrediadau arferol yr enwad, gyda golwg ar eglwysi a chymmanfaoedd, fel rhai ag oedd yn berffaith hyddysg *(familiar)* yn eu hegwyddorion."

Mae y diweddar Mr. Thomas, o Leominster, yr hwn, nid oes un ysgrifenwr diweddar wedi talu sylw manylach nag ef, i'r rhan hon o hanes y Bedyddwyr, yn cadarnhau yr hysbysiad uchod mewn geiriau

* History of the Baptist Denomination, pages 344, 345.

hynod o eglur, "Yr wyf yn cael fy nhueddu i gredu" medd Mr. Thomas, "fod personau yma a thraw, trwy holl dywyllwch Pabyddiaeth, yn mhlith yr hen Frythoniaid ag oeddynt yn meddu gwybodaeth gadwedigol o Grist, er nad oedd ganddynt ddigon o wrolder i ymddangos yn gyhoeddus yn erbyn llygredigaeth cynnyddol yr Eglwys Rufeinig. Fy marn I yw fod ymrysoniadau agored cyntaf goleuni Protestanaidd yn erbyn tywyllwch Pabyddol yn mhlith ein cydwladwyr wedi dechreu *yn*, neu yn *agos* i Olchon, ac yn mhell cyn bod yr enw Protestant yn adnabyddus, hyd y nod yn *Germany*." At hyn gellir ychwanegu tystiolaeth anmhartiol Eglwyswr, yr hwn sydd yn sylwi o barthed ymledaeniad Pabyddiaeth mewn lle arall, ac yn dyweyd,—"Nid oedd darostyngiad y Cymmry, mewn gwirionedd, ond ychydig mwy nag mewn enw. Yr oedd golygiadau ag oeddynt yn mhell o gyduno â golygiadau yr *Anglo-Italian*, yn parhau yn helaeth i gael eu mhabwysiadu gan ddisgynyddion o ein Heglwys henafolol yn mharthau Gogleddol y Dywysogaeth; ac mae y ffaith yn bob peth ond yn sicr, fod yr Ysgrythyrau Santaidd yn feddiannol ganddynt yn eu hiaith frodorol eu hunain, yn ein tueddu yn rhesymol i edrych arnynt fel yn meddu mwy o gymmeriad Cristionogol na'r rhai hyny oedd yn cael eu harfer yn mysg eu cymmydogion llai breintiedig." *

Oddiwrth y tystiolaethau unol hyn, at y rhai y gellir gwneyd ychwanegiadau mawrion, pe gofod yn caniatau, gallwn yn briodol iawn gasglu y ddau beth canlynol,—Yn gyntaf, Fod y gweddill hwnw o fynachdy Bangor, pan yrwyd hwy o'r eisteddle hono o ddysgeidiaeth a duwioldeb, wedi cymmeryd noddfa yn mysg mynyddoedd Gogledd Cymmru. Yn ail, eu bod hwy yn y dirgel-leoedd mynyddig hyn wedi cadw athrawiaethau mawrion a gorchymynion Cristionogaeth

* Baxter's Church History, page 261.

ddechreuol trwy oesau tywyllion y goelgrefydd Babyddol, ac fod y gwirioneddau Ysgrythyrol hyn wedi cael eu dwyn i oleuni ar ol hyny, gan eu hiliogaeth, hyd y nod, cyn y Diwygiad dan Luther. Fel hyn, fe ddaeth mynyddau Cymmru yn amddiffynfa gyssegredig i'r gwirioneddau, y rhai yr oedd Pabyddiaeth wedi llafurio yn ofer i'w halltudio oddiar y ddaiar.

Ar gyfandir Ewrop, fe gafwyd amddiffynfa gyffelyb i'r arferiad dechreuol, yn nghlych ymylon ac yn nirgel-leoedd y Pyrenees, y rhai sydd yn gwahanu rhwng Ffrainc a'r Yspaen. Asturias, Old Castile, Arragon a Catalonia ar yr ochr Yspaenaidd, Languedoc, Tholouse, Rousillon, Narbonne, a pharthau eraill, ar yr ochr Ffrengaidd, fuont yn gartrefleoedd i rifedi mawr ag mae Eglwys Rufain erioed wedi eu cyhoeddi yn *hereticiaid.* Mewn athrawiaeth yr oeddynt yn mhell o feddu unoliaeth barn, ac i raddau helaeth heb fod yn gywir-farn; eithr mewn un pwnc o arferiad Cristionogol, yr oeddynt mor unol â'u gilydd a phe buasent un person, a hyny oedd yn eu gwrthodiad o fedydd mabanod. Ni fedyddient neb heb broffes bersonol o ffydd; ac ar gyfrif eu gwaith yn ail-fedyddio y rhai a ddelai i'w cymdeithas oddiwrth yr Eglwys Babyddol, hwy a alwyd yn ail-fedyddwyr. Y rhai hyn oeddynt dadau y dynion dewrion a ffyddlon hyny, y rhai yn y deuddegfed canrif, a gawsant yr enw Albigensiaid, a'r rhai a erlidiwyd mor greulon gan yr Eglwys Babyddol. Ac, hyd y nod, yn y canrif hwn, prif offeryn yr Eglwys hono a ddechreuodd y gwaith hwn o dywallt gwaed. Penderfynodd Charlemagne, neu fel mae'n cael ei alw'n gyffredin, Charles the Great, os yn ddichonadwy, i ysgubo yr holl hereticiaid o'r byd; ac yn nygiad oddiamgylch ei amcan fe ddefnyddiodd gleddyf y llywodraeth i dywallt gwaed dosparth helaeth o'r cyfandir. Gyda medrusrwydd y ryfelwr, a chreulondeb yr annwaraidd-ddyn fe ddarostyngodd, ar ol eu gilydd,

y Saxoniaid, y *Frisians*, a'r *Huns* i gydnabyddiaeth o'r ffydd Babyddol. Ac er mwyn cyflawni ei gynllun yn fwy effeithiol, fe gymmerodd gynghor eglwysyddion blaenaf yr oes hono, ond yn fwyaf neillduol Alwin, *Abbot*, Canterbury, yr hwn a wahoddodd o Loegr; a darfu yr esgobion *duwiol* hyn gynghori ei fawrhydi, na fuasai dim yn profi mor barhaol effeithiol i attal gaugred (*heresy*), a *bedydd mabanod.* Yna efe a orchymynodd i'r llwythau gorchfygedig, eu bod i gymmeryd eu bedyddio eu hunain, neu ddyoddef marwolaeth, am esgeuluso hyny, ac fod eu plant hefyd i gael eu bedyddio yn nghorff blwyddyn ar ol eu *genedigaeth* neu fod yn ddeiliaid dirwyon trymion.* Yn y dull cythreulig hwn y gosododd efe ran helaeth o'r Cyfandir wrth ei draed, ac yna a alwodd y gwaith yn argyhoeddiad! "Y dyn hwn," medd ysgrifenydd Ffrengaidd, "yr hwn a dywalltodd y fath genllif o waed, a yspeiliodd ei neiod o'u hetifeddiaeth, ac sydd wedi cael ei osod gan Eglwys Rufain yn mhlith rhifedi ei saint."

Yn mhlith dyffrynoedd a dirgel-leoedd mynyddig Ffrainc a'r Yspaen, fe gafodd *heresi*—yr heresi o ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddyn, gartrefle am amryw ganrifoedd; a chyda yr eithriad o'r erlidigaeth dan Charlemagne, fe gafodd ei phroffeswyr aros heb eu haflonyddu hyd y flwyddyn 1270. Dros y cyfnod maith hwn, er eu gwahaniaethau o barthed amrywiol byncian eraill, fe gredir oddiar dystiolaeth hynod gref,. fod trigolion parthau y Pyrenees yn dal yn ddiysgog wrth yr arferiad o fedydd y crediniol, ac yn y pwnc gorbwysig (*vital*) hwn fe fuont yn dystion ffyddlawn i wirionedd Duw. Yr oedd y *Paterines* yn Itali, a'r Pauliaid yn y Dwyrain, hefyd, yn gadarn yn eu gwrthwynebiad i fedydd mabanod. Mae, hyd y

* Hon ydoedd y ddeddf *gyfreithiol* gyntaf yn Ewrop o blaid bedydd mabanod.

ond, Mosheim, yn addef hyn, pan mae yn dywedyd am y Pauliaid, "Mae'n ddigon amlwg eu bod yn gwrthod bedydd mabanod. Nid oeddynt yn cael eu cyhuddo o unrhyw gyfeiliornad gyda golwg ar fedydd."

Yr oes hon er hyny, a'i chymmeryd ar y cyfan, ydoedd yn un o "ennill" (*gain*) ac nid o "dduwioldeb." Yr oedd bedydd mabanod yn cael ei gefnogi nid yn unig fel moddion i ddercbafu offeiriadaeth lygredig, ond am ei fod yn dwyn "budr elw" i'w coffrau. Fe brofodd ei hunan yn ddyfais ag oedd yn *talu* yn dda, ac fe ddarfu y chwant am aur ei wneyd, o'r diwedd, yn ffynnonell gormesiad arianol ar y bobl yn gyffredinol. Yr oedd rhai o'r offeiriaid mwyaf meddylgar yn canfod y canlyniadau niweidol fuasai y prisoedd mawrion afresymol hyn, yn fuan yn gynnyrchu; ac o herwydd hyny, mewn cynnadledd o esgobion Prydeinig a gynnaliwyd yn agos i le a elwid y pryd hyny Clonesho, yn y flwyddyn 747, fe benderfynwyd yn mhlith pethau eraill, "nad oeddynt hwy (yr offeiriaid) i gymmeryd arian am fedyddio mabanod." Gellir tybied, oddiar dir teg fod y ddeddf ddoeth hon yn tueddu i wneyd y newydd-beth ei hun yn llawer mwy derbyniol gan y bobl.

Oddiwrth y ffeithiau blaenorol y mae yn hollol amlwg fod bedydd mabanod yn ddyledus am ei ledaeniad, *yn benaf*, i gleddyf Charlemagne; fod bedydd y crediniol yn cael ei ystyried yn heresi yn haeddu y gosp drymaf, ac nad dim ond nerth y gwirionedd, a grâs neillduol Duw a gadwodd yr ordinhad fawr apostolaidd hon rhag llwyr ddifodiant yn yr wythfed canrif o'r cyfnod Cristionogol.

---

## CANRIF Y NAWFED.

Yr oedd Cristionogaeth wleidiadol yn awr wedi ei gorseddu. Yr oedd yr Offeiriad mawr o Rufain wedi dyfod o amgylch Tywysogion y byd Gorllewinol gyda ei ddylanwad dichellgar, nes y daethant yn ddeiliaid (*vassals*) parod iddo, a chyfrifent yn anrhydedd i gael cyflawni ei arch. Yr oedd "teyrnasoedd y byd wedi dyfod yn deyrnasoedd" y Pab o Rufain, yr hwn trwy ei oruchwylwyr diofrydedig a'i gefnogwyr oedd wedi gwneyd y breninoedd Gorllewinol i fod yn greaduriaid hollol o dan lywodraeth yr offeiriaid—yn gymmaint felly ag y gallasai eu balchder byth ddymuno iddynt fod. Nid oedd eu crefydd (os oedd rhywbeth a feddianent yn deilwng o'r enw) yn ddim amgen na gwers bachgen ysgol oddiwrth y Pab, ac nid oedd holl wrthddrychau eu duwioldeb ffugiol ond cynnifer a hyny o foddau i dderchafu yr eglwys, pen a llywodraethwr yr hon a eisteddai mewn seguryd a gloddest ardderchog yn mhrif-ddinas adfeiliedig y byd.

Fel canlyniad rhy naturiol, fe dderbyniodd defodau mwyaf cyssegredig crefydd, ond yn neillduol yr ordinhad o fedydd, arwyddogrwydd *gwleidiadol* yn hytrach nag *ysprydol;* ac fe wisgodd holl we-waith yr ordinhadau Efengylaidd ymddangosiad dernyn o beiriant, Gwleidiadol, yn fwy na gwasanaeth yn cael ei roddi o galonau deallgar i Reolwr mawr y greadigaeth. Yr oedd hyn yn cael ei gario mor bell, fel y darfu i Lewis, mab Charlemagne, pan geisiodd Harald Klack, brenin bychan Jutland, ganddo ei adferyd ef i'w orsedd, yr hon yr oedd Regner wedi ei ymddifadu o honi,—y darfu i Lewis addaw cydsynio ar yr ammod fod Harald i gofleidio Cristionogaeth; ac fel mater o gwrs, ei fod i gymmeryd ei fedyddio. Ar hyn, y cydsyniodd Harald, ac efe yn nghyd â'i frawd, a fedyddiwyd yn Ments, O.C. 826. Dychwelodd i'w wlad ei hun, a dau dduwinydd

o'r Eglwys Babyddol gydag ef; ac fe gafodd y cydsyniad hwn a'r ammodau a wasgwyd arno gan Lewis, ei anrhydeddu a'r enw argyhoeddiad (*conversion*)! Ond pa fodd yr oedd ef yn gwybod beth oedd argyhoeddiad gwirioneddol yn olygu, neu beth oedd bedydd yn gynnwys, ni chafodd, mewn un modd ei wneyd yn bwnc o ymofyniad. Fe ddaeth yn union, yn Gristion *gwleidiadol;* a dyna yr oll oedd yr Eglwys Babyddol yn ofalu am ei gyflawni. Yr oedd hyn yn arddangosiad, pa fath grefydd oedd yn cael ei lledaenu yn y canrif hwn; ac mae yn gwasanaethu i ddangos mor ychydig oedd y bobl yn wybod am fedydd y crediniol, ac mor ychydig oedd y gofal a gymmerid i gadw i'r byd ei arwyddocad gwirioneddol.

Fe barhaodd y Paterines yn Itali, a'r Paulicians yn y Dwyrain yn ansigledig, er yr holl ddirywiaeth mawr oedd yn cymmeryd lle o'u hamgylch. Fe hysbysir, mewn modd credadwy, am y Paterines, fod "y rhai hyny o'u heglwysi, lle yr oedd bedydd yn cael ei weinyddu, yn cael eu hadnabod wrth yr enw, eglwysi bedyddiadol; ac 'roedd yr holl Gristionogion, yn y gymmydogaeth, yn ymdyru i'r cyfryw eglwysi i gael eu bedyddio. Pan ddarfu Cristionogaeth ymledu i'r wlad, yr oedd y bobl yn cyfarfod i addoli lle y gallent; ond yr oedd yr holl ymgeiswyr am fedydd yn dyfod i'r eglwys fedyddiadol i dderbyn yr ordinhad." Yn Asia, darfu y Paulicians gymmeryd gafael ar y goddefiad a ganiatawyd iddynt gan yr Ymerawdwr Nicephorus, yn nechreuad y canrif hwn, ac a wasgarasant eu golygiadau mor helaeth, nes y daethant yn arswydus luosog a chryfion, trwy yr holl Ddwyreinfyd. Ond er hyny, ni pharhaodd hyn yn hir, oblegyd o dan Leo gynddeiriog, cawsant eu hela ar hyd y mynyddoedd; ac o dan yr Ymerodres farbaraidd, Theodora, yn y fl. 842, cawsant ddyoddef y creulonderau mwyaf dychrynllyd. Cafodd *can' mil* o honynt eu rhoddi i farwolaeth gyda holl boenedigaethau

coethedig malais uffernol, ac ymlidiwyd y gweddill ar wasgar i blith y cenedloedd cymmydogaethol. Darfu lluaws o honynt grwydro i Ewrop, lle yr hanasant yr hadau oeddynt yn wrthwynebol i'r uwcharglwyddiaeth Rufeinig, ac a osodasant sylfeini i amryw eglwysi, gan y rhai yr oedd bedydd y crediniol yn cael ei arfer a'i gadw am oesau cyn toriad allan y diwygiad mawr Lutheraidd.

Yn mhlith y rhai a ymwrthodasant, neu y rhai na ddarfu iddynt erioed fabwysiadu bedydd mabanod, fe gymmerodd Hinchmar, Esgob Laudan, yn Ffrainc, safle dra uchel. Meddiannodd ef y gwroldeb dynol i *wrthod* yr arferiad; ac 'roedd ei esgobaeth a'i bobl yn cael eu cyhuddo yn Nghymmanfa Accinicus o beidio bedyddio plant. Cymmerodd hyn le o gylch y flwyddyn 850. A chan fod y dyn annibynol hwn wedi bod yn cael ei ddifrio gan Brotestaniaid a Phabyddion, mae yn nesaf i sicrwydd ei fod ef yn beiddio gwahaniaethu oddiwrth y ddau ddosbarth trwy wrthod bedyddio mabanod annwybodus yn ddeiliaid ffydd, yn nghylch yr hon ni allent feddu un math o wybodaeth.

Ond tra mae y profion tuhwnt i ammheuaeth fod bedydd mabanod wedi ymledu yn ddirfawr yn y canrif hwn, etto y mae yr un mor sicr mai *bedydd* oedd yn cael ei arfer ac nid *taenelliad*. Er fod yr eglwysi wedi myned yn mhell oddiwrth y gwirionedd o barthed i *ddeiliaid* bedydd, er hyny, yr oeddynt wedi parhau yn ffyddlon gyda golwg ar y *dull*. Fe brofwyd hyn yn ein gwlad ni, gan gynnadledd neu gymmanfa daleithiol a gynnaliwyd yn Calcuith, dan Wulfred, Arch-esgob Canterbury, yn y flwyddyn 816; ac o ffynonellau eraill o'r un natur. Yr oedd y ddadl (mor belled ag 'roedd un yn bod hefyd) yn gorwedd rhwng y maban ac un mewn oedran (*adult*); ac nid rhwng taenelliad a throchiad; ac fe ddangosir, mewn rhanau dyfodol o'r hanes byr hwn, fod taenelliad wedi gweithio ei ffordd i'r Eglwys trwy newydd-

bethau (*innovations*) araf a graddol, yr hwn bob yn ychydig ac ychydig a argymmerodd le ag oedd yn perthyn yn gyfiawn i ordinhad llawer mwy darluniadol ac arwyddluniol.

Mae Walafridus Strabo, yr hwn oedd yn byw yn y canrif hwn, yn ysgrifenu fel y canlyn:—"Fe ddylid sylwi fod y grâs bedydd, yn yr amser cyntefig, yn arfer cael ei roddi i'r rhai hyny *yn unig* ag oeddynt wedi cyrhaedd y fath addfedrwydd corff a meddwl, fel y gallent ddeall beth oeddynt freintiau (*benefits*) bedydd, beth oedd yn cael ei gyffesu a'i gredu; ac yn ddiweddaf beth oeddynt y pethau ag oeddynt i gael eu cyflawni a'u cadw gan y rhai hyny ag oedd yn cael eu hail-eni yn Nghrist. Mae Colomesius, fel y mae yn cael ei ddyfynu gan ysgrifenydd arall, yn sylwi fel y canlyn ar y frawddeg hon—"Oddiwrth hyn, gyda rheswm, y gellwch gasglu, mai personau mewn oedran yn unig ydynt briodol ddeiliaid bedydd." Mewn perffaith gydgordiad â hyn, y mae rheol cynnadledd Paris, yr hon a gynnaliwyd yn y flwyddyn 829, yr hon (reol) sydd yn darllen fel hyn:—"Yn nechreuad Eglwys santaidd Duw, nid oedd neb yn cael ei dderbyn i fedydd, heb ei fod yn flaenorol i hyny wedi cael ei addysgu yn y *sacrament* o ffydd a bedydd, yr hyn sydd yn cael ei brofi gan eiriau Paul; Rhuf. vi. 3, 4." (Booth's P. E., vol. i. p. 374.) At y tystiolaethau hyn y gellir ychwanegu yr un o gynghor Laodicea, fel mae yn cael ei ddyfynu gan awdwr y *Centenary Traces of Baptism*, &c., yr hon reol oedd yn penderfynu, "fod y rhai hyny a ddeuant i ymofyn am fedydd, i gael yn gyntaf eu haddysgu yn y ffydd, a gwneuthur cyffes o honi." Oddiwrth yr awdurdodau hyn, mae'n amlwg fod yn y canrif hwn, sef y nawfed, luaws o eglwysi, y rhai oeddynt yn cael eu cynddrychioli mewn cynghorau pwysig, etto oeddynt yn ffyddlawn i'r gwirionedd cyntefig o eiddo Duw, gyda golwg ar fedydd y *crediniol*. Yr

oedd Rhufain, a'r eglwysi Gorllewinol, yn gyffredin, mewn gwirionedd, wedi ymadael oddiwrth y gwirionedd hwnw; ond er hyny, nid oedd y Dyn Pechod etto wedi gorchuddio yr holl ddaiar gyda thywyllwch ei gysgod gorgynnyddol. Yr oedd yn nhir yr Aipht lawer Goshen fach wedi ei gadael yn ngoleuni neillduedig y rhai yr oedd gwir Israel Duw yn diogelu ei ffydd bur oddiwrth halogedigaethau yr eulunaddoliaeth ag oedd o amgylch ogylch.

Fod y tywyllwch yn dew, y cyfryw ag y gellid ei deimlo, yn enwedig yn Lloegr, (ac nid oedd y Cyfandir, ar y cyfan, yn ddim gwell), sydd amlwg oddiwrth lythyr neillduol o eiddo y Brenin Alfred; yr hwn sydd yn cael ei roddi gan Dr. Henry o Spelman. Ysgrifenwyd ef, ymddengys, at Wulfseg, Esgob Llundain; a phan yn disgrifio yn eglur yr annwybodaeth dychrynllyd i'r hwn yr oedd Lloegr wedi suddo yn amser Alfred, mae hefyd yn profi, tuhwnt i bob cecraeth ragoroldeb duwioldeb, yn nghyda gwybodaeth y Prydeiniaid, yn *flaenorol* i genadwraeth Awstin o Rufain. Mae y llythyr yn dyweyd, "Rhaid i mi eich hysbysu, fy nghyfaill anwyl, fy mod I yn fynych wedi dwys feddwl am y dynion dysgedig a doethion, y rhai gynt a flodeuasant yn y genedl Sacsonaidd, yn mhlith yr offeiriaid a dynion eraill. Y fath amseroedd dedwydd oedd y rhai hyny! Y pryd hyny yr oedd y tywysogion yn llywodraethu eu deiliaid gyda doethineb mawr, yn ol Gair Duw; ac a ddaethant yn glodfawr ar gyfrif eu gweinyddiad doeth a chyfiawn. Pryd hyny yr oedd yr offeiriaid hefyd yn ddiwyd mewn darllen, myfyrio, ac addysgu; ac 'roedd y wlad hon mor enwog mewn dysgeidiaeth fel yr oedd amryw yn dyfod yma o barthau tramor i gael eu haddysgu. Y pryd hyny (cyn i bob peth gael ei annrheithio a'i losgi) yr oedd yr eglwysi a'r mynachdai yn cael eu llanw â llyfrau rhagorol, mewn amrywiol ieithoedd. Pan wyf yn edrych yn ol ar hyn,

yr wyf weithiau yn rhyfeddu na ddarfu y dynion dysgedig hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwasgaru dros holl Loegr, gyfieithu y goreu o'r llyfrau hyn idd eu hiaith frodorol eu hunain. Ond yn fuan, yr wyf yn ateb fy hunan, na allasai y dynion doethion hyn byth ddychymmygu y buasai dysgeidiaeth yn cael ei hesgeuluso gymmaint fel ag i wneuthur hyn yn angenrheidiol; ac eu bod yn credu, mwyaf o ieithoedd fuasai yn cael eu deall, mai mwyaf fuasai dysgeidiaeth yn ffynu mewn unrhyw wlad."

Mewn ychwanegiad at y llythyr hwn gellid dyfynu rhagymadrodd Alfred idd ei gyficithad o "*Gregory's tract on the Duties of Pastors*," i ddangos dyfnder yr annwybodaeth ag oedd wedi ymdaenu dros yr holl dir. Yn y gwaith hwnw mae y brenin yn cwynfan nad oedd cymmaint ag un offeiriad yr ochr Ddeheuol i'r Thames, ac ond ychydig iawn yr ochr Ogleddol i'r Humber, a allent esbonio y gwasanaeth Lladinaidd. Ac er ei holl sel o blaid dysgeidiaeth, yn nghyd a'r cyfleusderau a ddygodd oddiamgylch er ei gyrhaeddiad, etto yr oedd y difaterwch cyhoeddus mor fawr, fel y pasiwyd cyfraith fod pob *freeholder* ag oedd yn feddiannol ar ddim llai na dau hide* o dir, yn cael gorchymyn i anfon ei blant i'r ysgol. Gan fod hyn yn gyfartal i feddiant yn nghylch dau cant erw o dir, beth raid fod cyflwr y *bobl*,—y gweithwyr neu fel y gelwid hwy y pryd hyny, *the villeins*, y rhai oedd yn gwneyd i fyny gorff y boblogaeth? Os oedd dysgeidiaeth *orfodol* yn angenrheidiol mewn cyssylltiad a thirfeddiannwyr mawrion, a hyny hyd y nod, yn amser Alfred, beth raid fod annwybodaeth ddofn, dywell, a difesur, y miloedd nad oedd y cyfryw ddarpariad wedi ei wneyd ar eu cyfer?

Yn y fath sefyllfa o annwybodaeth, bron, farbaraidd, yr oedd barn gywir a goleuedig o barthed bedydd y crediniol yn beth annichonadwy i fodoli. O

* *Hide* o dir—digon o waith i un aradr yn y flwyddyn

herwydd hyny, yr oedd yr ordinhad yn cael edrych arni fel peiriant y llywodraeth, neu ddarn o beirianwaith gwleidiadol. Yr oedd hyd y nod Alfred ei hunan, yr hwn tuhwnt i bob ammheuaeth, oedd y dyn blaenaf yn ei oes,—yr oedd ef yn defnyddio bedydd yn y modd y nodwyd, pan orchfygodd ef Guthrum y pagan a'i finteiodd Danaidd, un o'i ammodau heddwch â hwy oedd, fod y Daniad a'i ganlynwyr i ymostwng i fedydd. "Nid oedd gan Guthrum a'i fyddin," medd Hume, "wrthwynebiad i'r cynnyg, *ac heb unrhyw addysgiaeth, dadl neu gynnadledd derbyniwyd hwy oll i fedydd.* Atebodd y brenin dros Guthrum wrth y bedyddfa, rhoddodd iddo yr enw Athelstan, ac a'i derbyniodd fel ei fab mabwysiedig." At hyn y mae Theirry yn ychwanegu pwnc o bwys. Mae yn dyweyd i Guthrum "addaw os buasai i'w orchfygwyr, (Alfred â'i fyddin) roddi fyny i'w herlyn, y buasai iddo ef (Guthrum) a'i wŷr, gymmeryd eu bedyddio, ac y buasent yn ymneilldno i gyfandir East Anglia, (Gorllewin-barth Lloegr) i drigo yno mewn heddwch. Y brenin Saxonaidd (Alfred) yr hwn nid oedd yn ddigon cefnog i ddwyn y rhyfel i'w eithafion, a derbyniodd y cynnygion hyn am heddwch (O.C. 879.) *Darfu Guthrum, a chadbeniaid paganaidd eraill dyngu, yn enw breichel (bracelet) ag oedd wedi ei chyssegru i'w duwiau eu hunain, y buasent yn derbyn bedydd yn ffyddlawn.*"

Yn ddifrifol,— a oedd modd bod rhywbeth yn fwy coeg-chwareuol, neu hyd y nod, yn fwy halogedig? Penaeth paganaidd a'i gadpeniaid yn derbyn *bedydd (Cristionogol)*? ac yn tyngu *yn enw eu heulun-dduwiau paganaidd eu hunain*, i fod yn ffyddlon idd ei rwymedigaethau! A fu erioed bethau mwy gwrthwynebol a gwrthun? Neu a allai fod, trwy unrhyw ddichonolrwydd wawdiaeth mwy cyflawn ar grefydd Mab Duw? Ac yr oedd hyn yn cael ei alw yn *fedydd Cristionogol*! Ac fe safodd ein Halfred anrhydeddus ni yn fachniydd (*sponsor*) dros ffyddlondeb y barbariad paganaidd

hwn? Etto i gyd yr oedd hwn yn fedydd *Cristionogol* yn y nawfed canrif! Wedi unwaith symud peth o'i le priodol, nid oes wybod pa mor bell yr â o'r lle hwnw.

Wedi casglu yn nghyd yr holl dystiolaethau sydd yn ein meddiant ar y pwnc o fedydd, mor belled ag mae yn perthyn i'r canrif hwn, ni all fod ond un casgliad gyda golwg ar yr archiad gwleidiadol trwy yr hwn yr oedd yn cael ei orfodi ar ddynion, yn nghyd a'r annwybodaeth blentynaidd trwy yr hon yr oedd yn cael ei dderbyn. Yma a thraw, mewn lleoedd anghysbell, a thuallan i ddylanwad awdurdod gwladol *uniongyrchol*, yr oedd eithriadau anrhydeddus o Gristionogion goleuedig, y rhai ni weinyddent fedydd i neb ond i'r rhai a gyffesent eu hunain yn gredinwyr yn Nghrist. Yn mhob cyfeiriad arall yr oedd yr ordinhad gyssegredig hon yn cael ei diraddio i safle breintiaeth wleidiadol, ac yn mhob man yn cael ei defnyddio i wasanaethu eglwysi gwladol (*state churches.*) Yr Eglwys Babyddol oedd mam gyffredinol yr eppil luosog yma; ac felly y mae amddiffynydd mawr bedydd mabanod, Dr. Wall, yn onest yn addef mai Pabyddiaeth, tuhwnt i bob dadl, ydyw rhiant *taenelliad*, yr hwn, bydded iddo byth gael ei gofio, sydd ddyfais gyfrwys offeiriadol i wneyd yr amcan *gwleidiadol* yn unig yn fwy derbyniol gan y bobl yn gyffredinol. Mae Dr. Wall yn dyweyd fod "*yr holl wledydd yn y rhai y mae gallu traws-feddiannol y Pab, neu yn y rhai y bu gynt yn cael ei hawlio, wedi rhoddi heibio i drochi plant yn y bedyddfa; ond fod yr holl wledydd eraill yn y byd, y rhai ni chydnabyddasant awdurdod y Pab yn ei arfer, sef trochi; ac ni chafodd basins, oddieithr mewn amgylchiadau o angenrheidrwydd eu harfer erioed gan Babyddion, na chan unrhyw fath o Gristionogion eraill yn yr holl fyd, nes cael eu harfer yn gyntaf ganddynt hwy eu hunain* (sef y Pabyddion.") Mae yr addefiad hwn o eiddo Dr. Wall yn dra phwysig gan ei fod yn profi

rhyswr (*champion*) mawr bedydd mabanod yn gystal a chyffesu, mai dyfais Pabyddiaeth ydyw *taenelliad*, ac na all ymffrostio o uwch na gwell tadogaeth.

---

## CANRIF Y DEGFED.

O BOB ffurf o halogiad crefyddol, Cristionogaeth wleidiadol fel offeryn offeiriadaeth lygredig ydyw y waethaf a gystuddiodd ddynolryw erioed. Ni ddarfu Paganiaeth, yr hon sydd grefydd wedi ei materioli, erioed wisgo ei swyddwyr gydag awdurdod mor gyflawn dros amgylchiadau y byd presenol, ag y mae Cristionogaeth wyrdroedig wedi bod bob amser yn ei wneuthur; oblegyd ni ddarfu un grefydd erioed o'r blaen gyssylltu y ddau fyd mor agos a'u gilydd, (ag y darfu gwir Gristionogaeth) trwy wneuthur dedwyddwch y naill i ymddibynu ar y cymmeriad a ffurfir yn y llall. Egwyddor flaenaf a sylfaenol y cymmeriad hwnw ydyw ymostyngiad ac ufudd-dod i Dduw; ond pan y mae swyddwyr llygredig yn cyfryngu i dywyllu, ac i wanhau gweithrediad cyfreithlawn yr egwyddor fawr hon, nid oes angen ond am ychydig gyfrwystra i droi y gweithrediad hwn atynt hwy eu hunain; ac yn lle ymostyngiad ac ufudd-dod goleuedig i Dduw, mae yr egwyddor gyssegredig hono yn cael ei throi yn ymostyngiad ac ufudd-dod i'r offeiriad. Yn mhob oes ac yn mhob amgylchiad, pryd bynag mae y bobl yn gwrthod cydnabod ac addef awdurdod Duw, y maent, yn ddieithriad, yn trosglwyddo eu hanrhydedd i'r offeiriad.

Dyma, heb yr ammheuaeth lleiaf, oedd prif amcan Satan yn y ddyfais berffeithgwbl hono o dwyll, a elwir Pabyddiaeth. Cyfundrefn mwy llygredig yn ei holl ganlyniadau—un mwy cyfaddas i yspeilio dyn o'i ddynoliaeth, trwy ymddiried cydwybod a gobaith i drugaredd dyn arall—ni ddychymmygwyd am dani erioed yn nyfnderoedd y llygredigaeth duaf. Y mae

yn troi rheswm ei hunan i fod yn offeryn dichell, ac yn gosod miliynau dirifedi o ddynolryw wrth ewyllys dynion, prif amcan y rhai ydyw gwneyd y bobl yn gaethion mewn trefn i symud ymaith pob perygl oddiwrth orseddau eu gormeswyr. Gormes a chaethwasiaeth oeddynt ddau ben y gadwyn, y rhai yr oedd Cristiongaeth wleidiadol yn cael ei defnyddio i'w hasio i un undeb anngollyngadwy.

Dyma ydoedd cyflwr y byd Rhufeinaidd yn y degfed canrif. Yr oedd meddwl, cydwybod, rheswm, ac i raddau arswydus, yr oedd dynoliaeth ei hunan, wedi bron yn hollol ymgolli o blith y cenedloedd. Yr oedd yr offeiriaid yn rheoli y breninoedd, a'r breninoedd yn llywodraethu er mwyn yr offeiriaid, "Eglwys a Gwlad" (*Church and State*) oedd yn bod i berffeithrwydd; ond yr eglwys oedd y flaenaf, a'r "llywodraeth" wedi hyny: neu mewn geiriau eraill, yr offeiriaid yn *gyntaf*, yna y llywodraethwyr; a draw, draw, yn y pellter, yn tebygu i dir tu-cefn yn cael ei gysgodi mewn rhyw olygfa hanner nosawl gwelid y bobl yn llafurio yn y tywyllwch, i roddi mwy o fantais i'r personau mawrion yn *front* y darlun. Yn nghanol y "tywyllwch tew a chaddugawl" hwn, ni fyddai ond gwaith ofer, a hollol afresymol i ddysgwyl canfod bedydd y crediniol. Ni all dynion heb gydwybod ddyfod yn *gredinwyr* mewn un modd, ac os heb fod yn gredinwyr, yn mha le wed'yn y mae bedydd Crist? Pan mae pethau mewn cyflwr mor dywyll, gymmaint dan law yr offeiriaid, ac mor llygredig, y mae ymroddiad *personol* goleuedig i Dduw trwy fedydd, yn beth hollol annichonadwy—yn gymmaint felly a gweithred wirfoddol yn mhlith y meirw. Mae yr ordinhad Gristionogol fawr hon, os yn ddichonadwy felly yn fwy o resymol wasanaeth na'r lleill, ond pan oedd rheswm ei hunan wedi cael ei roddi fyny i offeiriadaeth annuwiol a drwg, beth oedd yn aros wedi hyny yn y dyn i dalu gwarogaeth iddi? Lle na all, neu na feiddia cydwy-

bod weithredu, y mae maban, neu foncyff pren yn gyfartal briodol ddeiliaid bedydd, gan mai y *meddwl yn unig* a all roddi gwerth *ar*, a grymusder *i'r* weithred. Cymmerer *hyn yna* ymaith, (ac y mae yn hollol farw yn y maban)—os na fydd yno gydwybod, fe fydd clôch, neu faban yn meddu yr un hawl a'u gilydd i'r ordinhad.

Yr hyn sydd waeth na bod yn ddrygioni, y mae anllad-oferedd perffaith yr offeiriadaeth yn y canrif hwn yn cael tystiolaethu am dano, gan holl hanes-wyr y cyfnod hwn. Nid yw Mosheim yn defnyddio iaith rhy grêf, pan mae'n dyweyd, fod llygredig-aethau yr offeiriaid yn "druenus tuhwnt i bob dis-grifiad," ac eu bod wedi "ymdyrchafu i uchder dir-fawr" mewn llygredd yn yr adeg druenus hon ar yr Eglwys. Mae efe yn sicrhau yn mhellach fod yr offeiriaid, gan mwyaf, yn set o ddynion mwyaf diles, "wedi eu caethiwo gan gnawdolrwydd a choelgref-ydd," ac yn alluog i gyflawni y gweithredoedd ffieidd-iaf a mwyaf ysgeler. Mae yn dyweyd fod y dirywiad anfad hwn, "yn ddyledus yn benaf, am ei fodolaeth, i benaethiaid a llywodraethwyr gwaghonedig, yr Eglwys gyffredinol, y rhai oeddynt yn mwynhau eu hunain yn nghyflawniad y troseddau mwyaf adgas, ac yn ymollwng gyda chynhyrfiadau gwylltaf y nwyd-au cnawdol, heb un math o wrthwynebiad, na gofid o'u herwydd;" ac eu bod wedi myned mor bell fel ag i gymmysgu cyfiawnder ac anghyfiawnder; ac fel hyn yn waeth, hyd y nod, na'r gorthrymwyr gwladol, y rhai oeddynt fflangellau cyffredinol dynolryw. Mae yn mhellach yn ychwanegu, y gallwn ffurfio rhyw syniad am y patriarchiaid Groegaidd, oddiwrth esiampl unigol Theophylact, yr hwn yn ol tystiol-aethau yr ysgrifenwyr mwyaf parchus, oedd yn gwneuthur y fasgnach fwyaf annuwiol o ddyrchafiadau (*promotions*) eglwysig, ac nid oedd yn dangos un math o ofal am ddim oddieithr am ei gŵn a'i geffylau,

Pa mor ddirywedig, a phen-rhydd bynag ydoedd y patriarchiaid hyn, a llefaru yn gyffredinol, *yr oeddynt yn llai anfad ac annweddaidd na'r esgobion Rhufeinig*, hanes y rhai, medd yr ysgrifenydd dysgedig hwn, "sydd yn hanes cynnifer o angenfilod ac nid dynion, ac yn arddangos y fath gyfres ofnadwy o droseddau anfad, ysgeler-fawr, a chymmysg-ryw.

Un ffaith a gadarnha gywirdeb y darluniad mwyaf truenus ac isel hwn. Yn nechreuad y canrif hwn yr oedd Eglwys Rufain yn hollol dan reolaeth menyw o'r enw Theodora, yr hon oedd ferch i seneddwr Rhufeinig, ond menyw ag oedd wedi ymollwng yn hollol gyda chwantau cnawdol a ffiaidd. Trwy ei dylanwad hi yn gyfangwbl y cafodd John X. ei wneyd yn Bab. Yr oedd ei mherch Marozia yn waeth na'i mham, oblegyd ar farwolaeth y Pab Stephan VII, hi a gododd i'r gadair babyddol ei mhab, *o'r Pab Sergius* III., yr hwn yn ei argymmeriad rhyfygus o'r anrhydedd hwnw, a gymmerodd yr enw John XII. Dyma y peth ydoedd Rhufain *santaidd* yn y degfed canrif—mam puteiniaid, mewn ystyr helaethach na ffigurol, yn nghyd a melldith yr holl ddaiar.*

Ond tra yr oedd y ddwy Eglwys,—Rhufeinig a Groegaidd yn ffynu o'r braidd yn gyffredinol mewn annwiredd, ac yn profi eu hunain yn blâau cyffredinol yn mhlith yr amrywiol genedloedd, yr oedd y Paulicians, y crybwyllwyd am danynt yn y canrif diweddaf, yn ymledaenu yn ddirfawr trwy holl Ewrop, ac yr oeddynt yn cael eu hanrhydeddu gan Dduw yn nghad-

* Pope John the XII. was even worse than his predecessor In a general council before the Emperor Otho I., he was accused of the most horrid crimes, convicted, and deposed. Among other charges, says Foxe, were the folowing, that he was "noted to be very wicked and infamous, with abominable vices; an adulterer, gamester, an extortioner, a perjurer, a fighter, a murderer, cruel and tyrannous. Of his cardinals, some he put out their eyes, from some he cut off their tongues, some their noses," &c. Such was His Holiness, Pope, John XII.

Even Boronius admits that some of the Popes of this period were "monsters rather than men."

wraeth Ei Air rhag cael ei ddiffodd yn hollol. Hwy a scfydlasant yn benaf yn ngwlad yr Albigeois, yn Neheubarth Ffrainc, ac oddiyno, fel canol-barth cyffredin, hwy a weithiasant i gadw yn fyw hen arferiad cyntefig yr Eglwys. Yr oeddynt yn parotoi eu hymgeiswyr am fedydd trwy addysgiaeth ac ymprydiau gosodedig—yn gwrthod bedydd i fabanod, ac yn gwadu fod bedydd Eglwys Rufain yn Ysgrythyrol. Trwy ddal yr athrawiaeth fanwyl hon, y mae wedi ei ysgrifenu am danynt "eu bod wedi bod yn achos o drallod mawr i'r pabau Rhufeinaidd ar amrywiol achlysuron." Darfu iddynt deithio mewn llafur mawr er mwyn lledaenu y gwirionedd; ac yn mhob lle yr oeddynt yn myned, yr oeddynt yn dàl allan, nad oedd yn nechreuad Cristionogaeth y fath beth a bedyddio plant, ac nad oedd eu cyn-dadau yn arfer y cyfryw beth."

Yr oedd y Paterines, y rhai yn benaf, oeddynt yn trigo yn Itali, gyda ffyddlondeb cyfartal yn amddiffyn gwirionedd cyntefig Duw. "Trwy gyfrwng y Paterines," medd Dr. Allix, "y cafodd y gwirionedd ei gadw yn esgobaethau Milan a Turin." Yr oedd y rhai hyn yn bobl esmwyth, tirion, a charedig, y rhai oeddynt yn dal allan fod y bywyd dynol yn beth cyssegredig, ac nad oedd yn gyfreithlawn i gymmeryd llwon. Yr oeddynt yn frwdfrydig yn wrthwynebol i fedydd mabanod, ac yn ei gondemio ef fel cyfeiliornad. Yn y flwyddyn 946, darfu Atto, esgob Vercelli wneyd achwyniad o barthed y bobl hyn, fel yr oedd offeiriaid eraill wedi gwneyd yn flaenorol; ond ni allasai ef wneyd rhagor nag achwyn arnynt, am nad oedd yn y cyfnod hwnw, *awdurdod cyfreithiol* yn Itali, i gosbi hereticiaid mor ddiniwed. Y ddau gorff hyn o bobol dan amrywiol enwau, oeddynt yr unig ddiogelwyr, *adnabyddus*, o'r gwirionedd i Ewrop ac i'r byd; oblegyd, er fod yn y dyffrynoedd Waldensiaidd, mae'n debygol, nid ychydig o'r rhai ag oeddynt yn parhau

yn eu purdeb, etto nid oedd amgylchiadau wedi caniatau eu gweithrediad cyhoeddus yn yr oes foreu hono.

Ni ddarfu bedydd gan Eglwys Rhufain ddybenu gyda mabanod; ond fel newyddiadau o bob math, darfu hwn estyn ei garedigrwydd i wrthrychau llai cyfaddas, os oedd modd, na mabanod. Mewn gwirionedd, y mae cyfeiliornad bob amser yn garedig, heb feddu dim o i eiddo ei hun i'w roddi, y mae yn ddieithriad yn chwiw-ledrata oddiar arall, ac yn bod yn dylawd fel y creadur gyda yr hwn y mae yn dechreu, y mae yn cymmeryd rhyddid gyda Duw, ac yn dra haelfrydig y mae yn rhoddi ymaith ei eiddo Ef. Felly y mae gyda chymmundeb rhydd yn *awr*, ac yr oedd yn hollol yr un fath gyda bedydd yn y degfed canrif. Nid oedd yn ddigon i fedyddio y *maban*; canys bernid ei fod yn beth hollol mor santaidd, neu iesol i fedyddio y gloch.* Yn nghylch y flwyddyn 960 y Pab John XIII. a gyssegrodd glôch gyntaf yn y Lateran, ac a'i henwodd hi yn ol enw Ioan Fedyddiwr. Yn canfod ei bod yn ddefnyddiol, fe orchymynwyd fod i bod eglwys i gael dwy o leiaf, neu os yn ddichonadwy, dair. Cyn y defnyddid hwy, yr oeddynt yn cael eu golchi, dodi arwydd y groes arnynt, a'u bendithio gan yr esgob, neu mewn geiriau eraill, yr oeddynt yn cael eu bedyddio a'u cyssegru. A phaham nad allent gael hyn? Os fel yn y maban, nad oedd meddwl na chydwybod yn ofynol, pa fodd y gellid gwrthod cloch? Y mae, hyd y nod, cloch gyffredin, *yn y bedydd*, yn hollol mor adnabyddus o natur y ddefod ag yw maban; paham ynte gwrthwynebir bedydd i'r naill mwy nag i'r llall?

Yn ein gwlad ni, fe ddaeth bedydd mabanod, yn y canrif hwn, yn ymarferiad sefydledig, ond mae rhai o'r deddfau a wnaed er ei reoleiddiad, y fath ag i gyn-

* Y gwir yw fod yr un faint yn gymhwys o Fibl dros fedyddio y naill a'r llall; a hyny yw DIM. Cyf.

byrfu gwên. Mae deddfau y *Northumbrian Priests*, yn O.C. 950, yn gorchymyn fel y canlyn:—"Bydded i bob maban gael ei fedyddio o fewn naw diwrnod, neu gosp o chwech *ores;* ac os dygwydd i'r maban farw yn bagan, o fewn y naw diwrnod (*h.y. heb gael ei fedyddio*). bydded i'w rieni wneyd iawn i Dduw, heb unrhyw ddirwy ddaiarol; os ar ol naw diwrnod oed, bydded iddynt dalu deudeg *ores* i'r offeiriad yn ychwanegol." Yn O.C. 960, fe wnawd deddf arall yn nheyrnasiad y Brenin Edgar, fel y canlyn:—"Fod i bob maban gael ei fedyddio o fewn tair-deg a saith o nosau; ac na fydded i neb oedi yn rhy hir i gael "*bedydd esgob*." Ond mor belled ag y gellir gwybod yn awr, yr oedd y bedyddwyr mabanod hyn yn gysson yn ngweinyddiad y *ddwy* ordinhad. Gyda hwy nid peth rhanol ydoedd, nid gweinyddiad un-ochrog, fel yn yr amseroedd diweddaf hyn. Y pryd hyny, yr oedd *cymmundeb mabanod* yn bod, yn gystal a bedydd mabanod. Yn ei araeth i'r offeiriaid, yn y flwyddyn 957, O.C., mae Aelfric yn dyweyd: "Yr ydych i roddi y Cymmun i blant ar ol eu bedyddio, a dyger hwy i'r offeren (*mass*) fel y byddo iddynt ei dderbyn yr holl saith niwrnod y byddont heb eu golchi." Ac fel y byddai iachawdwriaeth y maban annwybodus i gael ei gwneyd yn sicr trwy gymhwysiad o ddwfr (oblegyd yr oedd ail-enedigaeth yn y bedydd yn sylfaen yr holl drefniant), fe ordeiniwyd yn nheyrnasiad y Brenin Aethelred, O.C., 994, fod, "Os byddai i rywun ddwyn maban claf at offeiriad, *nid yw wahaniaeth i ddosparth pa offeiriad y perthyna*, bydded iddo yn ddiattreg ei fedyddio ef." Hon oedd y drwydded ddealledig i'r nefoedd, ac mae yn berffaith amlwg, fod yr holl gyflawniad yn ddistaw yn trosglwyddo y gobaith am fywyd tragywyddol oddiwrth ffydd y gwrthddrych i'r weithred o eiddio'r offeiriad. Fe ddaeth yr offeiriad, fel hyn, yn hollalluog yn ngolwg y dorf annwybodus, mewn pwnc ag 'roedd bywyd

tragywyddol yn gynnwysedig ynddo, ac fel un oedd yn cadw, trwy ddwyfol apwyntiad, "allweddau teyrnas nefoedd." A ydoedd gan hyny yn beth i'w ryfeddu ynte, fod bedydd y *credinol* wedi myned o'r golwg ynhollol yn mhlith y bobl? Beth yn wahanol ellid ddisgwyl oddiwrth sefyllfa pethau ag oeddynt "wedi gwneuthur Gair Duw yn ddirym," trwy ddyfais ddynol afresymol a thwyllodrus?

Mewn geiriau eglur, fe wnawd iachawdwriaeth i ymddibynu ar weithredoedd, ac fe gymmerodd bedydd yr arweiniad yn mhlith yr elfenau hyn o gyfiawnder deddfol. Ond darfu tarddellau eraill o haeddiant dynol ddilyn hyn, a chynnorthwyo i adeiladu gobaith disail am y nefoedd. Mae hyn yn amlwg oddiwrth araeth y Brenin Edgar i Dunstan, y dysgawdwr balch hwnw o hunan-gyfiawnder, yn yr oes annwybodus hon. Mae y brenin yn gofyn iddo,—"Pa feddiannau na ddarfu i mi eu dirmygu, pan oeddit ti yn gorchymyn i mi? Os oeddit ti yn barnu yn briodol roddi rhywbeth i'r tylodion, yr oeddwn i yn barod. Os oeddit ti yn barnu yn briodol i roddi rhywbeth i'r eglwysi, ni oedais i ei gyflawni. Os oeddit ti yn achwyn fod y mynachod, neu swyddwyr eraill (*clerks*) mewn angen am unrhyw beth, oni ddarfu i mi eu diwallu? *Tydi a ddywedaist fod elusenau yn parhau byth, ac nad oedd dim yn fwy ffrwythlawn na'r hyn a roddid at fynachlogydd ac eglwysi*, oblegyd trwy hyn y mae gweision Duw yn cael eu cynnal, a'r hyn sydd yn ngweddill yn cael ei roddi i'r tylodion." Yr oedd y math hwn o dduwioldeb rai prydiau yn cael ei gyfnewid i gyflawniadau o addoliad personol, yn neillduol yn amgylchiadau tylodi neu afiechyd, "Os yn rhy dylawd i wneyd cyfr-dal arianol, caniateid i'r person afiach, yn lle diwrnod o ympryd, i adrodd (ar dafod-leferydd) 220 o Salmau, neu y 119 Salm *(fawr)*, a Gweddi yr Arglwydd chwech o weithiau, neu dri ugain o *paternosters* (Gweddiau'r Arglwydd), gan

blygu y gliniau o'r newydd gyda phob adroddiad, neu y 51 Salm, a Gweddi yr Arglwydd bymtheg o weithiau a'r wyneb yn y llwch. Yr oedd ympryd saith-mlwyddol yn cael ei droi i ddeuddeg mis o adroddiad o holl Lyfr y Salmau bob dydd a nos, gyda deg a deugain o Salmau yn y prydnhawn." Gyda'r fath dduwioldeb, dim ond ymdrech crefftwrol o eiddo y côf, pa le'r oedd argyhoeddiad goleuedig, neu ymgyflwyniad deallawl i Dduw? Ac os nad oedd y "rhesymol wasanaeth" hwn yn bodoli, oni fuasai yn watwargerdd arswydus i ddysgwyl bodolaeth bedydd y *crediniol?*

Yn y Dwyrain, ac yn neillduol yn nghylch Antiochia, yr oedd llawer llai o ddichell offeiriadol *(priest-craft)*, ac o ganlyniad llawer mwy o grefydd *bersonol.* Cristionogion y parthau hyny, heb gymmeryd eu dychrynu gan awdurdod wladol, a geisiasant grefydd iddynt eu hunain, heb ofalu am y sect oedd yn cael ei nhoddi gan y Llywodraeth. Fel canlyniad i'r gweithrediad annibynol hwn, fe gyhoeddwyd fod patriarchaeth Antiochia yn llawn o "hereticiaid," yr hyn yn naturiol a fu yn achlysur o beth aflonyddwch i Theodorus, patriarch y dosparth. Efe a achwynodd o herwydd hyn wrth yr Ymerawdwr John Zinlisces, ac a ddymunodd ar yr Ymerawdwr i anfon ymaith y rhai oeddynt yn peri aflonyddwch i'w anweithgarwch ef. Fe ganiataodd yr Ymerawdwr ei gais, trwy foddion tyner, sef, eu symud hwy i Philippolis, o'r lle hwnw hwy a ymwasgarasant dros barth eang o Ewrop, a thrwy lafur diflino hwy a osodasant i lawr sylfaen i luoedd o eglwysi, yn mhlith y rhai yr oedd yr ordinhad o fedydd y crediniol yn cael ei pharchu a'i dal i fyny, pan oedd yr holl fyd Ewropaidd, oddieithr y lleoedd hyn, yn gwibio ar ol y bwystfil."

Dyna ydoedd crefydd yn y degfed canrif. Yr oedd yr offeiriad yn frenin ac yn arglwydd ar gydwybod, calon, a meddwl. Ei ewyllys ef oedd yn rheoli y llys

y mawrion a'r bobl. Yr oedd ei gysgod du llydan, wedi myned rhwng y bobl a'r haul, ac fel canlyniad annocheladwy, hyd y nod, yn y byd Cristionogol ei hunan, "tywyllwch a orchuddiai y ddaiar, a'r fagddu y bobl."

---

## CANRIF YR UNFED AR DDEG.

Os cafodd y degfed canrif, mewn canlyniad i uchelgeisiaeth, annwybodaeth a diogi yr offeiriaid, gyda phriodoldeb ei alw "*yr oes haiarnaidd*," mae yr unfed canrif ar ddeg wedi haeddu yn hollol yr un disgrifiad. Yr oedd yr unrhyw ddrygau yn cael eu cyflawni, yn eu holl amrywiaeth a'u heithafion; ond fod yr eithafion yma'n ymddangos wedi cyrhaedd pwynt, tu draw i'r hwn yr oedd yn annichonadwy myned yn mlaen, y man y mae gwelliant nacaol yn cymmeryd lle, yr hyn sydd yn cyfodi oddiwrth yr annichonolrwydd i fyned yn mhellach. Yr oedd balchder offeiriadol wedi cyrhaeddyd ei binacl uwchaf, ac fel arwydd o welliant, yr oedd cynghorau yn y cyfnod hwn yn ymyraeth er lleihau rhifedi y ceffylau i gael eu defnyddio gan yr offeiriaid ar ei teithiau. Pan oedd *yr offeiriaid*, y cynddrychiolwyr gwystledig hyny o'r addfwyn a'r gostynedig Iesu, yn sefyll mewn angen am y fath eufa (*curb*) warthus ar eu gorwagedd, beth raid fod cyflwr yr eglwys ag 'roedd y rhai hyn yn addysgwyr iddi ac arolygwyr arni? Os oedd balchder yr arweinwyr mor aflywodraethus, beth oedd rhaid fod y bobl y rhai a arweinid ganddynt?

Yr oedd yr ysbryd hwn o uchelgeisiaeth bydol a chnawdol wedi llygru yr holl gorff, ac wedi ymledu i lawr trwy yr holl resau swyddogol. "Yr oedd y Pabau Rhufeinaidd yn y canrif hwn yn gyffredinol ac yn barhaol wedi eu haddurno â'r teitlau chwyddedig o *Feistri y Byd*, a *Phabau*, neu *Dadau Cyffredinol;*

yr oeddynt yn llywyddu yn mhob man yn y cynghorau trwy eu cenadon; yr oeddynt yn rhyfygus wed argymmeryd yr awdurdod i fod yn uwchlywodraethwyr yn mhob dadl a allai gyfodi o barthed crefydd neu ddysgyblaeth Eglwysig. Ond nid oeddynt yn foddlon ar y cymmeriad o'r deddfroddwyr uchelaf yn yr Eglwys, eithr argymmerasant yn rhyfygus y cymmeriad o arglwyddi y cread, yn gyflafareddwyr tynged teyrnasoedd ac ymerodraethau, a llywyddwyr uchelaf breninoedd a thywysogion y ddaiar."*

"Fe ddarfu'r athrawiaeth" medd Hume, "yr hon a ddyrchafodd y Babaeth uwchlaw pob awdurdod ddynol, yn raddol ymledu o ddinas a llys Rhufain; ac yr oedd yn yr oes hono yn llawer mwy cyffredin a dylanwadol yn nheyrnasoedd deheubarth, nag yn nheyrnasoedd gogledd-barth Ewrop." Mae'r Esgob Newton ar y Proffwydoliaethau yn dwyn tystiolaeth o'r un natur, pan mae yn dywedyd, tudalen, 510, fod,—"y gallu Pabyddol yn y canrif hwn wedi ei ddwyn tuhwnt i bob terfynau, trwy uchelgeisiaeth a thraha y pabau oedd yn teyrnasu, ac yn neillduol gan greulondeb a gorfalchder Gregory VII., enw blaenorol yr hwn oedd Hildebrand, neu *Helebrand (pentewyn uffernol)*, fel mae yn fynych wedi cael ei alw." At hyn gellir ychwanegu tystiolaeth Mosheim, yr hwn pan yn ysgrifenu am grefydd yr oes hon a sylwa, "Gellir yn hawdd ddychymmygu, fod ei hagweddau yn llawn o afluneiddiwch, pan yr ystyriwn fod ei nhoddwyr *(guardians)* yn llawn mor amddifad o wybodaeth a rhinwedd, ac fod penau a rheolwyr yr Eglwys Gristionogol, yn lle arddangos eu hunain yn esiamplau o dduwioldeb, yr oeddynt yn esiamplau o droseddau gwarthus ac ysgeler. Yr oedd y bobl wedi suddo i'r sefyllfa fwyaf truenus o goelgrefydd, ac yr oeddynt yn defnyddio eu holl frwdfrydedd mewn addoliad delwau, a chreiriau *(relics)* ac yn y cyflawn-

* Church History, by G. Gregory, D.D. Vol. ii. p. 30.

iad o ofera *(trifle)* o amgylch seromoniau, y rhai oedd-ynt yn cael eu gosod arnynt gan ormesiaeth offeiriad-aeth dra-arglwyddiaethol."

Oddiwrth y balchder offeiriadol hwn ar un llaw, a dygn annwybodaeth y cyffredin mewn canlyniad ar y llaw arall, a ellid disgwyl am rywbeth yn debyg i grefydd bersonol, neu ysprydol? Oni fuasai hyn yn edrych am rawnwin oddiar ddrain a ffigys oddiar ysgall? Yn y fath gors foesol, yn mha le 'roedd tir caled wedi ei adael, ag y gallasai bedydd y crediniol roddi gwadn ei droed i lawr? Pa *chance* oedd yno i ordinhad bur o eiddo Crist, lle'r oedd yr holl Eglwys gyda'r eithriadau lleiaf, wedi myned dan ddiluw tra-ddodiadau a gorchymynion dynion? Y Pab oedd yr arglwydd cyffredinol, a'r offeiriaid yn offerynau ac yn oruchwylwyr parod iddo, y bobl yn derbyn eu deddfau o Rufain, ac nid o un ffynnonell arall; ac fel canlyn-iad yr oedd bedydd y crediniol wedi ei hollol golli o'r byd Rhufeinig, ac os oedd i'w gael mewn un modd, nid ydoedd i'w gael ond tuallan i'w gylch ef. Yr oedd yr Eglwys, fel ag yr ydoedd, yn dechreu gyda mabanod, ac, yn naturiol ddigon, nid ydoedd yn arddangos dim ond ffolineb plentynaidd o'r dechreu i'r diwedd.

Fodd bynag yr oedd yr ordinhad ysgrythyrol hon yn parhau mewn bodolaeth nychlyd, mewn lleoedd annghysbell; ac yn awr y torodd allan yspryd newydd oddiwrth yr offeiriadaeth Babyddol i ymwneyd a'r ordinhad, yr hyn oedd, gwneyd defnydd o'r gallu gwladol i'w dyfetha, neu i'w gyru allan o blith dynion. Nid oes un teimlad a berthyn i'w llygredigaeth mor naturiol gyssylltiedig ag erlidigaeth a balchder, a phan daeth y teimlad hwn yn uwchaf yn Eglwys Rufain, ni allai oddef yn hwy y fath annibyniaeth o eiddo dynion, y rhai (o barthed pwnc mor bwysig i awdurdod offeiriadol a bedydd mabanod) a ufuddha-ent i Dduw yn hytrach nag i ddynion. Ac oddiyma y

cawn ymddangosiad erlidigaeth yn ol cyfraith y canrif hwn, a defnyddio y ffagod, y tân, a'r cleddyf i gospi yr "hereticiaid," y rhai a gydnabyddent awdurdod uwch nag eiddo y Pab o Rufain.

Fe ymddangosodd yr yspryd angeuol hwn o eridigaeth, yn gyntaf yn Orleans, yn Ffrainc, y lle yr oedd y Paulicians yn y flwyddyn 1017, wedi sefydlu cynnulleidfa grefyddol, yn mhlith y rhai yr oedd deuddeg cynonwr (*canon*) o eglwys gadeiriol y ddinas hono, dynion o ddysg a duwioldeb neillduol, heblaw nifer lluosog o ddinasyddion o ddosparth parchus mewn cymdeithas. Yn mhlith athrawiaethau eraill a ddelid gan y bobl hyn, yr oedd y gwrthwynebiad i fedydd mabanod. Mae Dupin, yn dyfynu o Dachery, yn dyweyd am danynt, "Eu bod yn dal allan nad oedd bedydd yn symud ymaith bechod gwreiddiol," yr hyn oedd y ddadl gyffredin a ddygid yn mlaen o blaid rhoddi bedydd i fabanod. Fe gynnaliwyd cynghor yn Orleans, yr hwn a ymdrechodd i'w tueddu i ymwrthod a'u hargyhoeddiadau, ond hyn mewn modd ffyddlawn a wrthodasant ei wneyd, a'r canlyniad fu i *driarddeg* o honynt gael eu llosgi mewn tân, yn nghanol yr hwn y dewisiasant farw, yn hytrach nag aberthu yr hyn oeddynt hwy yn gyfiawn gredu oedd yn wirionedd Duw.

Fe ymledodd tânau erlidigaeth yn fuan i barthau ereill. Yn nghylch y flwyddyn 1019, fe gafodd rhifedi mawr (mae rhai awdurdodau yn dyweyd *cannoedd*), o ganlynwyr Berenger eu cigyddio i farwolaeth "am wrthwynebu bedydd mabanod, ac am eu bod wedi eu bedyddio." Yn nghymmydogaeth Tryers, yn gystal ag yn Flanders a Germani, fe gafodd y Bedyddwyr eu herlid gyda geirwindeb diosteg, yn gymmaint felly, fel mae yn cael ei gadarnhau mewn modd credadwy gan Danvers, o amrywiol awdurdodau, fod y nifer o 150,000 o Fedyddwyr wedi cael eu rhoddi i

farwolaeth greulawn. Nid eu gwadiad o fedydd mabanod *yn unig*, a greodd yn eu herbyn y gelyniaeth cythreulig hwn o eiddo Eglwys Rufain, oblegyd yr oeddynt hwy yn condemnio cyfeiliornadau eraill o eiddo yr Eglwys hono yn llawn mor angerddol a hwn; ond credir mai hwn a roddodd y tramgwydd mwyaf, ac a gynhyrfodd y casineb mwyaf. Yr oedd yn cyffwrdd a'r awdurdod ag yr oedd yr offeiriadaeth wedi ei thrawsfeddiannu yn y man mwyaf pwysig; ac a gyffrodd eu digllonedd creulonaf trwy geisio tynu o'u gafael allweddau teyrnas nefoedd. Yr oedd swyddogion yr eglwys hon yn hawlio awdurdod i roddi mynediad i'r byd nefol fel eu hawl-fraint ddiammheuol, ac yn perthyn yn gyfangwbl iddynt hwy eu hunain; pan ddarfu'r Bedyddwyr, gan hyny, mewn effaith ddymchwelyd yr hawl hono, yr oeddynt yn naturiol yn cael edrych arnynt fel gelynion uniongyrchol i'r offeiriadaeth ariangarol hono, ac ymwelwyd â hwy gyda'r gospedigaeth lemaf a allasai digasedd ddefnyddio.

Yr oedd y Paterines yn Itali a Milan yn dal golygiadau cyffelyb i eiddio y Paulicians, ac maent wedi cael eu hystyried, gan amryw awdwyr yr un a'r unrhyw bobl, ond yn meddu enwau gwahanol. Yr oedd symlrwydd a phurdeb eu bywyd, gweddusrwydd a gostyngeiddrwydd eu hymddygiad, yn cael eu cysylltu gyda eu gweithgarwch tawel a diflino, yn tueddu i'w cynnydd cyflym yn Itali a Ffrainc. Yn y flaenaf (Itali), yr oedd ganddynt un ar bymtheg, o'r rhai fuasent yn cael eu galw yn awr yn "Gymmanfaoedd," yr oedd un o'r rhai hyn, sef, Cymmanfa Concorezzo, yn nosparth Milan, yn cynnwys dros bymtheg cant o aelodau. Yr oeddynt yn addoli, yn benaf, mewn tai dirgel, yn gymdeithasau o wyth, ugain, deg ar ugain, ond nid oeddynt byth

yn rhif mawr, rhag ofn cael eu haflonyddu. Fe gafodd un o'u blaenoriaid, a elwid Gundulphus, yr hwn ymddengys oedd wedi bod yn neillduol lwyddiannus yn ei lafur, ei wysio o flaen Gerard, Esgob Cambray ac Arras, yn y flwyddyn 1025, a'i holi yn fanwl ar amrywiol bynciau yn eu credo cyffredin. Mewn atebiad i ofyniad o barthed bedydd mabanod, dywedodd eu bod hwy yn wrthwynebol iddo, "oblegyd fod maban na allai nag ewyllysio, na rhedeg, ac na wyddai ddim am ffydd, yn annwybodus am ei iachawdwriaeth a'i ddaioni ei hun, yn yr hwn ni all fod dymuniad am ail-enedigaeth neu gyffesiad o ffydd; nid ymddengys fod ewyllys, ffydd neu gyffesiad dyn arall yn dal y berthynas leiaf ag ef."* Yn y flwyddyn 1035, ysgrifenodd Deodwinus, Esgob Leige, lythyr at Henry I., Brenin Ffrainc, yn achwyn ar Bruno, Esgob Angiers, yn nghyd â'i archddiacon, Berengarius,—"Fod hysbysiad wedi dyfod allan o Ffrainc, yr hwn sydd yn myned trwy holl Germani, fod y ddau ddyn yma yn dal, nad ydyw corff yr Arglwydd (aberth yr offeren) y corff, eithr cysgod ac arwydd o gorff yr Arglwydd;† ac y maent, mor belled ag mae eu gallu yn myned, yn dymchwelyd bedydd mabanod." Fe ddygodd Guimundus, Esgob Aversa, yr un cyhuddiad yn erbyn Berengarius, sef ei fod "yn gwadu—gwrthod bedydd i rai bychain;" ac fe ymledaenodd y golygiadau hyn yn erbyn bedydd mabanod gymmaint, fel yr ymdrechodd Lanfranck, Archesgob Canterbury eu gwrthbrofi, yn ei lyfr a elwir "Seintillaris," lle mae yn dyweyd fod ei wrthwynebwr

* "Yr oeddynt yn gwrthwynebu bedydd mabanod yn neillduol, am eu bod yn hollol annalluog i ddeall, neu i gyffesu y gwirionedd.' *Milner and Harries, History of the Church.* Vol. iii. page, 194.

† *Host*, sef y bara yn nghymmundeb Eglwys Rhufain,—y gwadiad oedd, fod hwnw yn wir gorff Crist—eithr mai arwydd ydoedd.

"trwy hyn yn gwrthwynebu'r athrawiaeth gyffredinol, yn nghyd â chydsyniad unfrydol yr holl Eglwys." Y mae yn dybygiad hollol deg fod rhai o'r Bedyddwyr hyn yn aflonyddu yr archesgob, ac eu bod idd eu cael, hyd y nod, yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg, neu paham yr oedd ef, mewn un modd, yn ysgrifenu yn eu herbyn? O'r braidd y mae yn debygol y buasai ef yn ymdrafferthu i droi yn ol olygiadau sect mor bell oddiwrtho ag Itali, neu Ddeheudir Ffrainc; ond y mae yn llawer mwy naturiol i'r amgylchiad i dybied fod egwyddorion y Bedyddwyr yn cael eu dysgu yn ei gymmydogaeth eglwysig ef ei hun; ac yntau, fel mab ffyddlon i Rufain yn ysgrifenu i amddiffyn ei hawl hi i ddisodli sefydliad Dwyfol trwy ddyfais ddynol. Mae Dr. Usher, yn gwneyd hyn yn dra thebygol pan mae'n dyweyd, fod "amrywiol o sect Berengarius wedi lledaenu ei athrawiaeth yn amrywiol wledydd yn Belgium, y rhai wrth eu holi a ddywedent, nad oedd bedydd o un llês i blant er iachawdwriaeth." Yr oedd trafnidaeth mawr rhwng y "*Belgic countries*" hyn a Lloegr, ac ni ellir dwyn yn mlaen wrthwynebiad o unrhyw bwys i'r gred, mai yr hyn a gyffrôdd niferi yn y "*Belgic countries*" oedd wedi deffro hefyd ymchwiliad yn Lloegr. Ar ba dir arall y gellir tybied fod Archesgob Canterbury, yn ysgrifenu o gwbl yn erbyn y Bedyddwyr? Os nad oeddynt hwy ar yr yspotyn, a ydyw yn debyg y buasai ef yn cyfeirio ei saethau yn erbyn gelyn pell? Mae Dr. Usher yn gosod y pwnc hwn, o'r braidd, tuhwnt i un math o ddadl, pan yn dyfynu o hen haneswyr, y mae yn dyweyd, fod canlynwyr Berengarius wedi llygru Ffrainc, Itali, Germani, *Lloegr*, &c., gyda ei egwyddorion ef, oddiwrth yr hyn yr ydym yn casglu fod Lanfranck yn ymdrafod â gelyn oedd ar y *spot*, ac mewn canlyniad rhaid fod Bedyddwyr yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg.

Un rheswm mawr, os nid yr *unig* reswm, dros elyniaeth awdurdodau eglwysig yr oes hono, tuag at bob agosâd at ddaliadau y Bedyddwyr, oedd y ffaith, nad oedd, yn ol eu daliadau hwy, le i fabanod yn yr Eglwys; ac fel y tybid y pryd hyny, yn annwybodus, na allasent fod yn gadwedig heb hyny. Fe gyfododd hyn oddiwrth grediniaeth gyffredinol yn y cyfeiliornad mawr, fod bedydd ac ail-enedigaeth yn cydfyned, ac na ellid eu dadgyssylltu; ac fel canlyniad, na allai y plentyn oedd heb ei fedyddio, byth fod yn gadwedig. Yr oedd y plentyn bedyddiedig gan hyny yn cael ei ystyried yn aelod cyflawn o'r Eglwys; ac felly, yr oedd cymmundeb mabanod, mor gyffredin a bedydd mabanod ei hun. "Yr oedd mabanod yn cael eu derbyn i gyfranogiad o hono (Swpper yr Arglwydd) mor fuan ag y bedyddid hwy. Yn y meddwl Anglo Sacsonaidd, yr oedd Bedydd Sanctaidd bob amser yn cael ei gyssylltu gydag ail-enedigaeth dyn yn Nghrist, ac y mae sefyllfa beryglus y rhai oedd yn marw heb eu bedyddio yn cael ei gynwys, yn nerthol, yn y rhybudd,—'os byddai i unrhyw blentyn farw heb ei fedyddio, trwy esgeulustra'r offeiriad, y byddai rhaid iddo fe ateb dros enaid y plentyn yn nydd y farn.'"* Y crediniaeth cyfeiliornus ac anysgrythyrol hwn oedd amddiffynfa bedydd mabanod, ac hyd y dydd hwn y mae yn aros y rheswm *dirgel* dros gadw yn fyw arferiad yr hwn nad oes ganddo un math o sylfaen yn Nghair Duw, etto i gyd, tra'r oedd Eglwys y cyfnod hwnw yn cyssylltu bedydd mabanod a chymmundeb mabanod â'u gilydd, nid oedd y pwysigrwydd oedd yn cael ei briodoli i'r cymmundeb, y cyfryw ag oedd yn mhob man yn cael ei hawlio i fedydd mabanod. Mewn llythyr a ysgrifenwyd gan yr Archesgob Lanfranck i Donatus, Esgob Gwyddelig, yn O.C., 1073, mae yn dyweyd,—"Gellwch fod yn sicr gan hyny, nad ydyw yr eglwysi tramor, na ninau, y

* Baxter's Church History, page, 196.

Saeson, yn dal y fath athrawiaeth o barthed mabanod, ag ydych chwi yn dybied (*sef fod cymmundeb mabanod yn anhebgorol angenrheidiol er ei hiachawdwriaeth*). Canys yr ydym ni yn gyffredin yn credu ei fod o wasanaeth mawr i bawb o bob oedran, pa un bynag ai yn fyw neu pan y byddont yn marw, i gryfhau eu hunain trwy dderbyn o gorff a gwaed yr Arglwydd etto, os er hyny, y dygwyddai fod personau yn ymadael â'r bywyd hwn yn ddiattreg, ar ol bedydd, a chyn derbyn o gorff a gwaed Crist, na atto Duw i ni i gredu eu bod hwy o herwydd hyny yn dragywyddol golledig."* Ond pa leiaf o bwysigrwydd a briodolent i gymmundeb mabanod, mwyaf yn y byd a briodolent i fedydd mabanod, fel peth anhebgorol i iachawdwriaeth; ac oddiyma yr oedd eu gelyniaeth gwgus, yn erbyn y Bedyddwyr yn cyfodi, y rhai oeddynt yn gwneyd iachawdwriaeth i ymddibynu ar ffydd yn unig ac nid ar fedydd.

Yr un dyfais du, yr hwn uwchlaw yr oll eraill, a dueddodd i wrth-hoelio (*rivet*) y cyfeiliornad hwn o fedydd mabanod ar yr holl Eglwys Babyddol, oedd, attaliad yr Ysgrythyrau oddiwrth y bobl yn eu hiaith eu hunain, a thrwy hyn yn eu trosglwyddo yn un corff i drugareddau tyner offeiriadaeth ag oedd â'i bryd ar dwyllo. Yn nechreuad y canrif hwn, cyfarwyddodd Elfric, Archesgob Canterbury, fod pob offeiriad plwyf, yn rhwym ar y Sabbathau, a gwyliau eraill, i esbonio Gweddi'r Arglwydd, y Credo, a'r Efengyl am y dydd hwnw, o flaen y bobl *yn yr iaith Saesonig*. Ond pan cafodd Gregory y 7fed (*Hildebrand*) awdurdod cyflawn ar yr Eglwys, efe a attaliodd, hyd y nod, y gyfran fach hon o wybodaeth, y pelydr unigol hwn o oleuni, trwy "fynu, yn mhob man, ddwyn i mewn y defodlyfr (*ritual*) Rhufeinig, *a gwahardd addoliad Dwyfol i gael ei gyflawni*, neu i'r Ysgrythyrau i gael eu meddiannu gan y bobl yn eu

* Hart's Ecclesiastical Records, page, 200.

hiaith eu hun." Mae ei lythyr i Frenin Bohemia, yr hwn a ysgrifenwyd tua'r flwyddyn 1079, yn dangos mewn modd hynod, ddichell ac amcan y pab cywrain ond drigionus hwnw. Mae yn dyweyd, "Wedi ystyried y pwnc yn llwyr, mae'n ymddangos fod Duw yn dewis, yn achlysurol, i'r Ysgrythyrau i fod yn aneglur, rhag, os buasent yn eglur i bawb, y buasent yn dyfod yn ddirmygus yn eu golwg, yn nghyd â chreu cyfeiliornad trwy gael eu deall yn anngh ywir gan bersonau cyffredin. Nid ydyw yn esgus dros yr arferiad hwn, fod rhai dynion santaidd, yn amynedd-gar wedi caniatau y pethau yr oedd y bobl yn eu gwirioudeb yn ofyn; oblegyd fe ddarfu yr eglwys gyntefig gyflawni amryw bethau nad oeddynt gywir, y rhai wedi hyny a gywirwyd ar ol ymchwiliad gofalus, pan daeth crefydd yn fwy cadarn ac eang ei therfynau. Yr ydym ni gan hyny yn gwahardd *ar awdurdod St. Petr* (!) y pethau mae eich deiliaid yn annoeth yn eu gofyn, ac yr ydym yn erchi i chwi, gyda eich holl allu, wrthwynebu eu rhyfyg ffôl." Bydded i'r darllenydd feddwl am fynyd am y balchder ffroenuchel, y rhyfyg digywilydd, yn nghyd âg anwiredd noeth cynnwysiad y llythyr hwn. Heb sylwi dim ar y rhyfyg penogaethol, neu y creulondeb dideimlad mae'n ddangos tuag at y brenin a'i holl bobl, ond bydded i ni sylwi ar fawredd twyll y ddadl *(plea)* ar gyfrif yr hwn, y mae ef yn gorchymyn y ffordd warthus hon—sef, *ar awdurdod St. Petr!* Pa bryd y darfu i'r apostol hwnw gynghori cyflawniadau mor dywyllion? Pa bryd y darfu iddo fe gymmeradwyo fod Gair Duw i gael ei gadw oddiwrth y bobl? Bydded i unrhyw ddarllenydd gonest ddarllen ei eiriau ef ei hun, 2 Petr, i. 19. "*Yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll,*" ac yna dyweded os nid twyll ydyw dadleu fod cadw yr Ysgrythyrau oddiwrth y bobl yn cyduno *ag awdurdod St. Petr?* Mae y Pab Gregory hwn, y

dyn hwn o eiddo'r tywyllwch, yn mhellach yn dywedyd, "Ewyllys yr Hollalluog Dduw ydyw, fod gwasanaeth Dwyfol yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn iaith ddirgel (anadnabyddus), serch nad ydyw pawb yn ei deall hi, oblegyd pe byddai y cann yn gyffredin ac yn uchel, gallai yr iaith yn hawdd syrthio i ddirmyg ac atgasrwydd." Pa fodd y gall addoliad, yr hwn nid ydyw yn cael ei ddeall, lai na bod (yn rhyw fath o) watwargerdd arbenig, y mae yn annichonadwy dychymmygu; nid ydyw yr hwn gan hyny, bydded ef bab, brenin, neu offeiriad, a orchymyna fod addoliad Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn iaith ddyeithr, ond cynnorthwyo mewn gwatwargerdd Dwyfol, ac yn ddiau fe gaiff dderbyn ei wobr.

Yr oedd effaith yr ordeiniad mwyaf niweidiol hwn yn dyfnhau annwybodaeth gyffredinol *(public)* ar un llaw, ac yn cynnyddu yspryd erlidigaethus yr oes ar y llaw arall. Ac oddiwrth hyn y cyfododd y brofedigaeth danllyd, yr hon yn awr a ddechreuodd ddilyn y Pauliaid, y Petriaid a'r Waldensiaid i ba le bynag yr elent. Yr oedd gan yr offeiriadaeth faleisddrwg, yn barod wrth law, yn y bobl aunwybodus, offeryn cyfaddas at roddi i farwolaeth, a dinystrio, pryd bynag y gwelent yn dda eu galw i weithrediad; ac yr oedd yn llawn ddigon i gyhuddo dynion o fod yn wrthwynebol *i iachawdwriaeth y rhai bychain*, i osod holl Ewrop yn fflam.

Ac oddyma hefyd y cyfododd y gorferwad gwarthus o sêl ddall, a'r uchelgeisiaeth droseddol, a alwyd yn *Crusades*,"* y rhai gynhyrfasant Ewrop a'r byd, tua diwedd y canrif hwn. "Yr oedd Ewrop" medd Hume, "yr amser hwn, wedi suddo i ddygn annwybodaeth a choelgrefydd. Yr oedd y bobl, y rhai nad oeddynt yn cael eu rhwystro ond ychydig gan hunan-

* *Cursades,* — Rhyfeloedd y groes—sef yr ymgyrchiadau ofnadwy a wnawd gan Gristionogion y cyfnod hwn yn erbyn y rhai na chredent.

barch (*honour*), a llai gan gyfraith, wedi ymroddi i'r annhrefn a'r troseddau gwaethaf; ac nid oeddynt yn gwybod am un iawn ond cyflawniad y defodau a osodid arnynt gan eu bugeiliaid ysprydol; ac yr oedd yn hawdd arddangos y rhyfel santaidd yn ateb yn lle pob penyd, ac yn iawn am bob treisiad ar gyfiawnder a dynoliaeth. Yr oedd y troseddwyr mwyaf yn mlaenllaw yn y gwasanaeth, yr hwn yr edrychid arno fel iawn am bob math o droseddau, yr oedd yr afreolaethau mwyaf dychrynllyd yn cael eu cyflawni gan ddynion ag oeddynt wedi ymarfer a drygioni, ac yn cael eu cymhell gan esiampl, a'u hanog gan angenrheidrwydd." Y rhai hyn oeddynt amddiffynwyr y ffydd—rhyfelwyr y Groes, yn yr oes dywyll a chymylog hono! Yr oeddynt yn annwybodus o egwyddorion cyntaf crefydd a rhinwedd; yn offerynau parod o greulondeb neu angau, yn llaw gwŷr eglwysig llygredig, yr oeddynt yn fwy na pharod i gyflawni arch offeiriaid cyfrwys-ddrwg, pa un bynag ai merthyru sant, neu bolioni* Ismaeliad. Heb feddu ar gydwybod, credo, na deddf ar wahan oddiwrth yr eglwys fwyaf llygredig a ganfyddodd y byd erioed; ac heb erioed ddarllen Gair Duw drostynt eu hunain, nac wedi derbyn cymmaint ag un pelydryn o oleuni Efengyl bur y cariad nefol, edrychent arno, yn waith cyfartal mewn duwioldeb, i losgi *heretic*, neu ddistrywio anffyddiwr. Yn cael eu gyru yn mlaen fel huad-gwn gan eu hanogwyr offeiriadol, edrychent arno, yr un mor rhinweddol i ddistrywio pob syniad da perthynol i'n nhatur ddynol, arteithio (*torture*) Bedyddwyr, a chyflawni pob trosedd dichonadwy, yn ngwasanaeth cythreulig "rhyfel santaidd." Mae y byd yn dychrynu wrth gofio'r ysgelerderau a'r drygau yr oedd y *Crusaders* dideimlad hyn yn cael caniatad

* Polioni,—Yr arferiad creulawn i ladd dyn trwy wthio polyn o bren mawr trwy ei eisteddle tuag i fyny, nes y deuai allan trwy ei war, a'i adael arno, yn uchel oddiwrth y ddaiar nes y byddai farw arno.

i'w cyflawni, gan eu harweinwyr eglwysaidd; ac y mae dynolryw yn gyffredinol wedi clafychu o herwydd llygredigaethau yr oesau sydd wedi myned heibio, yn gruddfau, ac mewn gwewyr poenus am ddyfodiad buan y dydd gogoneddus hwnw, pan gaiff y BIBL YN UNIG, ac nid offeiriadaeth lygredig ac annwybodus, ffurfio ffydd a moesau holl drigolion y ddaiar.

---

## CANRIF Y DEUDDEGFED.

MAE yr holl haneswyr eglwysig credadwy yn addef fod offeiriaid y canrif hwn, yn cael eu hynodi gyda'r unrhyw ddrygau ag oeddynt yn bodoli yn y ddau ganrif diweddaf, y rhai a brofasant eu hunain mor waradwyddus i'r eglwys, ac mor ddinystriol i'r bobl. Mae Mosheim yn ei ddull eofn a ffyddlawn yn dyweyd am danynt, "Pa le bynag y trown ein llygaid yn mhlith y gwahanol urddau a'r graddau o offeiriaid, yr ydym yn canfod yn y canrif hwn yr arwyddion mwyaf gwarthus o benrhyddid cnawdol a thwyll, annwybodaeth a gloddest, yn nghyd a drygau ereill, effeithiau gwenwynig y rhai oedd yn cael eu teimlo yn ddwys yn yr Eglwys a'r Wlad (*state*)." "Eu holl amcan oedd boddloni eu chwantau, lluosogi eu rhagorfreintiau, trwy grafangu yn barhaus am urddasau, a rhagoriaethau newyddion; ac yn esgeuluso yn hollol bethau crefydd, a gofal am eneidiau, er mwyn byw mewn esmwythdra a mwyniant, a threulio allan eu dyddiau mewn diogi annynol a gloddestaidd." Mae hanesydd arall yn sylwi fod "holl ddysgyblaeth yr Eglwys yn awr wedi ymollwng ymaith; a bod dynion, y rhai yr oedd modd ganddynt i brynu trwydded i bechu, wedi eofni, a gollwng yn rhydd awenau drygioni, ac yn dilyn eu holl ddeisyfiadau (drygionus) a'u dychymygion." "Yr oedd Annghrist mewn gwirionedd yn teyrnasu yn dawel a buddugol-

iaethus trwy Ewrop."* Yr oedd rhyfelwyr y Groes wedi agor dyfr-ddorau penrhyddid cnawdol cyhoeddus; ac yr oedd yr Eglwys yn gwneyd elw o'r penrhyddid aflan hwnw yn ngwerthiad cythreulig y trwydded i'w cyflawni. Yr oedd addysgwyr proffesedig moesoldeb a chrefydd wedi dyfod fel hyn, yn werthwyr cyhoeddus trosedd, ac yn *hucxsters* cyhoeddus anfoesoldeb.

Ni ddarfu i'r Duw bendigedig, er hyny oll, adael y byd Ewropaidd i drugareddau tyner offeiriaid annuwiol; eithr, yma a thraw, fel yn nyddiau Elias, yr oedd yn "Cadw iddo ei Hun," *yn* Eglwys Rhufain, ond yn benaf tu allan i'r Eglwys hono, dystion ffyddlon o blaid y gwirionedd a duwioldeb, y rhai, er peryglu eu bywyd, oeddynt yn dywedyd yn gyhoeddus, gyda'r ffyddlondeb mwyaf, yn erbyn llygredd arweinwyr ysprydol y bobl. Y mae Bernard, er ei fod yn Babydd, yn dyweyd yn galed, gyda grym ac eglurder mawr yn erbyn drygau y pabau a'r offeiriaid. Fe ddarfu i Peter de Bruis; Henry, Italiad; Arnold, o Brescia; Peter Waldo, a niferi yn rhagor a safasant yn eofn dros Dduw a'r gwirionedd, ac a godasant mewn amrywiol barthau o Ewrop, faniar ffydd bersonol, fel unig ammod bywyd tragywyddol. Fe ddarfu gwawr adfywiad mewn dysgeidiaeth yn y canrif hwn, yn nghyd ag ymledaeniad, er yn araf, yspryd ymchwiliad roddi pelydr ychwanegol o obaith o blaid cyfnod gwell i ddyfod. Ond diwrnod tywyll ydoedd, ie, dudew dywyll, er hyny; etto yr oedd toriad allan y wawr fach yn y gorwel pell yn arddangosiad siriol, fod y Dyn Pechod wedi gwneuthur ei waethaf, ac na allasai fygwth melldith arall ar y byd. Yr oedd canolbarth lleoedd dysgeidiaeth yn Oxford, Paris, Angiers, Montpelier, Bolonia, Salernum, ac hyd y nod yn Rhufain euog ei hun, yn dechreu ymysgwyd o'u cysgadrwydd hir; ac os na fyddai yn

* Milner and Hawies, Vol. III.

gywir i ddyweyd eu bod yn hollol effro, etto, gellir heb betruster, ddyweyd fod eu *cwsg marwol* wedi myned heibio, ac nad oedd i ddychwelyd byth mwy.

Ond yr hyn a weinyddodd yn fwyaf uniongyrchol i agor llinellau y goleuni boreuol, ac idd eu taflu ar draws y dyfnder tywyll, oedd yspryd erlidigaethus Eglwys Rhufain, yn ei ymdrechion ofer i ddistrywio y cyfryw ag a gafwyd yn ddigon ffyddlon i wrthdystio yn erbyn ei llygredigaethau dychrynllyd. Oblegyd yr oedd Duw wedi trefnu felly yn ei ragluniaeth, fel mai mwyaf yr erlidid hwy, mwyaf yr oeddynt hwythau yn ymledaenu, fel yn y dyddiau apostolaidd, (Actau viii. 1.) y darfu i'r offerynau a ddefnyddiwyd i ddinystrio y gwirionedd fod yn foddion i roddi iddo ddylanwad helaethach trwy holl Ewrop Mewn cynghor a gynnaliwyd yn Toulouse, O.C. 1119, fe basiwyd y ddeddf ganlynol: "Yr ydym ni yn condemnio ac yn taflu allan o Eglwys Dduw, fel hereticiaid, y rhai hyny, o dan yr esgus *(pretence)* o grefydd, ag sydd yn gwrthod *sacrament* o gorff a gwaed Iesu Grist,* *bedydd mabanod*, &c.—Yr ydym ni yn gorchymyn fod iddynt gael eu dodi i lawr (*suppress*) gan y gallu gwladol." Yr oedd hyn yn cael ei gyfeirio yn erbyn y Pauliaid, y rhai oeddynt luosog yn y parth hwnw. Ond er gwaethaf y gwrthwynebiad offeiriadol, fe ymledaenodd yr "heresi" gymmaint yn Gascony, Languedoc, Provence, ac Aquitane, fel y daeth yn ofid blin i wŷr eglwysig y parthau hyny trwy yr holl ganrif hwn. Mae Archesgob Narbonne, pan yn ysgrifenu at Louis VII. yn achwyn, "Yr ydym ni yn cael ein blino yn ddirfawr gan amrywiol drallodau, yn mhlith y rhai y mae un ag sydd yn ein

* Wrth sacrament o waed a chorph Iesu Grist y golygent fod y corph a'r gwaed yn *wirioneddol* ac yn *sylweddol* yn y cymmun, neu mae cig a gwaed oedd y bara a'r gwin. Gwrthwynebu y cyfeiliornad damniol hwn yn nghyd a'i frawd *bedydd mabanod* oedd yn drosedd bywyd !!!

gofidio fwyaf oll, sef, fod y ffydd Babyddol yn cael ei *hysgwyd yn ddirfawr* yn ein hesgobaeth ni; ac y mae cwch St. Pedr yn cael eu luchio mor greulon gan y tònau, fel y mae *mewn perygl o suddo*." Yr oedd Henry Abbot o Clairvaux, hefyd yn galaru "fod y pla hwn wedi cynnyddu cymmaint yn y wlad hono, fel ag yr oeddynt wedi gwneuthur iddynt eu hunain, nid yn unig offeiriaid a phabau, ond fod ganddynt hefyd ei *hefengylwyr!*" Yn ddiweddaraoh yn y canrif hwn pan oedd Waldo a'i gymdeithion mewn perygl oddiwrth Archesgob Lyons, "hwy a ffoisant i barthau eraill, ac yn fuan daethant yn wasgaredig ar hyd Ffrainc, Itali, Germani, *Lloegr*, a Spaen. Ymsefydlodd rhai yn Narbonne, yr hwn sydd yn cynnwys Provence, Dauphine, a Savoy; eraill a ffoisant i'r Alps a Lombardy. Fe ddaeth Pedr Waldo i Belgium, ac yn Picardy, fel y gelwir ef yn awr, efe a *gafodd lawer o ganlynwyr*. Wedi hyny fe aeth trosodd i Germani, ac o'r diwedd fe ymsefydlodd yn Bohemia.' Fel hyn, ni wasanaethodd y dymhestl Rufeinig ond i wasgaru hâd y gwirionedd Dwyfol yn fwy ar wasgar, ac i barotoi defnyddiau mwy lluosog er dymchweliad dyfodol Pabyddiaeth. Yr oedd yr offeiriaid wedi bwriadu llethu y gwirionedd hwnw, ond fe ddarfu i Fugail byth-wyliadwrus y defaid wneyd i'r gorferwad eiddil hwn o "gynddaredd dyn i'w foliannu Ef."

Mae yn anhawdd penderfynu yn gywir beth oeddynt ddaliadau y gwahanol sectau ag oeddynt yn y cyfnod hwnw yn gwrthwynebu drygau a chyfeiliornadau Eglwys Rhufain. Eu bod hwy yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd o barthed amryw byncian athrawiaethol, sydd ffaith tuhwnt i ddadl, pan na ellir yn awr gael gwybodaeth gywir am fanylion eu gwahaniaethau, er fod rheswm cryf i gredu fod rhai o'r dynion cydwybodol hyn yn mhell o fod yn iach yn y ffydd gyda golwg ar amrywiol neillduolion. Etto, beth bynag allasai y gwahaniaethau hyn fod—mewn

un pwnc, hyny yw, *gwrthwynebiad i fedydd mabanod*, yr oedd yr unffurfiaeth mwyaf yn bodoli. Gyda golwg ar yr athrawiaeth yma, gellir dweyd am danynt, eu bod o un galon, pa un bynag ai Pauliaid, Pedriaid, Waldensiaid, Albigensiaid, *Cathari*, neu Petrobrussians.‡ Yr oeddynt oll (gydag ychydig iawn o eithriadau) yn cyduno i osod allan fedydd mabanod fel dyfais ddynol yn unig, ac yn honi fod gwybodaeth a ffydd yn anhebgorol er gwneyd bedydd y peth ddylai fod (*valid*) i bwy bynag y gweinyddid ef. Yn agos i ddiwedd yr unfed canrif ar ddeg fe ysgrifenodd Bonizo, Esgob Placentia, yn Itali, lyfr ar y sacramentau, yn yr hwn y mae yn dyweyd, "fod Iesu wedi gorchymyn i'w ddysgyblion i addysgu a bedyddio; fod addysgiaeth i fyned o flaen bedydd, oblegyd ffydd heb weithredoedd marw yw, ac fod yn annichonadwy bod gweithredoedd heb ffydd; ac nid hyd nes yr oedd Petr wedi gorphen ei bregeth, a'r bobl wedi cael eu *dwys-bigo yn eu calonau* a dywedyd, *Ha wyr frodyr beth a wnawn ni?* y dywedodd yr Apostol *Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch.*" Mae Erbradus, doctor enwog yn yr amser hwnw, yn cyhuddo y Cathari o fod yn gwadu bedydd mabanod, am fod arnynt angen dealltwriaeth, ac fe ddefnyddiodd un bennod gyfan i'w gwrthwynebu. Fe gafodd Arnold o Brescia, a Peter Bruis eu dau eu condemnio gan gynghor y Lateran, dan Innocent II., am wrthwynebu bedydd mabanod, yn nghyd ag athrawiaethau Pabyddol ereill. Ffrancwr enwog oedd Peter Bruis, ac yr oedd yn ddiwygiwr crefyddol diflino. Mae Dr. Wall yn dyweyd mai Peter Bruis, a'i ganlynydd, "oeddynt y pregethwyr gwrth-faban fedyddwyr cyntaf erioed *a osodasant* i fyny eglwys, neu gymdeithas o ddynion yn dal y dyb yn erbyn bedydd mabanod, ac yn ail-fedyddio y cyfryw ag oeddynt wedi

‡ Yn cael eu galw gan J. A. Fabricius, "Ailfedyddwyr yr oes hono.

cael eu bedyddio yn eu mhabandod." Fe gafodd Bruis ei losgi wrth y pawl yn 1144; ond y mae Dr. Allix yn sylwi, "na ddarfu llosgi Peter de Bruis fogi'r athrawiaeth oedd ef yn amddiffyn; yr oedd wedi gwreiddio yn rhy ddwfn yn yr esgobaethau hyn, [Toulouse, Provincia, Narbonensis, Gascoigne, &c.] Ond i'r gwrthwyneb, fe gynnyddodd yn ddirfawr ar ol iddi gael ei dyfrhau unwaith â gwaed y merthyr hwnw." Yr athrawiaethau a addysgodd efe o berthynas i fedydd ydynt y rhai canlynol:—

,, I. Nad ydyw mabanod i gael eu hachub na'u bedyddio trwy ffydd un arall, ond mae pawb i gael eu bedyddio ac i ddysgwyl cael eu cadw trwy eu ffydd briodol eu hunain.

,, II. Nad ydyw bedydd heb ffydd briodol yn achub neb.

,, III. Nad ydyw y plant bychain, ag ydynt dan oed, ac heb ddeall, ac a ddygir i gael eu bedyddio—nid ydynt yn cael eu hachub trwy hyny.

,, IV. Fod y rhai a fedyddir yn eu mhabanod i gael eu bedyddio drachefn ar ol iddynt ddyfod i (feddu ar ddealltwriaeth), yr hyn nid yw i gael ei ystyried yn ail-fedyddiad (*Anabaptism*) eithr y bedydd iawn."

Yn nghyngor Gallican, yn y flwyddyn 1176, yr hwn a alwyd yn nghyd gan y Pab, Alecsander III., fe gondemniwyd "heresi" yr Allegensianiaid, sef oedd hyny, "gwadu—gwrthod bedydd i fabanod;" ac yn nghyngcr cyffredinol Lateran, yn y flwyddyn 1179 fe gondemniwyd ac fe anathemaeiddiwyd y Cathari am amrywiol gyfeiliorniadau, fel yr oedd y Pabyddion yn eu galw, ac yn mhlith eraill, am "wadu—wrthod bedydd i fabanod.' Yn nghyngor cyffredinol Verena, dan y Pab Lucius, fe gondemniwyd ac fe anathemaeiddiwyd yr Albigensiaid, dan yr enwau Cathari, Patrini, Humiliati, pobl dylodion Lyons, a'r Arnoldiaid, am feiddio gwrthwynebu Eglwys Rhufain, ac yn mhlith pethau eraill am ei gwrthwynebu ar fedydd

Fe achosodd Phillip Augustus i 600 o'r Albigensiaid i gael eu llosgi mewn un dydd. Yn y flwyddyn 1182, fe ddyoddefodd lluaws o'r Waldensiaid farwolaeth yn Flanders, ac eraill a losgwyd i farwolaeth yn Germani, am feiddio meddwl drostynt eu hunain, ac yn mhlith pynciau eraill, am feddwl drostynt eu hunain, o barthed bedydd mabanod (sef am feddwl am dano yn wahanol i'r awdurdodau eglwysig—nad ydoedd ond dyfais ddynol yn unig).

Mae yr Archesgob Usher, ar awdurdod Matthew Paris, o Wesminster, yn sicrhau, "fod heresi y Berengariaid, neu y Waldensiaid, yn nghylch y flwyddyn 1180, wedi dyfod yn fath o bla yn holl Ffrainc, Itali, a Lloegr." Mae Foxe yn mhellach yn hysbysu, fod ychydig yn gynt na'r adeg uchod, ddau bregethwr Waldensiaidd enwog, Gehardus a Dulcinus, wedi dyfod i Loegr i gyhoeddi yr Efengyl; ac y mae Usher yn dyweyd "i amrai o'r Waldensiaid a ddaethant o Ffrainc gael eu dal, a thrwy orchymyn y brenin iddynt gael eu mharcio yn eu talcenau gydag allwedd, neu haiarn poeth." "Yr oedd y sect hon," medd William o Newbury, "yn cael ei galw yn *Publicani*, dechreuad yr hon oedd o Gascoyne; *a'r rhai oeddynt mor lluosog a thywod y môr*, a wnaethant ofid blin yn Ffrainc, Itali, Spain a Lloegr."* Mae Dr. Henry, yn ei Hanes o Brydain Fawr, yn adrodd "fod cymdeithas (*compamy*) o gylch deg ar ugain o wŷr a gwragedd, y rhai a siaradent yr iaith Germanaidd, wedi ymddangos yn Lloegr yn nghylch yr amser hwn (1159), ac eu bod yn fuan wedi tynu sylw y llywodraeth trwy neillduolrwydd eu harferion a'u daliadau crefyddol. Mewn gwirionedd y mae yn hynod o anhawdd i gael allan, gyda sicrwydd, beth oeddynt eu daliadau crefyddol, *oblegyd y maent yn cael eu cofnodi*,

* Y gofid blin hwn oedd, eu gwaith, yn ofn Duw a goleuni ei Air, yn gwrthwynebu traddodiad dynol a llygredigaethau yr Eglwys Sefydledig. Cyfrifir eu bod yn y flwyddyn, 1160, yn rhifo *wyth can' mil.*

*yn unig, gan haneswyr monachaidd, y rhai sydd yn llefaru am dynynt mewn ffordd arw iawn.*" Ond y mae Rapin yn ychwanegu eu *bod yn gwrthod bedydd, &c.*, yn golygu yn ddiamheuol eu bod yn gwrthod bedydd mabanod. Mae yn fwy na thebyg, mai hwy oeddynt y Waldensiaid y crybwyllwyd am danynt yn flaenorol gan Foxe, oblegyd y mae Henry yn myned yn mlaen ac yn sylwi "eu bod wedi cael eu dal a'u dwyn o flaen cynghor yr offeiriaid yn Rhydychain. Pan yn cael eu holi yn nghylch eu crefydd, fe atebodd eu hathraw, dyn dysgedig o'r enw *Gerard*,‡ yn eu henw, eu bod hwy yn Gristionogion, ac yn credu athrawiaethau yr apostolion." Ac yn awr y mae yn canlyn yr hyn y bydd yn rhaid edrych arno byth fel ystaen dwfn ar yr hanes Prydeinig, a'r hyn fydd yn warth byth-barhaol ar offeiriaid y cyfnod hwnw. Och, am Loegr, fod yn rhaid i wirionedd hanesyddol gofnodi y fath gywilydd llosgadwy (*burning shame*)! "Y brenin, *wrth annogaeth yr offeiriaid* a orchymynodd iddynt gael eu mharcio â haiarn côch-boeth yn eu talcenau, ac i gael eu chwipio ar hyd heolydd Rhydychain, wedi cael tori eu dillad yn fyrion wrth eu gwregysau, ac i gael eu troi allan i'r caeau agored, fel anifeiliaid, a gwaharddiad i roddi un nodded, cysgod, na chynnorthwy yn y byd iddynt, neu ddyoddef y cospedigaethau llym-dostaf! Fe gariwyd allan y ddedfryd greulon hon yn ei llymder eithafol; a chan ei bod *yn awr yn ddyfnder y gauaf*, bu yr holl bersonau anhapus yma farw o anwyd a newyn."* Gwridwch, Gristionogion Prydeinig, am y fath beth a bod *Saeson* wedi bod erioed yn gallu cyflawni y fath weithred ellyllaidd, a hyny yn enw cysegredig crefydd! Deg ar ugain o wŷr a *gwragedd* yn cael eu nhodi ar eu talcenau â haiarn côch-boeth, yn

‡ Mae yn amlwg mai yr un dyn a grybwyllir gan Foxe, sef Gehardus.

* Henry's History, Vol. III. Gwel hefyd, Rapin, Milner, Hawies, Jones, &c.

cael eu chwipio ar hyd heolydd Rhydychain, cael tori eu dillad oddiwrth eu personau, ac yna, *yn nyfnder y gauaf*, cael eu troi allan i'r caeau agored i farw mewn adfyd, a chynnorthwy o un math yn cael ei wahardd iddynt, trwy y cospedigaethau gerwinaf! Hawdd y gellir gofidio fod gwirionedd yn gorfodi cofnodi gweithred mor ddu!

Pe buasai yr "hereticiaid" hyn wedi rhoddi prawf eu bod yn bersonau o fywyd llygredig, ac o ymddygiad anfoesol, gallesid priodoli eu dyoddefiadau i sêl dros rinwedd a chrefydd; ond pan yn ddiddadl, mai fel arall yr oeddynt, mae creulondeb eu herlidwyr tuag atynt, yn cau allan hyd y nod, yr esgusawd tlawd hwnw! Y disgrifiad canlynol o'u cymmeriadau, yr hwn a roddir gan elyn iddynt, a brofa oreu pa fath ddynion oeddynt. "Mae hereticiaid yn cael eu hynodi gan eu moesau a'u geiriau, oblegyd y maent yn dawel ac yn wylaidd yn eu mhoesau (*manners*.) Nid oes ynddynt falchder gyda golwg ar eu gwisgoedd, canys y maent yn gwisgo y cyfryw ag nad ydynt yn bryd-fawr nac yn wael. Nid ydynt yn cario yn mlaen fasnach, er mwyn gochelyd anwiredd, llwon a thwyll, ond yn unig byw trwy lafur fel gweithwyr. Eu hathrawon hefyd ydynt gryddion a gwehyddion. Nid ydynt yn amlhau cyfoeth, ond y maent yn foddlon ar yr hyn sydd angenrheidiol; maent hefyd yn gymmedrol mewn bwyd a diod. Nid ydynt yn myned i dafarndai, dawnsiau, nac i wageddau eraill. Maent yn ymattal oddiwrth ddig, ac y maent yn gysson wrth eu gwaith, yn dysgu neu addysgu, ac felly nid ydynt yn gweddio ond ychydig.‡ Gellir hefyd eu hadnabod wrth gywirdeb a chymmedroldeb eu hiaith. Maent hefyd yn ymattal rhag arfer drwg-dafod, ac athrod, ac ysgafnder mewn ymddyddan, a dyweyd an-

‡ Ysgrifenwyd hwn gan Babydd, a'r hyn a olyga pan yn dyweyd nad oedd y bobl hyn "yn gweddio ond ychydig, ydyw, nad oeddynt yn gwneuthur *gweddiau hirion* yn yr eglwysi."

wiredd a thyngu. Nid ydynt chwaith yn dyweyd 'yn wir,' neu 'yn wirioneddol' a'u cyffelyb; oblegyd ystyriant y pethau hyn fel llwon." Mae hanes arall wedi ei hysgrifenu gan Ysgrifenydd Brenin Ffrainc, yn dwyn tystiolaeth lawn mor uchel i rinweddau yr un bobl. Mae efe yn dyweyd, "Yr oedd sect y dynion hyn mewn anrhydedd mor fawr, fel yr oeddynt yn cael bod yn rhydd oddiwrth gostau a gormes-dâlion, ac yn cael mwy o elw trwy ewyllysiau a thestamentau nag oedd yr offeiriaid. Ni fuasai dyn yn niweidio ei elyn pe buasai yn cyfarfod ag ef ar y ffordd, *yn nghymdeithas un o'r hereticiaid*, yn gymmaint felly fel yr oedd dyogelwch pob dyn yn ymddangos i fod yn gynnwysedig yn eu nhodded." Etto, yr oedd y dynion diniwed, duwiol, a defnyddiol hyn yn nôd gwatwargerdd, ac yn bwynt malais a chasineb swyddol, mewn amrywiol wledydd, yn yr oes ben-feddwol offeiriadol hono. Yr oeddynt, mae'n ddigon eglur "yn halen y ddaiar;" ond gan wŷr eglwysig annwybodus ac anianol yr oeddynt yn cael eu hela, eu poenydio, a'u distrywio, fel pe buasent elynion gwaethaf holl ddynolryw. Nid oedd y camwri a ddyoddefent ond prawf arall ychwanegol at yr hysbysiad dychrynllyd, fod Duw, o herwydd rhesymau doeth a chyfiawn, wedi rhoddi cenedloedd annuwiol Ewrop i fyny, "i gredu celwydd."

Ni all ymddygiad yr Eglwys Rufeinig tuag at y bobl ostyngedig, gweithgar, a santaidd hyn, gyduno, ond, ag un egwyddor, a hono ydyw, balchder eithafol yr holl gyssegr-lywodraeth Babyddol, yn cynnwys y Pab, yr esgobion, a'r offeiriaid. Nid all balchder oddef gwrthwynebiad, a phan y gwrthwynebir ef yn dêg, dewisa fwrddrad o flaen ymostyngiad. Dyna ydyw ei gymmeriad du ac euog ef, fel mae yn llanw ei holl ddeiliaid, o satan i lawr, ag ysbryd uffern ei hun.

"Gwell ydyw teyrnasu yn uffern na gwasanaethu yn y nef," yw ei arwyddair yr hwn a feithrinir fwyaf ganddo;

a byddai yn well ganddo weled yr *universe* yn adfeilion, na chyffesu ei isder (*inferiority*) yn unrhyw ran o'r greadigaeth. Dyma ydoedd iaith Pabyddiaeth yn y deuddegfed canrif, fel y gellir profi yn hawdd oddiwrth lythyr o eiddo y Pab at Harri I., Brenin Lloegr, a mab i William y gorchfygwr, yn yr hwn y mae ei santeiddrwydd yn dyweyd, yn mhlith pethau haerllug eraill, "Mor atgas ydyw i fab genedlu ei dad, ac i ddyn greu ei Dduw! ac onid eich tadau a'ch duwiau chwi ydyw yr offeiriaid?" Gyda y fath yspryd a hwn yn Rhufain, eisteddle gostyngeiddrwydd, tebyg i'r eiddo Crist, (?) a ydyw yn beth i synu ato, fod pwy bynag fuasai yn beiddio argyhoeddi y Babaeth o fod o'i lle, yn cael ei farcio fel "heretic," a'i drosglwyddo i gael ei boenydio a'i losgi? Mae balchder yn satanaidd yn mhob man, ac mae sataneiddiwch yn anwiredd a marwolaeth, (Ioan viii. 44.)

A chymmeryd y cyfan, yr oedd y deuddegfed canrif yn dal allan mewn ucheledd ac egluider y pynciau canlynol:—

1. Fod bedydd y crediniol, yn wrthwynebol i fedydd mabanod, yn cael ei goleddu a'i addysgu gan niferi lluosog yn ngwahanol barthau Ewrop.

2. Fod Eglwys Rhufain yn ffyrnig wrthwynebol i'r athrawiaeth o fedydd y crediniol, a hyny o herwydd ei fod yn cymmeryd o ddwylaw yr offeiriaid yr awdurdod a argymmerent ei feddiannu i dderbyn personau i mewn i deyrnas nefoedd.

3. Fod bedydd y crediniol yn cael ei gydnabod yn mhob amgylchiad gan y dynion nad oeddynt yn cydnabod y bennogaeth (*supremacy*) Babyddol.

4. Fod Pabyddiaeth a bedydd mabanod yn cael edrych arnynt y pryd hyny fel mae'n ofynol edrych arnynt yn awr, fel mam a phlentyn; ac yn ol pob tebygolrwydd, fe fyddant fyw, fe flodeuant, ac fe fyddant farw gyda eu gilydd.

["Fe fydd y desgrifiad canlynol o'r gwahanol sectau a grybwyllir

yn y canrif blaenorol, ac a roddir yn *Jones' Nonconformity*, yn ddefnyddiol i eglurhau yr enwau a ddefnyddir am y sectau hyny. "O ddyddiau Cystenyn, yr ydym yn cael dysgyblion Crist yn cael eu galw Cathari, neu Buritaniaid; Paulicians, neu bublicanod, ar ol enw dysgawdwr enwog, yr hwn oedd yn aros yn ninas Mananalis, yn Armenia; Petrobrussians, oddiwrth Peter de Bruis, pregethwr neillduol o Efengyl Crist, yr hwn a gyfododd yn nghylch y flwyddyn 1110, yn neheubarth Ffrainc; Henricians, oddiwrth un Henry o Toulouse; a'r Arnoldists, oddiwrth un Arnold ó Brescia yn Itali; Leonists, neu y tylodion yn Lyons, ar ol Petr Waldo, marchnatawr cyfoethog o'r ddinas hono, yr hwn a gyssegrodd ei amser a'i dalentau i addysgu ei gymmydogion tylodion yn y pethau a berthynent i deyrnas Crist; yr oeddynt yn cael eu galw Albigensiaid oddiwrth dref Albi, yn neheubarth Ffrainc; ac yn Waldensiaid neu Vaudois, oddiwrth ddyffrynoedd Piedmont."]

---

## CANRIF Y TRYDYDD AR DDEG.

Yr oedd y gerwinderau a ddechreuasant yn y canrif diweddaf yn erbyn canlynwyr Crist yn cael eu cario yn mlaen yn yr un prescnol gyda llymder didraiedig. Mewn gwirionedd, yr oeddynt ar gynnydd, ac wedi eu gwneyd yn fath o gyfansoddiad (*system*) fel na allasai neb ddianc o afael yr erlidwyr offeiriadol. Yr oedd y creulonderau ag oeddynt wedi cael eu defnyddio hyd yn hyn, wedi tueddu i *wasgaru* yn hytrach nag i *ddinystrio* cefnogwyr gwir grefydd, dyma yr awdurdodau Pabyddol yn gorfodi tywysogion i gyflawni y ddyledswydd euog o hela allan, mewn trefn i ddifa yr "hereticiaid," y rhai, er holl erwinder Rhufain, oeddynt yn lluosog *(abound)* yn holl barthau Ewrop.

Gyda yr yspryd oedd yn ffynu yn Rhufain buasai yn ofer dysgwyl am un cwrs gwahanol i erlidigaeth erwin. Mae Mosheim yn dyweyd pan yn ysgrifenu am y canrif hwn,—"Yr oedd y Pabau yn ymddwyn yn fwy tebyg i ormeswyr nag i lywodraethwyr, ac yn dangos yn amlwg yn eu holl arweddiad, eu bod yn amcanu at arglwyddiaeth cyflawn a chyffredinol. Yr oedd y Pabau, yn fwyaf neillduol, yn addysgu yr athrawiaeth wenwynig hono, "Mai Esgob (Pab)

Rhufain ydyw *arglwydd goruchelaf y greadigaeth*, ac nad oes gan dywysogion neu esgobion, llywodraethwyr gwladol, neu lywodraethwyr eglwysig, unrhyw awdurdod gyfreithlon yn yr eglwys neu y llywodraeth, ond yr hyn maent wedi dderbyn oddiwrtho fe."* Mae yr un ysgrifenydd, hefyd, yn dyweyd am yr eglwys, i'r camarferion a'r llygredigaethau galarus ag oedd wedi teyrnasu hyd y pryd hwnw, "i gynnyddu yn y canrif hwn yn lle cael eu diwygio, ac i grefydd Crist barhau i ddyoddef o dan ormes gynnyddol o anmhwylledd ysprydol a choelgrefydd." Erlid, poenydio, a distrywio oeddynt ganlyniadau naturiol cyflwr mor ddychrynllyd o eiddo yr offeiriaid a'r bobl; ac wedi iddynt golli mor llwyr, pob syniad o'r Dwyfol, nid oedd wedi hyny ond cam fer rhyngddynt a gadael pob arwydd ac agwedd o'r dynol.

Nid hir y buwyd cyn i'r llygredd hwn ddechreu dwyn ei ffrwyth priodol ei hun, canys yn y fl. 1206 yr ymddangosodd yn y byd y sefydliad dychrynllyd hwnw o falchder a chreulondeb, Y CHWIL-LYS; ergyd cyntaf yr hwn a annelwyd at yr Albigensiaid, yn, ac oddiamgylch Narbonne. Er rhoddi pob pwys a dylanwad i'r sefydliad atgas a melldigedig hwn, fe lwyddodd y Pabau, gydag amryw o'r Tywysogion Ewropaidd, ond yn neillduol gyda'r Ymerawdwr Frederic II. a Louis IX., Brenin Ffrainc, i ddwyn allan y cyfreithiau mwyaf llym-dost yn erbyn "hereticiaid," ac i drosglwyddo i'r fflamiau y rhai fuasai yn parhau yn gyndyn. Yr oeddynt hefyd yn cael eu

* Nid rhan fach oedd gan *ariangarwch* yn nghreadigaeth ac ystyfnigrwydd yr honiad dychrynllyd hwn. Y mae wedi ei gofnodi fod y Pab, Gregory IX. wedi tynu o Loegr, mewn ychydig flynyddoedd yn y canrif hwn ddim llai na 950,000 *marks*, yr hyn a dybir oedd yn gymmaint a £15,000,000 o'n harian presenol ni. Mae "*bod yn arglwydd uchelaf y greadigaeth*" yn golygu meddu y llywodraeth yn gyfangwbl ar yr arian, a'r deisyfiad i rwystro y lledrad anfad hwn oddiar y wlad, a ddechreuodd roddi, yn nheyrnasiad Edward III., ffurf amlwg i'r bwriad o daflu ymaith yr iau Rhufeinig.

cymhell i gynnal y chwil-lyswyr mewn swydd, ac i roddi iddynt bob amddiffyniad yn y modd mwyaf rhwysgfawr a chyhoeddus. Mewn gair yr oeddynt i warthruddo eu hunain trwy ddyfod yn offerynau parod i ladd, trwy gynnal mewn swydd dywalltwyr gwaed gwirion—goruchwylwyr duon pob drygioni. Yr oedd awdurdod Wleidiadol, urddas tywysogaidd, hawliau annibynol Breninol—yr oedd *pob peth* i gael ei roddi fyny wrth archiad offeiriadaeth annynol. Yn amser toriad allan y cynddaredd offeiriadol hwn, cyfrifir fod mwy na miliwn (1,000,000) o'r tystion ffyddlon hyn i Dduw wedi cael eu rhoddi i farwolaeth! Yr oedd yr offeiriaid mor orwyllt weithgar yn y gwaith o ddal y Cristionogion diddrwg hyn, fel mewn un cyfnod (o'r amser hwn) yr oedd y chwil-lyswyr eu hunain yn achwyn fod yn anmichonadwy cael digon o arian i dalu y treulion oedd yn myned at eu cadw, na chwaith adeiladu carcharau yn ddigon cyflym i'w cynnal oll.

Y Waldensiaid, yn nesaf, a ddaethant yn ddeiliaid y gynddaredd fwystfilaidd yma. Yr oedd y bobl dduwiol yma wedi ymledu i amrywiol barthau o Ewrop, ac fe gafwyd nifer mawr o honynt yn Spaen. Yma, yn Nhalaeth Arragon, yn y flwyddyn 1232, fe gafodd y chwil-lys ei sefydlu ac fe awd yn mlaen yn gyflym i chwilio am, i boenydio, i losgi, a distrywio pawb nad "oedd wedi derbyn nod y bwystfil yn eu talcenau." Yr oedd y ddraig yn bytheirio allan ei gwenwyn yn eu herbyn, a daethant yn fuan ond megys sofl i'r tân. Fel hyn yr ysgrifena awdwr (Goadby) deallus,—"Mae yn ddigon i wneyd i'r gwaed i oeri wrth ddarllen am ddifrodiadau a mwrddradau dychrynllyd yr amser hwn; y fath niferi o Gristionogion tylodion, diniwed, a aberthwyd i gynddeiriogrwydd a malais dall eu gelynion." Fe gyf-

rifir fod y nifer o bum' can' mil wedi cael eu lladd yn Ffrainc yn unig. A beth oedd canlyniad y barbareiddiwch ofnadwy hwn? Ni all un ysgrifenwr ein hysbysu yn well na'r hanesydd doeth a chymmedrol, Thuanus. Mae efe yn dyweyd,—"Pan oedd cospedigaethau llymion yn erbyn y Waldensiaid yn nacâu ateb ond ychydig o'r dyben a fwriadai yr erlidwyr; nid oedd yr hyn a gymhwysent hwy, yn anamserol, i ladd y drwg, (?) ond gwneyd pethau yn waeth; oblegyd yr oedd rhifedi y dyoddefwyr yn myned ar gynnydd bob dydd; yna, o'r diwedd, fe godwyd byddinoedd cyfain, a dechreuwyd rhyfel yn eu herbyn, dim llai ei bwys na'r un a argymmerodd ein pobl yn erbyn y *Saracens*; ond yr oedd yn well ganddynt (y Waldensiaid) gymmeryd eu lladd, eu dodi ar ffo, cael eu hyspeilio o'u holl feddiannau a'u hanrhydedd, a'u gwasgaru yma a thraw, na chymmeryd eu hargyhoeddi o'u cyfeiliornad (tybiedig), ac edifarhau. Felly y rhai hyn a amddiffynasant eu hunain ar y cyntaf ag arfau, wedi eu gorchfygu trwy arfau, a ffoisant i Provence, a'r Alps cymydogaethol o'r tiriogaeth Ffrengaidd, ac a gawsant nodded i'w bywydau a'u hathrawiaethau yn y lleoedd hyny. Rhai o honynt a giliasant i Calabria, ac a arosasant yno am hir amser, hyd y nod, hyd deyrnasiad y Pab Pius IV.; aeth rhai drosodd i Germani, ac a ymsefydlasant yn mhlith y Bohemians, ac yn Poland a Livonia; eraill a droisant tua'r gorllewin, ac a gawsant noddfa yn Mhrydain."

Mae P. Perin yn ei hanes yn rhoddi yr hysbysiadau dychrynllyd canlynol, yn mhlith eraill, am ddyoddefiadau y dysgyblion boreuol hyn i Grist:—"Yn gyntaf yr oeddynt yn cael eu hesgymmuno a'u mhelldigo gan y Pab; yna eu hyspeilio o'r oll oedd ganddynt, eu carcharu, eu poenydio, eu hanmharchu yn gyhoeddus, yn cael eu harddangos ar *scaffolds*, yn gwisgo

meitrau,* i'w gwawdio, yn cael poeri arnynt, eu clustiau yn cael eu tori, eu cnawd yn cael ei dynu oddiwrth yr esgyrn â gefeiliau *(pincers)*, eu llusgo gan geffylau—eu llusgo i fyny ac i waered, eu brwlio (*broil*), eu rhostio, eu llabyddio i farwolaeth, eu llosgi, eu boddi, cael tori eu penau; ond yr oedd Duw yn eu cynnorthwyo trwy y cyfan yn rhyfeddol, yn gymmaint felly fel yr oeddynt yn llawenychu a gorfoleddu yn eu gorthrymderau, am eu bod yn cael eu cyfrif yn deilwng i ddyoddef er mwyn Crist." Ac mae Danvers yn sylwi: "Dyma y bobl a ddygasant dystiolaeth mor gref o blaid bedydd *credinwyr*, ac a wrthwynebasant mor gadarn *fedydd mabanod*." Yr oedd y nerth rhyfelgar ag oedd yn eu herbyn yn gynnwysedig o bum' can' mil o wŷr; fe ddistrywiwyd yn hollol fwy na thri chant o balasau boneddigion, a llawer o drefydd caerog a wnaethpwyd yn gydwastad â'r llawr." †

Os yw y darllenydd heb feddu gwybodaeth eglur am natur dychrynllyd ysgymmundod gan y Pab, fe fydd i'r adysgrif ganlynol o un, fel ei rhoddir gan Henry, (Cyf. VIII. 37) o Walney's Catalogue, gael ei ddarllen gyda dyddordeb poenus:—"Bydded iddynt fod yn felldigedig yn bwyta ac yn yfed, yn cerdded ac yn eistedd; yn llefaru ac yn peidio llefaru; ar ddyhun ac yn nghwsg; yn y tŷ ac yn y maes; ar y dwfr ac ar y tir,

---

* Coron esgob yw y *mitr*. Yr un egwyddor oedd yma ag yn nghoroni Iesu â drain.

† Pen-llywydd y fyddin lofruddiog hon oedd Simon de Montford, *Earl of* Leicester, *Sais!* Yr oedd yr ail fyddin, yr hon oedd yn llawn mor gynddeiriog a chreulawn, yn cael ei llywyddu gan Alice, gwraig y Simon uchod! Gwrida, Brydain, fod dy wlad rydd wedi rhoddi erioed enedigaeth i'r fath augenfilod!

Mae yr Eglwyswyr presenol yn gwrido o herwydd ymddygiadau eu brodyr gynt; nid yw yr amser yn mhell, pan fydd Eglwyswyr etto yn gwrido o herwydd ymddygiadau eu brodyr presenol—yn gwerthu dodrefn dynion, eu dirwyo a'u carcharu, am beidio (o gydwybod) talu treth Eglwys, &c.

yn mhob lle. Melldigedig fyddo eu penau a'u meddylian, eu llygaid a'u clustiau; eu tafodau a'u gwefusau; eu dannedd a'u gwddygau; eu hysgwyddau a'u bronau; eu traed a'u coesau; eu morddwydydd a'u rhanau mewnol. Bydded iddynt barhau yn felldigedig o wadn y troed hyd goryn y pen, oddieithr iddynt ddyfod i ail-feddwl am danynt eu hunain, a dyfod i (roddi boddlonrwydd.) A'r un modd ag mae y ganwyll hon yn cael ei hymddifadu o'i goleuni presenol, felly bydded iddynt hwythau gael eu hymddifadu o'u heneidiau yn uffern."

Mae yr anathema dychrynllyd hwn—y felldith offeiriadol hon, yn un prawf du yn mhlith amrywiol eraill, beth ydyw yspryd llygredig ac alaethus Pabyddiath *bur*. Mae yma yn cael ei harddangos yn ei lliwiau priodol ei hun, ac yn dwyn allan, yn ei ffordd naturiol ei hun, ei ffrwythau priodol ei hun. Etto 'roedd y dynion hyn yn ddilynwyr proffesedig i'r Hwn, ag mae ei orchymyn i ni, "Bendithiwch ac na felldthiwch," ond fel y maent hwy wedi gwadu ei ffydd Ef yn hollol, ac yn deffeio ei awdurdod, hyd yr eithaf, yn yr anathema annuwiol uchod, maent hwy yn "*Melldithio*," a dim yn "bendithio." Ni fu crefydd erioed ar y ddaiar yn cael ei dir-dreisio mor ysgeler yn mhlith dynolryw.

Ni ddarfu y Paterines ychwaith ddianc. Yn y flwyddyn 1210, darfu i'w lluosowgrwydd gynhyrfu eiddigedd a gwrthwynebiad Huge, Esgob Ferrara, yn Itali, i gael cyfraith o eiddo yr Ymherawdwr Otho IV. i'w cymmeryd i fyny fel troseddwyr; ond yr oedd hon yn cael ei chyfyngu i Ferrara. Pum' mlynedd ar ol hyn, dyna y Pab Innocent III., yn cynnal cyngor yn Lateran, ac yn cyhoeddi anathemau yn erbyn "hereticiaid" o bob disgrifiad, yn nghyd â'r holl arglwyddi a'r macrod ag oedd yn caniatau lle iddynt i fyw ar eu tiroedd; ac yn y flwy-

ddyn 1220, llwyddodd y Pab Honorius III. i gael cyfraith gan Frederic II. ar ddydd ei goroniad, yr hon oedd yn ymestyn dros yr holl ddinasoedd ymerodrol, fel hyn yn rhoddi maes helaethach i awdurdod y distrywiwr. Ac yn y fl. 1233 fe godwyd *monument* yn mhetryal Milan, ac ysgrifeniad arno o anrhydedd a chlod i Oldrad, llywydd y ddinas hono, ar gyfrif ei sêl a'i lwyddiant yn dal, cospi a distrywio canlynwyr Crist. Ond er eu holl dân a'u cynddeiriogrwydd, methasant ddistrywio yr Eglwys Paterinaidd, oblegyd yn y flwyddyn 1259, yr oedd yr Eglwys yn Alba yn cynnwys uwchlaw pump cant o aelodau, yr un yn Conrezzo, uwchlaw 1500, a'r un yn Bagnoble yn nghylch 200. Yr oedd eglwysi y Peterines, mewn gwahanol barthau, yn cynnwys 4000 o aelodau, ac er eu holl ddyoddefiadau yr oedd Duw yn cyfryngu idd eu cadw yn fyw yn y byd. Ac nid ydoedd yn llai nodedig gyda golwg ar yr Albigensiaid, oblegyd er y golled o "*un miliwn o fywydau diniwed*," etto, er hyny i gyd, hysbysir ni mewn modd credadwy eu bod yn y flwyddyn 1260, yn rhifo 800,000 o bersonau. Yr oedd eu dyogeliad fel hyn yn egluro y gweithrediad tawel o eiddo y gallu Hollalluog hwnw, gair yr hwn sydd yn cyhoeddi wrth *holl* weithrediadau y tywyllwch, "Hyd yma yr ewch, ond dim yn mhellach;" a llais dystaw main yr hwn yn mhob oes sydd wedi profi gyda golwg ar wir eglwys Dduw," a phyrth uffern nis gorchfygant hi."

Prin iawn y ceir lle i *ammheuaeth*, fod yr erlidigaethau creulawn hyn wedi cael eu cryfhau, os nid eu cynnorthwyo, gan gasineb Eglwys Rhufain at fedydd y crediniol, a'i phenderfyniad didroi yn ol i amddiffyn bedydd mabanod. Mor belled yn ol a'r flwyddyn 1050, anfonodd y Pab Leo IX. ddeddf-lythyr at Esgob Aquitane, (lle yr oedd y Waldensiaid yn

lluosog) yn yr hwn yr oedd yn *gorchymyn* fod plant ieuanc i gael eu bedyddio, oblegyd pechod gwreiddiol." Yr oedd y ddeddf Rufeinaidd hon, yn amlwg, yn cyfeirio at arferiad y Waldensiaid o fedydd y crediniol, yr hwn yr oedd y ddeddf hon yn amcanu ei ddifodi. Ac y mae Dr. Wall, pan yn cyfeirio at y *Lateran Council* dan y Pab Innocent III., o enwogrwydd erlidgar, yr hwn oedd yn cyhoeddi ei felldithion yn erbyn yr holl hereticiaid, yn hysbysu fod y cynghor hwnw yn *gorchymyn* (*enforce*) bedydd mabanod, oblegyd fod yr hereticiaid yn addysgu nad oedd bedyddio plant yn ateb un dyben. Oddiwrth bob tystiolaeth a ddalia gyssylltiad â'r pwnc hwn, gellir casglu ar dir teg, pa bynciau bynag eraill oedd yr "heriticiaid" hyn yn gredu, mai eu hymlyniad cadarn wrth fedydd y crediniol, a'u gelyniaeth at fedydd mabanod, yn *benaf* a gynhyrfodd yr yspryd creulawn hwn, ac a ddygodd arnynt ddialedd didosturi Eglwys Rhufain. Yr oedd eu gwaith yn dal allan, fel yr oeddynt, mai yr Ysgrythyrau yn *unig*, ac nid pabau na thywysogion oeddynt reol cydwybod, ac mai bedydd y crediniol oedd y dull dwyfol apwyntiedig i fyned i mewn i'r eglwys,—yr oeddynt mewn effaith yn diystyru holl awdurdod Rhufain, yn nghyd a'i osgordd-leuadau gwleidiadol, ac fel hyn yn cyflawni y pechod anfaddeuol o ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion. Dyma, yn ngolwg eglwysi llygredig, y trosedd mwyaf dan haul; ac o herwydd hyn yn y fl. 1229, dyma y chwil-lys yn Toulouse yn myned yn mlaen i wahardd defnyddio yr Ysgrythyrau yn iaith y werin, am eu bod yn gwybod yn dda y buasai defnyddiad rhydd o air Duw, yn parhau i fod yn angeuol i'w holl gynlluniau y rhai yr oedd eu sail mewn tywyllwch a llygredigaeth.*

* It is a rather singular circumstance that the only "heretic" in England during the thirteenth century of whom we have any distinct account was one Richard Knapwell, a *Dominician Friar*. Among

Yr oedd y Picardiaid yn Bohemia yr un mor ffyddlon i'r Ysgrythyrau, i fedydd y crediniol, ac yn y pen draw, yr oeddynt yn ddyoddefwyr cyfartal a'r Albigensiaid, Waldensiaid, a'r Paterines. Yr oeddynt yn bobl dawel, addfwyn, a chariadus, ac nid oeddynt yn cymmeryd llwon, yn dwyn arfau, nac yn arfer cospedigaeth. Yr oeddynt yn neillduol ofalus i amddiffyn ac addysgu yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd, gan ei hystyried "yn swm holl Gristionogaeth a duwioldeb." Yn gwrthwynebu bedydd mabanod, tynasant hwythau arnynt eu hunain ddygasedd Eglwys Rhufain, ac a gawsant, yn ddiesgeulus eu hanrhydeddu trwy ddyfod yn ferthyron i'w chynddaredd erlidgar; etto, o weddillion y bobl dduwiol ac addfwyn yma, y cyfododd, mewn blynyddoedd ar ol hyny, y dynion enwog hyny, Huss, a Jerome o Prague.

Fe ddarfu i'r erledigaethau mynych a gwaedlyd hyn *sefydlu* bedydd mabanod, ac ymlid yr ordinhad henafol, a mwy ysgrythyrol, sef bedydd y crediniol, i dyllau a chornelau o Ewrop, annghanfyddadwy hyd yn nod i lygaid eryraidd y Chwil-lys ei hunan. Etto, y mae yn rhywbeth o blaid bedydd trwy drochiad, i allu dweyd ei fod wedi parhau i fod yn ddeddf diammheuol yr eglwys am 1300 o flynyddoedd. Mae yr enwog Bossuet, er ei fod yn Babydd, yn addef hyn pan yn dadleu yn erbyn Protestant, y mae yn dyweyd:—"Mewn gair, nid ydym yn darllen yn yr Ysgrythyr fod bedydd yn cael ei weinyddu mewn un ffordd arall ond trwy gladdu; ac yr ydym yn alluog i brofi oddiwrth weithrediadau cynghorau, a Defod-lyfrau, mai fel hyn yr oedd bedydd yn cael ei weinyddu am 1300 o flynyddoedd trwy yr holl eglwys, mor belled ag yr oedd yn ddichonadwy." Ac y mae efe yn mhellach

other propositions maintained by this bold man, was the following:—"That in articles of faith, a man is not bound to rest on the authority of the Pope, or of any priest or doctor; but that the Holy Scriptures and right reason, are the only foundation of our assent."—*Henry's History*, Vol. viii. p. 23.

yn ychwanegu:—"Gyda golwg ar fedydd mabanod, mae y rhai hyny a berthynant i'r grefydd honiadol ddiwygiedig, mae'n wir, yn dyweyd fod eu bedydd yn seiliedig ar yr Ysgrythyr, ond nid ydynt yn dwyn un adnod bennodol i ddangos hyny, ond yn dadleu oddiwrth gasgliadau hynod bell, heb ddweyd hynod ammheus, ac hyd yn nod hynod gyfeiliornus. Mae yn amlwg, nad oes gan yr holl brawfion a ddygant o'r Ysgrythyr ar y pwnc hwn, un grym mewn un modd, ag y mae y rhai hyny ag y gallai fod rhyw rym ynddynt yn cael ei distrywio ganddynt hwy eu hunain." Mae y dystiolaeth hon gyda golwg ar henafiaeth bedydd trwy drochiad, yn cael ei chadarnhau gan Dr. Whitby, yn ei sylwadau ar Rhufeiniaid vi. 4. "Y mae yn cael ei hysbysu mor bendant ac eglur yma ein bod ni wedi ein *claddu gyda Christ yn y bedydd*, trwy gael ein claddu dan y dwfr, ac mae y rheswm (*argument*) dros i ni gydymffurfio â'i farwolaeth ef, trwy farw i bechod, yn cael ei gymmeryd oddiwrth hyny; ac y mae y *trochiad* hwn wedi cael ei weinyddu yn grefyddol gan yr HOLL CRISTIONOGION AM DRI CHANT-AR-DDEG o flynyddoedd, yn nghyd a'i gymmeradwyo gan ein heglwys ni; ac mae y cyfnewidiad o hono i daenelliad, heb un math o ganiatâd oddiwrth Awdwr y sefydliad hwn, yn bod yr un peth a'r hyn ag mae y Pabydd yn ddwyn yn mlaen o hyd i gyfiawnhau ei waith ef yn gwrthod y cwpan i'r lleygwyr (*laity*); mae yn beth i'w ddymuno fod yr arferiad hwn drachefn yn cael ei ddwyn i arferiad cyffredinol.". Gyda thystiolaeth o fath hon i ddechreuad bedydd trwy drochiad,—yn meddu tystiolaeth na all neb, gydag un math o lwyddiant, ei throi yn ol, sef mai trochiad yn unig oedd deddf gydnabyddedig yr eglwys am DRI CHANT-AR DDEG o flynyddoedd, na fydded ofn ar y Bedyddwyr i wneuthur arddeliad eofn o'u credo, na chwaith i fod yn ofnus yn y gwaith o'i ledaeniad. Fe gafodd-

ei amddiffyn yn ffyddlawn gan gymdeithas *(company)* anrhydeddus o'r Albigensiaid, y Waldensiaid, y Pauliciaid, y Pateriniaid, a'r Picardiaid; fe ddarfu iddynt ei anrhydeddu ef yn eu bywyd, a rhoddasant eu sêl wrth ei santeiddrwydd a'i werth mewn marwolaeth o ferthyrdod, yr hwn a gwrddasant gyda chadarnwch cryfach nag eiddo gwron. Na fydded fod y dynion anrhydeddus hyn byth yn amddifad o ganlynyddion yr un mor anrhydeddus a hwy eu hunain. Bydded i'r ffyddlondeb a ddangosasant hwy, "hyd y nod at waed," gymhell Bedyddwyr pob oes ddylynol i ddiystyru, fel y gwnaethant hwy, ŵg a bygythion, a r hyn sydd yn fwy peryglus, sef gweniaithiadau byd twyllodrus. Gyda'r cyfryw gyndadau—y fath lu anrhydeddus o ferthyron a'r cyndadau hyn yn y ffydd,—yn sicr nid ydyw yn ormod i'w cheithio y bydd i bob un sydd yn dwyn yr enw Bedyddiwr, i brofi eu hunain yn ddynion a safant i fyny yn barod i farw *yr hytrach na gadael eu hegwyddorion.*

Mae dau nodiad ar hanes y canrif hwn yn aros i gael eu gwneyd, fel rhai ag sydd deilwng o sylw:—

1 Fe ellir casglu fod llygredd yr offeiriaid yn fawr oddiwrth ddeddf a wnawd mewn Cymmanfa a gynnaliwyd yn Rhydychain, yn y fl. 1222, gan y Cardinal Langton, trwy yr hon ddeddf "y mae yr offeiriaid yn cael eu gwahardd i gadw ordderchwragedd yn gyhoeddus yn eu tai eu hunain, neu i fyned atynt mewn lleoedd eraill mor gyhoeddus ag i achlysyru gwarth.

2. Pan fethodd canlynwyr Iesu a chael dim trugaredd o dan Bab Cristionogol, fod y Mahomedaniaid y yr Ysbaen, wedi caniatau i bawb a geisiasant eu hamddiffyniad, noddfa ddyogel. Yr oedd hyd yn nod canlynwyr y gau broffwyd, yn feddiannol ar fwy o ddynoliaeth na'r "Dyn pechod."

## CANRIF Y PEDWERYDD AR DDEG.

Yn ychwanegiad at yr awdurdodau a ddyfynwyd yn y rhan ddiweddaf o'r hanes hwn, yn brawf o blaid yr ordinhad henafol o drochiad, gellir dwyn yn mlaen dystiolaeth Brenner, ysgrifenydd Pabyddol arall. Mae efe yn dywedyd:—"Am dri chant ar ddeg o flynyddoedd, fe fu bedydd, yn gyffredinol a rheolaidd, yn drochiad y person dan y dwfr, ac yn unig mewn amgylchiadau anghyffredin neillduol yr oedd taenelliad neu dywalltiad gyda dwfr; yr oedd yr olaf, er hyny (taenelliad a thywalltiad) yn cael eu hammheu fel dull bedydd; yn fwy, yr oeddynt hyd y nod, yn cael eu gwahardd." Mae tystiolaeth unol Bossuet, Dr. Whitby, yr awdwr a ddyfynwyd yn ddiweddaf, yn nghyd ag amryw eraill a allesid enwi, sef mai trochiad oedd yn cael ei ystyried, am dri chanrif ar ddeg, y dull priodol o fedydd, yn derfynol ar y pwnc, *hyd nes y gwrthbrofir hyny*; ac y mae yr oll sydd wedi cael ei ysgrifenu hyd yn hyn, wedi methu gwneyd hyn. Mae y diweddar ysgolhaig, a'r ieithydd enwog, Mr. J. B. Lindsay, yr hwn a wnaeth ymchwiliad i'r prawfion, gyda gofal mawr, yn ychwanegu ei dystiolaeth yn y geiriau canlynol:—"Yr ydym wedi canfod fod yr holl eglwysi henafol yn arfer trochiad hyd y dydd hwn, gyda yr eithriad o'r Pabyddion, y rhai a ddygasant i mewn daenelliad yn 1311;" yn nghylch y flwyddyn hono, mae'n amlwg, oddiwrth bob tystiolaeth, y daeth yr eithriad, sef taenelliad yn rheol.

Er na all neb yn llwyddiannus wrthbrofi y dystiolaeth hon, na gwadu fod trochiad wedi parhau i fod *y dull* o fedydd am dri chant ar ddeg o flynyddoedd, etto, mae'n debygol, fod cynnygion wedi cael eu gwneyd o leiaf, yn achlysurol, i ymadael oddiwrth yr arferiad hwn, a chymmeryd rhyw ddull arall mwy cyfleus. Ymddengys fod rhywbeth o'r natur yma yn cael cyfeirio ato, yn y cynghor o dan Wulfred, a

gynnaliwyd yn York, O.C., 816, yr hwn oedd yn adgofio yr henaduriaid, "pan y byddont yn gweinyddu bedydd, na ddylent dywallt y dwfr cyssegredig ar benau mabanod, *ond bydded iddynt bob amser gael eu trochi yn y* FONT, fel y rhoddodd Mab Duw ei hunan esiampl i'r holl gredinwyr." Mae Robinson, yn ei "Hanes Bedydd" hefyd yn hyspysu fod,—"Gweinyddiad bedydd trwy daenelliad wedi cael ei ddyfeisio gyntaf yn Affrica, yn y trydydd canrif, er mwyn pobl glaf, orweiddiog, neu rai yn 'cadw y gwely;'" ac y mae efe yn hynod gywir yn sylwi,—"Fod y gwaith o ddarostwng y grefydd Gristionogol i faintiolaeth plant, wedi bod yn ddistryw i Gristionogaeth, ac mae y sefydliadau (*institutes)* wedi eu gwneyd i gyfranogi o dynged yr athrawiaeth; maent wedi cael eu dymchwelyd oddiar eu gwadn-golofnau *(pedestals*) a'u troi i deganau chwareu plentynaidd; ac o'r diwedd, cael eu dirmygu, eu dryllio, a'u taflu ymaith." Yr oedd y newydd-beth yn raddol, ond fel yn mhob amgylchiad, pan mae y gwirionedd noeth yn cael ei roddi i fyny, fe gymmerodd, y mwyaf diystyr o ddyfeisiau dynol, o'r diwedd, le y gyfraith anrhydeddus ddechreuol.

Mae wedi cael ei brofi yn barod, oddiwrth dystiolaeth ddiammheuol a mynych grybwylledig, mai "cadwedigaeth mabanod," neu a llefaru mewn termau mwy cyfammodol, *ail-enedigaeth fedyddiadol*, oedd y rheswm sylfaenol dros y newydd-beth hwn, er fod y rheswm tybiedig yn gyfeiliornad mawr ac arswydus. Mae'n amlwg fod ei amddiffynwyr yn mabwysiadu y golygiad mwyaf cyfeiliornus o barthed yr ordinhad Ddwyfol hon; ac yn lle edrych arni fel cysgod, neu arwyddlun,—yr arwydd allanol o ras mewnol,—hwy a'i gwnaethant i fod y gras ei hunan, ac a ddychrynasant oes annwybodus i'r grediniaeth ffol hon, sef lle nad oedd bedydd nid oedd cadwedigaeth. Ac oddiwrth hyn y cyfododd y brys gwancus mewn rhieni i fedyddio eu plant, a phan na ellid, o

herwydd gwendid, ofn iddynt farw, neu achosion eraill, eu dwyn at y *font* i gael eu *trochi*, yr oeddynt yn awyddus yn derbyn y cyfaddawd (*compromise*) sef, *taenelliad*. Ystyrid rhywbeth yn iawn, pa un ai taenelliad, tywalltiad, neu drochiad, *os byddai yn cael ei gyflawni gan yr offeiriad*, ac fe ddarfu i'r hygoeledd annwybodus yma o eiddo y bobl, yn gyssylltiedig â diogi, difaterwch, ac amcan yr offeiriadaeth, dirywiad y rhai oedd wedi dyfod yn ddiarebol, roddi i'r newydd-beth ffolaidd, sef taenelliad, yr holl awdurdod a llawer mwy nag arwyddocâd y ddeddf ddechreuol. Oblegyd yr oedd y ddeddf hono yn cydnabod *cymmeriad* wedi ei ffurfio trwy ffydd—"*y neb a gredo ac a fedyddier*," ac nid oedd yn cyssylltu pwysigrwydd yn y byd ag unrhyw ordinhad ar waban oddiwrth y ffydd ag oedd yn cyfansoddi y cymmeriad hwnw; ond yr oedd y newydd-beth plentynaidd, sef taenelliad, yn gosod pob peth, hyd y nod, iachawdwriaeth ei hunan, i ymddibynu ar y ddefod—trwy gauad allan gymmeriad yn hollol. Mae y ddefod o daenelliad ynte, mewn un pwnc mawr a phwysig wedi troi "Efengyl ogoneddus Duw," i wrthuni perffaith (*absurdity*).

Lluosog ydynt y ffynnonellau, o'r rhai y gellir cael profion aml a mwyaf darostyngol (*humiliating*), ar y pen hwn; eithr ni chaniata yr hanes cyfyngedig hwn, ond yn unig y ddau ganlynol:—Mae Bower yn ei "*History of the Popes*," yn rhoddi yr hyspysiad a ganlyn am *Caedwalla*, Brenin y *West Saxons*, yr hwn a ymwelodd â Rhufain er mwyn derbyn bedydd o ddwylaw y Pab. "Efe a ddaeth i Rufain, ychydig cyn y Pasg, ac wedi cael ei dderbyn gan *Sergius* (y Pab), gyda phob arddangosiad dichonadwy o barch ac anrhydedd, efe a fedyddiwyd ganddo ef ar brydnhawn yr wyl hono; ac efe a gymmerodd, wrth ei fedyddio, yr enw *Pedr*, yn ddiammheuol, er dangos parch i'r apostol Pedr, ac er sicrhau ei nodded (*Pedr*) iddo. Yr oedd efe fel mae Bede yn ein hyspysu, o

hyd yn dymuno cael marw yn fuan ar ol ei fedyddio, ac fe gafodd ei ddymuniad: canys tra yr ydoedd efe etto yn ei wisg wen,* fe'i cymmerwyd yn glaf gan wendid *(faintness)*, ac a fu farw ar yr 20fed o Ebrill, pan ydoedd ond deg ar ugain mlwydd oed. Yn oesau boreuol yr Eglwys, yr oedd yn arferiad cyffredin gan y dysgyblion egwyddorig (*catechumens*), i ohirio eu bedydd hyd ddiwedd eu hoes, fel na fyddai iddynt syrthio i bechod ar ol eu bedyddio, *eithr yn myned o honynt i'r nefoedd yn bur a dihalogedig*." Yn mha le, yn marn y fath ddyn, yr oedd gwaed Crist, "yr hwn sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod?" A pha le hefyd, yr oedd yr IAWN MAWR ei hun? Yr oedd yr Efengyl fendigedig yn cael ei gadael yn ddisylw (*ignored*) ar gyfrif defod offeiriadol; ac fe ddaeth bedydd, yn mhob golygiad, yn fwy pwysig na'r oll ag oedd yn werthfawr yn nghroes Crist!

Gwnaeth y cyfeiliornad mwyaf dinystriol hwn mewn amser, lygru llenyddiaeth yn gystal a duwinyddiaeth (os ydyw unrhyw addysgiaeth gyhoeddus yn teilyngu yr enw hwnw), yr oesau tywyllion hyny. Yn unol â hyn y mae Tasso, yn ei "Jerusalem Delivered," yn gwneyd i wronwraig baganaidd, pan yn marw i ddeisyfu cael ei bedyddio fel yr unig drwydded i'r nefoedd. Mae Tasso yn darlunio y fenyw filwrol hono yn deisyfu ar y marchog (*knight*) ag oedd wedi rhoddi clwyf marwol iddi, ei bedyddio, gan gwbl gredu y byddai i'r bedydd hwnw roddi trwydded iddi i fyned i'r nefoedd. Rhoddir yma mewn rhyddiaith gyfieithad Cymmreig o'r geiriau a berthynant i'r amgylchiad. Darlunir hi yn cyfarch y marchog fel y canlyn:—

"Gyfaill, tydi a ennillaist; yr wyf yn maddeu i ti, na cheisia achub,
Y corff hwn, yr hwn a all oddef pob math o boenydiau,
*Ond achub fy enaid; a myfi yn marw, bedydd wyf yn ddeisyf gael,
Tyred, golch ymaith fy mhechodau a dyfroedd pur.*

* * * * *

* Y dillad yn y rhai y cafodd ei fedyddio.

O ochr y mynydd, gyda *murmur* uchel,—
Y treiglai y cornant, yn agos i'r lle yr oeddynt;
Ac yno efe a redodd, ac a lanwodd ei helm ledan,
A dychwelodd ar frys i gyflawni y gwaith hwnw o râs.
* * * * *
Ni fu ef farw, ond efe a gasglodd yn nghyd ei holl nerth,
Ac fe roddodd ei galon dan ofal ei rinweddau;
Ffrwynodd ei ofid, *a gyda dwfr efe a ad-dalodd* [caled.
Am y bywyd yr oedd wedi ei hymddifadu hi o hono a haiarn
A phan oedd y marchog yn adrodd y geiriau cysegredig, [i'r nefoedd;
Yr oedd y dlws-ferch,(*nymph*) mewn llawenydd yn paratoi ei hun
Ac fel 'r oedd ei bywyd yn darfod, yr oedd ei llawenydd yn mwyhâu;
Hi a wênodd, ac a ddywedodd,—*Ffarewell!* yr wyf yn marw mewn heddwch."*

Mae yr un bardd yn gwneyd i un arall o'i gymmeriadau i ddyweyd,—

"Yn bagan y ganwyd fi, ond etto, yr Arglwydd
A'i râs, *trwy fedydd,* a achubodd fy enaid."

Oddiwrth y darnodiadau hyn o lenyddiaeth yr oesau hyny, at y rhai gellid yn hawdd ychwanegu llawer, mae yn amlwg mai prif bwnc yr offeiriaid oedd dysgu ymddibyniad ar y ddefod allanol, bedydd; mewn gair ar y dwfr yn unig, yn hollol ar wahan oddiwrth râs Duw, yr enedigaeth newydd, a ffydd yn Nghrist.

Nid oedd *cymmeriad*, yn ol y syniad yma yn ddim; eithr y seremoni, pa un ai trwy daenellu, tywallt, neu drochi, oedd pob peth; ac yn lle bod yn wasanaeth Dwyfol yn cael ei gyflawni iddo Ef, yr hwn sydd Yspryd, fe ddaeth o'r diwedd yn wawdiaeth *mabanaidd*, yn degan chwareu maban, yn yr hwn ni chaniateid lle i wybodaeth, enaid, na chydwybod.†

---

* Mae Hoole yn cyfieithu geiriau Tasso fel hyn:—

"'Tis thine, my friend!—I pardon thee the stroke:—
O let me pardon too from thee invoke—
Not for this mortal frame I urge my prayer,
For this I know no fear, and ask no care.
No, for my soul alone I pity crave,
O cleanse my follies in the sacred wave."

† Ac y mae Lloegr, y dydd presenol yn mhell o gael ei hadferyd i olygiadau purach. Dygwyddodd fod awdwr y gwaith hwn, ychydig flynyddau yn ol, yn byw yn un o ddinasoedd mwyaf poblogaidd Prydain, ac nid yn mhell oddiwrth drigfa gweinidog

Cafodd y canrif hwn ei hynodi gan ymddangosiad yr hynod Wickliffe, canlynwyr yr hwn a gymmerasant, neu a gawsant yr enw Lolardiaid. Oddiwrth yr amgylchiad hwn, yn benaf, y cododd y ddadl, pa un a ydoedd y Diwygiwr hybarch yn bleidiwr neu yn wrthwynebwr bedydd mabanod. Mae tuhwnt i bob ammheuaeth, fod y Lolardiaid yn wrthwynebol i fedydd mabanod; oblegyd ni allasai y cyhuddiadau a ddygwyd yn eu herbyn, fodoli mewn un modd, ar unrhyw dir arall. Mae Foxe, yr hwn nid oedd yn gyfaill i'r rhai a wrthodent fedydd i fabanod, yn caniatau mai un o'r cyfeiliorniadau y cyhuddid hwy o hono oedd, "eu bod yn llefaru yn erbyn tyb y cyfryw a feddyliént fod y mabanod sydd yn marw cyn cael eu bedyddio yn golledig; ac fod pobl Gristionogol i gael eu bedyddio yn ddigonol, yn ngwaed Crist." Ac mae Danvers, wrth ddyfynu o'r *Dutch Martyrology*, yn dyweyd, "i un, Syr Lewis Clifford, yr hwn oedd wedi bod yn gyfaill i Wickliffe, hysbysu Archesgob Canterbury, na wnelai y Lolardiaid fedyddio eu mhabanod newydd-eni."

Y mae yn fwy na thebygol, fod *egwyddorion* Wick-

Ymneillduol. Yn hwyr, un noswaith—rhwng dêg a un ar ddêg o'r gloch, dyma rhyw un yn curo yn uchel wrth ddrws yr awdwr, ac ar ei waith yn agor y drws, canfyddai yno fenyw, o ymddangosiad parchus; yr oedd yn amlwg ei bod raddau uwchlaw y dosbarth gweithiol, yr hon a ddymunodd yn daer arno i ddyfod i dŷ a enwodd, i fedyddio plentyn ag oedd yn marw yn gyflym. Dywedodd ei bod wedi galw yn nhŷ y gweinidog crybwylledig uchod (*taenellwr*), ac nad oedd gartref ar y pryd, ac fod y wraig lle yr arosai wedi ei chynghori hi i ddyfod ataf fi i ofn i mi i ddyfod i weinyddu y ddefod *achubol*. Mi a wrthodais wrth gwrs, mewn geiriau mor dyner ag a allwn ddethol, oblegyd nad oeddwn yn dymuno dolurio lle nas gallwn iachau—ac aeth y fenyw druan ymaith yn anfoddlon—pobpeth ond cael ei boddloni gan resymau un nad oedd yn credu fod bedydd mabanod yn angenrheidiol er iachawdwriaeth mabanod.

Y mae cannoedd yn Nghymmru, "Gwlad oleu Efenghl," mor dywyll ac annwybodus, fel maent, heddyw yn tybied fod ychydig dafnau o ddwfr ar dalcenau eu mhabanod gan weinidog, yn dyogelu eu heneidiau rhag uffern ! A'r rhai hyn yn aelodau o eglwysi *Cristionogol* ein gwlad! !

liffe yn arwain i wrthod bedyddiad mabanod. Yr oeddynt yn benaf y cyfryw â'r rhai hyn:—"Fod yr holl wirionedd yn cael ei gynnwys yn yr Ysgrythyrau Santaidd; ac fod yr hyn nad yw yn wreiddiol yno i gael ei gyfrif yn halogedig; fod cyfraith Crist ei hun yn ddigonol i lywyddu Eglwys Crist; fod yn rhaid i ni beidio derbyn dim nad ydyw yn yr Ysgrythyr; ac fod pobpeth a ychwanegid ato, neu a dynid oddiwrtho yn gabledd; na ddylai un seremoni na defod gael ei derbyn yn yr Eglwys, ond y rhai sydd yn eglur yn cael eu cadarnhau gan Air Duw; fod dynion doethion yn gadael, fel pethau anmherthynasol, y cyfryw nad ydynt yn cael eu hyspysu yn eglur, nad ydym i dderbyn unrhyw wyddor neu gasgliad nad ydyw yn cael ei gadarnhau gan dystiolaeth ysgrythyrol; ac nad ydyw pwy bynag ag sydd yn dal opiniynau gwahanol yn Gristion, ond yn rhyswr (*champion*) pendant y diafol."

Ni ellir, gydag un math o lwyddiant, wrthbrofi y buasai i egwyddorion o fath y rhai hyn, arwain yn y pen draw, i wrthodiad bedydd mabanod; ond pa un a aeth Wickliffe ei hun, neu a welodd efe, lawn hyd ei egwyddorion ei hun, sydd yn agored i ammheuaeth dwys. Nid oes dim yn ei ysgrifeniadau ag sydd yn profi iddo fyned y pellter hwn, eithr yn hytrach i'r gwrthwyneb; ac y mae amryw awdwyr y rhai oeddynt awyddus i hawlio y Diwygiwr fel Bedyddiwr, yn ddiau wedi camgymmeryd, trwy gymmeryd golygiadau nifer mawr o'i ganlynwyr am olygiadau y Diwygiwr ei hun. Ar y cyfan y mae yn fwy dyogel i fabwysiadu tyb Dr. Hurd, yr hon sydd yn fwy têg, er ei bod rhywbeth yn ammheus, yn ei *History of all Religions*, sef, "fod yn lled amlwg oddiwrth ysgrifeniadau lluaws o ddynion dysgedig, fod Dr. John Wickliffe, yn ystyried bedydd mabanod yn beth anghyfreithlawn, neu ar y goreu, yn ddiangenrhaid. Mae golygydd *Neal's History of the Puritans*, Dr.

Toulmin, yn gyfartal yn ei degwch, yn gwneyd y sylwadau synwyrol canlynol, ar syniadau bedyddiadol Wickliffe:—"Y mae, fe allai, yn annichonadwy i ni, ar ol cyfnod o bedwar i bump canrif, benderfynu y pwnc, pa un a oedd a'i nad oedd y Diwygiwr mawr Saesonig, yn gwrthwynebu bedydd mabanod. Fodd bynag, y mae yn ffaith, na chaniata ammheuaeth yn ei gylch, ei fod ef yn dal ac yn cyhoeddi yr egwyddorion hyny, y rhai pan eu carir hwynt i'w canlyniadau cyfreithlawn, sydd yn hollol ddadymchweliadol i'r arferiad dan sylw, sef bedydd mabanod. Ac os na ddarfu i Wickliffe ei hunan ddylyn canlyniadau ei athrawiaethau mor belled a hyny, etto fe wnaeth lluaws o'i ganlynwyr, ac a wnaethpwyd yn Fedyddwyr trwy hyny."

Ond gadael y pwnc ammheus, o barthed golygiadau Wickliffe ar fedydd mabanod heibio, gellir sylwi gyda sicrwydd perffaith, fod y Lolardiaid, gyda y rhai yr oedd canlynwyr Wickliffe, i fesur mawr, yn gyd-gorfforedig, yn ymddangos yn wrthwynebwyr penderfynol i'r arferiad hwnw. Mae Thomas Walden, yn ei ymosodiad ffyrnig a disail ar y Diwygiwr, yn ddrygionus yn ei ddarlunio fel "un o'r saith pen a gyfododd o'r pwll diwaelod, *o herwydd ei waith yn gwadu bedydd mabanod*, *yr heresi hono o eiddo y Lolardiaid*, i'r rhai yr oedd ef y fath flaenor mawr." Mae *tymher* Weldon yn gydbwys â'i fyrbwylldra, ond nid yw y naill na'r llall yn gwanhau ei dystiolaeth o barthed y ffaith fod y Lolardiaid, a chyda hwy, y corff mawr o *ganlynwyr* Wickliffe, yn gwadu bedydd mabanod. Fe luosogodd y rhai hyn gymmaint mewn amser byr, fel y mae Walsingham yn hyspysu fod braidd bob yn ail berson a gyfarfyddid yn yr heol yn Lolard. Er mai enw gwawdlyd megys "*Puritan*"* a

---

* Oddiwrth air *Dutchaidd*, *lullen*, canu, (mewn angladdau &c.), ac nid oddiwrth Walter Lólard, fel y mae Ivimey, ar ol Fuller (*Church History*) wedi meddwl. Mae Mosheim, yr hwn a wnaeth ymchwiliad i'r pwnc gyda dyfalwch mawr, Dr. Gregory, Sabine, ac awdurdodau eraill, wedi dyfod i'r casgliad uchod.

"*Methodist*" ydoedd, etto mewn oesau ar ol hyn nid oedd ar ganlynwyr ffyddlawn Crist gywilydd o'r enw. Mae Chaucer, yr hwn nad yw yn ddeonglwr anenwog o deimlad cyffredin y cyfnod hwnw, yn gwneyd i'w lettywr, yr hwn oedd wedi cael ei geryddu am ei regfeydd halogedig, i watwar-foli (*sneer*) Lolard duwiol fel hyn:—

> " Now good, men (quod our host) hearkneth to me,
> *I smell a Loller in the wind (quod he)*
> Abideth for Goddes digne passion
> For we shul han predication
> This Loller here will preachen us somewhat."

Fe ddarfu i ymledaeniad cyflym y Lolardiaid hyn yn nghyd â'r Wickliffiaid ddychrynu y Pab o Rufain, yr hwn, i attal "heresiau" cynnyddol a ddygodd allan yn y flwyddyn 1377, dri tharw (*bulls*) yn erbyn y Diwygiwr, un o honynt yn cael ei anfon i'r Brenin Edward III. Ond profodd y rhai hyn eu hunain yn ddinerth; yr oedd "*public opinion*" yr oes yn rhy nerthol, hyd y nod, i'r daran-follt Rufeinaidd. Ymlynodd y bobl wrth Wickliffe; a phan anrhegodd y Diwygiwr dewr y wlad, yn y flwyddyn 1380, a'r fendith anmhrisadwy o gyfieithad o'r Beibl yn yr iaith Saesoneg, canfyddodd y bobl ar unwaith, fod pwy bynag a erlidiai Wickliffe, yn erlid eu cyfaill daiarol goreu. Iddo ef dan fendith Duw, yr oeddynt yn ddyledus am y Beibl yn eu hiaith eu hunain, ac er fod ei bris uchel (*five marks**), yn ei osod tuhwnt i gyrhaedd corff mawr y bobl, etto yr oedd ei gael yn rhywle, mewn unrhyw balas, yn rhanau darniol, yn llanw y wlad â bywyd ac a gwybodaeth ysgrythyrol, y cyfryw nad oedd Lloegr wedi ganfod erioed o'r blaen. Yr oedd ef a'i gynnorthwywyr yn llafurus a gofalus i roddi yr Ysgrythyrau Santaidd *i'r bobl*, a chymmerasant boen mawr i wneyd y cyfieithad yn eglur; ac i'r dyben hyny yr oeddynt yn myfyrio y ffordd

* O'r braidd, os dim dan, o £50 i £60, o'n harian presenol ni, yn ol awdurdod Mr. Hallam.

i ysgrifenu yn yr iaith fwyaf hyddysg o eiddo yr oes, ac ymddengys iddynt ddiofrydu pob *term* ysgolheigiol a thramor. Ymddengys (yr iaith) i ni yn yr amseroedd mwy diwylliedig hyn yn wrthun, ac o'r braidd, yn farbaraidd, ond yr oedd yn berffaith ddealladwy i "*bobl gyffredin*" y cyfnod hwnw. Ni all y darnodiad canlynol lai na bod yn ddyddorol, ac os cymhara y darllenydd ef â'n cyfieithad presenol, gellir ei ddeall heb anhawstra mawr. Cymmerir Rhuf. viii. 28—30. "And we witen that to men that louen God alle thing is worchen to gidre into good to hem that aftir purpose been clepid seyntes. For thilk that he knew bifore, he bifore ordeynede bi grace to be maad lyk to the ymage of his Sone, that he, be the firste bigeten amonge manye brithren. And thilke that he bifore, ordeynede to blisse, hem hi clipede, and whiche he clipede hem he justifiede, and hem he glorifiede."

Fe fu y cyfieithad hwn o'r Ysgrythyrau, wedi ei fyfyrio yn ofalus, gan "offeiriaid tylodion" Wicliffe, yn foddion yn eu dwylaw i ledaenu y wybodaeth am Dduw yn mhlith y bobl, i raddau mawrion rhyfeddol. Yr oedd Knighton, canonwr Leicester, yn achwyn yn chwerw am hyn yn y modd canlynol:—"Fe ymddiriedodd Crist ei efengyl i offeiriaid a doctoriaid yr Eglwys, i'w gweinyddu hi i'r lleygion a'r dosparth gwanaf, yn ol eu hangenion a'u gwahanol amgylchiadau. Ond mae y Master John Wickliffe hwn, trwy ei chyfieithu hi, wedi ei gwneyd hi yn beth cyffredin, a'i gosod hi yn fwy agored i'r lleygwyr, ac hyd y nod i fenywod a allant ddarllen, nag oedd hi yn arfer bod i'r offeiriaid mwyaf dysgedig, a'r rhai hyny o'r dealldwriaeth goreu; ac fel hyn mae gem yr efengyl, a'r perl efengylaidd, yn cael ei daflu o amgylch, a'i sathru dan draed y moch." Fe gafodd gweithiau Wickliffe; heblaw ei gyfieithad o'r Ysgrythyrau, neu ranau o hono, eu lledaenu yn rhifedi mawr iawn, yn

y wlad hon ac ar y Cyfandir. Fe ddarfu Lord Cobham; gwasanaethyddion a gweinyddyddion Anne, Brenines Richard II., ar ei dychweliad i Bohemia; Peter Bayne, ac eraill, eu dwyn gyda hwy i Germani, a'r gwledydd cymmydogaethol. Yr oeddynt mor lluosog yn Bohemia, ac mor effeithiol yn dynoethi Pabyddiaeth, fel y cafodd dau can' cyfrol o honynt, wedi eu rhwymo yn hardd, eu llosgi gan Archesgob Sbinks. Gwr boneddig ieuanc, o Bohemia, ag oedd wedi bod yn fyfyriwr yn Oxford, a gymmerodd amryw gopiau gydag ef adref, ac a'u benthyciodd hwy i'r enwog John Huss i'w darllen, yr hwn oedd yn cydnabod, byth ar ol hyny, mai hwy, yn llaw Duw, fu yn foddion i'w argyhoeddi ef. Yr oedd ef yn ystyried Wickliffe, yn angel, wedi ei anfon o'r nefoedd i oleuo dynolryw, a phan ydoedd yn llosgi yn nhân merthyrdod, yr oedd yn gorfoleddu yn y rhagolwg y byddai iddo mor fuan gael cwrdd â'r dyn rhagorol hwnw mewn gogoniant.

Fe fyddai yn anwarantadwy i gynnyg hunaniaethu (*identify*) ymddangosiad boreuol y Bedyddwyr mewn rhyw beth tebyg i ffurf gorfforedig, gyda y fath gyffroad i ryddid meddwl, a rhyddid gweithred, yr hwn ag oedd yn rhaid fod meddwl Cristionogol Brydain wedi ei dderbyn oddiwrth ledaeniad helaeth cyfieithad, yn nghydag ysgrifeniadau Wickliffe. Ond y mae rheswm cryf i gredu, fod y Lolardiaid, yn fuan ar ol y cyfnod hwn, wedi dechreu cynnal gwasanaeth Dwyfol, mewn ffordd wahaniaethol—yn pennodi eu dysgawdwyr eu hunain, ac yn cymhwyso eu dysgyblaeth eu hunain. Mae Robinson, yn ei draethawd rhagymadroddol i *Claude's Essay*, yn dyweyd,—"Mae genyf o'm blaen ysgrif-lyfr, o eiddo Gray, Esgob Ely, yr hwn sydd yn profi fod yn y flwyddyn 1417, gynnulleidfa o'r fath yma yn mhentref Chesterton, lle yr wyf fi yn awr yn byw; y rhai a ymgynnullent yn ddirgel i gynnal addoliad Dwyfol, ac yn feddiannol

ar bregethwyr o'r eiddynt eu hunain." Mae yn rhy anhawdd credu mai y gynnulleidfa yn Chesterton, oedd yr unig un o'r fath yma yn y wlad, yn neillduol pan gofir fod y Lolardiaid, mewn parthau eraill yn cael eu cyhuddo o fod "yn cyd-frâd-fwriadu, a chyngreirio gyda eu gilydd yn *gynnulleidfa annghyfreithlon.*" Dyma fel yr oedd pethau yn esgobaethau Canterbury, Worcester, a Norwich, hefyd yn Leicester, yn nghyd ag mewn amrywiol leoedd eraill. Nid ydyw yn amlwg, mewn un modd, eu bod hwy wedi ymgorffori yn eglwysi gwahaniaethol, yn ol y cynllun efengylaidd; ond y mae y ffaith eu bod hwy yn ymgynnull i addoliad gwahaniaethol, ac mor belled a hyny yn gosod i lawr sylfaen i gymdeithasau dyfodol, tuhwnt i ddadl. A'r wybodaeth am fodolaeth y cynnulleidfaoedd hyn, yn nghyda'u cynnydd, yn ol pob tebygoliaeth, a gynhyrfodd lidiawgrwydd yr offeiriaid i gael deddf wedi ei hordeinio, yn mhlith pethau creulawn eraill, "fod, pwy bynag a fyddent, a ddarllenent yr Ysgrythyrau yn iaith eu mham (a elwid y pryd hyny, dysgeidiaeth Wickliffe), i golli eu tir, eu hanifeiliaid, eu bywyd, a'u dâ, oddiwrth eu hetifeddion am byth, ac i gael eu condemnio i fod yn hereticiaid i Dduw, gelynion i'r goron, ac yn fradychwyr mwyaf diggasog i'r wlad." Yr oedd hefyd wedi cael ei wneyd yn rhan o lw y llywydd sirol, pan yn cymmeryd y swydd hono,—"ei fod i ymdrechu rhyddhau y sir oddiwrth yr holl gyfeiliornadau, a'r heresiau, a elwir yn gyffredin Lolardiaid." Fe anfonwyd, hefyd, ysgrifen-wys (*a royal brief*) at *Chancellor University*, Oxford, yn "gorchymyn iddo fe *sefydlu ymchwiliad*, gyda golwg ar hereticiaid gwaradwyddus; a hwy, yn gystal a'r holl rai a ryfygent dderbyn John Wickliffe neu unrhyw un o'i ganlynwyr, idd eu tai, neu ddangos un math o ffafr neu nodded iddynt,—fod y cyfryw rai i gael eu dedfrydu, a'u hanfon ymaith o'r *University*, ac o ddinas Oxford, yn nghorff saith niwrnod." *

Y cyfryw a hyna oeddynt y poenydiau, a'r cyfryw a hyna oeddynt y cospedigaethau a ddodid ar ddynion, y rhai, yn mhlith gwirioneddau pwysig eraill, a anturient gredu, "nad oedd BEDYDD YN HANFODOL ER CADWEDIGAETH Y RHAI SYDD YN MARW YN EU MHABANDOD."

* "Pan gofir fod Wickliffe yn cael ei amddiffyn gan Edward III., Joana gweddw y Black Prince, John Gaunt, ac Anne, gwraig Richard II., nid ydym yn synu dim ei fod ef wedi diane rhag yr erlidigaethau chwerwon, y rhai y darfu ei ganlynwyr eu dyoddef ar ol ei amser ef; etto, yn mhen *pedair blynedd a deugain ar ol ei farwolaeth*, yn unol a deddf cynghor Constance, darfu ei elynion gyda malais annorfod, godi ei esgyrn o'r bedd a'u llosgi yn lludw; ac yn y flwyddyn 1400, Henry IV., i foddio yr offeiriaid a ddygodd i fodolaeth y gyfraith ffiaidd hono,—"*de haereticis comburendis*," trwy yr hon y dyoeddefodd cynifer o ferthyron. Mae Polydore Virgil, yn profi o'r *Theodosian code* fod hereticiaid yn cael eu cospi, gyda fflangellau, alltudiad, a marwolaeth, mor gynar a diwedd y pedwerydd canrif; ac y mae hefyd yn hyspysu fod yr ymerawdwr Frederick, yn nghylch y flwyddyn 1180, wedi dwyn cyfraith i fodolaeth fod hereticiaid i gael eu llosgi. Ond nid ymddengys fod yn Lloegr ddeddf freninol i gospi hereticiaid yn flaenorol i'r ddeddf a grybwyllwyd uchod." *Hart's Ecclesiastical Record*, page 367.

---

## CANRIF Y PYMPTHEGFED.

MAE egwyddorion y wir Eglwys, ag eiddo ein Harglwydd a'n Hiachawdwr, y cyfryw ag y bydd y byd bob amser yn eu casau. Y mae mor uniongyrchol wrthwynebol i'w falchder cnawdol—mor gondemniol i'w olygiadau bydol, ac yn diosg y creadur mor effeithiol o'i holl haeddiant tybiedig,—fel y maent yn gyntaf yn cynhyrfu casineb, ac yna elyniaeth "y syniad cnawdol yr hwn sydd elyniaeth yn erbyn Duw." Ac mae y gelyniaeth hwnw wedi bod, ac a fydd byth mewn cyfartaledd i'r ffyddlondeb gyda'r hwn y mae'r egwyddorion hyny yn cael eu dal a'u lledaenu. Os ydynt mewn unrhyw barth yn cael eu teneuhau gan rhyw gyfaddasrwydd er amcanu boddio dyn—neu os ydynt yn cael eu cymhwyso gan yspryd

cytundebol, yna mae y casineb yn darfod, oblegyd mae y byd yn ennill trwy y cyfaddawd, ac nid oes ganddo mwyach un rheswm mawr i ganfod bai. Mae yr eglwys a'r byd y pryd hyny wedi dyfod yn rhy gyfeillgar i ymryson, ac y maent wedi cydsynio i rodio yn nghyd, oblegyd eu bod yn cyduno. Ond bydded i'r egwyddorion hyn gael eu dal allan yn eu purdeb dechreuol, a'u lledaenu gyda'r sêl priodol i'r rhai ag sydd wedi eu hapwyntio i fod "yn gydweithwyr dan Dduw," yna fe fydd i'r yspryd hwnw o gasineb, yr hwn a erlyniodd ein Hiachawdwr hyd nes iddo ei hoelio wrth y groes, erlyn hefyd ei bobl ffyddlawn, yr un modd, "hyd at waed."

Mae hanes y pymthegfed canrif, yn profi i helaethrwydd gywirdeb y sylwadau hyn, yn yr erledigaethau chwerwon a gafodd y Lolardiaid yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Yr oedd yr enwog John Huss, o Prague, yn mhlith y rhai cyntaf a ddyoddefasant. Fe gafodd ei esgymmuno yn gyhoeddus o gyfundeb Eglwys Rhufain, yn y fl. 1410, ac ar Gorphenhaf 6ed, 1415, cafodd ei losgi i farwolaeth. Yn ei fynydau olaf, rhoddodd brawf anrhydeddus o'i gariad at Dduw, ac o'i ymddiried yn llwyddiant yr Efengyl yn y pen draw. Dylynwyd ef yn fuan gan ei gyfaill a'i gydymaith diysgog, eithr rhywfaint yn ofnus, Jerome, yr hwn yr un modd a gafodd ei losgi i farwolaeth, Mai 30ain, 1416. Bu yntau farw hefyd mewn gwroldeb, yn gogoneddu Duw. Y merthyr nesaf ydoedd foneddiges dduwiol, o'r enw Catherine Saube, yr hon a losgwyd i farwolaeth yn Montpellier, yn y fl. 1417, "am fod" medd Chassainon, "o'r un farn a'r *Albigeois*, yn gwrthod credu traddodiadau yr Eglwys *Rufeinig*, ac am ddal yr un golygiadau a hwy o barthed bedydd mabanod." Mae efe yn esbonio beth oeddynt y golygiadau hyn o eiddo yr *Albegeois*, sef "nad oeddynt yn gwrthod y *sacrament* hwn (bedydd), nac yn dweyd ei fod yn ddiangen-

rhaid, eithr yn unig yn ei gyfrif yn ddiangenrhaid i *fabanod*, oblegyd nad ydynt mewn oedran i allu credu, na chwaith yn alluog i roddi tystiolaeth o'u ffydd."

Yr oedd yr un yspryd o erledigaeth angeuol yn ffynu yn Lloegr; ac fe gafodd gwir ganlynwyr Iesu gwrdd a'r unrhyw dynged, ag a gwrddodd eu brodyr ar y Cyfandir. Mor gynnar a'r flwyddyn gyntaf o'r canrif hwn, (1401), neu yn fuan iawn ar ol hyny, rhoddwyd William Swinderby, yr hwn oedd bregethwr nodedig yn mhlith canlynwyr Wickliffe, i farwolaeth wrth y pawl (*stake*) yn Smithfield. Mae Foxe, yn *Hanes y Merthyron*, yn hyspysu i hyn gymmeryd lle yn unol "a deddf a ddygwyd i fodolaeth gan Senedd a gynnaliwyd yn Llundain, yn yr hon y gwnawd deddf seneddol, fod i bwy bynag a fuasent yn dangos eu hunain yn gefnogwyr i Wickliffe, y rhai, yr amser hyny a elwid Lolardiaid, y byddai iddynt gael eu cymmeryd i fyny (*apprehend*,) ac os byddai iddynt, yn ystyfnig, barhau yn yr athrawiaeth hono, y byddai iddynt gael eu rhoddi fyny i'r esgob yn yr esgobaeth hono, a'u dwyn (*commit*) oddiwrtho ef at yr heddynad gwladol." Yr oedd Mr. Swinderby wedi bod yn gydymaith i Mr. Walter Brute, yr hwn, ymddengys, oedd yn foneddwr o feddiannau yn esgobaeth Henffordd, ond yr hwn y darfu ei sêl weithgar dros Efengyl bur, ei osod yn agored i gael ei gyhuddo o *heresi*, ac o gadw cyrddau, (*conventicles*)* Un o'i athrawiaethau oedd, *fod ffydd i fod o flaen bedydd*, yr hyn, trwy gymhwysiad, a olygai na ddylai mabanod gael eu bedyddio, am na allent gredu. A chan fod Mr. Swinderby, am hir amser wedi bod yn

* *Conventicle* y galwai yr awdurdodau bob lle y cynnelid cyrddau i addoli ynddo, heblaw yr eglwysi sefydledig, ystyrid hyn yn annghyfreithlawn ac yn drosedd ag yr oedd dynion yn cael eu cospi a charcharau ac a marwolaeth am ei gyflawni. Cofier y "*Conventicle Act*," yn amser Charles II. Y cyfryw oedd Eglwys Gristionogol Lloegr i addolwyr cydwybodol a chywir y gwir Dduw.

gydymaith iddo, ac yn gyd-lafurwr ag ef yn y gwirionedd, ac yn Lolard addefedig, y mae yn canlyn, o'r braidd tuhwnt i bob math o ammheuaeth, ei fod yntau hefyd (Mr. Swinderby) yn gwadu bedydd mabanod, neu mewn geiriau eraill, ei fod ef yn Fedyddiwr.

Ond er y brofedigaeth danllyd hon, ag yr oedd saint Duw i fyned trwyddi, etto yr oedd yr Efengyl yn parhau i ymledu yn y fath fodd helaeth, nes peri alarm mawr i'r Eglwys Babyddol yn Lloegr ac Ewrop. Fe ddarfu Henry, Archesgob Canterbury y pryd hyny, ac Archesgob (*Primate*) holl Loegr, gynnal cymmanfa o offeiriaid yn Llundain, yn yr hon yn mhlith pethau eraill yr "ordeiniwyd" "fod i'n cyd-frodyr, ein cyd-esgobion rhaglawaidd, &c., i wneyd ymholiad manwl, *ddwy waith bob blwyddyn, o leiaf*, am y cyfryw bersonau ag oeddynt yn cael eu drwg-dybio o heresi; ac eu bod, yn mhob cyfryw archddiaconiaeth yn mhob plwyf, lle yr hyspysir fod unrhyw hereticiaid yn trigfanu,—eu bod i neillduo tri neu ragor o'r dynion gonestaf a'r gair goreu iddynt, i gymmeryd eu llw ar yr efengylwyr santaidd, fel os bydd iddynt wybod neu ddeall am rai yn mynychu yn ddirgel dai addoliad (*conventicles*), neu yn *gwahaniaethu mewn bywyd* neu arferiadau oddiwrth ymarweddiad arferol dynion *Catholic* eraill, neu ynte yn dal unrhyw heresiau, neu gyfeiliornadau, neu rai yn meddu unrhyw lyfrau *drwg-dybus yn yr iaith Saesonaeg*, neu rai fyddo yn derbyn unrhyw fath o bersonau, ag a ddrwg-dybir o heresiau a chyfeiliornadau idd eu tai, &c., eu bod i wneuthur ardystiadau (*certificates*) o'r personau hyny mewn ysgrifen, gyda'r holl amgylchiadau yn y rhai yr oeddynt yn cael eu drwg-dybio, i'r cyfryw ragddywedig esgobion rhaglawaidd, neu archddiaconiaid," &c. &c. (Foxe, Book V.) Ond er mor gaeth a llymdost yr oedd yn rhaid fod y pethau hyn, yr oeddynt yn dirion a diniwed wrth eu cymharu a deddf-lythyr (*bull*) y Pab Martin, yr hwn a ddygwyd

allan yn mhen tua phum' mlynedd ar ol hyny, yn yr hwn y mae pob cas-air o ddrwg-dafod a chamdriniaeth, hyd y nod, iaith y dymher wyllt fwyaf anwaraidd yn cael eu defnyddio yn erbyn y Wickliffiaid neu Lolardiaid y cyfnod hwnw. Fe fyddai yn ddiraddiad i'r tudalenau hyn i ddodi ynddynt, yn gyflawn, y *bull* cywilyddus hwnw; etto angenrheidiol gwneyd dyfyniad neu ddau er mwyn i'r darllenydd gael meddylddrych am dano:—"Ond, yn ddiweddar, mewn gwahanol barthau o'r byd ond yn neillduol yn Bohemia, a Ducyddiaeth Moravia, ac yn y cyfyngleoedd sydd yn dal cyssylltiad a hwy, y mae math o arch-hereticiaid wedi cyfodi a tharddu i fyny, nid yn erbyn un yn unig, ond yn erbyn amrywiol o addysgiadau y ffydd Gatholic, y rhai sydd yn dir-ysgythrwyr, eglwys-rwygwyr, ac yn bersonau bradwrus, yn gyflawn o falehder diaflaidd, a chynddaredd blaiddaidd, wedi eu twyllo gan gyfrwystra satan, ac o un gorwagedd drwg wedi cael eu dwyn i un gwaeth;—y rhai, er eu bod wedi codi a tharddu i fyny mewn gwahanol ranau o'r byd, *etto yn un y maent oll yn cyluno*, a'u cynffonau, megys wedi eu cydwau yn nghyd, sef, ymgyfammodi a John Wickliffe, o Loegr; John Huss, o Bohemia; a Jerome, o Prague; o goffadwriaeth damniol, rhai a dynasant gyda hwy, nifer nid bychan i ddistryw ac anffyddiaeth gresynol." Mae y *bull* yn myned yn mlaen i gyfarwyddo, fod yr hereticiaid hyn i gael chwilio am danynt, dan ba enw bynag yr adnabyddid hwy, y rhai sydd yn rhyfygu i addysgu, i bregethu, neu sylwi, mewn un rhyw ffordd arall, gyda golwg ar y *Sacrament* mwyaf uchel a rhagorol, y mwyaf iachus a goruwchryfeddol, o waed ein Harglwydd Iesu Grist, neu ynte y *sacrament o fedyad*," &c. &c. Ac ar ol cael gafael ar yr hereticiaid hyn, yma mae y bytheiriaid trugarog canlynol o eiddo y *Vicar* Rhufeinaidd i Grist, a'i gynddrych-

iolwr carnaidd ar y ddaiar, yn ordeinio:—"Bydded hefyd i dderbynwyr, a chefnogwyr, ac amddiffynwyr, y cyfryw bersonau mwyaf heintddygol, er nad ydynt nac yn credu, yn noddi, neu yn meddu tuedd grefyddol at eu cyfeiliornadau, ond yn ddamweiniol a dderbyniant, neu a groesawant y cyfryw bersonau heintddygol i'w tai, ar gyfrif serch daiarol neu gariad cyfeillgar; heblaw y gosp ddyledus iddynt hwy wrth y ddwy gyfraith, drosodd ac uwchlaw y cyfryw gospedigaeth gan farnwyr cymhwys, bydded iddynt felly gael eu cystuddio, am gyfryw weithredoedd heintus o'u heiddo, a'u dirboeni gyda chospedigaeth mor lem, fel y byddo i'r cyfryw fod yn esiampl ac yn ddychryn i eraill a droseddant mewn amgylchiadau cyffelyb." Y cyfryw bethau a hyn, oeddynt "drugareddau tyner" y pen daiarol hwn i'r Eglwys. A allasai dyn gwyllt (*savage*) neu farbariad perffaith dideimlad wneuthur yn waeth? Etto y cyfryw a hyna ydoedd Pab yr adeg hono, a'r cyfryw a hyna ydyw Pabyddiaeth yn mhob oes.

Yr oedd Waldensiaid y canrif hwn yn ddeiliaid yr unrhyw ddyoddefiadau. Yn nyffryn Prajela, yr hwn oedd yn llawn o'r bobl dduwiol hyn, cafodd torfaoedd o honynt eu gyru i'r mynyddoedd, ac a fuant feirw yn nghanol eira gauaf chwerw iawn trwy rewi i farwolaeth. Yn y flwyddyn 1488, niferi lluosog ag oeddynt wedi ymguddio mewn ogofau a fogwyd, yr offeiriaid a'r milwyr yn llanw geneuau yr ogofau a ffagodau a'u rhoddi ar dân! Fe ddinystriwyd uwchlaw tair mil o bersonau yn y dull hwn, yr oedd nifer mawr o honynt yn fenywod, ac uwchlaw pedwar. cant o blant yn eu breichiau! Dyoddefodd trigolion Merindol ddiwedd cyffelyb; canys mewn un pentref, pan ffoisant am noddfa i ysgubor, fe'u rhoddwyd ar dân, a threngodd yn y fflamiau bob person o'i mhewn-

Yn Spaen hefyd, ni chafodd canlynwyr Crist fwy o drugaredd nag mewn lleoedd eraill Yma yr oedd Iuddewon a Christionogion fel eu gilydd yn wrthddrychau sêl greulawn, Ferdinand ac Isabella; yr Iuddewon yn cael eu gyru allan o'r deyrnas. "Mae y rhif lluosocaf o ysgrifenwyr yn sicrhau i 170,000 o deuluoedd ffoi ymaith; ac mae eraill yn dyweyd eu bod yn 800,000, o bersonau." Y cyfryw beth a hyna oedd crefydd yr Hwn a orchymynodd, "Cerwch eich gelynion, a gwnewch dda i'r sawl a'ch casant,"—ie, y cyfryw beth a hyna ydoedd crefydd yn nwylaw halogedig offeiriadaeth ddirywedig.

Fe ddangosodd yr Ymerawdwr Maximilian ymddygiad anrhydeddus, mewn cyferbyniad i yspryd erlidigaethus ac adwythig Rhufain a Spaen. Efe a dystiodd yn eofn wrth Henry III. o Ffrainc, fod y tywysogion ag oeddynt yn gormesu ar gydwybodau dynion, yn gwneyd ymosodiad ar y Bod Goruchaf ei Hun, yn ei oruwch-hawliau mwyaf cyssegredig. Pan ydoedd un diwrnod allan yn marchogaeth yn ei gerbyd efo ei physigwr (*physician*) Erato, ac yn galaru o herwydd ymrysonau crefyddol dynolryw, efe a ofynodd i'r phisygwr, pa sect feddyliai ef oedd yn dyfod agosaf at symlrwydd yr apostolion? Pan yr atebodd Erato, "Yr wyf fi, mewn gwirionedd, yn meddwl mai y bobl a elwir *Picards*." Ychwanegodd yr Ymherawdwr, "Yr wyf finau yn meddwl felly hefyd." Bedyddwyr oedd y Picards hyn, oblegyd yr oeddynt yr un modd a'r Waldensiaid, yn ail-fedyddio; neu, mewn geiriau eraill, nid oeddynt yn ystyried bedydd mabanod yn fedydd iawn, ac mewn canlyniad (i'r gred hon) yr oeddynt yn ail-fedyddio pawb a ymunent â'u cyfundeb. Yr oeddynt hwy yn Fedyddwyr y cyfnod hwnw, ac yr oeddynt o dan Maximilian yn mwynhau rhyddid cydwybod cyflawn. Mae yr enwog Erasmus yn dywedyd yr un peth am ganlynwyr John

Huss, sef, "*nid ydynt yn derbyn neb hyd nes y trochir hwy mewn dwfr*, ac yr oeddynt yn cydnabod eu gylydd heb wahaniaeth graddau, i gael eu galw yn frodyr a chwaeriorydd." Ac yn wir, y mae Huss a Jerome yn cael llefaru am danynt, mewn modd ag y gellir ymddibynu ar ei eirwiredd, eu bod yn addysgu athrawiaethau yr Ail-fedyddwyr, ac yn dal allan yn gadarn fod ffydd yn anhebgorol i fedydd. A hyn yn ol pob tebygolrwydd, oedd y gwir reswm o'r casineb dialeddol a'r hwn yr erlidid hwy gan yspiwyr a goruchwylwyr y Pab o Rufain. O bob gwirionedd a ofnir gan Babyddiaeth, yr un yr arswydir mwyaf rhagddo, ydyw yr hwn sydd yn gwneyd y saint i ymddibynu ar *gymmeriad*, ac nid ar yr offeiriad.

Ond oni bai tystion ffyddlon, megys y Lolardiaid, Picardiaid, Waldensiaid, &c., fe fuasai gwirionedd Duw, a llefaru'yn ddynol, wedi gwywo allan o'r byd a Christionogaeth resymol y Testament Newydd, wedi dirywio i gyfundrefn o hud a lledrith (*mummeries*) gwageddol, a seremoniau disynwyr. Mae John Foxe yn darlunio yn gywir ffoleddau ynfyd y Pabyddion, pan mae yn dywedyd am danynt, eu bod "yn y sacrament o fedydd yn feius, nid yn unig am ychwanegu amrywiol ddefodau newyddion ag oeddynt wedi eu dyfeisio, a dychymmygion dynion at eiriau syml sefydliad Crist, ond hefyd, pan mai arferiad *hen* Eglwys Rhufain, *oedd yn unig i fedyddio dynion* (h.y., personau mewn oed) maent hwy hefyd yn bedyddio clochau, ac yn cymhwyso geiriau hefyd at ddwfr, tân, canwyllau, boncyffion, a meini, &c." A oedd y newydd bethau ffol a niweidiol hyn i gael eu goddef heb wrthdystiad yn eu herbyn? A oedd canlynwyr ymrwymedig y Gwaredwr i fod yn llonydd, ac i noddi (*sanction*) yn ddystaw yr annuwioldeb hwn, trwy eu goddefiad ohono? Neu a oeddynt hwy ddim yn rhwym o "ddyfod allan o'u canol hwynt—i ym-

neillduo, a pheidio cyffwrdd â'r peth aflan?" Mae pob cyffroad haelfrydig, pob llinyn o serch, a phob peth sydd o blaid anrhydedd, yn uno yn y cadarnhaol; ac ni allwn lai na dyfarnu y parch anrhydeddusaf iddynt hwy—y rhai, serch peryglu pob peth oedd yn anwyl mewn bywyd, a amddiffynasant wirionedd Duw mewn gwrthwynebiad i'r Dyn Pechod.

Y mae tuallan i derfynau yr hanes byr hwn i ddilyn yr erledigaethau hyn o eiddo Eglwys Rufain, i fyny i'w achosion mwyaf eglur, onite fe ellid yn hawdd ddangos fod cyfeiliornadau gwaethaf yr eglwys hono wedi dechreu trwy ymadawiad *ysgafn—bychan*, oddiwrth symlrwydd yr Efengyl. Bychan yn ei ddechreuad ydyw cyfeiliornad crefyddol, ond y mae yn ymledu gyda chyflymdra dychrynllyd, hyd nes yr ymgolla terfynau gwirionedd yn hollol, yn y pellter tywyll ac erchyll, ac mae yr anturiwr anffodiog yn cael ei hun yn chwareu-beth (*sport*) pob ffrydlif ddyeithr a pheryglus. Oddiwrth hyn yr ymddengys y pwysigrwydd mawr o ymlyniad "CAETH" wrth wirionedd yr Efengyl, hyd y nod mewn pethau cymhariaethol fychain. Yr oedd balchder newyddbeth, yr elfen gynnar a mwyaf nerthol yn ffurfiad y Dyn Pechod. Dechreuodd mewn cariad at, ac awydd am wahaniaeth rhagoriaethol, ac fe gyrhaeddodd ei ganol-ddydd yn yr hawl cableddus i'r Pab, sef "fod yr hwn oedd yn dwyn allweddau bywyd tragywyddol a marwolaeth dragywyddol yn rhaglaw, nid i ddyn, ond i'r gwir Dduw ar y ddaiar; i'r hwn yr oedd Duw wedi trosglwyddo llywodraeth teyrnas nefoedd." Fe gyhoeddwyd y cabledd hwn mewn cymmanfa offeiriadol yn St. Paul's yn Llundain, yn y canrif presenol!

Mae balchder a drygioni yn gyffredin yn cyddeithio, oblegyd wedi i falchder daflu ymaith rwymedigaeth moesol trwy ymadawiad oddiwrth ofn Duw,

mae yn rhoddi i'r llall, sef drygioni, hyfder, hyd y nod i herio ofn dyn. Mae llygredigaethau yr offeiriaid, yr erlidwyr dideimlad hyny ag oeddynt yn erlid y Lolardiaid, yn profi hyn tu hwnt i bob ammhenaeth. "Yr oedd y monachod," medd Dr. Henry, "mewn monachdai cyfoethog, yn byw'yn fwy llawn, ac hyd y nod yn byw, yn fwy moethus, na braidd un gradd o ddynion yn y deyrnas. Yr oedd swydd y pen cogydd (*cook)* yn un o'r swyddau mawrion yn y monachdai hyn, ac yn cael ei chyflwyno mewn modd diduedd i'r brawd ag oedd wedi myfyrio y gelfyddyd o gogyddiaeth gyda mwyaf o lwyddiant." Mae yn crybwyll cogydd monachlog Croyland, "*yr hwn oedd wedi cael ei gynhyrfu gan gariad Duw, a sel dros grefydd*, fel yr oedd wedi rhoddi deugain punt (£400 o'r arian presenol) tuag at ddifyrwch y monachlog, yn nghyda llaeth almonau ar ddyddiau'r pysgod." Mae yr hanesydd yn myned yn mlaen ac yn disgrifio y glythineb a'r meddwdod, y rhai oedd yn cael eu troi i seremoniau crefyddol ar gadwad gwyl yr "offerenau (*masses*) glythinebol," (fel y gelwid hwy) bump gwaith yn y flwyddyn. Gwneid yr eglwys yn dafarndy, yn olygfa o'r annghymmedroldeb mwyaf terfysglyd,—offeiriaid, a phobl gwahanol blwyfau yn myned i gystadleuaeth ffurfiol, pwy fuasai yn cael yr offeren (*mass*) mwyaf glythinebol, h. y. pa blaid fuasai yn difa mwyaf o fwyd a diod, mewn anrhydedd i'r wyryf santaidd." (Henry's History, Vol. 10.) Mae Archesgob Morton (1490) yn cyhuddo Penfonach St. Albans, yn mhlith troseddau anfad eraill, o "droi yr holl fenywod diwair allan o'r ddau wyryfdy yn Pray a Sapwell, a'u llanw hwy gyda menywod o gymmeriad gwahanol." Yr oedd gordderchwragedd yn cael eu cadw gan y monachod gyda chyhoeddusrwydd digywilydd, ac yr oedd cymdeithas yn gyffredinol yn cael ei llygru trwy eu hesiampl. Dyma y dynion oedd mewn llawenydd wrth weled Lolard yn

cael ei losgi, am gredu, yn mhlith pethau eraill, y dylai ffydd bob amser flaenori bedydd.

Fe roddodd darganfyddiad y gelfyddyd o argraffu nodweddiad gwahaniaethol i'r canrif hwn, y fath na all un arall ymffrostio o hono. Un Laurentius Coster, cadw-wr Cathedral Haerlem, credir, a gafodd y meddylddrych gyntaf, yn y fl. 1430. Fe ymledaenodd y wybodaeth am y gelfyddyd i Germani, Ffrainc, Itali, a gwledydd eraill mewn ychydig flynyddau. William Caxton, Sidanwr, a dinasydd o Lundain, wedi cael meddiant o'r wybodaeth o barthed y gelfyddyd, a osododd i fyny yr argraffwasg gyntaf yn Lloegr, yn Westminster, yn y fl. 1473, a phan yn y canrif dilynol, y cafodd y Bibl Santaidd ei argraffu, (canys hyd y pryd hyn ei *ysgrifenu* yr oeddid) fe gafodd Pabyddiaeth ergyd, oddiwrth effeithiau yr hwn ni all byth wella, beth bynag fyddant ei hymdrechion olaf. I'r hwn yn ei ragluniaeth raslawn a roddodd y llyfr bendigedig hwn i'r Prydeiniaid— "Iddo Ef y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen."

---

## CANRIF YR UNFED AR BUMTHEG.

Ymddengys fod erledigaethau tanllyd y canrif diweddaf wedi dystewi y Lolardiaid, y Bohemiaid, a'r Waldensiaid am amser, ac wedi rhoddi, dros amser, fuddugoliaeth i Eglwys Rufain. Y Lolardiaid yn enwedig, a ymneillduasant i ddirgel-leoedd, ac er eu bod yn cyfarfod i addoli Duw, ac i adeiladu eu gilydd, etto yr oedd hyn yn cael ei wneyd gyda'r dirgelrwydd mwyaf mewn trefn i ochelyd cynhyrfu digllonedd eu gelynion annhosturiol a chreulawn. Yr oeddynt "yn cael eu bwrw i lawr ond heb eu dyfetha," ac yr oeddynt yn parhau i hau hadau y bywyd yn ddirgel, y rhai oeddynt i ddwyn ffrwyth lawer mewn oes ddyfodol.

Yr oedd gwirionedd Duw, er hyny, yn parhau i ymledu yn mhlith y bobl yn gyffredin; ar gyfrif, bron yn hollol, lledaeniad helaeth o ranau annghyssylltiedig, o gyfieithad Wickliffe o'r Ysgrythyrau Santaidd. Nid yw hyn yn cael ystyriaeth ddigonol gan ysgrifenwyr ar y cyfnod hwn, oblegyd amryw o honynt a briodolant y wybodaeth o'r Efengyl yn Lloegr i'r Dywygiad Lutheraidd yn y canrif hwn. Ymddangosant fod yn annghofio llafur blaenorol Wickliffe, yn nghyda dylanwad rhyfeddol ei lyfrau yn mhlith y Prydeinwyr. Mae Mr. Anderson yn ei lyfr gwerthfawr a elwir "*Annals of the English Bible*," yn dra phriodol, yn sylwi, fod y gwrthwynebiad i Eglwys Rufain yn y wlad hon, o flaen y Diwygiad, i'w briodoli i ledaeniad yr Ysgrythyrau Santaidd mewn llaw-ysgrifeniadau, naill ai yn gyflawn neu mewn rhanau. "Y mae gan hyny," medd ef, "yn beth i ofidio o'i herwydd, fod, hyd y nod yr haneswyr Prydeinig, mewn engreifftiau rhy luosog, wedi bod mor frysiog i edrych tua Germani er mwyn rhoddi cyfrif am ddechreuad, a mynediad yn mlaen bob peth a gymmerodd le yn eu gwlad eu hunain yn y bedwaren gyntaf o'r unfed canrif ar bymtheg." Bibl Wickliffe a roddodd enedigaeth i'r Lolardiaid yn Lloegr, ac er iddynt am amser ymneillduo o olwg y llygadrythiad cyhoeddus, etto yr oeddynt yn ymlynu yn ddiysgog wrth y gwirionedd, yr hwn yr oedd y Llyfr cyssegredig wedi ei ddysgu iddynt.

Ond, pan yn gynnar yn y canrif hwn y cafodd y Bibl, mewn cyfieithad newydd ei ARGRAFFU, fe dorodd meddwl y genedl yn rhydd o lyffetheiriau eglwysaidd, a darfu i hyny gynhyrfu drachefn elyniaeth greulon yr offeiriaid. Fe wnawd hyn trwy gyhoeddiad cyfieithad Tyndale o'r Testament Newydd yn y fl. 1526, amgylchiad, yr hwn a wnaeth y flwyddyn hon yn fwyaf cofadwy yn hanes ein gwlad. Oblegyd, er fod yr Esgob Fisher, mor gynnar a 1505,

wedi cyfieithu ac argraffu yn Saesonaeg, gyfieithad ac esboniad o'r saith Salm benydiol, etto y flwyddyn 1526 a roddodd yn nwylaw y Saeson y *copy printiedig* cyntaf o'r Testament Newydd yn eu hiaith eu hun.

Rhaid fod effaith lledaeniad yr argraffiad hwn o'r Llyfr cyssegredig wedi bod yn helaeth a chyflym, oblegyd ar ba dir arall y gellir rhoddi cyfrif, fod, yn y cyfnod byr o ddwy flynedd ar ol ei ymddangosiad, gymmanfa offeiriadol neu eglwysig, wedi cael ei chynnal yn Ely yn y fl. 1528, yn yr hon y cyhoeddwyd,—"Nad oedd personiaid plwyfau (*rectors*) na churadiaid esgobaeth Ely, ar un cyfrif i arfer yn eu heglwysi y Bibl, yn ol y *cyfieithad newydd*, na chwaith oddef i'r rhai a fynychent eu heglwysi ei arfer ef." Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, darfu Harri VIII., "Amddiffynydd y Ffydd," (wedi cael ei wneyd felly gan y Pab o Rufain, yn y fl. 1521), ddwyn i fod olaeth ddeddf, yr hon oedd yn hyspysu, yn mhlith pethau eraill, "nad ydyw yn angenrheidiol i'r Ysgrythyrau dywededig fod yn yr iaith Saesonaeg, ac yn nwylaw y bobl gyffredin," ac yn eu sicrhau yn ddifrifol y buasent yn tueddu i gynnyddu cyfeiliornad yn eu plith, "yn hytrach nag un budd neu ddaioni er lles eu heneidiau." Naw mlynedd ar ol hyn, *o falais* (*o fic*) *at y Pab*, â'r hwn yr oedd wedi ymrafaelio, dygodd Harri allan ddeddf wrthwynebol i'r uchod, i gael cyfieithad newydd o'r Bibl, "yn caniatau iddynt arfer y Bibl gyda y rhyddid helaethaf yn ein mhamiaith ein hunain—y Saesonaeg." Yn yr amgylchiad hwn, pe heb mewn un arall, fe brofodd yr hen ddiareb ei hun yn wir, "Pan fyddo rhai cymmeriadau yn ymrafaelio, mae dynion eraill gwell na hwy yn dod i feddiant o'u hawliau."

Fod y Bedyddwyr yn cynnyddu yn gyfattebol i gynnydd y Biblau, a ymddengys yn debygol oddiwrth frys angerddol yr offeiriaid i atal lledaeniad eu hegwyddorion yn mhellach, yn nghyd a'r ofn amlwg yr

oeddynt ynddo, o herwydd y niferi cynnyddol oedd yn eu dal (sef egwyddorion y Bedyddwyr). Ni allwn, ar un tir arall roddi cyfrif am eu gwaith yn cwrdd mewn cymmanfa offeiriadol yn y flwyddyn 1536, ac yn cyhoeddi mewn amryw erthyglau, eu cydnabyddiaeth o ymledaeniad cyflym daliadau y Bedyddwyr. Yn mhlith yr erthyglau crybwylledig yr oedd y rhai canlynol:—

"1. Fod y sacrament o fedydd wedi ei sefydlu a'i ordeinio yn y Testament Newydd, gan ein Hiachawdwr Iesu Grist, fel peth angenrheidiol er cyrhaedd bywyd tragywyddol, yn unol â dywediad Crist, oddieithr i un gael ei eni drachefn o ddwfr, &c.

2. Ei fod yn cael ei gynnyg i bawb dynion, mabanod, yn gystal â'r cyfryw a allant ddefnyddio eu synwyr, sef mai trwy fedydd y cânt faddeuant pechodau, &c.

3. Fod yr addewid o râs a bywyd tragywyddol, yr hon addewid sydd wedi ei chyssylltu â'r sacrament o fedydd, yn perthyn nid yn unig i'r rhai sydd yn gallu defnyddio rheswm, eithr hefyd i fabanod,—maent hwy yn cael eu gwneyd trwy hyny, (sef bedydd) yn wir feibion a phlant i Dduw. Yn gymmaint ag y ca plant ag a fyddant feirw yn eu mhabandod, yn ddiammheuol, eu hachub trwy fedydd,—ac heb hyny ni chant.

4. Fod yn rhaid i blant gael eu bedyddio, oblegyd eu bod yn cael eu geni mewn pechod gwreiddiol, yr hwn bechod mae'n rhaid cael maddeuant o hono, yr hyn ni ellir ei gael ond trwy y grâs o fedydd, trwy yr hwn y maent yn derbyn yr Yspryd Glân, &c.

* * * * * * *

6. Eu bod i wrthwynebu, a chymmeryd yr holl Ailfedyddwyr, &c.,—eu daliadau o barthed y pwnc hwn fel heresiau atgas, ac i gael eu condemnio yn hollol."

Y mae yn brawf anuniongyrchol o fawredd rhif, a

gallu yr "Ail-fedyddwyr" hyn, fod amddiffynwyr bedydd mabanod yn cael eu gosod mor amlwg i amddiffyn eu hunain. Buasai ychydig o rai dinod yn cael myned heibio iddynt gyda y dirmyg â'r hwn yr arferid ymddwyn at rai dinodedd, ond yr oedd y Bedyddwyr wedi dyfod yn ddigon ofnadwy nes teilyngu yr anrhydedd o gael eu condemnio gan yr holl gymmanfa offeiriadol. Ac nid dyma yr oll; oblegyd yn y fl. 1538, fe roddwyd gorchymyn i Cranmer, Archesgob Canterbury y pryd hyny, yn nghyd ag eraill, i fyned yn erbyn yr "hereticiaid" hyn gyda phob gerwinder dichonadwy. Ar yr 16eg o Dachwedd yn y flwyddyn hono, fe ddygwyd i fodolaeth gyhoeddiad *(proclamation)* yn condemnio eu llyfrau, ac yn gorchymyn cospi pwy bynag a geid yn eu cynnyg ar werth; ac yn y mis canlynol, fe gafodd cylch-lythyr ei anfon at yr holl Ystusiaid heddwch trwy holl Loegr, yn eu rhybuddio yn ddifrifol i gymmeryd gofal fod yr holl ddeddfau yn erbyn y Bedyddwyr i gael eu gweinyddu yn ddiesgeulus. Ni ellir dymuno am well prawf nag mae y cyfreithiau gosodedig hyn yn roddi o luosogrwydd y Bedyddwyr, yn nghyda helaethrwydd lledaeniad eu hegwyddorion, yn y canrif hwn. Mae Brandt, yn ei "*History of the Reformation*," yn hyspysu "fod yn y flwyddyn 1539, un ar ddeg ar hugain o Fedyddwyr a ffoisant o Loegr wedi cael eu rhoddi i farwolaeth yn Delft, yn Holland; fe gafodd y dynion dori eu penau, a'r menywod eu boddi." Canlynwyd y rhai hyn gan farwolaethau eraill mewn amrywiol barthau. Ond er hyn oll, yr oeddynt yn cynnyddu cymmaint, nes yr oeddynt mor bell o gael eu difodi, fel yn y flwyddyn 1547 y dygwyd allan gyfraith newydd yn eu herbyn, a gorchymyn i'r Archesgob "i chwilio am yr holl Fedyddwyr," gyda yr amcan, tebygem, i lwyr lanhau y wlad oddiwrth ddynion ag oeddynt yn ddigon eofn i "chwilio yr Ysgrythyrau" drostynt eu hunain.

Hyd y nod yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, fe ddygwyd allan gyhoeddiad breninol yn eu herbyn, ac yn y fl. 1575, sef yr ail flynedd ar bymtheg o deyrnasiad y frenines hono, fe gafwyd allan eglwys o honynt yn ymgynnull yn Aldgate, Llundain, cafodd saith ar hugain o honynt eu carcharu, a dau eu llosgi i farwolaeth yn Smithfield. Dwy flynedd yn ddiweddarach, sef, yn y fl. 1577, cawn fod Dr. Some, eglwyswr nodedig, yn cwyno fod ganddynt (y Bedyddwyr) "amryw gynnulleidfaoedd yn Llundain, a lleoedd eraill; ac fod rhai o'u gweinidogion wedi derbyn eu dysgeidiaeth yn yr Urdd-ysgolion (*Universities*); ac eu bod yn dal tybiadau heriticaidd." Mae dodi yr amrywiol ffeithiau hyn gyda eu gilydd yn myned yn mhell i brofi fod Biblau a Bedyddwyr yn ymledaenu a chynnyddu gyda eu gilydd; ac mae yr Esgob da, ond rhagfarnllyd, Latimer, yn dwyn tystiolaeth anrhydeddus idd eu cymmeriad a'u hymddygiad, pan yn un o'i Bregethau Grawysol a bregethodd o flaen y brenin, y mae yn dywedyd:—"Yr oedd yr Ail-fedyddwyr, y rhai a losgwyd mewn amrywiol drefydd yn Lloegr, (fel y clywais gan ddynion geirwir, oblegyd ni welais hwynt fy hun), yn myned i gwrdd a'u hangau yn wrol, fel y byddwch yn dyweyd, heb un ofn yn y byd, eithr yn llawen."

Ond er holl gyfeiliornadau a dall-bleidiaeth y canrif hwn, ac er y gwrthwynebiad penderfynol oedd yn cael ei ddangos i fedydd y *crediniol*, etto yr ordinhad, fel yr oedd yn cael ei gweinyddu yn gyffredin gan yr offeiriad ydoedd *bedydd* neu drochiad ac nid taenelliad. Nid oedd dirywiad diweddar yn ymddangos y pryd hyny, wedi myned ond ychydig iawn yn mhellach na dodi maban yn lle un yn proffesu; etto trwy hyny yn distrywio rheol yr Efengyl. Yr oedd yr oes mewn cyfeiliornad dirfawr gyda golwg ar y deiliaid, ond nid oedd mewn cyfeiliornad o barthed dull bedydd, fel y mae y rheoleiddiad canlynol "o weinyddiad bedydd cy-

hoeddus" yn y Ffurfweddiau yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, yn profi yn eglur:—"Yna y cymmer yr offeiriad y plentyn yn ei freichiau, ac a ofyna ei enw; ac yn enwi y plentyn, efe a'i *trocha (dip) ef yn y dwfr*, felly bydded iddo gael ei gyflawni yn bwyllog ac yn ochelgar, gan ddywedyd," &c. Fe ddygwyd tywalltiad (nid taenelliad) i mewn, mae'n amlwg ar gyfer amgylchiadau neillduol, ond ni fwriadwyd mo hono erioed i droi *trochiad* o'r neilldu. "Ac os bydd y plentyn yn wan," fel y rhed y cyfarwyddyd, "yna gwna y tro *i dywallt dwfr arno ef*, gan adrodd y geiriau rhagddywededig." Mae y disgyniad dirywedig yn un rhès wedi bod yn dyfod i lawr yn raddol, —o gam i gam,—yn gyntaf trochi, yna tywallt, ac yn ddiweddaf *taenellu*. Mae yn annichonadwy suddo yn is na hyn. Ac os yw yn gysur i wybod, gyda golwg ar sefydliad o ddwyfol osodiad ac o'r pwysigrwydd mwyaf, fod cyfeiliornad wedi cyrhaeddyd ei ddyfnderoedd iselaf, mae y cysur amryw-ystyr hwnw i'w gael yn nefodau (eglwysig) marw y pedwerydd canrif ar bymtheg. Gyda ei holl ddealltwriaeth ymffrostgar, y mae yn dawel yn derbyn, ac yn ddifeddwl yn parhaus-gynnal defod ag sydd yn hollol amddifad o awdurdod, buddioldeb, ac ystyr.

Fe wnaeth y Diwygiad Lutheraidd, yr hwn y gellir dyweyd iddo gael ei sefydlu yn y fl. 1529, lawer i ddryllio llyffetheiriau twyll-offeiriadaeth, ac i ddodi y meddwl Ewropaidd yn rhydd, i wneyd ymchwiliad annibynol o barthed y pethau a berthyn i Dduw ac i'r enaid. Mor belled, fe ddygodd oddiamgylch ryddid anrhydeddus, ac ni all y byd yn gyffredinol byth ad-dalu, yn gyfatebol, am y breintiau ag a ddarfu i'r dynion enwog hyny, y rhai a gododd Duw ar gyfer y gwaith neillduol hwn, ddwyn i feddiant y teulu dynol. Fe lewyrchodd ar ddynolryw fel yr haul ar dywyllwch Aiphtaidd, ac a ddygodd i oleuni wirioneddau o werth diddarfod, y rhai yr oedd

coelgrefyddau tywyllion oesau wedi eu cuddio oddiwrth y llygad dynol. Ond gyda ei holl ryddid anrhydeddus, nid ydoedd yn *rhyddid perffaith.* Yr oedd cysgodion y tywyllwch ymadawedig o hyd yn gorphwys arno, ac nid oedd arweinwyr y bobl yn y gwaith mawr hwnw wedi dysgu caniatau i eraill y cyfryw ryddid ag oeddynt hwy wedi ei ddwyn oddiamgylch iddynt eu hunain. Fe gafodd y Bedyddwyr ar y Cyfandir, er eu gofid brofi hyn, mewn amgylchiadau mynychedig. Cawsant eu herlid gan Luther, gan Calfin, a Zuinglius. Yr oedd Germani a Switserland yn gyfartal anngharedig i'r dynion ag oeddynt yn gwrthod credu yr osodedigaeth *Brotestanaidd*, sef, fod bedydd yn beth iawn (*valid)* heb ffydd. Yr oedd eu credo yn cael ei ddirmygu, eu personau yn cael eu sarhau, a'r pethau gwaethaf a allai ragfarn ddyfeisio, yn cael eu lledaenu gyda llawenydd am danynt, er mwyn duo eu cymmeriadau. Yr oedd anngbymmedroleddau rhyfel y taeog-ddynion Germanaidd yn cael eu dodi wrth eu drysau hwy, ac hyd y nod yn bresenol, y mae camdybiadau mawrion yn cael eu coleddu o barthed y cythrwfwl gwladol hwnw. Ychydig sydd yn cymmeryd trafferth i ddeall gwir gymmeriad y chwyldroad hwnw, ond mae lluaws yn llawer mwy parod i gynnal mewn bodolaeth gamgyhuddiad nag i wneuthur ymchwiliad idd ei natur. Mae yr Esgob Jewel wrth amddiffyn Eglwys Loegr, (nid yr Ailfedyddwyr) yn rhoddi yr hanes mwyaf têg o'r ymryson mwyaf annedwydd hwnw, ag a ellid wasgu i mewn i ychydig frawddegau, ond y mae ef yn gosod yr holl fai wrth ddrws arall, ac nid wrth eiddo yr Ail-fedyddwyr. Mae ef yn dywedyd,—"Yr oedd *Boors* Germani, y rhai yr ydych yn siarad am danynt, gan mwyaf, yn wrthwynebwyr i Dr. Luther, ac nid oeddynt yn deall un rhan o'r Efengyl, ond wedi cydfwriadu fel y dywedent yn unig, yn erbyn creulondeb a thrais eu harglwyddi, fel yr oeddynt wedi gwneyd

ddwy flynedd ar hugain yn flaenorol, yn yr un wlad, yn y cydfwriadaeth a elwir *Liza Sotularia*, bymtheg mlynedd cyn i Dr. Luther ddechreu pregethu; arwydd-air cyfeillion y cydfwriad hwn oedd enw *our Lady*, ac i'w hanrhydeddu hi, yr oeddynt yn rhwym o adrodd pump *Ave Maries* bob dydd. Gyda golwg ar wrthryfelwyr diweddarach, mae yn ddigon gwybodus i Luther ysgrifenu yn llym a thanbaid yn eu herbyn. A phan alwyd hwy i gyfrif am hyn darfu iddynt wadu yn hollol eu cyfranogiad o'r Efengyl, a hefyd o'r wybodaeth o honi."

Ni chafodd tystiolaeth yr Esgob Jewel, erioed etto, ei gwrthwynebu, ac y mae yn profi yn ddigon eglur nad yr Ail-fedyddwyr fu'n achos o'r terfysg Germanaidd. Mae y cyhuddiad, fod y terfysg yn *Munster*, wedi dechreu gyda y bobl gamgyhuddedig hyn, yr un mor ddisail, er fod rhai o'r dynion a gymmerasant ran yn y gwrthwynebiad ffol a gwarthus hwnw i lywodraeth wladol, wedi ymostwng ar ol hyny i fedydd, etto *cyn* i hyn gymmeryd lle, yr oedd annybendod wedi tori allan rhwng y Pabyddion a Bedyddwyr mabanod Protestanaidd, ac yn ganlynol, ymdaenodd ac ymledodd trwy yr holl boblogaeth yn mhlith y rhai yr oedd crefyddwyr penboeth o wahanol fathau. Byddai priodoli y terfysgoedd hyny i Ail-fedyddwyr yr un mor annwarantadwy a phe gosodid holl afresymoldebau y *Fifth Monarchy Men of the Commonwealth*, ar yr Annibynwyr, neu greulonderau Jefferies a Laud ar yr holl Eglwys Sefydledig. Byddai y cyhuddiad, yn mhob un o'r amgylchiadau, yn hollol, ac yn gyfartal annghyfiawn, annghаredig, ac anwireddus.

Mae un amgylchiad cyssylltiedig â'r canrif hwn, yr hwn a effeithiodd yn ddwfn ar gymmeriad yn nghyda hanes y Bedyddwyr, yn galw am sylw, sef dechreuad Cymmundeb Agored. Fe gafodd y peth cymmeradwy a newydd hwn, i arferiad yr eglwys apostolaidd, a

dyweyd y lleiaf, ddechreuad drwgdybus, yn mherson FAUSTUS SOCINUS. Nid oedd gwybodaeth am dano yn y byd hyd ei ymddangosiad cyntaf yn Poland, yn nghylch y flwyddyn 1580, ac y mae yn ddyledus am ei ddechreuad i'r dyn hwnw ag mae yr holl *Sosiniaid* yn ddyledus iddo am eu henw. Ni chaniata gofod i wneyd ymchwiliad i'w natur a'i ffug-hawliau; ac nid ydyw hyny yn angenrheidiol yn y fan hon. Ond gellir sylwi yn fyr ar y gyfundrefn hon,—fod ynddi lawer i iselhau tôn ein hathrawiaeth enwadol, i leihau ein parch i ddysgyblaeth lem a phur, ac i wanhau ein hymlyniad wrth grefydd brofiadol. Mewn un cyfeiriad y mae wedi cynnyddu ein perthynas â duwinyddiaeth resymoleddol, ac mewn un arall, wedi ein dwyn mewn agosrwydd peryglus i Sosiniaeth ei hunan; ac yn y trydydd cyfeiriad, eithr i raddau helaethach, wedi ein gwneyd yn ddifraw yn ngwyneb traws-oresgyniadau deddfoldeb Arminaidd. Yr ydym, trwy ei rwydau hudolus, wedi gwaethygu ein cymmeriad, wedi colli ein pwys a'n safle fel pobl o gymmeriad uchel Ysgrythyrol yn y byd; ac ni fydd genym ond diolchiadau bychain i'r gyfndrefn hon, os na fydd i ni ddarfod trwy gael ein llyncu i fynu gan ryw sect mwy cyfrwys na ni, yr hon ni fydd ganddi ddim i'w golli, ond pob peth i'w ennill trwy LWYR DDYDDYMIAD YR ENWAD BEDYDDIEDIG.

---

## CANRIF YR AIL-AR-BUMTHEG.

MAE un peth o bwys neillduol yn hanes yr unfed-canrif-ar-bumtheg yn aros i gael ein sylw, a hyny ydyw, gwneyd defnydd o'r gallu gwladol i ddinystrio y Bedyddwyr, y rhai oeddynt, er yr holl erlidigaethau a'r diystyrwch, yn parhau i gynnyddu mewn amryw o wledydd yn Ewrop. Ymdrechwyd gyda chleddyf y llywodraeth gyflawni yr hyn oedd rheswm wedi

methu ei gyflawni, a darfu i Switzerland, ryddgarol-garedig, hynodi ei hun, gyda y dadleuon hen a gwaelion, sef dirwy a charchariad i gadw i lawr y bobl, unig drosedd y rhai oedd, dilyn Crist yn ei fedydd ei hun. Y ddeddf gyntaf yn erbyn y Bedyddwyr hyn a gyhoeddwyd yn Zurich yn y flwyddyn 1529: yr hon oedd yn gweinyddu y gosp o osod nod arianaidd ar yr oll oeddynt wedi eu hail-fedyddio, h.y. a bedydd y crediniol, ac hefyd ar yr holl a attalient fedydd oddwrth eu plant. Yr oedd cosp fwy llem wed'yn yn cael ei bygwth, os buasai i ryw un anfoddhau yn gyhoeddus; a phan ganfuwyd nad oedd hyn yn ateb y dyben, fe basiodd y Senedd ddeddf, fod y Bedyddwyr, a'r rhai fuasai yn eu nhoddi hwy neu eu hathrawiaethau i gael eu cospi â marwolaeth trwy gael eu boddi. Er yr holl greulonderau hyn, parhaodd y Bedyddwyr yn ffyddlon; ac amryw o honynt, yn cynnwys rhai gweinidogion o ddysg ac enwogrwydd a foddwyd neu a losgwyd. Ac yr oedd yr ysgelerderau hyn yn cael eu cyflawni o dan gysgod Lutheriaeth, a gyda chydsyniad y Diwygwyr eu hunain! Mor wir ydyw, nad yw diwygiad ag sydd yn fyr o honi perffaith hawl i farnu y pethau rhwng Duw a'r enaid, wedi y cwbl, ond gormesydd gwladol yn ngwisg offeiriad. Mae rhyddid crefyddol yn gofyn am, ac yn caniatau Gair Duw i fod yr unig gyfraith i gydwybod; yn fyr o hyn nid yw, hyd y nod, crefydd ei hunan, yn rhy fynych, ond erlidigaeth a marwolaeth o dan enw arall.

Nid oedd yr ail-ganrif-ar-bumtheg, mor bell ag y daliai gyssylltiad â'r Bedyddwyr, ond cyfnod ystormydd a thymhestloedd, oddieithr gyda chipoleuadau achlysurol o dywyniad yr haul, y cyfryw ag y mae gauaf-ddydd terfysglyd, rai prydiau yn arddangos. Yr oedd, yn neillduol yn gyfnod o draws-symudiad, ac yn ystod yr ymrysonfa ag oedd yn myned yn mlaen rhwng galluoedd gwrthwynebol tywyllwch a

goleuni, cyfeiliornad a gwirionedd, twyll-offeiriadaeth a phur Air Duw, yr oedd hamddenau o orphwysfa i'w cael, y rhai oedd yn rhoddi i ganlynwyr y Gwaredwr amser i gael eu hanadl, yn y rhai yr oeddynt yn parotoi ar gyfer ymdrechion dyfodol. Ac ni ddarfu iddynt esgeuluso gwneuthur iawn ddefnydd o hyn yma, mewn parotoad difrifol ar gyfer pob math o lafur a dyoddefaint ag a allasai achos eu Meistr Dwyfol ofyn oddiar eu llaw. Pa feiau bynag oeddynt yn nglŷn â'r Bedyddwyr, hen neu ddiweddar, ni allodd neb erioed eu cyhuddo o fod yn segurllyd. Yn mhlith gweithwyr y byd y maent hwy wedi cadw y lle blaenaf.

Yn gynnar yn y canrif hwn yr oedd llawer o ryddid crefyddol yn cael ei fwynhau yn Holland, a hyn yn nghyd ag achosion eraill a ddenasant niferi lluosog o'r Bedyddwyr i symud i'r lle ffafriol hwnw. Yma, fel mewn gormod o amgylchiadau cyffelyb, darfu esmwythtra allanol gynnyrchu gwrthddadleuon yn eu plith eu hunain, ac yn y pen draw, arwain i wahanol olygiadau ar y pwnc o'u hordinhad arweiniol. Darfu'r Menoniaid mewn amgylchiadau mynych, osod tywalltiad yn lle trochiad; ac wedi cymmeryd y *cam blaenaf* yn y cyfeiriad gau (*wrong*) hwy a ymadawsant oddiwrth y gwirionedd, trwy, yn raddol, fabwysiadu cyfeiliornadau, hyd nes darfu iddynt gyfnewid athrawiaeth yr Iawn am gredo mwy *cariadus* (*charitable*) Sosiniaeth ei hunain. Fel hyn, yn mhob oes, y mae cyfeiliornad wedi bod yn llithio ac yn hyd-ddenu y meddwl dynol, hyd nes y rhoddwyd y gwirionedd heibio fel nwyf diwerth; ond gan fod hyn yn cael ei effeithio trwy ymadawiadau *graddol* oddiwrth safon ffydd yn Ngair Duw, mae yr eglwysi distrywiedig yr amser sydd wedi myned heibio yn llefain yn uchel o'u hunigedd galarus ar bob oes ddilynol, "*Gochelwch y cam blaenaf.*"

Yn Poland, Hungari, ac wedi hyny yn Bohemia a

Piedmont, yr oedd tânau erlidigaeth yn myned yn mlaen mewn cynddaredd a chreulondeb arswydus. Nid oedd oedran, rhyw, na sefyllfa yn rhoddi un math o ddyogelwch rhag dialedd greulon yr erlidwyr Pabyddol. Mae *Christiana Buchan*, yn ei hanes ddyddorol o'r Eglwys Gristionogol yn ysgrifenu fel y canlyn am y dyoddefiadau yn Bohemia:—"Yr oedd y gallu dyfeisiol wedi ei ddyhysbyddu i gael allan ffyrdd newyddion i'w rhoddi hwy (y Protestaniaid) i farwolaeth. Un boneddwr a hacciwyd yn ddarnau mân; llanwyd genau un arall â phylor, a thaniwyd ef nes y chwythwyd ei ben yn fil o ddarnau. Pregethwr Protestanaidd a gafodd ei ddiosg yn nyfnder y gauaf, a chafodd ei guddio gyda rhew a glô llosgedig, bob yn ail, nes y bu farw; fe gafodd yr eglwysi a'r ysgolion Protestanaidd eu cau i fyny, a'r gweinidogion Protestanaidd, o bob enwad, eu troi allan o Bohemia. Fe wnawd yr ymchwiliad manylaf am bob Bibl ag oedd yn iaith y bobl, ac fe'i cyflwynwyd i'r fflamiau, gyda phob arwydd o gasineb a gwawd. Fe alltudiwyd o'r wlad yr holl deuluoedd anrhydeddus na chydymffurfient ag Eglwys Rhufain, ac fe arwerthwyd yn gyhoeddus eu holl diroedd a'u meddiannau." Yr oedd dyoddefiadau y Waldensiaid diniwed a duwiol yn llawn mor greulon, ac y mae yn cael ei hyspysu, mewn modd diammheuol, fod y nifer a roddwyd o honynt i farwolaeth bron yn ddirif. Fe ddarfu pasio deddf Nantes, yn Ffrainc yn y flwyddyn 1598, sicrhau cyfnod hir o lonyddwch ac o ryddid i'r Protestaniaid yn y wlad hono; ond, pan yn y flwyddyn 1685, y darfu Louis XIV., alw yn ol y ddeddf hono, ac am rai blynyddoedd cyn hyny, yr oedd y Pabyddion unwaith etto wedi cael yr uwchafiaeth yn y wlad hono, fe gymmerodd golygfeydd dychrynllyd o erlidigaeth a thywallt gwaed le. Yr oedd offeiriaid ieuanc yn cael eu hanfon o amgylch-o-gylch y wlad i gynhyrfu y bobl yn erbyn Protestaniaid; ac fe wnawd yn

hyspys trwy y wasg "Fod yn rhaid i ffydd-credo y Pabyddion gael ei phlanu trwy dân a chleddyf," ac "Na fyddai i'r brenin oddef mwyach un *Protestant* tu fewn i'w deyrnas." Yn ganlynol i hyn fe gyflawnwyd gweithredoedd rhy farbaraidd i'w crybwyll, a rhy warthus i gael eu cyflawni gan neb oddigerth gan gythreuliaid mewn ffurf ddynol. Fe ddaeth Ffrainc, am beth amser yn Gehenna Babyddol, ac mae y gwaed a dywalltwyd y pryd hyny gan ddynion anfad-ddrwg, wedi ymgynddeiriogi, wedi gadael melldith ar y wlad hono hyd y dydd hwn. Mewn mwy o amgylchiadau nag ydym ni yn wybod, y mae y Duw eiddigus yn ymweled a phechodau y tadau ar y plant hyd genedlaethau pell; ac mae yn gwneuthur hyn er dysgu y byd yn gyffredinol "Na watworir Duw."

Yn yr erlidigaethau a'r dyoddefiadau hyn, fe gafodd y Bedyddwyr, neu fel y gelwid hwy y pryd hyny, yr Ail-fedyddwyr, eu rhan yn dra chyflawn. Gan mwyaf, yr oeddynt yn ymlynu yn hynod annhyblyg wrth eu hordinhad wahaniaethol; ac o herwydd hyny yr oeddynt hwy yn cael eu herlid gan y Diwygwyr eu hunain; a phan oedd cynddaredd y Pabyddion yn lleihau neu gael ei lonyddu, fe fyddai eiddo y Protestaniaid, mewn amrywiol amgylchiadau, yn dyfod yn law-gospawl i'r Bedyddwyr druain. Trwy gymmeryd eu safle gyda y Protestaniaid yr oeddynt yn dyoddef, yn eu graddau, yr oll a allai creulondeb Pabyddiaeth ei osod arnynt; a thrwy ymlynu yn selog wrth eu hegwyddor o fedydd y crediniol, yr oeddynt hefyd yn dyfod yn wrthddrychau melldithion dygasog *Protestanaidd* ar yr un pryd. Pan nad oedd gan y *Protestant* ond un gwrthwynebwr mawr sef y Babaeth, yr oedd gan y Bedyddiwr elyn yn y ddau, sef y Babaeth a Phrotestaniaeth; ac o herwydd hyny, yr oedd yn dygwydd yn fynych, fod yr hyn oedd yn adeg o orphwysfa i Brotestaniaid eraill, yr oedd i'r Bedyddwyr yn adeg o ddyoddefiadau adnewyddol "yn nhŷ eu car-

edigion." Yr oeddynt yn cael eu herlid gan y Pabyddion am eu bod yn Brotestaniaid; ac yn cael eu herlid drachefn gan y Protestaniaid am eu bod yn gwrthod bedyddio y maban anwybodus. A hwy, uwchlaw pawb dynion, oedd yn gorfod dyoddef yr anngharedigrwydd anhawsaf ei ddyoddef, sef pan fyddo "gelynion dyn yn dylwyth ei dŷ ei hun."

Yr oedd y Bedyddwyr yn Lloegr, yr un fath, yn wrthddrychau casineb ac yn ddeiliaid cosp *Bretestanaidd.* Iago I., yr hwn ddaeth i'r orsedd yn y flwyddyn 1603, a brofodd ei hun yn deyrn o feddwl eiddilaidd, ac yn llawer mwy o ddeiliad cynhyrfiadau y teimlad ar y pryd, nag ydoedd o ddyn egwyddorol. Ni fu ef erioed yn ffyddlon (*true*) i unrhyw beth, ond yn troi o amgylch bron i bob cyfeiriad o'r cwmpawd gwleidiadol. Yn y nawfed flwyddyn o'i deyrnasiad (1612*) efe a ddianrhydeddodd ei goron yn nghyd a Phrotestaniaeth broffesedig y deyrnas, trwy ail-gyneu fflamau merthyrdod, a throsglwyddo i'r stanc ddau o'i ddeiliaid, y rhai, a dyweyd y gwaethaf am danynt, nid oeddynt wedi cyflawni mwy o gamwri na mabwysiadu crefydd wahanol i'r eiddo ef. Y ddau hyn oeddynt, Bartholomew Legate, o Essex, ac Edward Wightman o Burton-on-Trent. Cafodd y blaenaf ei losgi yn Smithfield, Mawrth, 18, 1612; a'r llall ei losgi yn Lichfield, Ebrill, 11eg, yn yr un flwyddyn. Nid ydyw syniadau Legate mewn modd manwl wedi eu dodi i lawr, ac fe fyddai yn annhég iawn i goffadwriaeth dyn a roddodd brawf o'i gywirdeb yn fflamau merthyrdod, i'w derbyn oddiar law ei erlidwyr. Gallai ei fod yn Ariad, er nad oes un *prawf* o hyn; neu gallai mai Ail-fedyddiwr ydoedd, yr hyn nid yw yn annhebygol. Pa beth bynag

* Mae Neal ac Isaac Man yn rhoddi y flwyddyn 1612, ond y mae Ivimey, yr hwn dybiwn, oedd yn gyfeiliornus yn hyn yn rhoddi y flwyddyn 1611.

ydoedd, yr oedd ei farwolaeth yn farc ac ystaen du ar gymmeriad Lloegr *Brotestanaidd.*

Ond y mae syniadau Wightman yn fwy hyspys, oblegyd mae y waraut a'r hon y daliwyd ef yn ei gyhuddo o heresiau cyffredin, "Arius, Cerinthus, Manichaeus, *ac eiddo yr Ail-fedyddwyr.*" Y mae tu-hwnt i ammheuaeth mai y diweddaf ydoedd, neu mewn gair mai Bedyddiwr ydoedd, neu ni fuasai y cyhuddiad yn cael eu gyfeirio yn ei erbyn ei fod yn "dal allan fod bedydd mabanod yn arferiad atgas, ac nad ydyw Swper yr Arglwydd na bedydd i gael eu gweinyddu fel yr arferir hwy yn Eglwys Loegr." Mae y cyffesiadau hyn yn sicrhau beth ydoedd ei gymmeriad, *ac yn profi mai Bedyddiwr ydoedd y merthyr diweddaf yn Lloegr.*

Yr oedd y cyhuddiadau eraill, gyda golwg ar Arianyddiaeth, &c., yn cael eu dwyn yn mlaen mor gyffredin i dduo cymmeriad gwrthddrychau diniwed erlidigaeth offeiriadol, fel nad ydynt yn teilyngu nemawr sylw. Y mae wedi bod yn arferiad dichellgar o eiddo erlidwyr o ddyddiau Stephan i lawr i gyhoeddi gwrthddrychau eu herlidigaeth fel rhai annuwiol mewn trefn iddynt hwy, yn ymddangosiadol, gyfiawnhau eu hunain yn eu gweithrediadau erlidgar. Gyda y dosparth hwn o erlidwyr creulon, pa un bynag a'i Paganaidd, Pabyddol, neu Brotestanaidd, mae y prif brawf o'u hiawngred hwy yn gorwedd yn y weithred o gyhuddo dynion llawer gwell na hwy eu hunain, o fod yn hereticiaid; a'r ffordd fwyaf boddhaol ganddynt i arddangos sêl dros y gwirionedd ydyw, yn gyntaf nodi dyn allan fel eglwys rwygiedydd, ac wedi hyny ei losgi mewn tân!

Ond fe brofodd yr ymdrechion hyn yn hollol aneffeithiol i atal y Dwyfol wirionedd i fyned yn mlaen yn y canrif hwn, oblegyd yr oedd goleuni yn parhau i ymledu, er gwaethaf cwmwl du o wrthwyneb-

iad breninol ac offeiriadol. Yr oedd y Bedyddwyr yn cynnyddu mewn rhifedi ac mewn diysgogrwydd. Yn y flwyddyn 1633, os nid yn gynt,* dechreuasant ffurfio eu hunain yn gymdeithasau gwahaniaethol. Yr eglwys gyntaf yn Llundain a sefydlwyd yn Wapping, yn y flwyddyn 1633, a'r nesaf yn 1639, yn Crutched-friars; yn 1644, yr oedd saith o gynnulleidfaoedd yn Llundain, a saith a deugain yn ngwahanol barthau o'r wlad. Yr oedd yr eglwysi hyn yn sicr a diammheuol, wedi eu sylfaenu ar yr egwyddor o

* Tradition carries back the church at Hill Cliff, near Warrington, to the era of the Reformation. But without drawing upon unauthenticated rumour, it is ascertained that a Mr. Weyerburton, a person of property and a devoted man, was its recognized minister—that he remained with the people to the end of his days—an that he *died* yn the year 1594. This fact being beyond donbt, there is at least a *probability* in the tradition that the church was coeval with the Reformation, which may be said to have taken place in 1529. It is a source of regret that an engraving of the ancient meeting house cannot be given here, a copy of which has been furnished to the writer by the kindness of a professional gentleman at Warrington. It is an interesting specimen of the humble and barn-like looking structure in which men, to whom we moderns owe the great body of our liberties, assembled together to worship the Great Supreme. It would seat about eighty persons.

Mr. Daynteth followed the above excellent man, and the pulpit Bible, and minister's walking staff of that period, with the date of 1638, are yet in existence. It is reported that Oliver Cromwell having halted with the parliamentary forces at Warrington, worshiped in Hill Cliff chapel, and that one of his officers occupied the pulpit on that occasion. Mr. Tillam was the next pastor, and after him, Mr. Thomas Loe, who it appears from Ivimey, attended the General Assembly of 1689, and the one of 1692. Mr. Francis Turner followed, by whom the Baptist interest was commenced in Liverpool, and it was during his ministry in 1714 that "the church at Hill Cliff agreed to consider the Liverpool branch as a distinct branch." His labours were successful in an unusual degree. He was succeeded by Mr. John Hayes, who remained among the people until his death, which took place in 1735. The well known John Macgowan, the author of the "Dialogues of Devils," the "Shaver," and other works, followed Mr. Hayes. He carried on the business of a bread baker at Warrington, while minister at Hill Cliff. This venerable society having struggled through three centuries, or more, is still in existence, and contained in 1865, 107 members, and a Sunday School of 85 children.

fedydd y crediniol. Hyd yr adeg hon yr oedd y Bedyddwyr wedi bod yn ymgymmysgu ag Ymneillduwyr yn gyffredin, heb unrhyw ymdrech adnabyddus i ymffurfio yn eglwysi pennodol a gwahaniaethol; ond rhaid bod ymwybodaeth yn eu mysg, eu bod, trwy eu presenoldeb, yn noddi arferiad ag yr oedd ffyddlondeb (*fidelity*) idd eu Mhcistr, yn eu gorfodi i'w gondemnio. "Yr oedd y Bedyddwyr (medd Dr. Stowell, yn ei (*Puritans of England*) yn wasgaredig yn mhlith sectau eraill, yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd gyda golwg ar amrywiol bwyntiau mewn athrawiaeth, ond yn unedig yn eu gwrthodiad o fedydd mabanod, ac yn nghyfyngiad yr ordinhad i drochiad credinwyr." Gan mai fel yna yr oedd pethau yn bod, diau mai yn araf a chyda llawer o hwyrfrydigrwydd, y buasent yn ymadael â hen gyssylltiadau (*connections*) gyda'r rhai yr oeddynt yn cydanwylo cynnifer o egwyddorion, ond nid oedd modd caethiwo neu dawelu y gwirionedd a breswyliai yn eu mynwesau cariadlawn, ac fel yr oedd argyhoeddiadau yn cynnyddu mewn sylweddolrwydd, yr oedd yn ennill mwy o nerth ar gyfer gweithrediad annibynol a gwahaniaethol, nes o'r diwedd y torodd yn rhydd oddiwrth lyffetheiriau sectyddol, y rhai oedd wedi bod yn atalfa iddo yn ei uchel-geisiadau, ac a anturiodd yn wrol i ffurfio eglwysi i Dduw yn ol cynllun yr amserau apostolaidd.

Ond nid dyma y cyfan, oblegyd yn fuan ar ol ffurfiad eglwysi Bedyddiedig ar wahan, fe deimlodd y brodyr a fu yn offerynol i'w ffurfio hwy y pwysigrwydd o gael undeb ar radd helaethach, ac yn fuan mewn canlyniad i hyn yr ymddangosodd cymmanfaoedd o eglwysi Bedyddiedig mewn parthau pellenig a gwasgaredig o'r wlad. Fe ffurfiwyd y gyntaf o'r rhai hyn yn Ngwlad-yr-Hâf, yn y flwyddyn 1653, a dwy flynedd yn ddiweddarach, sef yn 1655 fe ffurf-

iwyd cymmanfa y *Midland Counties*, yn Warwick, gan gynnrychiolwyr eglwysi Warwick, Moreton, (Morton-in-the-Marsh), Bourton-on-the-Water, Alcester, Tewkesbury, Hook-Norton, a Derby. Wedi i'r eglwysi hyn, trwy eu cynnrychiolwyr, drefnu y rhagarweiniolion, hwy a gyhoeddasant ar unwaith, sylfaeni eu hundeb, yn nghyda chyffes ffydd, y rhai gyda golwg ar fyrder a chyflawnder cynnwysiad, ni welwyd eu rhagorach gan unrhyw gyffelyb gymdeithas hyd y dydd hwn.

Nid oes modd gwneyd y credo hwn, o eiddo y *Midland Association*, yn rhy adnabyddus, na gwneyd ei gylch yn rhy eang, ac nid oes modd ei fyfyrio yn rhy fanwl, yn enwedig gan aelodau ieuanc ein heglwysi. Mae yn cynnwys mewn cylch bychan, sylwedd yr "athrawiaeth iachus," y cyfryw ag y mae Gair Duw, yn ddiau, wedi ei fwriadu i addysgu. Yn y dyddiau presenol o grediniaeth rydd (*loose*), mae angen ar ein heglwysi i gael eu hadgofio o'r duwinyddiaeth ag oedd yn cael ei gredu a'i addysgu gan ein cyndadau duwiol, mewn trefn i ddyfod yn ganlynwyr teilwng o ddynion, y rhai trwy ffydd ac amynedd, ydynt yn awr yn gyfranogion o gyflawniad yr addewidion. Yr ydym gan hyny yn dymuno ar ein darllenwyr i olrhain gyda gofal yr esboniad rhagorol canlynol o gredo dynion nad oedd arnynt ofn dyoddef dros y gwirionedd, yr hwn a ystyrient fel yn fwy gwerthfawr na bywyd.

*Un ar bumtheg o Erthyglau Ffydd a Threfn, a gydunwyd arnynt yn unfrydol gan Genadau a gyrddasant yn Warwick, y 3ydd dydd o'r 3ydd mis* (*Mai 3ydd*), 1655.

"1. Yr ydym ni yn credu ac yn proffesu mai un gwir Dduw sydd, yr hwn yw ein Duw ni; yr hwn sydd yn dragywyddol, yn Hollalluog, yn anngbyf-

newidiol, yn anfeidrol, ac yn anamgyffredadwy; yr hwn sydd Yspryd, yn meddu ei fodolaeth ynddo ei hunan, ac yn rhoddi bodolaeth i bob creadur; mae efe yn gwneuthur yr hyn a ewyllysia yn y nefoedd a'r ddaiar; yn gweithredu pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun.

"2. Fod y Bod anfeidrol hwn yn cael ei osod allan yn Dad, y Gair, a'r Yspryd Glân; a'r tri hyn un ydynt. (1 Ioan v. 7.)

"3. Yr ydym ni yn proffesu ac yn credu fod yr Ysgrythyrau Santaidd, yr Hen a'r Newydd Destamentau, yn air a meddwl dadguddiedig Duw, yr hwn sydd yn abl i wneuthur dynion yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy ffydd a'r cariad y rhai sydd yn Nghrist Iesu; ac eu bod wedi eu rhoddi trwy ysprydoliaeth Duw, yn gweithredu i gael dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda; a thrwyddynt hwy yr ydym ni (yn nerth Crist) i brofi pob peth a ddygir i ni dan yr enw ffydd. (2 Tim. iii. 15—17; Isa. viii. 20.)

"4. Ac er fod Adda wedi cael ei greu yn gyfiawn, etto iddo syrthio trwy demtasiynau Satan; ac fod ei gwymp wedi dymchwelyd, nid yn unig efe ei hunan, ond ei hiliogaeth hefyd, gan eu gwneuthur hwy yn bechaduriaid trwy ei anufudd-dod; felly ein bod ni wrth natur yn blant digofaint, ac yn halogedig o'r groth; mewn anwiredd y'n lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd ein mamau arnom. (Salm li. 5; Rhuf. v. 12—15.)

"5. Fod Duw wedi ethol a dewis, yn ei gynghor tragywyddol rhyw bersonau i fywyd ac iachawdwriaeth, cyn sylfaenu y byd, y rhai, yn unol â hyny y mae yn alw, ac a wna alw yn effeithiol, a'r rhai y mae efe felly yn alw, fe fydd yn sicr o'u cadw trwy ei allu, trwy ffydd i iachawdwriaeth. (Act xiii. 48;

Ephessiaid, i. 3—5; 2 Thes. ii. 13; 1 Pedr i. 2, &c.)

"6. Fod etholedigaeth yn weithred rydd yn Nuw, o'i ewyllys ei hun, ac nid ar gyfrif unrhyw weithredoedd rhagweledig, neu ffydd yn y creadur, fel cymhelliad i hyny. (Eph. i. 4—5; Rhuf. xi. 5—6.)

"7. Fod Iesu Grist yn nghyflawnder yr amser wedi ymddangos yn y cnawd, wedi ei eni o wraig, ac yn berffaith gyfiawn efe a roddodd ei hun dros yr etholedigion i'w prynu i Dduw trwy ei waed. (Ioan x. 15; Eph. v. 25—27; Dad. v. 9.)

"8. Fod pawb dynion, hyd nes y bywheir hwy gan Grist, yn feirw mewn camweddau a phechodau (Eph. ii. 1); ac felly heb feddu gallu ynddynt eu hunain i gredu i gadwedigaeth. (Ioan xv. 5.) Ond mae ffydd yn rhodd rad o eiddo Duw, ac yn weithred nerthol o eiddo Duw yn yr enaid, yn gyffelyb i adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw (Eph. i. 19—20. Gan hyny na chydsyniwch â'r rhai sydd yn dal fod Duw wedi rhoddi gallu i bawb dynion gredu i iachawdwriaeth.

"9. Mae Crist yw unig wir Frenin, Offeiriad, a Phrophwyd yr eglwys. (Act iii. 22—23; Heb. iv. 14, &c., viii. 1, &c.)

"10. Fod pob dyn ag sydd yn cael ei gyfiawnhau, yn cael ei gyfiawnhau trwy Grist. (Rhuf. viii. 33; 1 Cor. vi. 11;) yn ddealledig trwy ffydd; ac nad oes un dyn yn cael ei gyfiawnhau yn rhanol trwy Grist, ac yn rhanol trwy weithredoedd. (Rhuf. iii. 20; xxiii. 30; Gal. iv. 4.)

"11. Mai Iesu o Nazareth, am yr hwn yr oedd Ysgrythyrau yr Hen Destament yn prophwydo, ydyw y Gwir Fessiah a Iachawdwr dyn; ac ei fod ef wedi marw ar y groes, iddo gael ei gladdu, iddo gyfodi drachefn yn yr un corff ag y dyoddefodd, ac ei fod wedi esgyn ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-

leoedd, i ymddangos yn mhresenoldeb Duw i eiriol drosom ni.

"12. Y dylai pawb ag y mae ffydd wedi cael ei gweithredu yn eu calonau trwy allu Duw, yn ol ei ewyllys ei hun,—y dylent fod yn ofalus i gyflawni gweithredoedd da, ac i barhau ynddynt, yn gweithredu oddiar egwyddorion gwir ffydd, ac mewn cariad diffuant, yn edrych ar ogoniant Duw fel eu prif amcan. (Tit. iii. 8; Heb. xi. 6; 1 Cor. vi. 9, 10, a 10, 31.)

"13 Mae yr holl rai hyny ag sydd yn proffesu ffydd yn Nghrist, ac yn dangos hyny yn eu ffrwythau, ydynt briodol ddeiliaid bedydd. (Math. xxviii. 18 19.)

"14. Nad ydyw y bedydd hwn i'w weinyddu trwy daenellu, ond trwy drochi y person yn y dwfr, yn arddangosiad o farwolaeth, claddedigaeth ac adgyfodiad Crist. (Rhuf. vi. 3, 4; Col. ii. 12; Act viii. 38, 39.)

"15. Y dylai personau wedi eu bedyddio fel hyn, trwy gydsyniad ewyllysgar, rodio gyda eu gilydd, fel y byddo Duw yn rhoddi cyfleustra iddynt, yn eglwysi gwahaniaethol, neu gynnulleidfaoedd Sion, yn parhau yn athrawiaeth yr apostolion, ac mewn cymdeithas, yn tori bara, a gweddi fel cydaelodau yn gafalu am y naill y llall, yn ol ewyllys Duw. Mae yr holl ordinhadau hyn o eiddo Crist yn cael eu gorchymyn idd ei eglwys, i gael eu cadw hyd ei ail-ddyfodiad, yr hwn y dylem ni oll, yn ddyfal, ddysgwyl am dano.

"16. Y bydd, ar yr amser appwyntiedig gan yr Arglwydd, i gyrff meirw pawb dynion, y cyfiawn a'r annghyfiawn, gael eu cyfodi drachefn o'u beddau, fel y byddo i bawb dderbyn yn ol yr hyn a wnaethant yn y corff, pa un bynag ai da ai drwg."

Mae y crynodeb byr uchod yn cynnwys holl athrawiaethau annhebgorol y ffydd Gristionogol, a lle bynag

y mae yn cael ei ddeall yn gywir, fe a yn mhell iawn tuag at wneuthur unrhyw gredadyn "yn berffaith yn Nghrist Iesu."

Ni fu er hyny, ond ychydig flynyddoedd o orphwysfa wirioneddol i'r canlynwyr ffyddlawn hyn o eiddo yr Arglwydd; oblegyd canfyddir oddiwrth yr amseriad uchod, iddynt gyfarfod yn y flwyddyn 1655, yr hon ydoedd ail flwyddyn yr Amddiffyniad, dan Oliver Cromwel, ac wedi iddo ef farw, y 3ydd o Fedi, 1658, a chael ei ganlyn am gyfnod byr, gan ei fab ofnus a digalon Richard Cromwel, ac wedi hyny gan Charles II., fe giliodd rhyddid crefyddol i gornelau, ac i leoedd gwladaidd ymneillduedig, hyd nes y torodd allan y dymhestl o awdurdod tra-arglwyddiaethol yn cael ei hanfon gan y brenin trwy yr holl wlad, a threulio ei hunan allan a marw. Pan esgynodd ei frawd Iago II., i'r orsedd, fe geisiodd yntau lywodraethu ar gefn yr honiad ffôl o "Hawl Ddwyfol," ac fe wnawd pob ymdrech i lethu yspryd rhyddid crefyddol, ac i orfodi dynion i gredu yn hawliau apostolaidd yr "Eglwys Sefydledig." Yn y flwyddyn 1661, fe basiwyd y *Corporation Act*, ac yn yr un flwyddyn fe ddarfu i'r Brenin a'i Gynghor-lys ddwyn allan ddeddf yn erbyn cynnulliadau crefyddol, sef yn erbyn pawb ag oeddynt yn ceisio addoli Duw yn ol deddfau eu cydwybodau eu hunain. Yn y fl. 1662, fe dderbyniodd "*Yr Act of Uniformity*," y sêl freiniol; ac ar y 24ain o Awst yn yr un flwyddyn, y trowyd allan *Ddwy Fil* o'r gweinidogion goreu yn Eglwys Loegr—ie, allan o'u tai a'u cartrefleoedd, i geisio am eu bara beunyddiol y ffordd oreu y gallent. Yn y fl. 1664, fe basiwyd deddf i ddodi i lawr (*suppress "seditious Conventicles*") "Cynnulliadau Terfysglyd,"* ac

* *Conventicle* y gelwid pob cynnulliad annghyfreithlon, sef y rhai nad oeddynt mewn cyssylltiad a'r Eglwys Wladol; a "Chynnulleidfa Derfysglyd," (pa mor dawel bynag fyddai) y gelwid pob cynnulliad tuallan i'r Eglwysi Gwladol. Yr oedd y blaid ormesol hon ag oedd, ac hefyd sydd, yn ceisio pardduo eglwysi tawel a diniwed, trwy roddi enw drwg arnynt.

fe ddylynwyd hon yn y flwyddyn ganlynol gan y "*Five Mile Act*," yr hon oedd yn gwahardd un math o gwrdd crefyddol (oddieithr eiddo *yr Eglwys*) i gael ei gynnal o fewn pum' milltir i unrhyw dref marchnad. Yn y fl. 1680, fe wnawd y "*Conventicle Act*" yn fwy caeth a gormesol; ac yn y fl. 1673, fe ddarfu y *Test Act* gyflawni i eithafion y *trifling* gormesol hwn gyda chenedl anrhydeddus. Yr oedd y bobl wedi eu chwerwi, ac er nad oeddynt yn tori allan i wneyd ymosodiadau gorthrechol, etto yr oedd yr anfoddlonrwydd sarug a chuddiedig yn gweithio ei ffordd yn ddirgel i ysgwyd yr orsedd, ac yn y diwedd fe daflodd oddiar ei orsedd y brenin gormesol. Yn y fl. 1688, fe gymmerodd y chwyldroad le, ac fe gafodd rhyddid crefyddol edrych ar y cwmwl ymadawedig yn ngwaith y brenin yn ffoi,—ffoad nad oedd neb yn blino o'i herwydd,—ffoad y brenin, ie brenin ag oedd yn cael ei ffieiddio.

Fe gafodd William III. feddiant o'r orsedd, a chafodd cydwybod, unwaith yn rhagor, le rhydd i weithredu, a'r llyffetheiriau ag oeddynt wedi bod yn caethiwo y meddwl am ddeng mlynedd ar ugain eu tori trwy ddychweliad i ryddid o argyhoeddiad gonest a goleuedig. Faint oedd mawredd y dyoddefaint, yn enwedig y cyfryw ag oedd yn cael ei ddyoddef yn ddirgel, mewn cartrefleoedd annrheithiedig, plant newynllyd, a braw parhaus rhag i'r "ysbiwr" (*informer*) dori i mewn ar awr gyssegredig y weddi, ni all dyn byth ei ddarlunio, na chwaith ei amgyffred i berffeithrwydd! Mewn gwirionedd "teyrnasiad o ddychryn" ydoedd; ac yn gymmaint yn fwy creulon ar gyfrif ei weinyddwyr offeiriadol. Pa mor ddychrynllyd bynag y mae gormesiau gwleidiadol wedi bod, y mae gormesiau crefyddol wedi bod yn mhob ystyr yn llawer mwy dychrynllyd; oblegyd yn y blaenaf, y mae y gwleidiadwr, o angenrheidrwydd, yn dal rhai o syniadau

ein dynoliaeth gyffredinol; ond yn y crefyddol y mae dynoliaeth ei hunan wedi ei dyddimu, neu ei llyncu i fyny yn yr offeiriad. Mae gwleidiadwr yn arbed y bobl i raddau helaeth am fod eu hangen hwy arno; ac y mae ei angenrheidrwydd gwleidiadol yn gweithredu i roddi atalfa ar ei ddrygioni; ond mae y llall, trwy argymmeryd yn rhyfygus i weithredu dros Dduw, yn mogi pob teimlad o ddynoliaeth mewn sêl ddall-bleidiol i "wneuthur gwasanaeth i Dduw;" ac wedi tawelu y llef ddistaw fain o'r ddynoliaeth hono yn ei galon ei hun, nid oes dim yn aros wedi hyny ond yr yspryd drwg yn ngwisg yr offeiriad.

Yn y fl. 1660, fe ddaliwyd y dyn enwog hwnw, John Bunyan, mewn cyfarfod crefyddol, ac fe'i carcharwyd ef yn ngharchar Bedford, lle y bu yn garcharor am ddeuddeg mlynedd, ac a gafodd ei ryddhau yn y fl. 1672. Ni chaniatai ei erlidwyr un math o dynerwch gyda golwg ar ddysgyblaeth lem y carchar yn ei amgylchiad, a pha faint bynag o ryddid a ganiatawyd iddo ei fwynhau yn achlysurol, yr oedd yn ddyledus am hyny, yn gyfangwbl i garedigrwydd dynol ceidwad y carchar. Fel engraifft o yspryd y dyddiau hyny, dyfynwn ran o'i gyhuddiad (*indictment*) yr hyn sydd fel y canlyn:—"Fod John Bunyan, o dref Bedford, labrwr, yr hwn sydd berson o'r cyfryw a'r cyfryw sefyllfaoedd, y mae efe er y cyfryw amser, yn gythreulig ac yn ddinystriol wedi ymgadw rhag dyfod i'r eglwys i wrando gwasanaeth Dwyfol, ac y mae efe yn gynnaliwr cyffredin amrywiol gyrddau a chynnulliadau annghyfreithlon, ac yn achosi terfysg mawr a gwyrdroad deiliaid da y deyrnas hon, yn groes i ddeddfau ein Goruchaf Arglwydd, y Brenin, &c." Yr oedd ef yn cael ei erlyn gan rai o'r esgobion gyda'r fath ddyfal-barhad erlidgar, fel pan glywsant am dynerwch ceidwad y carchar tuag ato, yr hwn, dywedir, oedd yn caniatau i John Bunyan i dalu ymweliad a'i gyfeillion

a'i berthynasau, yn achlysurol, hwy (yr esgobion) a anfonasant genad arbenig i edrych a oedd hyn yn wirionedd ac i'w hysbysu hwy o hyny. Gorchymynwyd iddo i fyned i'r carchar yn y nos, gan fod Bunyan yn cael caniatad yn fynych i aros ychydig gyda ei deulu gartref. Yr oedd Bunyan wedi cael y caniatâd hwn y noswaith hono, ond yr oedd ef yn teimlo y fath anesmwythder fel y dywedodd wrth ei wraig, fod yn rhaid iddo ddychwelyd i'r carchar yn ddiattreg. A dychwelyd a wnaeth yn union; a phan ddaeth yr ysbiwr i mewn, yn fuan ar ol dychweliad Bunyan, efe a ofynodd, "A ydyw yr holl garcharorion yn ddyogel?" Atebodd ceidwad y carchar, "ydynt." Ebe'r ysbiwr, "A ydyw John Bunyan yn ddyogel?" "Ydyw." "Gadewch i mi ei weled ef." Dygwyd Bunyan o'i flaen; yna yr ysbiwr a ymadawodd, ac a hysbysodd fel yr oedd pethau yn bod; ac fel hyn y dinystriwyd amcan yr esgobion cyfrwysddrwg gan Un, yr Hwn, "*Works in a mysterious way, his wonders to perform.*"

Rhaid fod dyoddefiadau y Bedyddwyr yn fawrion yn y cyfnod hwn o erledigaeth *Brotestanaidd*, gan eu bod hwy yn mhlith yr haerwyr mwyaf penderfynol dros ryddid crefyddol. Mae y canlynol o Hanesiaeth *Crosby* yn llefaru mwy nag y gall cyfrolau cyfain wneyd, gyda golwg ar ormesiadau anghyfiawn ar un llaw, ac o ffyddlondeb diwyro ar y llaw arall, o eiddo canlynwyr bedyddiedig y Gwaredwr. Mr. Wilmot ydoedd weinidog ar eglwys y Bedyddwyr yn Hook Norton, yn Oxfordshire:—

"Yn nghylch y flwyddyn 1664, cawsant eu dal yn eu cwrdd, a'u cludo i'r castell yn Oxford. Ar adeg arall cawsant eu hanfon i garchar Witney. Cafodd Mr. Wilmot ei ddirywo o £20, am yr hyn y cymmerwyd ei holl feddiannau oddiarno. A phan na chawsant ddigon yn y meddiannau rhag-grybwylledig i'w boddloni hwy, hwy a gymmerasant feddiannau

Mr. Hymphrey Gillet, gwlanwr, yr hwn oedd wedi cael ei gymmeryd i fyny yn yr un cwrdd. Fe aeth tad Mr. Wilmot, yr hwn oedd eglwyswr selog, at Syr Thomas Pennystone, sef yr ynad oedd wedi ei gondemnio ef i garchar, ac a ddymunodd arno ryddhau ei fab. Atebodd yr ynad,—'fe gaiff bydru yn y carchar.' Atebodd Mr. Wilmot, 'fe ddywedodd ynad arall yr un peth, ond y mae efe wedi marw.' 'Er ei fod ef wedi marw, (meddai Syr Thomas) etto ni chaiff ei waith ef farw.'"

"Yr oedd Mr. Thorpe, ceidwad y carchar yn Oxford, yn greulon iawn. Ni chaniatai iddynt weddio gyda eu gilydd; ac os buasent yn gofyn bendith ar eu bwyd, deuai i mewn mewn llid mawr, ac a'u cythryblai hwy, gan ddywedyd, 'Beth! a ydych yn pregethu uwchben eich ymborth.'

"Fe gafodd meddiannau Mr. Wilmot, yr hwn oedd wedi cael ei garcharu ddwywaith yn ngharchar Oxford, eu cludo i Chipping Norton, a'u crio yn gyhoeddus amrywiol weithiau i gael eu gwerthu ar ddyddiau marchnad; ond nid oedd neb a gynnygiai eu prynu. Fe'u cludwyd i Swansford, i dŷ un o'r yspiwyr, yr hwn ni allasai wneuthur arian o honynt; o'r diwedd, dygwyd hwy drachefn i Hook Norton, a chyhoeddwyd yno, y byddai i bwy bynag a roddai i lawr *ugain swllt* eu cael oll; a darfu i gyfaill i Mr. Wilmot wneyd hyny, a chafodd Mr. Wilmot ei holl feddiannau drachefn. Pan ryddhawyd Mr. Wilmot o garchar Witney, darfu iddynt ei esgymmuno ef, ac fe ddygwyd amryw *writs* yn ei erbyn ef, ond fe'i hysbyswyd ef o berthynas iddynt, ac efe a ffòdd, ac felly a ddiangodd o'u dwylaw hwynt."

Yr oedd hwn yn gyfnod o dywyllwch, a phrudd-der, a cholled. Yr oedd yr *Eglwyswyr*, yn cael eu cymhell gan lŷs llygredig, gyda'r hwn yr oeddynt yn gyfeillion,—yr oeddynt yn llawenychu yn nghyfyngderau yr Ymneillduwyr yn gyffredin, ond yn

nghyfyngderau y Bedyddwyr yn neillduol. Yr oedd y cyrddau i addoli Duw naill a'i yn cael eu tori i fyny yn hollol, neu eu gosod yn agored i drugaredd heidiau o yspiwyr isel a barbaraidd, yn nghyd a swyddogion diegwyddor a dideimlad, y rhai a gymmerent hyfrydwch bwystfilaidd, i ddwyn allan i'r llythyren fwriadau erlidgar y llŷs digydwybod ac anllad. Mae yn ffaith ddiymwad fod y nifer o 60,000 o Annghydffurfwyr wedi cael eu carcharu rhwng y flwyddyn 1660 a 1668, gan drais-arglwyddiaeth grefyddol y cyfnod hwnw; ac fod yn nghylch 5,000 o honynt wedi marw yn y carcharau; ac fod y golled mewn meddiannau i'r bobl hyn, yn cael ei achlysuru trwy ddirwyon, cymmeryd eu meddiannau oddiarnynt, yn nghyd a ffyrdd awdurdodol eraill o yspeilio, yn ddim llai, yn ol Neal, na rhwng deuddeg a phedwar-arddeg o *filiwnau o bunnau*." "*See History of Midland Association*, *p.* 31.

Mewn canlyniad i Chwyldroad y flwyddyn 1688, ac adferiad rhyddid crefyddol, yr oedd Bedyddwyr yn ail-ddyfod i'r golwg yn holl ranau y deyrnas, ac yn ffurfio, neu ail-gyfansoddi eu heglwysi yn niferi tra lluosog. Oblegyd pan gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1689 fod cwrdd cyffredinol i gael ei gynnal yn Llundain, darfu *uwchlaw cant o eglwysi* ateb i'r cais trwy anfon eu cenadon i'w cynnrychioli yn y gynnulleidfa neu y gymmanfa hono. Yn y gymmanfa hono y mabwysiadwyd y *Cyffes Ffydd* enwog mewn deuddeg-ar-ugain o Reolau, ac y penderfynwyd iddo gael ei wasgaru yn holl eglwysi y deyrnas. Mae y Cyffesiad hwn yn cynnwys corff cyflawn o dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol, mewn ffurf gryno, ac nid ydyw yn ddim ond cyfiawnder i ychwanegu y byddai yn fantais barhaus i eglwysi a theuluoedd i fod yn adnabyddus a'r gwaith gwir bwysig ac Ysgrythyrol hwn. Oblegyd, gyda golwg ar "athrawiaeth iachus," ffyddlondeb—cywirdeb tuag at yr or-

dinhadau efengylaidd, a duwioldeb ymarferol, fe ddeil ei gymharu a gweithiau blaenaf yr oes hono, neu unrhyw oes anysprydoledig arall. Yn mhlith yr holl "gyffession" ffydd, ni bu erioed ei ragorach, os, yn wir, y gwelwyd erioed ei gystal. Fe fu y Cyffes hwn am yn agos, os nid am lawn, gant a hanner o flynyddoedd yn gynllun cydnabyddedig o athrawiaeth a chymmundeb i eglwysi Bedyddiedig y Deyrnas Gyfunol; ond yn mha le y mae yn cael ei gydnabod felly yn bresenol? Pa nifer sydd o'n heglwysi diweddar, neu o'n haelodau eglwysig sydd yn gwybod, hyd y nod, am ei fodolaeth? Pa le y mae y gweinidogion a gymmerant drafferth i'w esbonio ef, a'i gymharu trwyddo oll a'r Ysgrythyrau Santaidd, neu pwy sydd yn gwneyd ymdrech i'w wasgaru yn mhlith eu haelodau ieuanc? Och! yr ydym wedi cwympo, ac mae yr aur pur wedi newid!

Yn ystod y canrif hwn y darfu i'r gwrol Cromwel ymyraeth yn ddiofn ar ran y Waldensiaid erlidiedig, ac a anfonodd Syr Samuel Moreland i dalu ymweliad a'r dyffrynoedd ac i ymddadleu a'u gorthrymwyr, ac i esmwythau angenion y bobl hyn ag oedd yn cael cymmaint o gamwri. Mor anrhydeddus y cyferbyniad rhwng y weithred hon o drugaredd o eiddo Cromwel, a'i ganlynydd, Charles II., yn ei waith yn erlid ac yn lladd! Mae ein gwynebau yn gwrido o gywilydd o herwydd gweithredoedd yr olaf; ond o herwydd yspryd rhyddfrydig a chariadlawn Cromwel ddifenwedig, yr ydym yn teimlo rhyw frwdfrydedd o fawrygiad, y cyfryw na all geiriau byth ei ddarlunio.

## CANRIF Y DAUNAWFED.

Er fod y daunawfed canrif yn awr yn agor o'n blaen, etto y mae genym un sylw yn ychwanegol i'w wneyd ar amgylchiadau yr ail ganrif ar bumtheg.

Tra yr oedd Bedyddwyr y deyrnas hon yn dyoddef dan y ddeddf haiarnaidd, o'r ffurf waethaf o ormesiaeth eglwysig, yr oedd eu brodyr y rhai oeddynt wedi ffoi rhag y ddeddf hono, i, y pryd hyny, diroedd gwylltion, a choedwigoedd dilwybr America, yn dechreu ar y gwaith o blanu eglwysi yn y ddiogelfa ffafriol hono, oddiwrth erlidigaeth offeiriadol. Yn ol Dr. Benedict, yr oedd un ar bumtheg o eglwysi Bedyddiedig wedi eu ffurfio yn y cyfandir hwnw yn yr ail ganrif ar bumtheg. Gan fod yn bwysig i feddu côf-ysgrif o gychwyniadau cynnar y teulu Bedyddiadol mawr anferthol yn America, mae y canlynol yn gofrestyr o'r eglwysi boreuol hyny yn America, wedi ei dalfyru a'i osod mewn trefn o'r llyfr mawr a gwerthfawr o eiddo yr awdwr llafurus uchod. Fe ddechreuwyd Providence, yn Rhode Island, gan yr enwog Roger Williams, yn y flwyddyn 1639. Fe ddechreuodd yr eglwys gyntaf yn Newport, yn yr ynys hono, yn y flwyddyn 1644, a'r ail yn yr un dref, yn y flwyddyn 1656; fe gyfododd y gyntaf yn Swansea, Massachusetts, yn y flwyddyn 1663; a'r gyntaf yn Boston, yn yr un dalaeth, yn y flwyddyn 1665. Yr eglwysi yn North Kingston, Newport, South Kingston, a Tiverton, yr oll yn Rhode Island, a ddechreuwyd ar wahan, yn y blynyddoedd 1665, 1671, 1680, a 1685. Dechreuwyd yr eglwys yn New Jersey, yn y flwyddyn 1688, a'r gyntaf yn Mhennsylvania (Lower Dublin) yn y flwyddyn 1689; a daeth yr ail eglwys yn New Jersey, i fodolaeth yn yr un flwyddyn. Yn canlyn cawn yr eglwys gyntaf yn Charleston, yn South Carolina, yn y flwyddyn 1690; yn Cohansey, yn y flwyddyn, 1691;

yr ail eglwys yn Swansea, yn y flwyddyn 1693; a'r eglwys gyntaf yn Philadelphia, yn y flwyddyn 1698. Gellir dywedyd am y rhai hyn, mai hwy oeddynt sylfaen y corff mawr o Fedyddwyr yn America; ac mai hwy a hauodd yr hâd, yr hwn fu, dan fendith y nefoedd, yn gyfrwng i gynnyrchu ffrwyth, yn agos yn mhob parth o'r cyfandir Americanaidd, yn nghyd ag mewn rhanau pellenig o'r ddaiar. Heb gael eu llyffetheirio gan eglwys wladol, ac yn mwynhau rhyddid cydwybod, y cyfryw na feddiannodd Ewrop erioed, mae y Bedyddwyr yn America wedi taflu eu corff rhienyddol *(parent)* yn Mhrydain fawr, braidd yn hollol i'r cysgodion; ac mae y ferch wedi myned gymmaint o flaen y fam mewn tyfiant, fel y mae, bron, yn rhy anhawdd eu cymharu â'u gilydd. Ni fyddai yn gywir i ddywedyd, "fod y fam yn foddlon i wywo;" ond gellid sicrhau, heb ofni gwrthwynebiad, fod y ferch, gyda golwg ar iechyd, nerth, a ffrwythlonrwydd ymledaenol, yn dysgu gwersi buddiol i'r fam oedranus.

Yr oedd ymledaeniad y teulu Bedyddiadol yn America yn y daunawfed canrif yn gyflym ac yn eang iawn. Canfyddir oddiwrth yr hysbysiadau blaenorol, fod un ar bumtheg o eglwysi ar y cyfandir hwnw, yn nechreuad y canrif hwn; ond eu bod wedi cynnyddu erbyn diwedd y canrif, yn agos i naw cant o eglwysi, yn cynnwys yn nghylch tri ugain a chwech o filoedd o aelodau. Mae yn dra amheus a fu byth er amser yr apostolion, gynnydd cyffelyb i'r cynnydd cyflym hwn. Mae fod eglwysi y Bedyddwyr wedi lluosogi, mewn *un* canrif *un ar bumtheg a dugain o weithiau*, yn beth ag y gellir dywedyd, heb betrusder am dano, nad oes dim cyffelyb iddo mewn hanesiaeth diweddar.

Nid oes ond ychydig bethau o natur gysurus i'w dywedyd am Fedyddwyr y Cyfandir yn ystod y canrif hwn. Darfu'r Mennoniaid, y rhai ar eu cyfodiad cyntaf, oeddynt Fedyddwyr, ac a ddalient fwy o

symlrwydd a duwioldeb yr Efengyl na'r rhif luosocaf o'r sectau eraill,—darfu iddynt hwy ddirywio'n gyflym. Y rhai hyny ag oedd yn Holland a suddasant, yn raddol, yn gyntaf, i Arminiaeth, wedi hyny i Sosiniaeth, ac mewn amrywiol amgylchiadau i ammheuaeth (*scepticism*) perffaith. Mae Mr. Orchard, yn ei "*History of Foreign Baptists*" yn dywedyd am danynt, "fod eu cyfoethogrwydd wedi lleihau eu chwerwderau, ac eu bod yn awr fel eraill yn mwynhau melusderau y bywyd hwn, ac eu bod mor agored i gerydd ag unrhyw gyfundeb Cristionogol. O uwchafiaeth *crefydd rheswm* (balchder y deall, yn waedwyllt, yn chwyddedig,—Paul. 2 Tim. iii. 4), ac o gariad at y byd hwn, fe gododd ymraniadau yn yr ail a'r trydydd canrifoedd ar bymtheg, y rhai sydd yn gosod amgylchiadau Bedyddwyr y cyfnod hwn mewn agwedd isel. Tywyllodd yr aur." Tudalen 363—4.

Fe barhaodd Eglwys Groeg i weinyddu bedydd mabanod trwy *drochiad*, ond yr oedd yr ordinhad yn cael edrych arni fel ffurf-wag yn amddifad o nerth ac ystyr iddi.

Fe barhaodd y Vaudois, er eu herlidigaethau creulon, i arferyd eu hordinhadau a'u seremoniau syml; ond yn y flwyddyn 1721, cawsant orchymyn i ddyfod a'u plant at offeiriad Pabaidd i'w bedyddio, yn nghorff pedair awr ar ugain ar ol eu geni, o dan gospedigaethau creulon. Yr oedd hyn yn cael ei fwriadu yn ergyd at eu daliadau fel Bedyddwyr, ac fe brofodd yn effeithiol hefyd mewn rhai amgylchiadau. Cafodd cydwybod a'r Ysgrythyr eu tawelu—eu gwneyd yn fud, ac fe ddaeth yr offeiriad i raddau arswydus "yn arglwydd ar etifeddiaeth Duw;" ac oni bai gofal neillduol o eiddo'r nefoedd fe fuasai olion diwedaf y canlynwyr ffyddlawn hyn i Grist wedi cael eu hysgubo oddiar wyneb y ddaiar. Ond fe lefarodd y "llef ddistaw fain," wrth elfenau sarug yr erlidigaeth Babyddol, "Hyd yma y deuwch ac nid yn

mhellach," ac fe gafodd gweddill y bobl dduwiol hyn gartref a thŷ i'r Arglwydd eu Duw, yn nirgeloedd tawel, a thrigleoedd dyogel Piedmont. Yn Bohemia, Hungari, Ffrainc, y Tyrol, a pharthau eraill, fe gafodd pawb, a anturiasant ymneillduo oddiwrth "y Dyn Pechod," eu herlid yn greulawn. Cafodd o ugain i ddeg ar ugain *o filoedd* eu gyru i alltudiaeth, o Salzburg ei hunan, am iddynt wrthod cydymffurfio â'r Eglwys Babyddol; ac yn y Tyrol, rhai Protestaniaid oedranus yn meddu dau hen Fibl, y rhai a ddarllenent gyda y dirgelwch mwyaf, y rhai oeddynt yn llechu yn ddirgel. yn mhlith pobl y wlad, a fuont yn foddion, yn llaw Duw, i gadw gwirionedd y nefoedd, rhag cael ei hollol ddiffoddi yn y wlad bwysig hono. Yr oedd yr offeiriaid, yn rhyfyg-falch, yn myned ar hyd a lled Ewrop, ac yr oedd llais y bobl yn ddiwybodaeth, yn bloeddio allan yr arch-arwyddair eulunaddolgar,—"Plygwch y glin."

Yr oedd crefydd yn mhlith y Bedyddwyr yn Mrydain Fawr, yn ystod y canrif hwn yn gwisgo agwedd amrywedig—yn rhanol yn fywiog, ac yn rhanol yn ddadfeiliedig. Mae llythyr cymmanfa y *Western Association*, yr hon a gynnaliwyd yn Mristol yn y flwyddyn 1700 yn achwyn "fod yr amrywiol achosion a osodwyd o'u blaen, yn arddangos yn rhy amlwg y fath waith gresynol mae y diafol, y byd, a llygredigaethau yn wneyd yn mhlith rhai ag ydynt yn ofni yr Arglwydd mewn gwirionedd. A llefaru yn eglur, frodyr, y mae hyn i ni yn awgrym galarus fod presenoldeb a gogoniant Duw yn cael eu cymmeryd oddiwrth ei bobl, ac yn rhagargoel dychrynllyd o farnau yn crogi uwch ein penau; a beth allwn ni ddysgwyl fydd ein cyfran, heb edifeirwch diattreg, a diwygiad prydlawn, ond barnau llawer gwaeth nag a welodd llygaid neb o honom erioed o'r blaen?" Yr oedd y *Midland Association*, yr hon a gynnaliwyd yn Birmingham, yn y flwyddyn 1740, hefyd yn cydnabod

cyflwr gwanaidd crefydd yn mhlith yr eglwysi. Mae llythyr y gymmanfa hon, yn dechreu yn y geiriau hyn.* "Wedi agor ein cyfarfod trwy weddi ddifrifol, darllenasom y llythyron oddiwrth y gwahanol eglwysi, a chawsom eu bod, gan mwyaf, yn llawn o achwyniadau gresynus o herwydd bychander y llwyddiant ag sydd yn dilyn pregethu yr Efengyl, claiarineb a difaterwch, ymadawiad yspryd gweddi, ac esgeulusiad amryw i dalu sylw i'r dyledswyddau gorphwysedig arnynt. Mae rhai eglwysi wedi colli eu gweinidogion, ac un arall mewn ofn y cymmer hyny le; a'r rhai oeddynt yn amddifaid o honynt amser ein cymmanfa ddiweddaf, heb gael gweinidogion etto."

Mae llythyr yr un gymmanfa yn y flwyddyn 1752, yn gwneyd cyfaddefiad cyffelyb:—"Ar y llaw arall, fel mae y pethau uchod yn achosion o lawenydd, felly hefyd mae genym amrai o gwynion ag sydd yn ein llanw a gofid. Y mae dideimladrwydd mawr mewn llawer o broffeswyr, ac anniolchgarwch gresynol yn ngwyneb y ffafrau mwyaf neillduol; mae graddau helaeth o gnawdolrwydd a meddyliau daiarol yn ffynu mewn llawer; a'r rhai hyn sydd yn boenus i'w ystyried ydyw, fod cyrddau *private* a chyfeillachau santaidd, yn cael eu hesgeuluso yn fwy-fwy; oddiwrth y cyfan yma, yr ydym yn canfod fod yr eglwysi, yn sicr, mewn cyflwr claiar iawn; mae y morwynion yn hepian, ac ni all neb ein hadfywio ni ond gweithrediadau galluog ac anadliadau effeithiol yr Yspryd Tragywyddol. Ar yr un pryd, yr ydym yn mawrhau amynedd ein Tad Nefol, yn nghyd â thiriondeb a thynerwch mawr ein Harglwydd a'n Meistr anwyl, Pen yr Eglwys, yn yr hyn na ddarfu iddo ef ein hymddifadu o'n holl freintiau, a gollwng arnom

* Ymddengys fod llythyr y gymmanfa hon yn cael ei ysgrifenu ar ol y gymmanfa, ac yn cael ei wneyd i fyny, gan mwyaf, o'r mynegiadau oddiwrth y gwahanol eglwysi i'r gymmanfa.

ddiluw o farnau difaol. Yr ydym yn awr gyda'n golwg a'n calonau at Ysbryd Doethineb, yn myned yn mlaen i roddi i chwi rai awgrymiadau mewn ffordd o gynghor brawdol, fel ffrwyth ein hystyriaeth mwyaf pwyllog a'n meddyliau mwyaf difrifol."

Mae y rhai hyn yn gyffesiadau pur dynion ag yr oedd achos Duw yn gorwedd yn agos iawn at eu calonau, y rhai oeddynt yn teimlo gofal mor fawr dros grefydd fywiol ag oeddynt dros burdeb athrawiaethol. Mewn gwirionedd, mae yn amlwg oddiwrth amrywiol bethau fod gweinidogion yr amserau hyny, yn ddynion o dduwioldeb personol uchel; yn rhai ag yr oedd eu cymdeithas barhaus a Duw wedi eu dysgu nad oedd cywirdeb athrawiaethol yn *ddim* oddigerth ei fod yn arwain i grefydd brofiadol, ddwys a theimladwy. Ac oddiwrth hyn y cyfodai eu gofid gwirioneddol, sef lle bynag yr ymddangosai y darfodedigaeth lleiaf o dduwioldeb profiadol yn mhlith yr eglwysi; ac yr oeddynt, gyda phriodoldeb yn edrych ar yspryd ymrysongar cnawdol fel yn brawf fod pethau goreu Sion yn dechreu gwywo. Yr oeddynt, yn ddiau, yn ymofidio "am ddryllio Joseph."

Ond tra yr oedd amryw resymau amlwg i alaru o'u herwydd, etto ni ellir dywedyd fod y canrif a gynnyrchodd y fath ddynion a Dr. Gill ac Abraham Booth, a'r hwn hefyd a roddodd enedigaeth i Genadaeth Dramor y Bedyddwyr,—Ni ellir dyweyd fod hwnw heb amrywiol bethau da yn perthyn iddo, ac o nodwedd anrhydeddus. Nid dynion cyffredin oedd Dr. Gill ac Abraham Booth. Y blaenaf yn feddiannol ar ddysgeidiaeth Rabbinaidd, adnabyddiaeth ddwfn o'r Ysgrythyrau, gwybodaeth oleuedig o gynllun yr Efengyl, diwydrwydd diflino mewn dyledswydd, a bywyd diargyhoedd,—ni fu ond ychydig cyffelyb iddo, ac fe allai neb erioed uwchlaw iddo. Mae ei Esboniad a'r Corff o Dduwinyddiaeth yn unig, yn brawfion o ddiwydrwydd mawr a gwybodaeth ddwfn

yn Ngair Duw, ac mewn amrywiol bethau, ni fu erioed eu rhagorach. Mae arddull y Dr. yn amleiriog, ac i raddau yn amladroddol (*tautological*), a chyda y diffygion ysgafn hyn, y mae ei esboniad yn gof-golofn arosol o anrhydedd i'r enwad Bedyddiedig, a chyhyd ag y bydd duwinyddiaeth yr esboniad hwnw yn cael ei ddal yn yr eglwysi, cyhyd a hyny y bydd eu gweinidogion a'u haelodau yn ddilynwyr teilwng o'r dyn enwog hwnw.*

Ac nid duwinydd cyffredin oedd Abraham Booth, awdwr "The Reign of Grace." Yr oedd yntau hefyd yn canfod cynllun yr Efengyl gydag eglurder neillduol. Yn llai dysgedig a dwfn na Dr. Gill, etto fe gyrhaeddodd enw mawr iddo ei hun yn yr eglwysi, enw ag y mae pawb sydd yn adnabyddus â'i weithiau yn barod i'w amddiffyn. Y mae cylch ei lafur yn Prescott-street, Wellclose-square, Llundain, wedi cael ei drosglwyddo i gymmydogaeth arall, ac i ddwylaw eraill; ond y mae pob gwir Fedyddiwr yn gobeithio na fydd i dduwinyddiaeth Booth gael ei wyrdroi trwy y cyfnewidiad.

Yn y canrif hwn y dechreuwyd Cenadaeth Dramor y Bedyddwyr; a chan mai ffurf gweithrediad cymdeithasol ydoedd hyn i ddwyn yn mlaen orchymyn y Gwaredwr, "*Pregethwch yr Efengyl i bob creadur*," y mae ganddo hawl gref i ystyriaeth darllenwyr yr hanes hwn.†

William Carey, dyn duwiol a brwdfrydig o selog—un o alwedigion Duw ei hun—crydd tylawd o ran ei amgylchiadau, oedd yr offeryn dynol cyntaf i gyfeirio sylw enwad y Bedyddwyr at hawliau y byd paganaidd. Hyd y cyfnod hwn yr oedd y Bedyddwyr wedi gweithredu ar yr egwyddor gul ac anysgrythyrol,—

* Mae yr enwog Augustus Toplady yn dyweyd am y duwinydd rhagorol hwn,—"Os gellir dyweyd am unrhyw ddyn ei fod wedi troedio holl gylchedd dysgeidiaeth dynol, Dr. Gill oedd hwnw."

† Teilwng yw crybwyll mai eiddo y Bedyddwyr yw y meddylddrych gogoneddus o Genadaeth Dramor.

"Fe ddychwel Duw y paganiaid yn ei amser ei hun, ac fe gyfyd ei offerynau ei hun i gyflawni y gwaith hwn heb ein hymyraeth *ni*." Yn anffodus, yr oedd hwn yn syniad cyfeiliornus o'u heiddo mewn gormod o lawer o amgylchiadau, ac fel canlyniad yr oedd rhif luosog o'r eglwysi nad oeddynt yn credu fod "Pregethu'r Efengyl i bob creadur," yn ddyledswydd *iddynt hwy*, canys yr oedd hyn yn eu golwg diffygiol hwy ar yr achos, yr un peth a phe buasent yn cymmeryd y gwaith o ddwylaw Duw i'w dwylaw eu hunain. Yr oedd y gred hon yn cael ei choleddu gan luaws mawr o Fedyddwyr, ac mor belled ag y perthynai iddynt hwy, yr oedd y byd paganaidd yn cael ei drosglwyddo yn rheolaidd (*systematically*) i ddrygau tyner Satan, heb yr ymdrech lleiaf i'w gwaredu "rhag y llid a fydd "

Y pryd hyny y cyfododd y difrifol, y gostyngedig, a'r hunan-ymwadol, William Carey. Ymddengys ei fod wedi gosod ei galon ar y pwnc o argyhoeddiad y paganiaid cyn ymsefydlu o hono yn *Moulton*, yn y flwyddyn 1786. Mewn cyfarfod o weinidogion yn *Clipstone*, yn y flwyddyn 1791, efe a gynnygiodd i'w sylw, "*A ydyw ddim yn beth ag y gellid ei wneyd, ac yn ddyledswydd orphwysedig arnom, i ymdrechu gwneyd rhyw beth tuag at ledaenu yr Efengyl yn y byd paganaidd?*" Yn y flwyddyn ganlynol, 1792, ar ol pregeth ddifrifol gan William Carey, oddiwrth Isaia liv. 2, penderfynwyd fod cynllun i gael ei ddarparu erbyn eu cyfarfod nesaf er lledaeniad yr Efengyl yn mhlith y paganiaid. Yn mis Hydref, yr un flwyddyn 1792 fe ffurfiwyd y Gymdeithas yn Kettering, ac yr oedd y tanysgrifiadau tuag ati yn gwneyd i fyny y swm o £13 2s. 6c.

Ni ddylid annghofio fodd bynag, fod y pwnc o Genadaeth Dramor wedi bod dan sylw eglwysi y Bedyddwyr yn y *Midland district* mor gynnar a'r

flwyddyn 1784. Mae y "Brief Narrative"* yn dechreu gyda'r ymadrodd canlynol:—"Mewn cymmanfa o weinidogion ac eglwysi a gynnaliwyd yn Nottingham yn y flwyddyn 1784, penderfynwyd i neillduo awr o nos Lun gyntaf yn mhob mis i weddio yn arbenig am adfywiad crefyddol, ac am ledaeniad teyrnas Crist yn y byd. Cafodd y penderfyniad hwn ei fabwysiadu a'i ddilyn am, yn nghylch saith mlynedd, gyda graddau o sêl a thaerineb."† Unodd Mr. Carey â'r gymmanfa hon yn y flwyddyn 1787, ac mae y *Narrative* yn myned yn mlaen i hyspysu am dano,—"O'r amser cyntaf yr argymmerodd â gwaith y weinidogaeth, anfynych y gadawai i un adeg fyned heibio, na fyddai yn ymddyddan â hwy am y pwysigrwydd a'r dichonolrwydd o gael cenadaethau (at y paganiaid). Y bregeth y cyfeiriwyd ati a arweiniodd i sefydlu y gymdeithas a elwir "*Cymdeithas y Bedyddwyr Neillduol* (neu Galfinaidd) *tuag at ledaenu yr Efengyl yn mhlith y Paganiaid.*" Yr oedd yr enw hwn yn anrhydeddus i'r enwad, paham na chadwyd ef gyda chywirdeb geiriol, sydd ddyledus, mae'n debygol i achosion, na all nifer lluosog o Fedyddwyr lai na chwyno o'u herwydd. Enwau y pwyllgor cyntaf oeddynt, John Ryland, Reynold Hogg, William Carey, John Sutcliff, ac Andrew Fuller; Mr. Hogg oedd y Trysorydd, ac Andrew Fuller, yr Ysgrifenydd.

Yr oedd Andrew Fuller yn ddyn tra rhagorol, oblegyd er fod ei gyfundrefn dduwinyddol yn ddiffygiol, ac yn cynnwys syniadau ag oeddynt yn tueddu i wadu *cwbl* lygredigaeth dynoliaeth;‡ etto, ar gyfrif

* "Brief Narrative," Fifth Edition, 1818. Yr oedd hyn tuag *wyth* mlynedd cyn sefydlu y Genadaeth Dramor yn Kettering, a llawn *dair blynedd ar ddeg* cyn dechreu y "London Missionary Society," sef y Genadaeth Dramor gyntaf ar ol Cenadaeth y Bedyddwyr.

† Gwelir mae y Bedyddwyr a sefydlodd y "cwrdd gweddi nos Lun gyntaf o'r mis;" a buont hwy yn ei gynnal am rai blynyddoedd cyn i un enwad crefyddol arall ddechreu.

‡ Syniad Mr Stokes ydyw yr uchod. Gallai fod rhai o'r un farn ag ef; ond nid ydyw hyny yn newid dim ar gysondeb duwinyddiaeth rhagorol y dyn *mawr, mawr*, a da, Andrew Fuller.

duwioldeb difrifol, a galluoedd meddyliol neillduol, yr oedd yn sefyll fel Saul, "yn uwch o'i ysgwyddau i fyny nag un o'r bobl." Yr oedd yn ddyn da rhagorol, ac yn holl briodoleddau cymmeriad personol yn mhell o flaen y duwinyddiaeth amlrywiog, yr hon na pherthyn iddo ef, ond sydd yn tramwy y ddaear dan gysgod ei enw mawr.

Yr oedd y pedwar dyn yma, Dr. Gill, Abraham Booth, William Carey ac Andrew Fuller, yn bedwar o ddynion mor ragorol nodedig ag a welodd y byd Cristionogol erioed. Yn dyfod allan o'r braidd, o ddinodedd pentrefol—ddim yn ddyledus i *University College* nac *Academy*—ac heb eu ffafrio â manteision bydol uwchlaw llwybrau iselaf bywyd, cyrhaeddasant er hyny enw, uwchafiaeth, a defnyddioldeb, y cyfryw na chyrhaeddodd un pedwar eraill o Fedyddwyr yn y canrif presenol. Heb, am eiliad, fwriadu bychanu yr angenrheidrwydd a'r pwysigrwydd o barotoadau dysgeidiaeth i'r weinidogaeth Gristionogol; etto, yn mhresenoldeb y pedwar tywysog hyn o'r daunawfed canrif, gellir sicrhau, pa un bynag ai gyda golwg ar dduwinyddiaeth iachus, ysgoleigdod galluog, neu ddefnyddioldeb helaeth ac ymledaenol, nad oes dynion yn Eglwys Crist i'w cymharu â'r rhai y mae Duw yn eu cynnysgaethu â gras neillduol ar gyfer gwaith neillduol. Fe fydd achos crefydd yn sefyll yn barhaus mewn angen am ysgolion addysg, colegau, a sefydliadau llenyddol eraill; ond gyda eu holl ragoroldeb, ni ddygasant allan, etto erioed, *mewn un oes* bedwar o ddynion cyffelyb i Gill, Booth, Fuller, a Carey.

## CANRIF Y PEDWERYDD AR BUMTHEG

Fe agoroddy canrif hwn gydag addewid am ddefnyddioldeb yr enwad Bedyddiedig, a thra parhaodd newydd-deb yr anturiaeth Genadol Efengylaidd, fe gynnyrchodd wrthweithiad daionus mewn cyssylltiad â'r enwad yn gyffredinol, yr hwn oedd yn addaw dyfodol mwy llewyrchus. Yr oedd yr effeithiau a ganlynasant yn profi nad oedd llafurio dros wrthddrychau pell yn lleihau, ond yn cynnyddu yr awydd o barthed defnyddioldeb gartref; ac mor belled ag yr oedd yr eglwysi yn cymmeryd dyddordeb yn ngwaith Carey, mor belled a hyny, ar y cyfartaledd, yr oedd eu sel adfywedig yn cynnyrchu effaith iachusol arnynt eu hunain. Fe sefydlwyd y Genadaeth Dramor yn y flwyddyn 1792; y Genadaeth Gartrefol, yn y fl. 1799; Undeb y Bedyddwyr, yn y flwyddyn 1813; y Genadaeth Wyddelig, yn y flwyddyn 1814; y Genadaeth Gartrefol i'r Ysgotland, a Chymdeithas Gweinidogion Hen a Methedig, yn y flwyddyn 1816; y Drysorfa Adeiladu, yn y flwyddyn 1824; a'r Gymdeithas Gyfieithadol, yn y flwyddyn 1840. Mae amrywiol gymdeithasau eraill wedi cael eu sefydlu gan y Bedyddwyr tuag at ddybenion enwadol cyffelyb, y rhai sydd yn profi tuhwnt i bob ammheuaeth yr un modd a'r cyfryw sydd wedi eu crybwyll yn barod, nad ydyw talu sylw i ymdrechion tramor gydag achos y Gwaredwr, byth yn lleihau, eithr yn cynnyddu y gweithgarwch gyda yr achos hwnw gartref. Y mae hefyd yn berffaith eglur, mai y personau sydd yn wrthwynebol i bregethu yr Efengyl mewn gwledydd tramor, fel rheol gyffredin, ydyw y rhai sydd yn gwneyd lleiaf tuag at ei lledaeniad yn eu gwlad eu hunain.

Fe gafodd blwyddyn gyntaf y canrif hwn ei hynodi trwy y bedydd cyntaf yn India, Dr. Carey, wrth ysgrifenu at Mr. Sutcliff, ar y 29ain o Ragfyr yn y flwyddyn hon a ddywedai, "Yr oedd doe yn ddiwrnod

o lawenydd mawr. Cefais yr hyfrydwch o halogi y Ganges trwy fedyddio ynddi yr Hindoo cyntaf, sef Krishnoo, a fy mab Ffelix." Yr oedd nifer mawr o edrychwyr yn bresenol, ac yn eu plith y Llywydd Danaidd, yr hwn oedd yn teimlo nes tywallt dagrau o herwydd difrifoldeb mawreddog yr olygfa. Y "blaenffrwyth" yma o India ydoedd awdwr yr emyn ardderchog hono, yr hon wedi ei chyfieithu i'r Saesonaeg, sydd wedi cael ei hargraffu, bron, yn yr oll o'n llyfrau emynau Saesonaeg, yr hon sydd yn dechreu fel hyn,—

"O thou, my soul, forget no more,
The Friend who all thy misery bore;
Let every idol be forgot,
But, O my soul, forget Him not."

Yn y flwyddyn 1801, fe fedyddiwyd *pump* o Indiaid eraill; yn 1802, bedyddiwyd *saith* drachefn; yn 1803, bedyddiwyd *tri-ar-ddeg*; ac yn 1804, ychwanegwyd at yr eglwys *bedwar-ar-ddeg* trwy fedydd. Fe barhaodd y gwaith i gael ei fendithio. Mr. Ward, yn ysgrifenu yn Hydref y fl. 1805, a hyspysai, eu bod wedi cael yn, ac yn agos i Calcutta, gynnifer a phumtheg o ymofynwyr am grefydd Crist; ac yn mis Tachwedd cafodd *tri-ar-ddeg* eu bedyddio, a'u hychwanegu at yr Eglwys. Mewn llythyr a ysgrifenodd yn nghylch yr un amser, y mae yn hyspysu yr hyn a ymddengys i ni, y rhai sydd yn ei ddarllen, yr achos, neu nerth eu llwyddiant neillduol yn mhlith y bobl goelgrefyddol, a'r hyn y mae yn rhaid i bawb ganiatau sydd yn anhebgorol i lwyddiant gweinidogaethol gartref ac oddicartref. Y mae yn dywedyd, "Ond yr wyf yn canfod fod Crist, nid yn unig yn sylwedd yr Ysgrythyrau Santaidd, eithr yr allwedd ag sydd yn dadgloi pob peth; yr yspienddrych ag sydd yn mwyhau pob peth, ac yn ei ddwyn yn agos. Yr wyf yn gweled mai byw ynddo Fe ydyw y bywyd Cristionogol; fod holl athrawiaethau yr Efengyl yn berarogl ac yn llesol fel y maint yn cael eu heglurau ynddo

Ef; ac fod yr holl orchymynion dwyfol yn cael eu heglurhau trwy ei esiampl Ef; a thrwy gael eu cymhell gan ei gariad Ef, y maent yn dyfod yn iau esmwyth a hyfryd. O'r braidd yr ydwyf byth yn pregethu ar bynciau eraill, ond yn gadael y rhai hyny i'm brodyr. Feallai, er hyny, na aroswn gymmaint ar yr athrawiaeth o Grist croeshoeliedig, pe fi fuasai yr unig bregethwr mewn lle; neu yn hytrach, buaswn yn teimlo yn angenrheidiol i'w phregethu yn ei holl gymhwysiadau, cyssylltiadau, a'i chyfeiriadau. Nid yw dirgelwch pregethu defnyddiol yn ymddibynu ar ddyweyd un peth yn unig; ond mewn edrych ar, ac arddangos pob pwnc dwyfol arall, fel pelydrau yn cydgyfarfod yn "Haul y Cyfiawnder." O! pe gwelai y nefoedd yn dda mai pregethu fel hyn fyddai yr unig bregethu trwy y byd. O! na fyddai i'r pwlpudau gartref ac mewn gwledydd tramor ddeall a dysgu fod *pob llwyddiant* yn ymddibynu ar arddangosiad cyflawn o'r athrawiaeth fawr o,—"GRIST GALLU DUW A CHRIST DOETHINEB DUW." Ar yr undeb o allu a doethineb Duw y mae'r iachawdwriaeth ei hun yn crogi'n dragywyddol; ond pregether *Efengyl* heb yr undeb hwn, yna mae y pregethwr yn dyfod yn ymarferol yn dwyllwr, a'r Efengyl ei hun yn dyfod yn wenwyn ac nid yn falm i eneidiau drylliedig. Mae y cenadon hyn yn ysgrifenu yn y flwyddyn 1805, ac yn dywedyd,—"Mor belled ag mae ein profiad yn myned yn y gwaith hwn, yr ydym yn onest yn cydnabod fod pob Hindoo yn ein plith ag sydd wedi ei ennill at Grist, wedi cael ei ennill trwy y cariad rhyfeddol a chwbl-gymhelliadol a arddangosir yn aberth iawnol ein Gwaredwr. O! bydded i ni gan hyny, benderfynu peidio gwybod dim yn mhlith Hindwaid a Mahometaniaid ond Iesu Grist a Hwnw wedi ei groeshoelio!"

Gellir casglu beth oedd effaith y dull hwn o bregethu ar yr Hindwaid crediniol oddiwrth araeth o

eiddo Kreeshoo i nifer o baganiaid brodorol. Efe a ddywedodd,— "Yr ydych yn canfod nad ydyw geiriau y *Shastras* yn gyffelyb i eiriau Iesu Grist. Yr wyf wedi cyflawni eich holl weithredoedd, ac nid ymadawodd fy mhechod oddiwrthyf; ond er y pryd cyntaf y clywais am Grist yn cymmeryd ymaith bechod, yr wyf wedi cael dedwyddwch mawr i'm meddwl. Nid ydyw fy ngweithredodd fy hun, fy noethineb, a'm santeiddrwydd yn ddim; nid oes dim all fy achub ond Crist ei hun. Pan edrychwyf ar bechod yr wyf yn ei ofni yn ddirfawr. Mi fum unwaith yn gweithredu yn ol fy chwantau annuwiol, ond y mae genyf yn awr ofn Duw yn fy nghalon, ac y mae arnaf, gan hyny, ofn pechod. Pechod ydwyf oll o honof fy hun. Mae balchder digofaint, a phob drwg yn fy nghalon; ond y mae Duw yn fy ngalluogi i'w gorchfygu hwy." Mae y profiad hwn, mewn sylwedd, yn eiddo pob gwir-anedig blentyn i Dduw.

Oddiwrth y dechreuadau bychain hyn, fe ymledodd goleuni yr Efengyl yn raddol i Burmah, China, Ceylon, Java, Sumatra, Padang, a lleoedd eraill,—argraffwyd rhanau o'r Ysgrythyrau yn y *Sungscrit*, *Bengalee*, *Orissa*, *Hindostanee*, *Chinese*, *Burman*, *Persian*, yn nghyd ag ieithoedd eraill,—a llawer a roddasant brawf boddhaol eu bod wedi eu galw gan Dduw. ac a wisgasant Grist am danynt yn y bedydd. Mae y ffaith mai crydd pentrefol tylawd yn mherson William Carey, fu goruchwylydd dynol *uniongyrchol* cyntaf, i gynnyrchi y fath ganlyniadau mawrion, yn profi tuhwnt i ddadl, fod yr holl ddoeth Dduw yn parhau hyd y nod yn awr " i ddewis gwan bethau y byd fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn; fel na orfoleddau un cnawd ger ei fron ef."

Aeth egwyddorion gwahaniaethol y Bedyddwyr ar y Cyfandir bron o'r golwg, neu yr oeddynt yn cael eu cyssylltu â chyfeiliorniadau, ag oeddynt yn ddianrhydedd i enw a pherson y gwaredwr. Y Menoniaid

"wedi ymadael a'u cariad cyntaf," a suddasant yn raddol i Sosiniaeth farwol neu i resymoliaeth ddideimlad, y rhai ni adawsant ddim o olion y gwaed iawnol ar y galon. Yn y fl. 1820, bernid fod y nifer ag oedd yn dal yr enw, ac mewn rhai amgylchiadau o ffydd eu cyndadau, yn cyrhaedd ynghylch 30,000. Yn y blynyddoedd diweddarach y mae achos y Bedyddwyr ar y Cyfandir wedi bod yn gwisgo ymddangosiad llawer mwy gobeithiol, ac eglwysi lawer wedi cael eu casglu yn nghyd yn Germany, Denmark, Sweden, Prwsia, Saxony,—(ac nid mor helaeth) yn Ffrainc, Poland, a chyffiniau Rwsia. Mae y rhai hyn, mewn amryw o amgylchiadau yn llwyddo yn nghanol anhawsderau gorfawr, ac yn mhresenoldeb erlidigaeth chwerw. Mae cynddaredd y gwrthwynebwr yn fynych yn gyfartal i lwyddiant y gwaith, ond gyda dynion Duw, megys Wiberg, Oncken, Forster, Geissler, ac eraill o gyffelyb yspryd a ffydd, nid ydyw angerdd y gwrthwynebiad ond gweithredu i fwy o barhad amyneddgar, ac arddangosiad mwy anrhydeddus o ymdrech hunan-ymwadol. Maent yn ddynion ag y mae Duw wedi eu bendithio tuhwnt i gyffredin, ac mae had Gair y Bywyd ag maent hwy yn hau, yn agos ac yn mhell, yn rhoddi gobaith am gyfnod mwy dysglaer yn Ewrop nag a ganfyddwyd er dyddiau Luther, Calvin, a Zuingle. Gan fod y Lutheriaid wedi colli yspryd eu sylfaenydd, Bedyddwyr y Cyfandir ydynt yr offerynau mwyaf cyfaddas i'w adferyd ef, ond mewn agwedd burach o wirionedd ysgrythyrol nag a wybu Luther ei hun erioed am dano.

Yn y Byd Newydd (America) mae y Bedyddwyr wedi cynnyddu gyda chyflymdra synfawr yn ystod y canrif presenol, ac mewn poblogaeth gyfartal i eiddo Brydain Fawr a'r Iwerddon, mae y Bedyddwyr yno yn fwy na phedair gwaith eu rhif yn y deyrnas

hon. Y mae ystadegau diweddar yn rhoddi y rhif canlynol am Fedyddwyr America:—Yr Unol Dalaethau, 1,037,576; yn Nova Scotia, New Brunswick, a Canada, 35,267; a saith o sectau eraill ag sydd yn arfer trochiad yn America, 499,941; cyfanswm yn America, 1,572,784. O'r rhai hyn mae y nifer mawr o 1,450,000, yn Fedyddwyr *caeth*.*

Hyd y flwyddyn 1865, mae'n alarus meddwl fod llawer o'r eglwysi Bedyddiedig yn America yn cael eu hystaenio a'u dianrhydeddu â'r pechod o gaethwasanaeth. Yn mhresenoldeb rhai o'r sefydliadau Biblaidd a chenadol mwyaf anrhydeddus yn y byd—etto yno y safai y caeth-feistr *Cristionogol*, ac yno hefyd yr oedd ei gaethwas, y ddau wedi eu bedyddio yr un modd i grefydd o ryddid a chariad! O! yr anferth-lun halogedig o'r ffydd Gristionogol! Bydded i'r angenfil yn fuan guddio ei wynebpryd gwaradwyddus o olwg y greadigaeth, a Bedyddwyr America i floeddio yn mhlaid cymmeriad Duw a dyn, "DIM CYMMUNDEB GYDA CHAETHFASNACHYDD." (Erbyn hyn [1868] mae y dymuniad wedi cael ei gyflawni.)

Cafodd y canrif presenol weled anrhydedd yn cael ei roddi ar Fedyddwyr Prydain, y fath ag y gall yr holl fyd cyfan mewn modd duwiol eiddigeddu wrthynt. Pan oedd Rhagluniaeth drugarog yn bwriadu chwilfriwio cadwynau caeth-wasanaeth Prydeinig, Bedyddwyr oeddynt y prif offererynau a ethol-

---

* Nid ydym yn gwybod at ba ystadegau y cyfeiria Mr Stokes, ond gwyddom ei fod yn mhell is law y rhif gwirioneddol, oblegyd yn ol y Freeman, Ebrill, 10, 1868, yr oedd cymmynwyr Bedyddiedig yn y *Talaethau* yn *unig* yn 1,775,000 os gwnaeth Mr Stokes gymmaint o gamgymmeriad o barthed iddynt yn y tri lle arall a enwa, rhifa, y Bedyddwyr yn yr Unol Dalaethau, Nova Scotia, New Brunswick a Canada, yn ngyhlch 2,400,000!

Dyma ystadegau y Freeman o barthed y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn y Taleithiau yn unig:—

| | Eglwysi. | Aelodau. |
|---|---|---|
| Bedyddwyr | 17,000 | 1,775,000 |
| Annibynwyr | 2,770 | 207,400 |

wyd i gyflawni y gwaith. Ac yma, fel yn amgylchiad Carey, felly yn eiddo William Knibb, nid oedd yr offeryn wedi cael ei barotoi mewn coleg neu brifysgol, eithr yn nghloddfa natur ei hun yn fwy coethedig na mynor Paria. Gydag awyddfryd tanbaid Paul, a brwdfrydedd Luther, fe aeth y dyn rhyfeddol hwnw yn nghyda blynyddoedd o lafur, yr hwn a ddybenodd yn rhyddhad cenedl, yr hon nad oedd erioed wedi anadlu awyr rhyddid Prydeinig, hyd nes darfu Knibb y Bedyddiwr, ysgwyd yr elfenau gyda tharan o athrylith ddigofus; ac yn awr, mewn deg mil o gartrefleoedd o negroaid rhyddion yn yr India Orllewinol, yr enw anwylaf a bareblir, yn nesaf at enw y Pryniawdwr, ydyw enw y byth-gofadwy, William Knibb!

Mae y credinwyr Bedyddiedig yn awr yn yr ynysoedd hyny yn rhifo uwchlaw *un fil ar bumtheg ar ugain.* Maent yn weithgar, yn ddiwyd ac yn grefyddol. Wedi myned, neu ages a myned, trwy y sefyllfa draws-symudol o gaeth-wasanaeth ymddibynol i sefyllfa annibynol o ryddid, mae Bedyddwyr yr India Orllewinol yn awr yn addaw dyfod, mewn amser dyladwy, yn ffynnonell o ddaioni i'r holl genedl o bobl dduon; ac fe fuasai hyn, er amser maith bellach, wedi cymmeryd lle, oni buasai y llywodraeth drefedigol (*colonial*) yr hon sydd wedi profi ei hun y fath ddianrhydedd i'r enw Prydeinig. Trwy drugaredd, mae y gorthrwm hwnw wedi treulio ei oes i ben, ac nid yw y ffrwythau priodol i holl rinweddau cymdeithasol y genedl, yn gofyn ond amser priodol i ddangos eu hunain, yr hon "gyda chwareu teg," sydd wedi profi nad ydyw is law i un genedl dan yr haul.

Yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon, mae sefyllfa y Bedyddwyr, yn ystod y canrif presenol wedi bod yn gymmysglyd ac ammheus. Mae dylanwad dichell-

gar cymmundeb rhydd wedi gwanhau ymlyniad y corff wrth egwyddorion mawrion mewn athrawiaeth dduwinyddol a threfniant eglwysig, pan mae chwenychiad drwgdybus ar ol parch bydol wedi cenedlu cymhendod o uwchafiaeth ag sydd yn ymylu ar wawdiad o dduwinyddiaeth eglur a syml oes ragorach. Mae hyawdledd annghydmarol Robert Hall, hefyd, wedi creu llu o ddynwaredwyr eiddilaidd, y rhai, yn amddifad o allu sylweddol, ydynt yn dynoethi eu ffolineb i gael eu dirmygu gan bob dyn meddylgar. Mae eu pregethu yn eiriog, a'u meddyliad yn amddifad o bwynt. Gyda nifer rhy luosog, math o draethodau yw eu pregethau, a'r côf yn cael ei ystorio yn llawer mwy na'r galon. Nid nifer fach a ellid ddethol i eglurhau hyn fel *school boys*, ymddangosant yn *dal*, am eu bod yn cerdded mewn tudfachau (*stilts*). Pa faint sydd gan gyfundraeth yr *academy*, ond a elwir yn awr y *College*, i ymwneyd a'r canlyniad mwyaf anffortunus hwn, mae yn anhawdd dywedyd. Sefydlwyd Athrofa Caerodor yn y fl. 1770; Athrofa Bradford, (Rawdon yn awr) yn y fl. 1804; Athrofa'r Fenni, neu Bontypool, yn y fl. 1807; Regent's Park, (Stepney gynt) yn y fl. 1810; Hwlffordd, yn y fl. 1839; a Llangollen, yn y fl. 1862. Mae y rhai hyn wedi bod yn cael eu llywyddu, o bryd i bryd, gan ddynion difrifol a chrefyddol. Nid ydyw gan hyny, yn un anfri ar yr athrawon, i wneyd ymholiad o barthed y *gyfundraeth*. Gall y dynion fod, ac yn ol dim a ymddengys i'r gwrthwyneb, y *maent*, yn rhai rhagorol y ddaiar; ond fod y gyfundrefn yn rhy fynych yn dwyn allan ysgoleigion yn unig, yn hytrach na "gweinidogion cymhwys y Testament Newydd," sydd beth i alaru o'i herwydd. Etto, y mae nerth sylweddol yr eglwys, dan Dduw, yn ymddibynu llawer mwy ar wrteithiad y galon nag ar eiddo y pen. Mae yr athrofeydd yn cyflawni yr olaf i raddau lled foddhaol, ond ymddengys fod y

blaenaf tu draw i'w cyrhaedd, neu tu allan idd eu cylch. Ar y pen hwn cymmerant ormod yn ganiataol, ac y mae cymmeriad moesol gweddaidd yn cael ei dderbyn, lle nad yw cariad brwdfrydig tuag at eneidiau anfarwol ddim mor amlwg. Credir, yr atebai parotoad cartrefol, yn nhy gweinidog duwiol a chymhwys, yr amgylchiad yn llawer gwell; oblegyd yno, gallai y galon a'r pen, gyda diwydrwydd, gael eu gwrteithio a'u gwella, a'r myfyriwr ieuanc gael ei gyfaddasu trwy arferiadau priodol yn nhy y gweithiwr, wrth wely y claf, neu wely y tylawd fyddai yn marw, yn ngwasanaeth y cyssegr, o flaen yr eglwys a'r bobl, i fod yr hyn ddylai pob gweinidog i Iesu Grist ymdrechu bod, sef gwir FUGAIL, ac nid pregethwr yn unig.

Mae cyfundrefn y cymmundeb "agored," yr hon a wnawd yn boblogaidd gan Robert Hall, wedi gwneyd niwed mawr i eglwysi y Bedyddwyr, yn fwy neillduol yn Lloegr, trwy wanhau eu parch tuag at ddirgymhelliad taer o gyfraith Crist, mewn un pwnc pwysig. Nid ei iaith ydyw,—"Ufuddhau sydd well nag aberth." Y canlyniad yw troi yr enwad yn gyffredinol i ryw beth cyffelyb i gyfleustra (*expedient*) eglwysig, lle y dylai fod, "Eglwys y Duw byw, *colofn a sylfaen y gwirionedd*." Yn Nghymmru, mae y Bedyddwyr yn *gaeth*, (gydag ychydig o eithriadau); ac hefyd yn America; ac y maent yn y ddwy wlad yn llwyddo, tu hwnt i ddim a adnabyddir yn nghyfundrefn agored Lloegr. Mewn gair mae yn amlwg fod y *system* fel y mae wedi dyfod yn "agored" i ollwng i mewn gyfleustra (*expediency*), wedi hefyd i'r un graddau ollwng Crist allan, yn nghyda ffyddlondeb diwyro idd Ei orchymynion.

Mewn pethau crefyddol yr un yw nerth a chyssondeb, ond y mae cyssondeb yn beth annichonadwy ar wahan oddiwrth ffyddlondeb diwyro at ddeddf sefydledig. Oddiwrth hyn mae y sectau ag sydd yn arfer taenelliad

mabanod yn gymhariaethol gryfion, oblegyd eu bod yn gysson yn yr ymarferiad, yr hwn maent hwy yn gydwybodol yn fabwysiadu. Ymlynant yn ddidroi'n ol wrth y rheol ddewisedig hono, ac ni roddant hi heibio dan unrhyw esgus, pa bynag. Nid ydynt byth yn derbyn person annhaenelledig, neu anfedyddiedig idd eu cymmudeb, pa anrhydedd bynag arall a berthyn i gymmeriad yr ymgeisydd. Yn ganlynol, ni wyddant ddim am gymmundeb agored, oddigerth ei ddiofrydu yn llwyr. A chaniatau fod eu taenelliad yn fedydd, y maent yn "Fedyddwyr caeth" bob un. Mae ymadawiad oddiwrth y cyssondeb yn perthyn i Fedyddwyr yn unig; ac o herwydd hyn, trwy ymadael â'u nherth, y maent yn cynddrychioli y rhanau gwanaf o'r ddelw Fabilonaidd, gyda "bysedd y traed, peth o honynt yn haiarn, a pheth o honynt yn bridd;" ac felly mae eu cyfundrefn eglwysig wedi myned "o ran yn gref ac o ran yn wan." * Pa hyd y mae pethau i barhau yn y sefyllfa yma, neu pa bryd y maent i ddybenu, y nefoedd yn unig sydd yn gwybod. Bydded i Dduw yn ei drugaredd ddyogelu ein henwad anwyl rhag newydd-beth pellach, ac i'w ddwyn yn ol i'w gymmeriad penderfynol gynt, yr hwn raid fod bob amser ei wir ogoniant!

"*Eithr i'r hwn a ddichon eich cadw chwi yn ddigwymp, a'ch gosod gerbron ei orsedd-fainc Ef yn ddifeius mewn gorfoledd; i'r Unig ddoeth Dduw, ein Hiachawdwr ni, y byddo gogoniant a mawredd, gallu ac awdurdod yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.*"

---

* Daniel, pen iii.

# HANES Y BEDYDDWYR CYMREIG.

GAN Y PARCH. J. ROWLANDS CWMAVON.

YCHYDIG, mewn cymhariaeth, sydd o'r Bedyddwyr Cymmreig yn hysbys o hanes eu henwad a'i amgylchiadau. o'i ddechreuad yn y wlad hon. Mae y ffeithiau hyn, i raddau yn annghyssylltiedig a gwasgaredig, gan mwyaf, mewn gweithiau Saesnig; fel mae'n gofyn llawer o ymchwiliad a thrafferth i ddodi y dolenau yn nghyd er cael y gadwyn yn gyfan. Tybid y byddai hanes ein henwad, fel Bedyddwyr Cymmreig, o'i ddechreuad hyd yn bresenol, yn angenrheidiol, a derbyniol gan luaws mawr o Fedyddwyr y Dywysogaeth.

Ni amcenir yn yr hanes hwn (o ddiffyg gofod) i brofi ac ymresymu llawer, ond yn hytrach i grynhoi a chymharu ffeithiau hanesyddol. Gwneir cyfeiriadau ar odreu y dail at awdwyr, ag y gall y darllenydd, sydd ag amser a chyfleustra ganddo, gael y ffeithiau a'r hanesion yn helaethach a manylach. Mae yr ysgrifenydd wedi cymmeryd y gofal mwyaf i gasglu a gosod y ffeithiau mor gywir a gonest ag y galiodd o flaen y darllenydd.

Dygwyd yr Efengyl i'r ynys hon yn nghylch y flwyddyn 58, neu yn gynnarach. Rhai a ddywedant yn y flwyddyn 55. "Oed Crist, 55 (medd Iolo MSS.) y cawsant genedl y Cymry y ffydd yn Nghrist, ac a gredasant yn Nuw." Mae yn dra sicr iddi gael ei phregethu yma gyntaf, rhywbryd yn y cyfnod o'r flwyddyn 55 i'r flwyddyn 58. Dygwyd hi yma gan Frân ap Llyr. Mynega y Trioedd am dano yn y modd canlynol:—"Tri Menwedigion (bendigedigion) Teyrnedd Ynys Prydain, Brân Fendigaid ap Llyr Llediaith, a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yngwystl ei fab Caradawc a ddug Gwŷr Rhufain yn ngharchar gwedi ei fradychu drwy hud a thwyll a chynllwyn Aregwedd Foeddawg." Tr. 35.

Dywed yr Achau hefyd i Frân ddwyn gydag ef Ilud a Chyndaf ac Arwystl Hen; ac arwyddoceir mai Iuddewon oeddynt y ddau flaenaf, ac mai Rhufeinwr oedd y trydydd. Nid oes genym ddim rhagor o barthed Ilud a Chyndaf; ond am Arwystl Hen, bernir mai efe a grybwyllir yn Rhuf. xvi. 10, wrth yr enw Aristobulus:—"*Annerchwch y rhai sydd o dylwyth Aristobulus.*" Ac y mae yr Archesgob Usher, yn ail-adrodd hen gyfansoddiad Groeg, yr hwn a fynega i Aristobulus gael ei ordeinio gan Paul i fod yn esgob neu weinidog i'r Brytaniaid. Os ydyw hynyna yn wirionedd, rhaid ei fod wedi myned yn ei ol i Rufain a dychwelyd i Brydain drachefn, oblegyd yn ol amseryddiad yr ymddibynwn arno, yr oedd Aristobulus wedi cyrhaedd Brydain, pan ddaeth yma gyda Brân, yn'nghylch dwy flynedd bod Paul erioed wedi gweled Rhufain. Gan mai y farn uchod, o barthed dygiad yr Efengyl i'r wlad hon, a ymddengys, ar bob tir yr un gywir, ni flinir y darllenydd trwy grybwyll ac olrhain barnau eraill.

Mae Eusebius yn ein hyspysu fod yr Apostolion wedi pregethu yr Efengyl yn yr holl fyd, ac fod rhai o honynt wedi myned dros y môr i'r Ynysoedd Prydeinig. Mae Theodoret, yr un modd, yn sicrhau fod yr Apostolion wedi tueddu pob cenedl a math o bobl i gofleidio yr Efengyl; ac yn mhlith y cenedloedd dychweledig, y mae yn crybwyll mewn modd neillduol am y Prydeiniaid. Ond os buont hwy yn Mhrydain, ymddengys mai ar ol i Brân a'i gyfeillion ddwyn yr efengyl yma, y buont. Yr oedd lluoedd yn Rhufain wedi cofleidio Cristionogaeth yn mhell cyn i Brân gael ei gymmeryd yno yn garcharor. Yr oedd y ddinas fawr yn llawn o Gristionogion, ac yr oedd rhai, hyd y nod, o dylwyth Cæsar ei hun yn ddysgyblion i Iesu Grist. Yr oedd eu cymmeriadau hefyd fel Cristionogion yn glodfawr a chyhoeddus; oblegyd mae Paul yn ei lythyr atynt tua'r flwyddyn 57 yn eu canmol, ac yn dywedyd, "fod eu ffydd hwy yn gyhoeddus yn yr holl fyd."

Pan ydoedd y wlad hon mewn dygn dywyllwch a chaethiwed moesol, y ffordd gymmerodd Duw i ddwyn rhyddid a goleuni ysprydol i'w thrigolion oedd caniatau i Brân a'i deulu i gael eu cymmeryd yn garcharorion i Rufain baganaidd, lle'r oedd yr efengyl yn cael ei phregethu, yn tynu sylw pawb, ac wedi ennill llawer i'w chofleidio. Pan oedd

Brân yn garcharor yn Rhufain, y daeth i feddiannu rhyddid a goleuni gwirioneddol a thragywyddol. A Brân, ar ol ei ddychweliad i'r wlad hon, yn nghyda'i dri chyfaill fuont yn foddion i oleuo y trigolion â goleuni yr Efengyl, ac i gael niferi o honynt yn ddysgyblion cywir i'r Gwaredwr mawr. Cawn fod Derwyddiaeth (hen grefydd y wlad) yn gwywo yn mhresenoldeb cyhoeddiad yr Efengyl, a thyrfaoedd lluosog o'r trigolion yn ymgyfenwi ar enw Crist. Fel hyn yr aeth pethau yn mlaen yn llwyddiannus yn y wlad hon, mewn cyssylltiad â chrefydd, am rai ugeiniau o flynyddoedd. Ond ymddengys fod y sel a'r gweithgarwch crefyddol dechreuol wedi lleihau llawer cyn diwedd yr ail canrif. Ond yn fynych, mae y wawr yn tori o ganol tywyllwch dudew. Ac felly y bu yn awr. Yn nghylch y flwyddyn 180, bedyddiwyd Lles ab Coel, yr hwn a elwir Lleirwg, a *Lucius*, sef brenin Siluria.* Efe oedd y *brenin* cyntaf a fedyddiwyd erioed, ag y mae genym hanes am dano, oddieithr "BRENIN y breninoedd." Yr oedd ef yn oerwyr i Brân, yr hwn a ddygodd gyntaf Gristionogaeth i'r wlad hon. Pan, ar ol ei fedyddio, y dechreuodd Lles ab Coel, yr hwn oedd ddyn da neillduol, dalu sylw difrifol i grefydd, a chafodd ei bod yn lled isel, efe a anfonodd ddau genad i Rufain, Elwy, a Mowddwy, i ymofyn rhagor o bregethwyr. Dychwelasant a phedwar gyda hwy, sef Dyfan, Elfan, Ffagan, a Meudwy. Eiddo Ffagan yw y geiriau cynnwysfawr canlynol,—"Lle mae Duw yn ddystaw na lefared dyn." Bu llafur ac ymdrechion y cenadon gweithgar hyn, megys yn fywyd o'r newydd i grefydd a chrefyddwyr y wlad hon. Bedyddwyr y crediniol trwy dansuddiad oeddynt yr oll o Gristionogion Brydain yn y canrifoedd hyn. Dywedir am esgob neu weinidog Llandaf, (y tŷ addoliad Cristionogol cyntaf yn Nghymmru) yr amser hwn, ei fod ef yno yn dysgu *cred* a *bedydd*." (Iolo MSS, tudal 40). "Dyfan Sant a wnaethpwyd yn Esgob yn Rhufain, fel y gallai *fedyddiaw* a *gredynt* i Grist o genedl y Cymmry." (Iolo MSS. tudal 135.) "Lleurwg Sant a elwir Lleufir Mawr ap Coel ap Cyllin ap Caradawc ap Llyr Llediaith a ddanfones at y Pab Elidir i geisiaw Escyb i *ddodi bedydd a'r a gredynt i Grist* o genedl y Cymmry." (Iolo MSS.) Dywed Mosheim

* Siluria, y ddarn wlad a orwedda rhwng Hafren a'r Wy.

hefyd fod Cristionogion y wlad hon, y pryd hyny, yn gweinyddu bedydd yn gyhoeddus y Pasg a'r Sulgwyn:—"Y rhai wedi iddynt adrodd y credo, proffesu edifeirwch, ac addaw gadael eu pechodau, a *suddid dan y dwfr*," &c.* Bedyddwyr y crediniol oeddynt oll o Gristionogion Brydain yr oesau hyn, ac am amser maith ar ol hyn, fel y ceir gweled etto.

Mae yn amlwg hefyd oddiwrth ysgrifeniadau y Tadau Apostolaidd, a'r Tadau Eglwysig cyntaf o leiaf, mai y rhai a fedyddid ydoedd y rhai oeddynt yn cyffesu pechodau, ffydd, edifeirwch, &c., neu y rhai oeddynt wedi bod o dan ddysgeidiaeth (*catechumen*) yn y cyfryw bethau, ac oeddynt yn dyfod i ymofyn am gael eu bedyddio.†

Yn Mrydain, parhaodd crefydd bron yn yr agwedd ag y darluniwyd hi uchod ar hyd y trydydd canrif. Yr oedd Cristionogion y wlad hon yn cael yn y cyfnod hwn dawelwch a llonyddwch, pan oedd eu cyd-Gristionogion, mewn parthau mwy dwyreiniol o'r byd yn gorfod myned trwy ddyoddefiadau chwerwon—ïe, trwy waed a thân! Yn niwedd y trydydd a dechreu y pedwerydd canrif yr oedd Diocletian a Maximin Herculeus, yn ddau ymerawdwyr Rhufain yr un pryd; ac o danynt hwy, megys dau frenin, yr oedd Galerius a Constantius Chlorus; y blaenaf yn fab-yn-nghyfraith i Diocletian, a'r olaf, sef Constantius, yn frenin yn Mhrydain, ac yn dad Cystenyn Fawr. Yr oedd Cystenyn Fawr, y pryd hyny yn cael ei gadw yn Rhufain, yn wystl am ymddygiad ufudd a ffyddlon ei dad fel teyrn breninol yn Mhrydain i Ymerawdwyr Rhufain.

Yr oedd y Cristionogion wedi myned eisoes, yn ngwahanol barthau o'r byd, wedi myned trwy y naw erlidigaeth, ond yn y flwyddyn 302 dyma y ddegfed, sef yr erlidigaeth dan Diocletian yn tori allan, yr unig un o'r deg gyrhaeddodd y wlad hon. Galerius, mab-yn-nghyfraith Diocletian, fu yr achos i annog a chynhyrfu ei dad-yn-nghyfraith i ddwyn oddiamgylch yr erlidigaeth ofnadwy hon. Y penderfyniad oedd i ysgubo Cristionogion a Christionogaeth yn llwyr oddiar y ddaear. Gorchymyn caeth Diocletian

*Annal's, Book 15.

† Gwel Lythyron gorchestol y diweddar Barch. R. Roberts, Plasybonnam, ar "Hanesiaeth Bedydd," mewn deg o ysgrifau yn Seren Gomer, am 1858 ac 1859.

oedd i ddifa pob Cristion, llwyr ddyfetha a llosgi tai addoliad y Cristionogion, a pheidio gadael papyryn heb ei ddifa ag oedd yn cynnwys athrawiaeth Crist ac yn rhoddi hanes bywydau y prif Gristionogion. Yr oedd y galanastra yn ddychrynllyd iawn. Distrywiwyd yn yr Aipht, rhwng lladd ac alltudio, yn agos i saith cant a hanner o filoedd! A dywedir gyda sicrwydd fod yn mhell uwchlaw DAU FYRDDIWN o Gristionogion, wedi eu dyfetha trwy ymherodraeth Rhufain gan y degfed erlidigaeth, sef eiddo Diocletian * Ond "pyrth uffern nis gorchfygant hi." "Yr oedd gwaed y saint yn had i'r Eglwys." Yr oedd Pen yr Eglwys yn sylwi ac yn goruwch-lywodraethu. Cododd Galerius yn erbyn ei dad-yn-nghyfraith, Diocletian, a diorseddodd ef yn y flwyddyn 306, diangodd Cystenyn Fawr o Rufain, a dychwelodd mewn pryd i weled ei dad Constantius Chlorus yn marw yn Nghaerefrog; yr hwn cyn marw a gyhoeddodd ei fab Cystenyn i fod yn Ymerawdwr ar ei ol ef, â'r hyn hefyd y cydunodd yr holl filwyr. Yn fuan iawn ar ol hyn, cafodd Diocletian ei symud o'r byd yn ddisyfyd; a bu Galerius farw yn druenus, o ddolur ffiaidd a dychrynllyd o boenus, tebyg i eiddo Herod Fawr, dan gyfaddef ei fod wedi methu distrywio y Cristionogion o'r byd, ac yn gorchymyn tynu y ddeddf erlidigaethus yn ol. Ar ol ei farwolaeth ef argymmerwyd llywyddiaeth yr ymerodraeth yn Rhufain gan Maximin a Licinius. Ond daeth y ddau i annghytuno ac i ryfela, a gorchfygwyd Maximin gan Licinius. Ac felly y bu farw yr olaf o'r tri erlidiwr creulon hyn. Yn awr, y ddau ymerawdwr oeddynt, Cystenyn Fawr a Licinius. Ond yn fuan annghytunasant hwythau; a gorchfygwyd Licinius gan Cystenyn. Yna, yn y flwyddyn 313, daeth Cystenyn Fawr, un o'r Cymmry ei hunan, yn brif ac unig ymerawdwr yr holl ymerodraeth. Mewn amser mor fyr y dygwyd oddiamgylch y cyfnewidiadau a'r chwyldroadau lluosog a phwysig hyn! "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu."

Mawr oedd llawenydd a diolch y Cristionogion trwy y byd i weled yr erlidigaeth ar ben, a chael llonyddwch i addoli Duw a gwasanaethu Crist eu ceidwad; ac yn ych-

* Fox's Acts & Mon. Crosby's pref. to vol. ii. Mosheim Eccles Hist. vol. i. W. Jones' Hist. of the church.

wanegol at hyn, mawr oedd llawenydd y Cymmry i weled un o'u cenedl hwy yn *ben ar ymerodraeth y byd!*—yn neillduol felly am fod ynddo arwyddion duwioldeb a pharch i Gristionogaeth. Mae yn fwy na thebyg mai yn Mhrydain y ganwyd ef, ac mai Cymmraes oedd ei fam, sef Elen, merch Coel Godebog, yr hon oedd ddynes rinweddol a duwiol. Ymddengys hefyd fod ei dad, a dyweyd y lleiaf, yn ffafriol i Gristionogaeth, oblegyd yr oedd Cristionogion Brydain yn cael heddwch a rhyddid dan ei deyrnasiad hyd ddeddf erledigaethus Diocletian, yn y flwyddyn 302; ac nid oedd, hyd y nod y pryd hyny, llawn mor ddrwg arnynt hwy ag ar Gristionogion rhanau eraill mwy dwyreiniol o'r byd. Ond am Elen, mam Cystenyn, gwnaeth hi broffes gyhoeddus o Fab Duw trwy gael ei chladdu gydag Ef yn y bedydd. A diau iddi wneyd ei goreu i hyfforddi ei mhab, yr hwn oedd i fod yn Ymherawdwr y byd, yn egwyddorion crefydd Crist; a chafodd weled ei hymdrech yn cael ei goroni â llwyddiant, canys gwnaeth Cystenyn lawer mwy na danges tiriondeb at y Cristionogion,—daeth yn Gristion proffesedig ei hunan, a dylynodd Grist yn y "dyfrllyd fedd," trwy gael ei fedyddio gan Eusebius yn ninas Caercystenyn. Cynnyddodd Cristionogion (mewn enw beth bynag) yn ddirfawr, mewn canlyniad i'r Ymherawdwr ddyfod yn Gristion. Yr oedd sel Cystenyn dros grefydd yn fawr, a'i ddylanwad o'i phlaid yn nerthol, ond nid oedd ei wybodaeth o'i hegwyddorion yn gyfattebol. Yr oedd yn credu mai Cristionogaeth oedd yr unig grefydd ddwyfol, ac y buasai yn fendith dragywyddol i bob un fod yn feddiannol arni; ond nid oedd yn dilyn cynllun Crist i wneyd dysgyblion iddi, sef trwy eu perswadio a'u hargyhoeddi; oblegyd yr oedd yn *gorfodi* y paganiaid i adael eu duwiau a'u crefyddau, ac i dderbyn crefydd Crist; a chyssylltodd hi â'r llywodraeth wladol,—rhoddodd iddi hi y lle a'r nodded ag ydoedd paganiaeth yn gael dan yr Ymherawdwyr blaenorol. Yr adeg hon y cyssylltwyd crefydd Crist â llywodraeth wladol gyntaf, yr hyn a agorodd ddrysau eang i ddirywiad a llygredigaethau lluosog ddyfod i mewn i'r Eglwys.* Mae

* Euseb. Life of Const. Vol. IV. chap. 62. W. Jones' Hist. of the Church.

y cyssylltiad halogedig hwn, o'r pryd hwnw hyd yn bresenol, yn ffynonell o'r lle, mae bron yr oll o'r pethau sydd wedi bod yn foddion i ddirywio a llygru Eglwys Dduw, wedi tarddu. Yn y tir hwn mae pren mawr Pabyddiaeth, a'i holl gangenau lluosog ag ymledaenol wedi tyfu.

Gellir ar un olwg ddosparthu Cristionogion y byd i ddau ddosparth; sef y dosparth a arferant wneyd dynolryw yn ddeiliaid crefydd yn eu hannwybodaeth; a'r dosparth a broffesant eu gwneyd felly trwy eu deall, eu ffydd a'u hufudd-dod personol, ac a haerant nad oes modd, yn ol y Testament Newydd, wneyd dyn yn Gristion unrhyw ffordd arall. Mae yr holl Gristionogion a fedyddiant fabanod yn gwneyd i fyny y dosparth blaenaf; a'r rhai a elwir yn Fedyddwyr yn gwneyd i fyny yr ail ddosparth. Os cymharir yr athrawiaethau a godant yn naturiol oddiwrth y ddwy gyfundrefn hyn, gwelir fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn fawr iawn,—yn fwy nag y mae ond ychydig, mewn cymhariaeth, wedi feddwl erioed; ac yn fwy nag y mae y rhai sydd yn gwybod, neu a ddysgwylid iddynt fod yn gwybod, yn barod i addef. Mae cyfandir llydan ac eang rhwng y ddwy gyfundrefn. Mae y ffordd a'r gwrthddrychau yn gwahaniaethu yn ddirfawr; ac mae yr athrawiaethau cyssylltiedig â hwy, y rhai a ganlynant yn naturiol, yn gwahaniaethu llawn cymmaint. Mae bedydd yn ei ddull a'i ddeiliaid yn llinell wahaniaethol amlwg rhwng y ddau ddosparth, sef rhwng y Bedyddwyr a'r rhai a fedyddiant, neu a daenellant ar fabanod.

Nid oes genym y cysgod lleiaf o'r gwahaniaeth hwn yn yr oes Apostolaidd, nac yn hir ar ol hyny. Rhywbryd yn mhell ar ol hyn y cafodd fodolaeth. Ond nid ar unwaith, eithr yn raddol y cyrhaeddodd ei safle a'i faintioli presenol.

Mae yn ffaith i fedydd mabanod wneyd ei ymddangosiad cyntaf yn y trydydd canrif, a hyny yn Affrica; y diriogaeth lle yr oedd yr Eglwys yn fwyaf llygredig ac annwybodus o un parth o'r byd. Yr amcan mawr o'i ddygiad i fodolaeth oedd er cwrdd â dymuniadau a syniadau Iuddewon a Phaganiaid, er eu hennill i fod yn Gristionogion. Yr oedd yr Iuddewon yn enwaedu eu plant, a'r Paganiaid yn golchi eu plant hwythau, yn nghyda gweinyddu amrywiol seremoniau arnynt. Ac yr oedd bedyddio mab-

anod, o'r ddau ryw, y peth tebycaf o ddim i foddio y ddwy blaid, a'u bennill i ymuno Cristionogaeth. Ymostyngodd yr Eglwys at ddyfeisiau dynol i'r dyben o ychwanegu ei rhif yn nghydag ychwanegu dylanwad ei blaenoriaid; a thrwy hyny dinystriwyd terfynau teyrnas Crist, a llygrwyd ei hegwyddorion sylfaenol. A chan nad oedd modd cael un sail yn y Testament Newydd i'r peth newydd a dyeithr hwn, ymdrechwyd ei sylfaenu ar "draddodiad Apostolaidd;" yr hyn medd yr enwog Neander, "sydd yn llawer mwy o dystiolaeth yn ei erbyn nag o'i blaid." Nid oes *dim* o olion bedydd mabanod yn un rhan o'r byd hyd yr adeg grybwylledig (y trydydd canrif) a hyny yn mhlith Cristionogion llygredig ac annwybodus Affrica.* Ac yn ol y graddau yr oedd yr Eglwys yn dirywio, yr oedd y cyfeiliornad hwn yn ymledaenu ac yn ennill tir. Bu am gannoedd o flynyddoedd ar ol ei godiad yn Affrica, yn y trydydd canrif, cyn cael ei arfer gan Gristionogion Brydain. Yr oedd gan fedydd mabanod ddau o gamau anferth i'w rhoddi cyn cyrhaedd ei safle bresenol:—y cyntaf oedd camu oddiwrth y dyn at y maban—oddiwrth yr hwn oedd yn credu at yr hwn nad oedd yn gwybod *dim!* A'r ail oedd camu oddiwrth y bedyddio at y taenellu—oddiwrth y 'claddu yn y bedydd." at ychydig ddafnau—oddiwrth y person at ddernyn o'r talcen!! Fe gymmerodd mwy na mil o flynyddoedd le rhwng amseriad y ddau gam yma—sef y cam oddiwrth y *dyn* at y *maban*, a'r cam oddiwrth y *claddu* at y *taenellu*. "Er i'r deiliaid o fedydd ddechreu cael eu nhewid, etto fe gafodd y dull ei gadw yn yr Eglwys Genedlaethol am *fil* o flynyddoedd yn hŵy, a gweinyddid yr ordinhad trwy drochiad."* A thrwy drochiad y gweinyddid ef yn Eglwys Wladol y deyrnas hon, pan yn Babyddol a phan yn Brotestanaidd, hyd yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth:—"*Trocher ef yn ddiesgeulus,*" ydynt ymadroddion gorchymynol eglur, y "*Common Prayer.*"

Daeth bedydd mabanod, yn fuan ar ol ei sefydlu yn dra phoblogaidd. Buasai braidd yn wyrthiol iddo beidio dyfod mewn adeg mor llygredig a dirywiol ar yr Eglwys ag ydoedd o'r trydydd canrif yn mlaen. Nid oes ffordd fwy

* Neand. Planting, Book III. chap. 5. Robinson's History of Baptism, page 199.

* Taylor Prim, Babt.

llwyddiannus i ennill y rhieni na thrwy edmygu a dyrchafu eu plentyn. A pha fodd y cyrhaeddir hyny yn fwy effeithiol a llwyddiannus na thrwy ei wneyd "yn blentyn i Dduw ac yn etifedd teyrnas nefoedd" ar unwaith? Rhwng awydd y dysgawdwr am ddylanwad a bod yn ben, ac awydd y rhieni i sicrhau cadwedigaeth eu plant; ac fel yr oedd penderfyniadau cynghorau eglwysig yn cymmeryd lle rheolau y Testament Newydd, fe ddaeth y newyddbeth hwn yn *raddol* i fod yn rheol rhan ehelaeth o'r Eglwys. Fel yr oedd Pabyddiaeth yn ymffurfio, neu yn cael ei ffurfio yn gyfundrefn, yr oedd bedydd mabanod yn gwneyd i fyny un o'i rhanau pwysicaf. Ac yn ol y graddau yr oedd hon yn hawlio awdurdod ac yn ennill tir, i'r graddau hyny yr oedd bedydd mabanod yn dyfod yn allu poblogaidd. Yr oedd yn proffesu gwneyd pawb yn Gristionogion trwy eu bedyddio, a'u gwneyd felly yn ddiaros ar ol eu geni. Ond yr oedd lluoedd o Gristionogion i'w cael o hyd a wrthwynebent y ffordd hon i wneyd dyn yn Gristion; dalient mai gwaed y groes ac nid dwfr oedd yn glanhau oddiwrth bechodau; ac nad oedd bedydd i gael ei weinyddu i neb ond y rhai a ufuddhaent iddo yn bersonol, yn arddangos eu claddiad i'r hên fywyd, a'u codiad i fyny i fywyd o ufudd-dod i Fab Duw. Yr oedd y rhai hyn, o angenrheidrwydd yn erbyn bedydd mabanod; ac ystyrid hwy gan y blaid a fedyddiai fabanod yn wrthwynebwyr peryglus iddynt, ac yn wrthddrychau i gael eu herlid ganddynt. Wedi i Babyddiaeth gael ei chyssylltu â'r llywodraeth, hawlio y fath awdurdod, meddu y fath ddylanwad a chyfoeth, dechreuodd erlid a dyfetha, yn neillduol y Bedyddwyr, fel ei gwrthwynebwyr penaf. Ond er yr holl erlid a'r dyfetha, yr oedd y Bedyddwyr yn dal eu tir, yn ngwyneb pob anfantais a chreulondeb, ac yr oeddynt yn lluosog iawn mewn amryw wledydd ar y Cyfandir, trwy y canrifoedd, hyd doriad allan wawr y "Diwygiad Lutheraidd."

Cyn dychwelyd at y Bedyddwyr Cymmreig, cawn sylw ychydig ar sefyllfa y Bedyddwyr ar y Cyfandir ac yn y Deyrnas hon. Yr oeddynt mor lluosog yn Germany,— "Fel y gallai eu pregethwyr deithio trwy holl Ymerodraeth Germany, (*German Empire*) a lletya bob nos yn nhŷ un

o'u cyfeillion."* Yr oeddynt yn cael eu llosgi, tori eu penau, a'u boddi:—ond fel y dywedodd y Pab Pius II.,—"Nis gallodd deddfau y Pabau, na byddinoedd o filwyr eu llwyr ddistrywio hwy."† Ac er yr holl erlidigaethau gwaedlyd a ddyoddefasant, dywed yr enwog Dr. Mosheim,—"fod yn y flwyddyn 1160, 800,000 o'r rhai a broffesant y ffydd hon."‡ Mae yn beth i'w synu atto fod eu rhifedi mor lluosog yn 1160, pan cofion nad oedd ond tua chan' mlynedd er pan oedd erlidigaeth wedi cael ei dwyn yn mlaen yn eu herbyn gyda'r llymder mwyaf, yn Tryers, Flanders, a Germany; a chyfrifir fod dim llai na 150,000 o honynt wedi cael eu rhoddi i farwolaeth, yn mhob dull a modd! Gallwn ddywedyd yn ngeiriau Mosheim,—"fod personau o'r un farn yn ymguddiedig, o'r braidd, yn holl wledydd Ewrop; yn neillduol yn Bohemia, Moravia, Switserland, a Germany, hyd fôr y Baltic."¶ Yr oeddynt, mae'n wir, yn myned dan wahanol enwau, megys, Waldensiaid, Albigensiaid, Pateriniaid Pauliciaid, Cathariaid, Gundulphiaid, Berengariaid, Petrobrusiaid, Henriaid, Arnoldiaid, &c. Y rhai oeddynt yn parhau yn ffyddlon i wrthwynebu bedydd mabanod, er yr holl erlidigaethau mwyaf creulawn a allasai dynion, llawn o gynddaredd tuag atynt, ddyfeisio.

Ffaith na ellir ei gwrthbrofi yw, mai Bedyddwyr trwyadl oedd y Waldensiaid a'r Albigensiaid, yn nyffrynoedd Piedmont a Moreland, ar y cyntaf, ac am amser maith hefyd.|| Ond er mwyn pob chwareu teg, caniateir ar unwaith, fod rhai wedi eu cael yn eu plith mewn oesau diweddarach, yn ffafriol ac yn gefnogol i fedydd mabanod. Nid oes dim yn rhyfedd yn hyn! Pa fodd y gallasai fod yn wahanol? Yr oedd amryw ar y Cyfandir, er eu bod yn bedyddio eu mabanod, etto yn gwrthod cydymffurfio ag amryw seromoniau eraill o ddyfais ddynol, o eiddo Pabyddiaeth; ac o herwydd hyny, yr oeddynt hwythau yn cael eu herlid, ac amryw o honynt yn ffoi at yr hen

* Twisk Chron. page 546.

† Mosh. Vol. 2. page 544.

‡ Mag. Cen. 11. page 540. Montanus, page 83. Baron Annals, An. 1232. Clarke's Mart, & Dutch Mart.

¶ Danvers, page 112.

|| Dr. Alix on the Churches of Piedmont and Moreland.

Fedyddwyr ag oeddynt wedi cael eu herlid o'u blaen, wedi dyoddef pwys a gwres y dydd, ac wedi ffoi ac ymsefydlu yn Nyffrynoedd Piedmont a manau eraill. Yr oeddynt yn cael cydymdeimlad, yn nghyda derbyniad caredig gan yr hen Fedyddwyr difrifol, gonest, a diniwed hyn, oblegyd eu bod yn wrthddrychau erlidigaeth fel hwythau, serch nad oeddynt o'r un farn a hwy o berthynas i fedydd. Yn lle eu herlid am nad oeddynt o'r un farn am fedydd (fel y gwnelai eraill â hwy—(y Bedyddwyr)—yr oeddynt yn eu derbyn i'r un noddfa a hwy eu hunain, ac yn eu nhoddi yn garedig. Nid yw hynyna yn newid dim ar y ffaith mai Bedyddwyr oeddynt oll ar y cyntaf, ac iddynt barhau felly am oesau.

Mae yr enwog Coleridge yn cydnabod fod y Bedyddwyr yn lluosog a dylanwadol ar y Cyfandir cyn i'r "Diwygiad Lutheraidd" dori allan, ac hefyd pan y torodd allan, ac mae ei eiriau yn cynnwys nad oedd ef yn ystyried fod mwy o awdurdod Fiblaidd dros fedydd mabanod nag sydd dros addoliad y Forwyn Fair. Ysgrifena,—"Er i Martin Luther ddifodi addoliad y Fair Forwyn, etto gwnaeth yn ddoeth i beidio difodi bedydd mabanod, am y rheswm fod yr Ail-fedyddwyr mor gyffredinol yr amser hwnw; ac fe fuasai ei waith yn ymddangos yn ffafriol iddynt hwy yn debyg o ddistrywio y Diwygiad." Mae y geiriau yna yn llefaru cyfrolau, ond ni ommedd gofod i ymhelaethu arnynt.

Dyna gipolwg ar sefyllfa a safle y Bedyddwyr ar y Cyfandir, pan torodd Luther allan o Eglwys Rhufain yn nechreu yr 16 canrif; ac yr oeddynt wedi dal eu tir trwy y canrifoedd blaenorol, er cymmaint yr erlid a'r difa fu arnynt.

Taflwn etto olwg byr ar y Bedyddwyr yn y deyrnas hon. Nid oes genym nemawr o'u hanes yn y wlad hon am beth amser ar ol i Babyddiaeth gael ei sefydlu yma, ac iddi ordoi y trigolion gyda dygn dywyllwch ac annwybodaeth. Aethant megys i'r anialwch tua diwedd yr wythfed canrif. Ond tua dechreu y degfed canrif, gydag ychydig o seibiant, dyma hwy i'r golwg, dan deyrnasiad Harri II. Mae Dr, Alix yn dyweyd am danynt, "Ail-fedyddwyr trwyadl oedd y rhai hyn, neu wrthodwyr a gwrthwynebwyr bedydd mabanod." * Yn nechreu yr unfed canrif ar ddeg, ysgrif-

* Rob. Eccl. Rees. Gibbon, Lardner, vol. iii

enodd Lanfranck, Arch-esgob Canterbury, lyfr yn erbyn y Bedyddwyr; yr hyn sydd yn profi nad oedd eu rhif na'u dylanwad yn fach, a dyweyd y lleiaf, gan fod galwad ar y fath berson ag Arch-esgob Canterbury, i ysgrifenu llyfr yn eu herbyn.†

Yn nechreu y trydydd canrif ar ddeg, cawn fod y Lolardiaid yn lluosog iawn yn y deyrnas hon, y rhai oeddynt wrthwynebwyr bedydd mabanod. Dywed un hanesydd eu bod mor lluosog, fel ag yr oedd un o bob dau a gyfarfyddid â hwy ar y ffordd yn rhywle, yn sicr o fod yn Lolardiad." A dywed *Orchard*, p. 322, "Gwrthodai y Lolardiaid fedydd mabanod fel seremoni afreidiol." Beth bynag hefyd am farn Wickliffe ei hun, mae yn ffaith fod lluoedd o'i ganlynwyr yn hollol yr un golygiadau am fedydd â'r Lolardiaid. Ac yr oedd y Lolardiaid a'r Wickliffiaid yn cael eu cyfrif gan eu gelynion fel yr un a'r unrhyw *bobl*, oblegyd fod eu barnau a'u harferion crefyddol mor gydunol. Addefa ysgrifenydd yn *Rees' Cyclopedia*, "fod *llawer* yn mysg y Lolardiaid a'r Wickliffiaid yn gwadu bedydd mabanod." Addefir yr un peth gan Watson yn ei *Theological Dictionary*, a hefyd yn yr *Imperial Encyclopedia*. Gan fod cymmaint yn cael ei ddyweyd yn ol a gwrthol am ddaliadau John Wickliffe, dyfynwn yma hysbysiadau haneswyr o bwys o berthynas i'w farn gyda golwg ar fedydd. Yr Esgob Hurd a ddywed:—"Mae yn dra eglur oddiwrth ysgrifeniadau llawer o ddysgedigion, fod y Dr. John Wickliffe, y diwygiwr Seisnig cyntaf, naill ai yn ystyried bedydd mabanod yn annghyfreithlon, neu, ar y goreu, yn afreidiol." "Mae yn amlwg (medd awdwr arall) oddiwrth awdwyr lawer, fod Wickliffe yn gwrthod bedydd mabanod, ac yn yr athrawiaeth hon cydunai â'r Bedyddwyr diweddar." Thomas Walden, a alwai Wickliffe yn "un o'r saith ben a ddaeth o'r pydew diwaelod, am wadu bedydd mabanod, yr heresi hono o eiddo y Lolardiaid, ar y rhai yr oedd efe y fath ben-arweinydd mawr." Walsingham a ddywed,—"Yn y flwyddyn 1381, ail gododd yr heretic damniol hwnw, John Wickliffe, opiniynau melldigedig Berengarius,"—yr hwn oedd Fedyddiwr. Hysbysodd Syr Lewis Clifford, yr hwn fuasai gyfaill i Wickliffe, nad oedd

† Milner & Hawies' Hist. of Church, vol. iii.

y Lolardiaid yn bedyddio eu plant newydd eni.* Yr oedd y Bedyddwyr ynte yn lluosog iawn yn y cyfnod hwn; mor lluosog a dylanwadol nes peri i'r Pab eu hofni gymmaint, fel y dygodd allan *dair* deddf yn eu herbyn yn yr un flwyddyn, sef yn 1377.†

Yr ydym wedi canfod fod y Bedyddwyr, nid yn unig yn dal eu tir, ond wedi lluosogi yn ddirfawr yn y deyrnas hon, pan oedd Eglwys Rhufain yn "Eglwys y Wlad," er cael eu herlid mewn modd creulon a didrugaredd. Cawn yn awr daflu golwg arnynt a chrybwyll ychydig ffeithiau perthynol iddynt pan yn gorfod gweithio eu ffordd dan orthrwm, ac yn ngwyneb erlidigaethau a chreulonderau "Eglwys Loegr," yr hon a gymmerodd le "Eglwys Rhufain," yn y wlad hon yn nechreu yr unfed canrif ar bymtheg. Yn y flwyddyn 1534, y cyfarfyddodd y Parliament, yn yr hwn y gwnaed ac y sefydlwyd "Eglwys Loegr" yn ol cyfraith y tir i fod yn "Eglwys Wladwriaethol" y deyrnas hon, ac y sefydlwyd Harri VIII., i fod y Pen *cyntaf* iddi, yn lle Eglwys Rhufain, Pen yr hon ydoedd y Pab. Felly nid yw "Eglwys Loegr," yn awr ond 335 mlwydd oed. Bernir i ddim llai na 72,000—(ïe, triugain a deuddeg o filoedd) i gael eu dirwyo, eu carcharu, neu eu lladd, o dan deyrnasiad Harri VIII! Yr ydym yn cael oddiwrth ddigofaint offeiriadol, a deddfau seneddol, y rhai a gymmerasant le o dan Harri, Edward, Mari, Elizabeth, y ddau Iago, a'r ddau Siarl, afael ar ddwy ffaith bwysig:—

1. Fod y Bedyddwyr yn y cyfnodau hyn yn lluosog, dylanwadol, a chynnyddol, onite pa angen am y fath niferi o ddeddfau seneddol, y naill ar ol y llall, i'w herlid a'u dyfetha?

2. Fod "Eglwys Loegr" bron mor elyniaethol iddynt, a chreulawn tuag atynt ag ydoedd Eglwys Rhufain ei hun. Mae egwyddorion crefydd *bersonol*, fel eiddo y Bedyddwyr, yn ei hegwyddorion sylfaenol, yn hollol groes i grefydd wladol a honiadau offeiriadol—i bob cyfundrefn ag sydd yn proffesu gwneyd dyn yn Gristion ar wahan oddiwrth ei ddeall a'i ufudd-dod personol ef ei hun. Yn mhen dwy flynedd ar ol sefydlu yr Eglwys hon, sef yn y flwyddyn

* Ivimey's History of Baptist, vol. i. p. 71, 72.

† Neal's History, Mosheim, Ivimey. Fuller, Gregory, Walsingham, Sabine, &c.

1536, cyfarfu yr offeiriaid cenedlaethol mewn Cymmanfa Eglwysig, a chyhoeddasant ddaliadau y Bedyddwyr "yn heresiau atgas a ffiaidd. ac i'w condemnio yn hollol." Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, rhoddwyd awdurdod i Cranmer, Arch-esgob Canterbury, ac eraill, i fyned yn erbyn y Bedyddwyr, a llosgi eu llyfrau. Ac ar yr 16eg o Dachwedd. yn yr un flwyddyn, rhoddwyd cyhoeddiad breninol yn eu herbyn, i'w dyfetha yn mhob man; ac anfonwyd hyfforddiadau i'r holl ynadon trwy Loegr, yn gorchymyn fod i'r cyfreithiau hyn yn erbyn y Bedyddwyr i gael eu gweinyddu yn drylwyr a chyflawn.*

Dan deyrnasiad Edward, ~~pan~~ pasiwyd deddf i faddeu i'r Pabyddion, ac eraill, gadawwyd y Bedyddwyr allan: ac nid yn unig fe'u gadawwyd allan, ond yn y flwyddyn ganlynol. sef 1547, rhoddwyd gorchymyn newydd i'r Archesgob "i chwilio am y Bedyddwyr oll," i'r dyben o'u distrywio; ac o dan y gorchymyn hwn y llosgwyd yr enwog Joan o Kent, ar yr 2il o Fai, yr hon oedd Fedyddwraig; amryw eraill hefyd fuont ddeiliaid yr un dynged. ‡ Parhaodd pethau yn yr un sefyllfa o dan Mari (waedlyd), ac Elizabeth. Pasiwyd deddf dan deyrnasiad Elizabeth, "Fod i'r holl Fedyddwyr, a hereticiaid eraill, i adael y wlad." Yr oeddynt, er y tywydd garw i gyd, yn dal, ac heb eu difa; a chafwyd nifer o honynt mor benderfynol yn y flwyddyn 1575, fel yr oeddynt wedi ymffurfio yn gymdeithas neu eglwys, hyd y nod, yn *Aldergate*, Llundain! Alltudiwyd amryw o honynt, carcharwyd 27, a llosgwyd dau yn ulw, yn Maes y Gofaint!† Er yr holl ymdrechion a wnawd i'w dyfetha, etto i gyd, dal eu tir a chynnyddu yr oeddynt. Dywed yr hanesydd gonest a chywir Marsden am danynt dan deyrnasiad Elizabeth fel y canlyn: "Ond yr Ail-fedyddwyr oeddynt y mwyaf lluosog. a'r gwrthwynebwyr mwyaf anmhlygadwy i'r Eglwys. ac a achosent fwyaf o fraw iddi o neb." Ac mae Dr. Parker yn ei lythyr yn gwrthod Arch-esgobaeth Canterbury. yn dywcyd,—"Dywedant fod y deyrnas yn llawn o Ail-fedyddwyr, Ariaid. &c." || Gwasgaredig oeddynt o

* King Henry's Creed, Burnet's History of Reform. Brandt's History of Reform. Ivimey's History of Baptists.

† Crosby's History, vol. ii. Ivimey, vol. i.

|| Dr. B. Evans' Hist. Engl. Bapt. vol. page, 142—167.

‡ History Reform, vol ii., Neal, vol i., Strype's Life of Cranmer.

gwrs yn yr amseroedd hyn, oblegyd na feiddient ymffurfio yn gynnulleidfaoedd cyhoeddus neu eglwysi. Rhaid fod rhyw fywyd a nerth o fyd arall ynddynt, gan eu bod yn parhau ac yn cynnyddu yn y fath gaethiwed, dan y fath drais, ac yn ngwyneb y fath erlidigaethau ereulon a thanllyd. Ond felly y gwnaethant, ac y maent wedi gwneyd hyd yn bresenol. Gyda eu bod yn cael ychydig seibiant, cawn hwy yn ymffurfio yn eglwysi a chymmanfaoedd.* Ac y mae y Parch. A. F. Douglas ———, Annibynwr yn dyweyd yn ei lyfr a elwir—"Y Bugail a'i Bobl," —"Fod y Bedyddwyr, fel cyfenwad, wedi cynnyddu mewn blwyddi diweddar—ar gyfartaliaeth cyflymach na'u cymmydogion. Mewn gair, credem na fyddem yn mhell o'r gwir, pe dywedem, mai y cyfenwad mwyaf addawol ac ymeangol yn Lloegr yr adeg yma ydyw y Bedyddwyr. Pe syrthiai Lloegr i ddwylaw cyfenwad o Gristionogion mor efengylaidd a brwdfrydig, pwy feiddiai ei gyfrif yn anffawd?" Dyna ddarluniad diduedd Maban-Fedyddiwr, o barthed i safle a sefyllfa Bedyddwyr Lloegr ar yr adeg bresenol.

Gorchfygwyd ni i fras-ddylyn y Bedyddwyr Seisnig mor belled a hyna; ond y mae yn llawn bryd troi yn ol a sylwi yn neillduol *ar*, a dilyn y Bedyddwyr Cymmreig. Er mwyn cael llinell hanesyddol y Bedyddwyr Cymmreig yn gyflawn, rhaid dychwelyd i ddechreu y pedwerydd canrif, lle y gadawsom hwy yn tudalen y seithfed. Yn nechreu y canrif hwn yr ydym yn cael y Bedyddwyr Cymmreig yn lluosog a dylanwadol; ac un o honynt, o du ei fam, sef Cystenyn Fawr, yn ben ar "Ymerodraeth y Byd." Cofiwn fod y deyrnas hon y pryd hyny, bron i gyd, yn meddiant y Brutaniaid, etto dan aden ymerodraeth Rhufain. Ac felly y buont hyd y flwyddyn 449 pryd y gorchfygwyd hwy i raddau helaeth gan y Saeson; ac y gwasgwyd hwy i ranau gorllewinol yr Ynys, sef siroedd Cymmru, yn nghyda'r rhai oedd yn terfynu arnynt. Ymddengys fod crefydd yn mhlith y Cymmry yn lled lwyddiannus a blodeuog yn yr oesoedd hyn. Er iddynt golli rhan o'u tiriogaeth, cadwent eu crefydd yn gyflawn. Pan yn son am y Cristionogion Cymmreig, neu y Cymmry Cristionogol yn yr oesau hyn, rhaid son am danynt yn ddieithriad fel Bedyddwyr;

* Cro[illegible]y, Ivimey, Danvers, Taylor, &c.

oblegyd nid ydyw wedi cael ei ddangos erioed, gan y rhai a ymdrechasant wneyd hyny, fod cymmaint ag un maban wedi cael ei fedyddio gan y Cristionogion Cymmreig hyd ddechreu y seithfed canrif, pan ddarostyngwyd y Cymmry dan iau Pabyddiaeth; fel y cawn ddangos etto.

I ddangos fod y Bedyddwyr Cymmreig yn lluosog a dylanwadol yn yr oesau hyn, nid oes eisieu ond crybwyll y pethau canlynol. Mae genym ar gael a chadw enwau amryw weinidogion enwog yn eu plith. megys, Dyfrig, Dewi, Dynawt, Teilo Mawr, Padarn, Pawl Hên,* &c., &c. "Yr ydym yn cael hefyd fod gweinidogion eglwysi Prydain yn bresenol yn y Cymmanfaoedd cyffredinol a gynnelid trwy orchymyn yr Ymerawdwr (*Cystenyn*) yn amrywiol barthau y byd, i benderfynu dadleuon crefyddol, a threfnu mesurau addas i adeiladaeth yr holl gorff." Mewn Cymmanfa a gynnaliwyd yn Arles (Ffrainc), yn y flwyddyn 314, i osod terfyn ar ddadl ag oedd wedi gwneuthur llawer o ofid i eglwysi Affrica, o barthed ordeinio dau esgob yn Carthage, ac i gyduno ar reolau Cymdeithasol i'r holl eglwysi, yr ydym yn cael fod pump o weinidogion y Cymmry yn bresenol, sef Ifer, Caerefrog; Rhystyd, Llundain; Brawdol, Caerlleon-ar-Wysg; yn nghyd a Sacerdos, ac Armin o'r un lle. Cynnaliwyd hefyd gymmanfa ryfeddol yn Nicea, Bithynia, yn y flwyddyn 325,—parhaodd am saith niwrnod. Yr ymerawdwr ei hun oedd y cadeirydd. Yr oedd amryw o weinidogion y Cymmry yn hon etto, er pelled oedd.

Erbyn tua dechreu y pummed canrif, yr oedd Rhufain wedi gadael y wlad hon idd ei phobl ei hun yn hollol; a hwythau wedi cael eu rhanu o dan wahanol fân freninoedd; a Saeson a Phictiaid paganaidd yn eu gwthio yn mhellach tua'r Gorllewin, ac yn meddiannu eu tiriogaethau.

Yn niwedd y 4ydd a dechreu y 5ed canrif, yr oedd Morgan, o Fangor Iscoed, yr hwn a elwir Pelagius, Cymmro, yn enwog iawn fel dysgawdwr Cristionogol yn y wlad hon. Teithiodd lawer oddiyma i Rufain, a lleoedd eraill. Yr oedd yn cael ei gyhuddo gan yr Eglwys Ffrengaidd &c. o fod yn dal ac yn addysgu athrawiaethau cyfeiliornus. Nid oes genym ei ysgrifeniadau ef ei hun er ffurfio barn am ei ddaliadau crefyddol—dim ond eiddo ei wrthwyn-

* Dr. Richards Cam. Brit. Biography

ebwyr. A gŵyr pawb ag sydd wedi darllen hanes Eglwysig, mor lleied ellir ymddibynu ar dystiolaethau o'r fath. Os beiddiai dyn wahaniaethu oddiwrth y Cynghorau Eglwysig, darlunid ef yn *heretic* yn nghyd a phob peth fyddai yn ddrwg. Cydnabyddid ef gan bawb yn ddyn o fywyd moesol, crefyddol. a diargyhoedd.† Ac o'n rhan ni, barnwn ef yn llawn mor gywir yn ei ddaliadau crefyddol ag Awstin, Esgob Hippo, ei brif elyn. Tebyg ei fod, o barth ei gred grefyddol, oddigerth bedydd, rywbeth yn debyg i Wesleyaid ein dyddiau ni. Beth bynag, yr oedd yn wrthwynebwr cadarn i fedydd mabanod, er nad oes yr engraifft leiaf fod hyny, hyd yn hyn, wedi cymmeryd lle yn ei wlad ei hun. Cynnaliwyd Cynghorfa yn Ffrainc ar y mater, a barnwyd fod athrawiaeth Morgan yn gyfeiliornus. Dywedir i Morgan gyffesu gerbron rhyw gynghorfa, "Na chlywodd efe erioed am un Cristion, catholig, na phleidiwr ag oedd yn gwadu hawl mabanod i fedydd." Os dywedodd Morgan hyn, yr oedd yn dweyd anwiredd,—anwiredd ag yr oedd ef ei hun, a phawb oedd yn bresenol, yn *gwybod* mai anwiredd ydoedd; oblegyd yn nghynghorfa Mela, yn Numida, yn y flwyddyn 416, llywydd yr hon oedd Awstin, cyhoeddwyd melldithion yn erbyn y Morganiaid ac eraill am wrthod y seremoni. Ond nis gellir, ar dir têg, gredu i Morgan ddweyd y fath beth erioed. Nid oes ammheuaeth ynom mai brawddeg ydyw wedi cael ei rhoddi yn ei enau gan rai o'i elynion. Mewn canlyniad i benderfyniad y Gynghorfa o barthed daliadau Morgan, anfonwyd cenadau i Frydain, yn y flwyddyn 429, a Garmon, Esgob Auxerre, yn ben arnynt, i bregethu yn erbyn yr hyn a elwid yn *heresi* Morgan. Nid yw yn annhebyg i'r cenadon hyn, yn mhlith pethau eraill, gymhell bedydd mabanod i sylw y Brytaniaid, oblegyd yr oedd Awstin, (Llywydd y Gynghorfa) yn selog drosto. Beth bynnag am hyny, nid oes arwydd i'r Cymmry ei dderbyn; ac ni arosodd Garmon yma ond am amser byr iawn. Yr unig hanes sydd genym am dano yn bedyddio ydyw, ei fod yn bedyddio rhai mewn oed, yn afon Alun, swydd Fflint. Gan fod yr hanes hwn mor

---

† Cofier nad Awstin y Monach, yr hwn fu'n achos o'r gyflafan yn Mangor Iscoed, &c., yr hwn y ceir sôn am dano etto, oedd yr Awstin uchod.

awgrymiadol ar y pwnc, ac yn cael ei roddi gan Eglwyswr, ac hanesydd mor enwog a Carnhuanawc, gosodir ef yma o flaen y darllenydd,—

"Tra'r ydoedd Garmon a'i gyfaill ar eu gweinidogaeth, yn y modd hyn, yr oedd llu o Saeson a Phictiaid wedi ymosod ar y wlad, ac yn nesâu at y lle yr oeddynt yn aros. Ar y pryd hwn yr oeddynt newydd gweini bedydd i dorf o'u canlynwyr, ac yn ymbarotoi i gadw y Pasc. A phan welsant eu gelynion yn rhuthro tuag atynt, Garmon a osododd ei hun i flaenori ei fyddin, yr hon a ffurfiwyd gan ei ddysgyblion, a hwynt-hwy yn anarfog, eithr yn llawn ffydd, ac megys etto yn *wlybion* gan *ddwfr y bedydd*, a safasant yn ddifraw i dderbyn y rhyfelgyrch. Lle eu sefyllfa oedd dyffryn yn amgylchynol a mynyddoedd. A Garmon a roddasai orchymyn iddynt ganlyn yr arwydd a roisai iddynt ar y pryd. A phan nesaodd y Barbariaid, yr holl dorf gan ganlyn yr arwyddiad a waeddasant ag un llais Haleliwia, dair gwaith! A'r llais gan adseinio yn y mynyddau cyfnesawl a darawodd y fath fraw yn y gelynion, ac iddynt daflu ymaith eu harfau a ffoi; ac amryw o honynt a drengasant yn yr afon, yr hon oedd o'u blaen, wrth geisio ei chroesi. Ac felly Garmon a'i gyfeillion a ennillasant y fuddugoliaeth, heb dywallt dafn o waed na tharaw ergyd. Y fuddugoliaeth hon a elwir, *Y Fuddugoliaeth Halleliwiaidd;* ac y mae Usher yn dywedyd iddi gymmeryd lle yn *Maes Garmon*, gerllaw yr Wyddgrug swydd Fflint; ac mai yn yr afon Alun yr oedd y dysgyblion wedi cael eu bedyddio."* Nid ydyw dweyd fod yr afon hono yn fach, yn profi dim nad ydoedd yn wahanol ar y pryd hwnw. Nid oes nemawr ddim yn cyfnewid mwy ac yn gyflymach nag afonydd.

Dyna y fath ddysgyblion, a dyna y fath fedydd oeddynt eiddo y Prydeiniaid y pryd hwnw:—dynion mewn oed,—bedyddio mewn afonydd,—"ac yn wlybion gan ddwfr y bedydd." Dyna y ffordd y pryd hyny i wneyd Cristionogion yn mhlith y Cymmry—eu perswadio trwy bregethu yr Efengyl iddynt, yna eu bedyddio ar eu gwaith yn proffesu ac yn ymuno â chrefydd Mab Duw. Dilynent, yn y pwnc hwn, yn berffaith, reol y Testament Newydd,

* Carnhuanawc, Hanes Cymmru, 198.

Ac yn y modd yma y parhaodd pethau yn mhlith y Cymmry hyd ddechreu y seithfed canrif.

Erbyn hyn, yr oedd Pabyddiaeth wedi magu llawer o nerth, meddiannu awdurdod a dylanwad mawr, ac wedi mabwysiadu amrywiol ddyfeisiau dynol i fod yn rheolau crefyddol, ac nid y lleiaf o'r rhai hyn oedd bedydd mabaned. Ond nid oes genym y crybwylliad lleiaf am fedyddio na thaenellu mabanod yn y *deyrnas* hon cyn dyfodiad Awstin Fonach yma, yn y flwyddyn 597. Yn y flwyddyn a grybwyllwyd anfonodd y Pab Gregory tua hanner cant o fonachod, ac Awstin Fonach (nid yr Awstin, prif elyn Pelagius) yn Abad, neu yn ben arnynt, i Gristioneiddio y Saeson, y rhai oeddynt baganiaid, ac erbyn hyn wedi agos meddiannu holl Loegr oddiar y Cymmry. Bu Awstin a'i gyd-fonachod yn hynod lwyddiannus i wneyd Cristionogion proffesedig, neu Babyddion o'r Saeson. Bedyddiodd filoedd o honynt yn afonydd Gwâl a Swimi:—bedyddiodd 10,000 mewn un diwrnod. Wedi i Awstin fod mor llwyddiannus gyda y Saeson, penderfynodd hefyd ddwyn y Cymmry dan lywodraeth y Pab, ei feistr. Yn unol â'i gais cyfarfyddodd 1200 o weinidogion a chenadon y y Cristionogion Cymmreig ag ef yn nghyda'i gyd-fonachod, tuag ymylon dwyreiniol swydd Henffordd, dan dderwen fawr, yr hon a adweinid am oesau lawer ar ol hyny, wrth yr enw,—"Derwen Awstin." Yr oedd gan Awstin bedwar o bethau ag yr oedd am i'r Cristionogion Cymmreig eu derbyn a'u gwneyd:—

"1. Iddynt ymddarostwng i awdurdod y Pab.

"2. Iddynt gadw y Pasc yr un amser ag Eglwys Rufain,

"3. Iddynt ei gynnorthwyo ef a'i ddysgyblion i bregethu yr Efengyl i'r Saeson.

"4. Iddynt fedyddio eu plant."*

Ond gwrthododd y Cristionogion Cymmreig y pedwar mewn modd penderfynol. Cynnaliwyd dwy Gymmanfa i'r un perwyl ac yn yr un lle; ond terfynwyd yr olaf fel y flaenaf gyda'r un penderfyniad gan y Cymmry. Ni dderbynient un o'r pedwar cynnyg. Cofier, mai claddu, ac nid *taenellu* yr oedd Eglwys Rhufain yr oesau hyn, oddi-

* Dr. Benedict, 341.

gerth mewn eithriadau anfynych; ac felly y parhaodd Eglwys Wladol y deyrnas hon, pa un bynag ai Pabyddol neu Brotestanaidd, am yn agos i *fil o flynyddoedd* ar ol dechreu y 7fed canrif. Yn awr y mae cais Awstin i'r Cymmry i fedyddio eu plant, yn nghyd a'u gwrthodiad penderfynol hwythau o'r cais yn ddigon o brawf, i bob un diragfarn, mai Bedyddwyr oeddynt y Cristionogion Cymmreig hyd y pryd hyny, beth bynag. Ac i gadarnhau hyn yn mhellach, y mae llenyddiaeth y cyfnod hwnw yn profi yr un peth. Mae Taliesin, Ben Beirdd, yn dyweyd,

"Gwae a *gymmerth* fedydd
A chred a chrefydd
Onis *tystia*."

Mae *cymmeryd* a *thystio* yn eglur ddangos nodwedd y deiliaid. Nid yn unig *gweinyddid* bedydd i rai, ond yr oedd y rhai y gweinyddid ef iddynt yn ei *gymmeryd* ac yn *tystio*, neu gyffesu.

Hefyd,

"Pob peth a dderfydd,
Ond cred a bedydd."

Rhai yn "*cymmeryd*," "*credu*," "*tystio*," neu broffesu, oeddynt y rhai a fedyddid yn mhlith y Cymmry, hyd, o leiaf ddechreu y 7fed canrif, ac nid oes engraifft i gymmaint ag un maban i gael ei fedyddio ganddynt, yn flaenorol i hyn. Gyda golwg ar y dull, trochi oedd yr arferiad mewn Eglwysi gwladol, Rhufain a Lloegr, yn y wlad hon, hyd yn ddiweddar, mewn cymhariaeth. Mae Jonas Mynwy, bardd a duwinydd enwog yn yr unfed canrif ar ddeg, yn y llinellau canlynol yn dangos beth oedd y dull yn ei amser ef:—

"Pan ydoedd yr Rhên
Hyd tros y ddwyen
Yn nwfr yr Iorddonen."

"Ior nef a daiar
Gwel y rhai hygar
A fu'n ddiweddar
Dan yr elfen."

Meilir ap Gwalchmai yn y trydydd canrif ar ddeg, a sonia am,

"*Gymmeryd* bedydd *yn nwfr* echwydd."

Mae Ficer Llanymddyfri (dechreu 17eg canrif), yn ei agoriad ar Gatechism Egwys Lloegr yn dywedyd fel hyn:

Holiad.—"Beth yw y nod gweledig, a'r arwydd digon tebyg
Yn y bedydd o'r tu faes yn selio'r gras arbenig?

Ateb.—"Y dwr yn y bedyddfan, lle trochir y dyn bychan,
Yn enw'r Tad a'r Mab dri phryd, a'r Santaidd
Yspryd purlan."

*Trochi*, fel y gwelir oedd dull Eglwys Loegr o fedyddio yn ei amser ef.

Mae Syr John Floyer, Eglwyswr, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 1701, yn nodi,—"I'r Cymmry adael trochiad yn y bedydd yn ddiweddar, ac i rai canol oedran ddyweyd wrtho ef, eu bod yn *cofio* yr arferiad o drochiad." Ebe efe, yn mhellach,—"Rhoddais yn awr y dystiolaeth a ellais gael mewn llyfrau Saesonig i brofi yr arferiad gwastadol o *drochiad*, o'r amser y *dechreuwyd* gan y Brutaniaid a'r Saeson hyd ddyddiau y brenin James (yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1603, ac a ddiweddodd yn 1625) pan ddechreuodd pobl rwgnach yn erbyn pob hen ddefod; a thrwy hoffi rhyw beth newydd tynerwch rhieni, a chymmeryd arnynt fod yn fwy gweddaidd rhoddasant heibio *drochiad;* yr hyn ni wnaed erioed trwy un weithred yn Eglwys Loegr; eithr y mae trefn ein Heglwys ni, mewn bedydd yn *gorchymyn byth i drochi yn ddiesgeulus a darbodus.*" Dywed hefyd,—"Yr wyf yn clywed hefyd fod rhai o'r Cymmry yn trochi hyd yn hyn" (sef yn Eglwys Loegr).* Mae y dyn a ddadleua yn ngwyneb y prawfion uchod, nad trochi oedd y dull, tu hwnt i derfynau argyhoeddiad.

Gan mai trochi oedd dull Eglwys Rhufain o fedyddio am ganrifoedd lawer ar ol ei sefydliad; mae yn amlwg mai cais Awstin Fonach gan y Cymmry, ar fin dechreu y 7fed canrif oedd, cael ganddynt gydymffurfio âg Eglwys Rhufain trwy fedyddio neu *drochi* eu *mhabanod*, ac nid gadael iddynt fel yr arferynt, i dyfu i fyny i farnu drostynt eu hunain, ac *ufuddhau* i fedydd. Un o'r dirywiadau penaf mewn crefydd ydyw peidio cydnabod cyfrifoliaeth, gyda golwg ar berson unigol, neu gyda golwg ar gynnulleidfa neu eglwys,—sef awdurdodi arall neu eraill i gyflawni peth

* Treatise of cold bathing, 4th Edit., pp. 14, 61, 87.

yn lle person neu eglwys. Mae pob un o'r ddau gymmaint ar "*benau eu hunain*," fel na all neb wneyd yn eu lle. Na fydded i un person, nac eglwys roddi ei hawlfraint o lywodraethu ei hun i *neb* pwy bynag, oblegyd trwy ei ollwng o'u dwylaw eu hunain, y maent yn bradychu yr ymddiried a roddodd eu Creawdwr a'u Pen ynddynt.

Gwrthododd yr hen Fedyddwyr Cymmreig gynnygion Awstin y Monach gyda phenderfyniad diysgog. Digiodd yntau yn arw wrthynt am beidio troi yn Babyddion ar ei gais ef. Ac i'r dyben o ddial arnynt, dywedodd y buasai yn annog y Saeson i ryfela yn eu herbyn. Ac felly y gwnaeth; a bu yn llwyddiannus yn ei fwriad uffernol i gael gan y Saeson i godi yn lluoedd arfog yn erbyn y Cymmry ,y rhai a ddistrywiasant eu hathrofeydd, a losgasant eu llyfrau, a lladdasant gannoedd o'u gweinidogion anarfog, ac a lofruddiasant filoedd o Gristionogion annghyhoedd. Yr oedd y pryd hyny, gan y Cristionogion Cymmreig, ddwy athrofa, un yn Mangor Iscoed, a'r llall yn Nghaerlleon, y flaenaf yn y Gogledd, a'r olaf yn y Deheudir, y rhai, medd Fuller, yn ei *Church History*, "oeddynt fel dau lygad i'r Cymmry, mewn dysgeidiaeth a chrefydd." Yr oedd yn Mangor Isceed ar y pryd 2100 o aelodau, a llyfrgell gyfoethog a gwerthfawr. Yr oedd 1200 ynddi pan daeth byddin y Saeson i'w chymmeryd; a lladdwyd hwy oll, oddieithr hanner cant o honynt a ddiangasant. Distrywiwyd yr athrofa, a llosgwyd y llyfrau; a gwasgarwyd yr hanner cant, yn nghyda'r naw cant eraill ag oeddynt yn absenol ar y pryd yn cyflawni eu goruchwylion tymhorol, a phregethu yr Efengyl mewn gwahanol barthau o'r wlad—gwasgarwyd hwy fel defaid yn mhlith mynyddau Cymmru, mewn newyn a noethni, ac yn ddrwg eu cyflwr. Ond er y galanastra ofnadwy hwn, methwyd a'u cael i newid eu barn a'u harferiadau crefyddol—methwyd a'u troi i fod yn Babyddion. O'r amser hwn yr oedd dwy eglwys yn y deyrnas, sef y Babyddol, yr hon a sefydlodd Awstin a'r eglwys arall o'r Cristionogion cyntefig, sef yr *hen* a'r *newydd;* y newydd oeddynt y Pabyddion, a'r hen oeddynt y Bedyddwyr, y rhai a ddaliasant eu ffordd am ugeiniau o flynyddoedd wed'yn, er yr holl ormes a'r erlid. Ni ddarostyngwyd y Cymmry dan awdurdod y

Pab am gant a thriugain mlynedd ar ol hyn! Sef yn y fl. 763,—yn mhen y saith can' mlynedd ar ol dyfodiad yr Efengyl i'r wlad. Cymmru ydoedd y ddiweddaf o holl wledydd y Gorllewin i ymostwng i awdurdod y Pab. Peth rhyfedd iddi allu dal cyhyd! Ac yr oedd y rhif luosocaf, sef y rhai oedd yn parhau i ymwrthod â Phabyddiaeth, yn parhau hefyd i ymwrthod â bedydd mabanod hyd y flwyddyn 763, pan eu darostyngwyd dan iau Eglwys Rhufain.*

Yr ydym, cyn diwedd yr 8fed canrif yn cael Pabyddiaeth wedi cael ei sefydlu yn grefydd y wlad yn Nghymmru—awdurdodau yn dewis crefydd i'w cyd-ddynion. Mae'r annghyssondeb mwyaf mewn peth fel hyn, tu yma i'r cyfryw rai allu rhoddi cyfrif dros eu cyd-ddynion yn nydd y farn fawr, yr hyn sydd yn annichonadwy. Ar ol i Babyddiaeth gael ei sefydlu yn grefydd wladol a'i gorfodi ar drigolion Cymmru, dyma ni yn dechreu ar y cyfnod truenus hwnw a elwir "yr oesau tywyllion." A thywyll iawn ydoedd hefyd mewn ystyr grefyddol, yr hwn gyfnod a barhaodd am rai canrifoedd.

Nis gellir dysgwyl cael hanes *eglwys* neu *gynnulleidfa* yn gwahaniaethu yn ei barn a'i harferiadau oddiwrth Eglwys Rhufain, yr hon oedd "yr Eglwys Wladwriaethol" yma yn y canrifoedd hyny. Os oedd rhai yn bodoli, yr oeddynt yn gorfod bod felly, yn y modd mwyaf dirgel ac annghyhoedd. Buasai y cyhoeddusrwydd lleiaf o *eglwys* yn gwahaniaethu oddiwrth "yr Eglwys Wladwriaethol," yn gosod ei haelodau yn y perygl mwyaf. Nid oes genym *hanes* nemawr ddim yn "yr oesoedd tywyllion" mewn cyssylltiad â chrefydd, ond am anwybodaeth, tywyllwch, ffurf Rhufain o grefydd, ac ofergoeledd truenus. A barhaodd y Bedyddwyr yn Nghymmru trwy "yr oesau tywyllion' hyn, sydd ofyniad, fe allai, anhawdd ei ateb i foddlonrwydd? Y tebygolrwydd yw iddynt wneyd, ond felly yn ddirgel a gwasgaredig. Yr ydym yn cael fod y Bedyddwyr yn dra lluosog ar y cyfandir mewn amryw leoedd yn y canrifoedd hyn. Tybia yr enwog Robinson, Caergrawnt, fod cynnulleidfaoedd fel hyn yma a thraw yn y deyrnas hon, yn

* Danvers, Reply to Wills, Baxter, &c. Benedict, Hist. Baptists, New York, 1848.

cwrdd yn ddirgel. Dywed yn Vol. II., page 54, o *Claude's Essay*; fod coflyfr Gray, esgob Ely, yn profi fod cynnulleidfa o Fedyddwyr, yn y fl. 1557, yn cyfarfod yn *ddirgel* i addoli Duw yn Chesterton, pentref ger Caergrawnt. a chanddynt athrawon yn dysgu yr un athrawiaeth ag a bregethir gan y Bedyddwyr yn awr. Ni fuasai *dim* o hanes y rhai hyny ar gael, oni buasai iddynt gael eu rhoddi yn "Llys yr Esgob," am ddyweyd mai cythreuliaid mewn cnawd oedd yr offeiriadon. Gallai fod cynnulleidfaoedd cyffelyb yn Nghymmru, ond heb ddim o'u hanes ar gael, yr un modd ag y buasai gyda y Bedyddwyr yn Chesterton oni buasai iddynt gael eu cyhuddo, a u treio yn "Llys yr Esgob."

Mae y Dr. Richards o Lyn yn y *Noncon Mem.* p. 124. 125, yn dyweyd fel hyn, wrth ddarlunio crefydd yn Nghymmru o amser Pelagius. (diwedd y 5ed a dechreu y 6ed canrif). hyd amser Wickliffe,—"Yr hen grefydd. yr hon a alwn Morganiaeth, o'r diwedd a ddarostyngwyd ac a lethwyd. neu yn hytrach aeth ei hymlynwyr yn blaid *guddiedig. ddirgel*, ac *anweledig*, yn bodoli yn *benaf* yn mysg Beirdd a Derwyddon Gwent; a gwasgerid ei hegwyddorion yn eu cynnulliadau dirgel, neu mewn rhyw fodd tra chyfrinachol." Ac mae y geiriau canlynol o eiddo Bardd enwog yn cadarnhau y sylw uchod:—

> "Nid oedd namyn Duw a Derwyddon
> A wyr eu rhif dan ymchwydd y don."

Cyfeiria hynyna at eu gwaith yn bedyddio mewn dwfr. yn nghydag at y modd dirgelaidd yr oeddynt yn gorfod gwneyd hyny. A chyda fod ychydig o ryddid yn cael ei ganiatau, y maent ar unwaith yn dyfod i'r amlwg. nid fel plaid newydd, eithr fel hen blaid yn dyfod allan o'u hymguddfeydd dirgel, lle y llechent rhag gormes a thrais. ac yn hollol hysbys a chyfarwydd yn eu hegwyddorion a'u harferiadau crefyddol, y rhai a arferid gan Fedyddwyr y cynoesoedd, ac a arferir gan Fedyddwyr yn yr oes bresenol. Y casgliad naturiol yw, eu bod wedi bodoli "trwy yr oesau tywyllion," yn parhau i ddal eu hegwyddorion. a gweinyddu eu hordinhadau fel cynt, ond fel yn y *modd* a'r *lleoedd mwyaf dirgel*. rhag cael eu dyfetha am wahaniaethu oddiwrth y grefydd wladol Dywed yr enwog Dr. Benedict am danynt

fel hyn,—"Gyda fod gwawr gyntaf y goleuni yn dychwelyd, yn mhell cyn y cyfnewidiadau eglwysig ar y cyfandir, ac yn Lloegr, yr ydym yn cael y Bedyddwyr Cymmreig yn mhlith y diwygwyr blaenaf; ac nid oeddynt yn tori allan fel sect newydd, eithr fel rhai oedd yn hen gyfarwydd â'r egwyddorion yn eu hymarferiadau, ac yn eu hamddiffyniad o honynt."

Yn unol â'r tystiolaethau uchod cawn eglwys o Fedyddwyr yn Olchon, wedi ei chorffoli yn y flwyddyn 1633. Dyna yr eglwys gorffoledig o ymneillduwyr gyntaf yn Nghymmru ag y cawn hanes sicr ac eg'ur am dani ar ol yr "oesau tywyllion." Mae Dr. Some yn y flwyddyn 1589, yn dyweyd fod gan y Bedyddwyr amryw eglwysi yn Llundain a manau eraill y pryd hyny, a bod rhai o'u gweinidogion wedi derbyn eu haddysg yn y prif ysgolion.* Ond y gyntaf yn Nghymmru oedd eglwys y Bedyddwyr yn Olchon.† Yn mhen y chwech mlynedd ar ol hyn, sef yn y flwyddyn 1639, cawn hanes eglwys Ymneillduol wedi ei chorffoli yn Llanfaches, Mynwy, yr hon mae yr Annibynwyr yn hawlio fel yr eiddo hwy, a'r gyntaf o'u heiddo yn Nghymmru. Ond yr oedd yr eglwys yn Llanfaches, yn gymmysg o Fedyddwyr ac Annibynwyr, ac un o'i gweinidogion, sef Mr. Jessey, yn Fedyddiwr.‡ Cofier fod yr eglwys Fedyddiedig yn Olchon wedi ei chorffoli ragor na chan' mlynedd cyn dechreuad y Methodistiaid gan Howell Harris, yr hyn gymmerodd le yn y flwyddyn 1736; a chwech mlynedd o flaen yr eglwys yn Llanfaches, yr hon oedd gynnwysedig o Fedyddwyr ac Annibynwyr.

Y gofyniad yn awr yw, cangen o ba le oedd Olchon? Neu, o ba le y tarddodd y Bedyddwyr henafol hyn ag oeddynt yn gwneyd i fyny eglwys Olchon, a rhan o eglwys Llanfaches? Nid oes hanes wedi ei chael ag sydd yn

* Ivimey, Vol. I. p. 107, 108. † J. Thos. Hanes y Bedyddwyr.

‡ J. Thos. Hanes y Bedyddwyr.—Cymmerwn yn y fan hyn y cyfleustra i gymmeradwyo i sylw ein darllenwyr ddarlith ragorol y Parch. R. Ellis (Cynddelw) ar "Hanes y Bedyddwyr." Nid ydym wedi cwrdd â dim yn cynnwys mwy, os cymmaint o ffeithiau hanesyddol ar y pwnc hwn mewn cylch mor fychan. Nid yw ei phris ond tua chwe' cheiniog, ond y mae yn werth ei phwysau o aur. Dylid cael ail argraffiad o honi; a dylai fod yn meddiant pob darllenydd Cymmreig, ond yn neillduol yn meddiant pob Bedyddiwr.

myned yn mhellach yn ol am eglwys reolaidd, yr hyn, ychwaith, nas gellid ddysgwyl ei gael yn y canrifoedd blaenorol, o herwydd y rhesymau sydd wedi cael eu crybwyll eisioes. Ond y mae genym hanes am bersonau unigol, neillduol o ran dysg, duwioldeb, a dylanwad, fel diwygwyr, gannoedd o flynyddoedd yn flaenorol i sefydliad yr eglwysi uchod. Yr oedd gan Wickliffe ddysgyblion Cymmreig yn y parthau hyn, mor foreu, o leiaf, a'r flwyddyn 1380. Yr oedd yr hen Fedyddwyr Cymmreig, a dybir oeddynt yn wasgaredig a dirgelaidd, wedi dal eu syniadau gwahaniaethol trwy yr "oesau tywyllion," yn croesawi, gyda llawenydd, bob gwawr o ddiwygiad crefyddol; ac felly y gwnaethant gyda y diwygiad Wickliffaidd a Lolardaidd. Yr oedd Arglwydd Cobham, yr hwn oedd Gymmro, yn un o'r rhai neillduol hyn, ac yn byw ddim yn mhell o Olchon yn yr adeg hono, yr hwn oedd yn cynnal a chadw amrywiol o'r pregethwyr diwygiadol. Cafodd ef ei ddal yn agos i Meifod, Gogledd Cymmru, a'i rostio wrth dân araf i farwolaeth! Rhan o'i gyffes ffydd yw a ganlyn:—"'Fod pob traddodiad na ddysgir yn yr Ysgrythyr yn afreidiol a drygionus." Un neillduol arall oedd Walter Brute, Cymmro, tua'r un gymmydogaeth, yn byw yn y rhan olaf o'r 14eg canrif, yr hwn oedd yn dysgu y "dylai *ffydd* fod *o flaen bedydd*, ac nad oedd iachawdwriaeth dynion yn gorphwys ar yr ordinhad o fedydd;" ac nad oedd mabanod yn gymhwys ddeiliaid yr ordinhad; yr hyn oedd yn groes i farn yr Eglwys Wladol. William Tyndale, cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd i'r iaith Seisnig, oedd frodor o'r gymmydogaeth hono, a bernir mai Cymmro ydoedd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1480, a merthyrwyd ef yn 1536, bron can' mlynedd cyn corffoli yr eglwys yn Olchon. Mae ei ysgrifeniadau yn profi mai Bedyddiwr ydoedd o ran barn. Dywed am soddiad i'r dwfr y rhai a edifarhant ac a gredant, a'u cyfodiad o'r dwfr yn arwydd o'u bywyd newydd, &c.* Yr oedd Llewelyn Tyndale a'i fab Hezekia, yn aelodau cyfrifol yn eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth, tua'r flwyddyn 1700, y rhai, yn ol barn Jos. Thos., oeddynt ddisgynyddion o William Tyndale.

* Ivimey, Vol. I. p. 92, 93.

Thomas Llewelyn o Rhegoes, oedd ddiwygiwr neillduol arall. Ganwyd ef tua diwedd y pumthegfed canrif. Oerwyr iddo fe oedd Thomas Llewelyn, LL.D., Bedyddiwr, genedigol o blwyf Gelligaer, awdwr y Traethodau ar gyfieithad y Bibl Cymmreig. Yr oedd Thomas Llewelyn, Rhegoes, yn llenor enwog,—"yn fardd wrth fraint a defod ynys Prydain." Yr oedd wedi cyfieithu Testament William Tyndale i'r iaith Gymmraeg erbyn y flwyddyn 1540; a dywedir mai ei waith ef a gyhoeddwyd gan William Salesbury, a'i gyd-lafurwyr yn mhen saith mlynedd ar ugain ar ol hyny, sef yn 1567. Tybir fod llawer o'i hanes yn ysgrif-lyfrau Iolo Morganwg, yr hyn sydd etto heb ymddangos. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd, ac yn pregethu mewn tai annedd, yn gystal ag mewn eglwysi; ac fe ffurfiodd lawer o gymdeithasau crefyddol bychain ar hyd a lled y wlad. Cafodd y rhai hyn eu drwg-dybio, a'u herlid gan yr archesgob Laud a'i blaid. Ond bu hyn yn foddion i'w gwneyd yn fwy o ymneillduwyr nag o'r blaen. Rhai o honynt oeddynt faban-fedyddwyr, ac a ymunasant â'r Presbiteriaid; *eraill a unasant â'r rhai oeddynt yn arfer bedydd rhai mewn oed.**

Ysgrifenwyd yr uchod er dangos fod egwyddorion y Bedyddwyr yn fyw, a Bedyddwyr yn ffynu mewn amryw barthau o'r wlad, ac yn neillduol yn nghymmydogaethau Olchon, ugeiniau a channoedd o flynyddoedd cyn *corffoli yr eglwys* yn Olchon yn y flwyddyn 1633; a theimlwn yn berffaith hyderus wrth ddyweyd mai cangen gref, amlwg, a ffrwythlon, wedi tarddu oddiar yr hen foncyff, ydoedd yr eglwys hon. Nid oes modd rhoddi cyfrif boddhaol am ei bodolaeth, a'r modd y daeth i fodolaeth, ar un tir arall. Mor fuan ag y cafwyd ychydig seibiant oddiwrth yr erlidigaethau crefyddol, dyma'r Bedyddwyr yn dyfod allan, ac yn ymffurfio yn eglwysi a chymmanfaoedd, ar ol i'r gyntaf gymmeryd y blaen yn Olchon yn y flwyddyn 1633, gweinidog yr hon oedd Howell Fychan.

O'r cyfnod hwn yn mlaen mae genym hanes eglur a chywir am y Bedyddwyr Cymmreig. O'r flwyddyn 1633, yr ydym yn eu canfod yn dyfod allan fel eglwysi, ac yn

* Malkin's.

cynnyddu. Cawn eglwys Ilston, yn Mrowyr, yn cael ei chorffoli yn y flwyddyn 1649, a'r eglwys yn Gelligaer, yn y flwyddyn ganlynol. Yn y blynyddoedd hyn yr "oedd eglwysi lluosog wedi eu corffoli mewn tai ffermydd, yn cynnwys rhai cannoedd o aelodau, a rhai o honynt yn meddu ar amryw gangenau, yn cwrdd mewn gwahanol fanau, ac heb un capel ganddynt. Yr oedd y Bedyddwyr Cymmreig yn cynnal eu cymmanfaoedd agos bob blwyddyn, o'r flwyddyn 1650, hyd gyfnod "Deddf yr Unffurfiaeth" yn 1662.† Y Gymmanfa gyntaf o eiddo y Bedyddwyr, ag mae genym hanes am dani, a gynnaliwyd yn Ilston, neu Lanilltyd, yn agos i Abertawy, yn y flwyddyn 1650. Yr oedd tair o eglwysi *rheolaidd,* corffoledig. yn ffurfio y Gymmanfa hon, sef Olchon, Ilston, a Gelligaer. Yn y Gymmanfa a gynnaliwyd yn Aberhonddu yn y flwyddyn 1656, yr oedd wyth o eglwysi yn cael eu cynnrychioli. Cofier fod amryw eglwysi *cymmysg lluosog* heblaw y rhai a gynnrychiolid yn y Gymmanfa hon. Yn fuan ar ol hyn daeth Charles yr II. i'r orsedd, yr hyn fu'n ddechreuad i erlid didrugaredd a chreulon. Dyoddefodd y Bedyddwyr erlidigaethau chwerwon, hefyd yr Annibynwyr (eglwysi y rhai oeddynt yn cynnwys y Presbyteriaid) a ddyoddefasant dan yr adyn coegfalch hwn.* Yr oedd deddf ar ol deddf yn cael ei dwyn allan i'r dyben o orthrymu a dyfetha pawb a feiddient wahaniaethu oddiwrth Eglwys Loegr; yr oedd yr esgobion yn offerynau parod yn llaw y brenin i ufuddhau i

† Llythyr Cymmanfa Mynwy, 1857, gan y Parch. William Roberts (Nefydd). Llythyr rhagorol, a dylai fod yn meddiant pob ymneillduwr yn y dywysogaeth.

* Y canlynol sydd ddarluniad o'r adyn Charles II., gan offeiriad parchus, sef y Parch R. W. Morgan, Tregynon, yr hwn sydd ofalus i ddyweyd y lleiaf a allai, a dyweyd y gwir am ei ddrwg, &c. :—" Ei deyrnasiad ef (Charles II.) yw un o'r rhai mwyaf gwarthus yn hanes Prydain. Yr oedd yn adyn ysgeler ac afradlon ei hun. Yr oedd ei lys yn cynnwys casgliad o fenywod aflan, a swyddwyr wedi eu llychwino gan bob llygredd. Niweidiodd eu hesiamplau y genedl, fel yr oedd arferion llygredig ac anllad yn cyrhaeddyd trwy holl ddosparthiadau cymdeithas. Hyny, yn nghydag Esgobion gwenieithus, heb fod gymmaint ag un yn eu plith yn ddigon gonest dros Grist, a thros eneidiau dynion, ac i gondemnio y fath annhrefn, a orphenai y darlun anfoesol." *Brit. Cymmry,* p 248.

reolau y *Book of Sports*, trwy ddysgu pob gwagedd, ffolineb, a melldith i'r werin trwy ein gwlad yn y chwareuon hyn ar ddydd yr Arglwydd, yn nghydag i erlid, poeni, a dyfetha y dynion da ag oeddynt o gydwybod yn ofni ac yn gwasanaethu Duw yn ol ei Air.*

Fe barhaodd yr erlidigaeth chwerw hon am tuag wyth ar ugain o flynyddoedd. Ni fuasai yn rhyfedd pe buasai y fath driniaethau a deddfau creulon wedi difodi holl Fedyddwyr y wlad; ond nid felly y bu. Yr oeddynt yn cwrdd a u gilydd mewn manau dirgel,—"weithiau i gyd-addoli a chyflwyno diolchiadau i Dduw am ryw waredigaethau; brydiau eraill i gyd-gymmysgu eu dagrau mewn wylofain o herwydd fod rhyw frawd anwyl wedi syrthio yn ysglyfaeth i'r erlidwyr." Nid yn unig cadwasant eu crefydd—heb wadu a gadael eu hegwyddorion, ond buont fywiog a selog. "Pe na buasent felly, o'r flwyddyn 1661 hyd 1689, buasent yn ddiau wedi lleihau yn ddirfawr mewn nifer; canys yr oedd 28ain o flynyddoedd yn dyfod a tho newydd o drigolion i'n byd ni." Ar ol deddf yr Unffurfiaeth, &c., yn y flwyddyn 1864, dygwyd allan y *Conventicle Act*, yr hon a wnai i bump a fyddai yn cwrdd yn nghyd yn *rhydd* (heblaw yn yr Eglwys Wladol) i addoli Duw, yn agored i dalu dirwy o £5 yr un, neu dri mis o garchar; a £10, am yr ail waith, neu chwech mis o garchar; a £100 am y drydedd waith, neu saith mlynedd o alltudiaeth. Yr oedd hyny hefyd i'w benderfynu heb un *Trial* na *Jury*—dim ond llw y cyhuddwr, a hwnw i gael un ran o dair o'r ddirwy fel gwobr am ei waith melldigedig a chythreulig! Dyma annogaeth a chefnogaeth i ddynion diegwyddor i hela plant Duw, ac i ddywedyd celwydd arnynt, os na fyddai y gwir yn ateb eu dyben hwy. Yn ddiymaros ar ol hyn adnewyddwyd hen ddeddf ag oedd wedi cael ei gwneyd yn amser Elizabeth, yn gwneyd dyn yn agored i gael ei alltudio am beidio myned i'r Eglwys! Yn y flwyddyn 1665, gwnawd y *Five Mile Act*. Yn y flwyddyn 1670, gwnawd y *Conventicle Act* yn fwy caeth a chospawl.

Yn 1673, gwnawd y *Test Act*. Yn 1681, daeth gorchymyn caeth y brenin i erlid, a chadw y *Conventicle Act*

* Llythyr Cymmanfa Mynwy, 1857.

i'r llythyren, yn y dirwyon, y carcharu, a'r alltudio, yn ddidrugaredd! Wedi marw Charles, daeth James II. i'r orsedd, a dechreuodd yntau erlid yn y flwyddyn 1685. O! amser ofnadwy ar Sion Duw!! Y rhai anwyl a diniwed fel wyn bychain yn cael eu hysglyfaethu a'u llarpio gan fleiddiaid rheibus! Eu llusgo o garchar i garchar, eu caethiwio am flynyddoedd mewn celloedd tywyllion, a seleri gwlybion, yn fynych heb ymborth addas i'w fwyta, a dim ond gwellt i orwedd arno, ac yn fynych yn y fath leoedd yn marw.*

Dyddiau cymmylog a niwliog ar y Bedyddwyr oeddynt yr 28ain mlynedd cyn y flwyddyn 1689, yn yr hon flwyddyn y cyhoeddwyd *Deddf y Goddefiad.* Yr oedd hyn, sylwer 47ain cyn dechreu y Methodistiaid. Mae haneswyr dechreuad y Methodistiaid yn ceisio darlunio ein gwlad bron yn amddifad o Ymneillduaeth hyd nes y dechreuodd Mr. Howell Harris bregethu, a hyny mae'n debyg er mwyn rhoddi y clod i Fethodistiaeth nad ydyw yn ei haeddu. Mae y Parch. John Owen, awdwr Cofiant y Parch. Daniel Rowlands, yn dywedyd nad oedd ond pump o bregethwyr yn Nghymmru yn y flwyddyn 1660, ac nad oedd ond un o'r rhai hyny yn Fedyddiwr. Mae y cyfeiliornad anwireddus hwn yn cael ei ail-gyhoeddi gan John Johnes, Ysw., yn ei draethawd buddugol,—"*The Causes of Dissent in Wales.*" Ond mae y Parch. W. Roberts (Nefydd), efallai y mwyaf hyddysg yn Nghymmru yn y pynciau hyn, yn *enwi* 16eg, ac yn crybwyll am amryw eraill o weinidogion y Bedyddwyr, a fuant feirw yn amser yr erlidigaeth, rhwng 1661 a 1689. Ac mae yn enwi tua'r un nifer wedi hyny o rai eraill fuont fyw ac yn llafurio cyn 1661, hyd gyhoeddiad y *Goddefiad* yn 1689. Mae wedi hyny yn *enwi dros* ddeugain, ac mae yn dywedyd y gellir crybwyll tua *hanner cant* o weinidogion y Bedyddwyr a fuont yn llafurio rhwng 1700 a 1736, pan ddechreuodd y Methodistiaid! Dywed,—"Bu pob un o'r rhai uchod yn llafurio (fel gweinidogion) yr holl amser, o 1700 hyd 1736, neu ran o'r amser hwnw, ond nid llai na phum' mlynedd. Nid yw y rhai uchod, ychwaith, yn cynnwys gweinidogion y cynnulleidfaoedd cymmysg"

* Llythyr Cym. Mynwy, 1857.

Pa un ai anwybodaeth neu ragfarn yn erbyn y Bedyddwyr a achosodd i'r awdwyr uchod wneyd y fath gamwri a hwy? Pa un bynag o'r ddau, neu, os y ddau gyda eu gilydd, y mae yn anfaddeuol ynddynt, ac yn eu gwneyd yn hollol annheilwng o bob ymddiried fel haneswyr. Mae anwybodaeth mewn hanesiaeth yn ddrwg mawr am ei fod yn camarwain y byd; ond y mae camddarluniad o herwydd rhagfarn yn drosedd anfaddeuol.

Mae y ffeithiau uchod yn profi fod y Bedyddwyr Cymmreig, nid yn unig yn dal eu tir yn y blynyddoedd blinion hyny, eithr yn cynnyddu yn nghanol y gormes a'r erlidiau creulonaf,

Pan gyhoeddwyd deddf y Goddefiad yn y flwyddyn 1689, yr oedd cynnal Cymmanfa yn Nghymmru wedi myned allan o gôf, yn gymmaint a bod deg-ar-ugain o flynyddoedd wedi myned heibio er pan oedd y fath gyrddau wedi bod. Er hyny, dim ond un Eglwys oedd wedi colli, sef yr un oedd wedi myned i America o Ilston, gerllaw Abertawy, yn nghyd a'i gweinidog, John Myles, y rhai a sefydlasant yn Boston; ac y mae yr Eglwys yno yn awr, yn lluosog a blodeuog. Hon oedd yr Eglwys Fedyddiedig gryfaf yn Nghymmru y pryd hyny. Ond yr oedd yr erlidigaeth dan Charles II. mor chwerw fel y barnasant yn well i ymadael gyda eu gilydd i America, yn un dorf fawr. Yr ydym yn cael y saith Eglwys arall a adawsom yn Nghymmafa Aberhonddu, yn y flwyddyn 1656, nid yn unig yn fyw, ond, wedi cynnyddu llawer yn amser yr erlidigaeth. Rhwng y blynyddoedd 1689 a 1700, yr oedd yr Eglwysi Cymmreig yn anfon cenadon i'r Cymmanfaoedd Seisnig, a gynnelid yn Bristol, Taunton, &c., hyd y flwyddyn 1695. Ac yn y flwyddyn 1700, y cynnaliwyd y Gymmanfa gyntaf yn Nghymmru ar ol yr erlidigaeth, yr hyn a gymmerodd le yn Llanwenarth. Yr oedd wyth o Eglwysi yn cael eu cynnrychioli yno. Ar ol hyn cynnaliwyd hwy yn rheolaidd, bob blwyddyn, o fan i fan.

"Yn y flwyddyn 1736, pan mae y Methodistiaid yn cyfrif eu dechreuad, yr oedd rhif eglwysi digymmysg y Bedyddwyr yn 16eg, heblaw amryw gangenau, a lleoedd pregethu; a'r Eglwysi cymmysg, feallai ddim yn llai nag wyth mewn nifer. Felly gwelwn fod rhif yr eglwysi digymmysg,

yn y flwyddyn 1689, yn saith; yn 1700, yn wyth; ac yn 1736, yn unarbumtheg, heb gymmeryd i mewn y rhaï cymmysg. Dylid sylwi hefyd fod cynnydd yr aelodau yn yr oll o'r eglwysi hyn yn gyfatebol. Ni a gymmerwn, er engraifft, ychydig hanes am gynnydd un o'r unarbumtheg hyn, a hono yn Eglwys ieuanc y pryd hyny, sef Blaenau-Gwent. Nis gellir ystyried hon yn agos mor llwyddiannus a rhai o honynt, ond y mae yn fwy llwyddiannus nag eraill, ac felly efallai yn un o'r goreuon i roddi meddylddrych cyfartal am lwyddiant yr oll o honynt Corffolwyd yr eglwys hon yn y flwyddyn 1696, pan rifai yr aelodau 61. Yn y flwyddyn 1717, dygwyddodd amgylchiad a wasanaetha i ddangos mai nid rhyw ychydig o ddynion diddylanwad oedd yn gwneyd i fyny Eglwysi y Bedyddwyr yn y dyddiau hyny, Gofynwyd gan y llywodraeth, yn y flwyddyn 1717, i'r gweinidogion perthynol i'r holl enwadau, gyfrif y rhai oeddynt yn gwrando dan eu gweinidogaeth yn gyffredin, yn nghyd a'u sefyllfa yn y wlad; ac felly y gwnaethant,—'Y gwrandawyr yn Aberystruth, sef y Blaenau,* ac yn nhŷ Isaac Daniel,‡ fel y canlyn :—Y rhai oedd ganddynt *vote* (*County Voters*) yn nhref Fynwy, 123; y rhai oedd ganddynt *vote* dros y dref (*burgess*) 26;—rhai yn cadw tiroedd, 98; crefftwyr, 55; gweithwyr cyffredin, 246. Y rhai hyn gyda eu gwragedd, merched, &c., o gylch *mil* o nifer."|| Mae yr uchod yn engraifft lled gywir o safle a sefyllfa yr eglwysi oll, y rhai cymmysg, yn gystal ar un ar bumptheg rhai digymmysg.

Ymddengys mai yn y flwyddyn 1779, y corffolwyd yr eglwys Fedyddiedig neillduol gyntaf yn y Gogledd ar ol y dirywiad Pabyddol yn yr wythfed canrif, sef eglwys Llangefni, yn Môn.

Yn y flwyddyn 1787, y dechreuwyd yr Ysgol Sabbothol yn mhlith y Bedyddwyr. Mor bell ag y gallaswn gael allan, ymddengys i'r Ysgol Sabbothol ddechreu yn Nghymmru mewn tri o leoedd tua'r un adeg yn y flwyddyn grybwylledig uchod, sef yn Hengoed, Morganwg, Pwllheli,

* Cangen o'r Blaenau rhwng Beaufort a Sirhowy.

‡ Cangen arall o'r Blaenau yn Llanhiddel.

|| Llythyr Cymmanfa Mynwy. Ystadegau Dr. Stennett. Ni rifid y plant yn y cyfrif uchod.

Arfon, Llanfachraeth, Môn. Dechreuwyd yr un yn Hengoed gan y Bedyddwyr, trwy offeryngarwch y dyn rhagorol ac enwog hwnw, Morgan John Rhys; yr hwn wedi hyny a ymadawodd i America,—gwlad a llawer mwy o ryddid ynddi, ac yn fwy cydunol â'i ysbryd haelionus a rhyddfrydig ef, lle y gwnaeth lawer iawn o ddaioni yn ngwinllan ei Arglwydd a'i Geidwad, Y *mae*, ac fe *fydd* byth, coffadwriaeth y dyn mawr a da hwn yn fendigedig. Dechreuwyd yr Ysgol Sabbothol yn Mhwllheli gyda yr Annibynwyr, gan bregethwr cynnorthwyol yn eu plith, o r enw John Pritchard, yr hwn yn fuan a oleuwyd gyda golwg ar fedydd, ac mewn canlyniad a ymunodd â'r Bedyddwyr. Bu yn gynnorthwy mawr iddynt yn eu dechreuad yn y lle, a bu yn weinidog iddynt ar ol hyny. Dechreuwyd yr ysgol yn Llanfachraeth mewn gefail gôf. Nid hawdd i w profi, pa un ai gyda yr Annibynwyr ai gyda y Bedyddwyr y dechreuodd. Ond mae y tebygolrwydd yn llawer cryfach o ochr yr olaf. Gallai ar yr un pryd fod rhai dynion da perthynol i'r ddau enwad a llaw yn ei dechreuad a'i dygiad yn mlaen. Anhawdd penderfynu i ba un o r tri lle uchod y perthyn y flaenoriaeth gyda golwg ar amser. Ymddengys iddi ddechreu bron (os nid) ar yr un adeg yn y tri le, a hyny yn y flwyddyn 1787, sef dwy flynedd cyn i'r enwog Charles o'r Bala sefydlu yr Ysgol Sabbothol, yr hyn a wnaeth mewn amrywiol leoedd yn y Gogledd, gan ddechreu yn y flwyddyn 1789. Pob parch i'r enwog a'r llafurus Charles o'r Bala am ei ymdrechion clodwiw efo yr Ysgol Sabbothol; ond teilwng yw dyweyd er mwyn cywirdeb hanesyddol, nad ei *feddyldd-ych* ef ydyw yr Ysgol Sabbothol, oblegyd yr oedd yn bodoli mewn tri o leoedd o leiaf, ddwy flynedd cyn iddo ef ddechreu ar ei waith c'odfawr o sefydlu Ysgol Sabbothol, yr hyn a wnaeth, wedi hyny, mewn amrywiol fanau. Oddiwrth yr uchod gwelwn na fu y Bedyddwyr yn ol i neb yn y gwaith clodfawr o sefydlu yr Ysgol Sabbothol yn Nghymmru.

Yn mhen tair blynedd ar ol sefydliad yr Ysgol Sabbothol, sef yn y flwyddyn 1790, cawn y Gymmanfa yn cael ei chynnal yn y Dolau. Yr oedd 46 o eglwysi corfforedig a rheolaidd yn cael eu cynnrychioli, a 61 o weinidogion yn aelodau o'r Gymmanfa hon yn y Dolau. Gwna Dr. Rippon

yn ei *Register* am y flwyddyn hono y sylw a'r eglurhad canlynol, o barthed eglwysi a gweinidodogion y Bedyddwyr Cymmreig yn y cyfnod hwnw:—"Mae rhif y gweinidogion ag ydynt yn gwasanaethu yr eglwysi Cymmreig yn ymddangos yn ddyeithr i'r darllenydd Saesonig, hyd nes y byddo yn cael gwybod fod rhai o'r eglwysi hyn yn meddu amryw gangenau ag ydynt yn ymgynnull ar yr un amser, eithr mewn lleoedd ac ardaloedd gwahanol. Dyna eglwys Aberduar, a phedwar o weinidogion, a phedwar tŷ cyfarfod, lle maent yn pregethu yn gysson, ac yn gweinyddu yr ordinhadau yn rheolaidd; ac yn y rhif luosocaf o'r eglwysi henaf a ymddengys yn y gofres Gymmreig, mae'n perthyn iddynt ddau, tri, pedwar, a phump o gapeli, y rhai a ystyrir fel cangenau, lle mae gwasanaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen mor gysson a rheolaidd ag yn y fam eglwys."* Dywed fod amryw eglwysi eraill yn gyffelyb, megys Pantteg, Llanglofiân, Castellnewydd Emlyn, Cilfowyr, Ebenezer, yn Nyfed, Rhydwilym, a Moleston; i bob un o'r rhai y perthynai cangenau pwysig yn y fl. 1790. Cawn fod y nifer o 544 wedi cael eu bedyddio yn y fl. Gymmanfaol hon. Yn y Gymmanfa hon y cydunwyd i ranu y Gymmanfa yn dair Cymmanfa yn Nghymmru, y rhai a adnabyddid wrth y Gymmanfa Ogleddol, y Dde-ddwyreiniol a'r Dde-orllewinol. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn sef yn y flwyddyn 1794, cawn fod nifer yr eglwysi yn y tair Cymmanfa yn 56; a'r aelodau yn 7058. Yr oedd dwy eglwys, o leiaf, o Fedyddwyr cyffredinol heb fod yn y cyfrif uchod. Yn mhen pedair blynedd yn mhellach, sef yn y flwyddyn 1798, mae Dr. Rippon yn cyfrif yr eglwysi ag oeddynt yn y tair Cymmanfa yn 84; a'r aelodau ag oeddynt mewn cyflawn gymmundeb yn 9000. Yn y deg mlynedd, sef o 1790 hyd 1799, fe fedyddiwyd y nifer o 5357 o bersonau mewn cyssylltiad â'r tair Cymmanfa Gymmreig. Yn y flwyddyn 1800, sef dechreu y canrif presenol, dywed Dr. Rippon, fod yr eglwysi Cymmreig ag oeddynt mewn undeb â'r tair Cymmanfa yn rhifo 86, a'r aelodau ag oeddynt mewn cyflawn gymmundeb ynddynt yn ymylu ar 12,000 "Am y deng mlynedd ar ugain,

* Dr. Rippon's Register, Vol. i. p. 16.

cyntaf o'r canrif presenol yr oedd y cyfrifon (mor belled ag yr oeddynt wedi dyfod i mewn, cofier) fel hyn:—Yn ystod y deg mlynedd o 1800, hyd 1809, bedyddiwyd yn yr eglwysi ag oeddynt mewn undeb â'r tair Cymmanfa yn unig 7438 o bersonau. Yn y deg mlynedd canlynol, sef, o 1810 hyd 1819, bedyddiwyd yn yr eglwysi Cymmanfaol hyn, 8839. Yn yr un flynedd ar ddeg, o 1820 hyd 1830, bedyddiwyd 16,222 o bersonau. Yn y flwyddyn gyntaf o'r canrif presenol, rhif yr eglwysi yn y tair Cymmanfa oedd 86; ond yn mhen ugain mlynedd, sef yn 1820, yr oedd yr eglwysi yn 152; ac yn mhen deng mlynedd yn mhellach, sef yn 1830, yr oeddynt yn 215. Yn y flwyddyn hon hefyd, sef 1830, yr oedd y nifer o 190, yn weinidogion, yn fugeiliaid ar yr eglwysi hyn. Nid yw y rhif uchod yn cynnwys y cangenau a berthynent i'r eglwysi, y rhai oeddynt dra lluosog, nac ychwaith nifer y pregethwyr cynnorthwyol, ag oeddynt yn fynych, os nid yn gysson, yn pregethu yn y cangenau, neu yn yr eglwysi." * A diau fod cynnydd yr aelodau yn gyfatebol i gynnydd yr eglwysi a'r cangenau.

Oddiwrth yr ystadegau uchod, gwelwn fod y Bedyddwyr Cymmreig wedi bod yn myned ar gynnydd parhaus a chysson, am y cant a deugain mlynedd, o gyhoeddiad Deddf y Goddefiad (1689) hyd y flwyddyn 1830. Ac nid yn unig wedi bod yn myned ar gynnydd, ond y cynnydd hwnw yn myned yn mlaen yn fwy cyflym o flwyddyn i flwyddyn; fel careg yn treiglo o ben mynydd, yn ychwanegu ei chyflymdra fel yr â yn mlaen yn ei threigliad. Gellir hefyd, gyda yr un priodoldeb, ddyweyd yr un peth am y cynnydd sydd wedi bod am y deugain mlynedd ond un sydd yn canlyn, sef o'r flwyddyn 1830 hyd y flwyddyn 1869. Mae eu cynnydd wedi bod yn myned yn mlaen yn fwy cyflym, yn mhob ystyr, a hwnw yn gynnydd eglur i bawb. Mae y *Methodist Recorder*, y dyddiau diweddaf, yn dyweyd fel hyn am sefyllfa bresenol y Bedyddwyr yn y Deyrnas Gyfunol:—"Nid oes un enwad yn y deyrnas ag sydd yn myned yn mlaen ar y cyfartaledd yn fwy cyflym,

* Llythyr Cymmanfa Morganwg, 1862, gan Dr. Price, Aberdare, sylfaenedig ar awdurdod *Register* Dr. Rippon.

yn yr amser presenol na'r Bedyddwyr." Os ydyw hynyna yn briodol gyda golwg arnynt trwy y deyrnas yn gyffredinol, y mae yn llawer mwy priodol gyda golwg arnynt yn Nghymmru yn neillduol; oblegyd nid yw y Bedyddwyr yn un parth o'r byd mor lluosog ar gyfartaledd y boblogaeth ag ydynt yn Nghymmru ac America.

Ffaith hefyd ag sydd yn cael colli golwg arni ydyw fod miloedd o Fedyddwyr yn aelodau yn mysg enwadau eraill ein gwlad. Mae y rhai hyn yn lluosocach nag mae nemawr wedi dychymmygu erioed; oblegyd y mae yn *policy* ganddynt, o herwydd eu hannghyssondeb yn bod lle y maent, i ymgadw mor dawel ag y gallant gyda golwg ar eu barnau, Mae y Bedyddwyr yn y cyssylltiad hwn dan fwy o anfantais gyda golwg ar eu rhif nag un enwad "iawn gred" yn ein gwlad. Nid oes ond Bedyddwyr gyda y Bedyddwyr, ond y maent hwy yn lluoedd yn aelodau gyda phob enwad arall. Ni wna neb y tro gyda y Bedyddwyr ond Bedyddwyr,—"proffesedig" beth bynag, ond gwnant hwy y tro, gyda phob enwad, heb broffesu newid dim ar eu barn. Fel hyn mae y Bedyddwyr, o ran barn, yn lluosocach nag y maent erioed wedi cael eu gosod allan. Gyda golwg ar y dadleuon, trwy y wasg, &c, a gymmerodd le rhyngddynt a phersonau o enwadau eraill, ar y pwnc a'u nhodwedda yn neillduol, ac a'u gosoda ar eu penau eu hunain, sef bedydd y crediniol mewn dwfr, ni fuont erioed yn golledwyr; nid yn unig ar ennill y ddadl, ond trwy fod rhywrai bob amser o'r ochr arall yn cael eu hargyhoeddi o barthed y pwnc, yn troi at y Bedyddwyr er mwyn cael eu "claddu gyda Christ yn y bedydd," er mor ddirmygus yr ymddangosai hyny unwaith yn eu golwg. Y fath nifer sydd wedi cael eu hargyhoeddi wrth ddarllen llyfrau P. A., Mon, John Evans, Cynddelw, Mathetes, H. Jones, M.A., Llangollen, &c. Ond pwy all gyfeirio at gymmaint ag un Bedyddiwr a gafodd erioed ei argyhoeddi o fod yn gyfeiliornus o barthed bedydd wrth ddarllen y llyfrau gwrthwynebol. Gadawn yr uchod i ystyriaethau y darllenydd, heb gynnyg un esboniad arnynt; ond dywedwn hyn, nad ydyw yn beth i synu llawer ato, fod eu cynnydd mor gyflym, gan mai fel y darluniwyd uchod y mae pethau yn bod.

Mae eu cynnydd yn America yn ddirfawr. Fel hyn y dywed y "*Macedonian Record*" am eu cynnydd yn America yn ystod y 25 mlynedd diweddaf:—"Mae cynnydd enwad y Bedyddwyr yn y wlad hon yn y 25ain mlynedd diweddaf wedi bod yn 69 *per cent* mewn eglwysi, 77 *per cent* mewn gweinidogion, a 98 *per cent* mewn aelodau bedyddiedig; ac mae y cyfraniadau at y Cenadaethau wedi cynnyddu yn nghorff yr un amser, yn ol 384 *per cent.*"

Yn canlyn, rhoddir y crynodeb goreu a allwn gael, ar ol ymchwiliad manwl a phwyllog, o'u sefyllfa a'u rhif yn Nghymmru yn bresenol:—Cymmanfaoedd, 11; Eglwysi, 575, yn nghyda 330 o gangenau a gorsafon pregethu,—yr oll, 905; gweinidogion ordeiniedig, 450; pregethwyr cynnorthwyol, (o leiaf) 200—cyfanswm, 650; Cymmunwyr, 68,071; Gwrandawyr, 69,492; Ysgol Sabbothol, 57,014. Yn y Deyrnas Gyfunol, dros 40 o Gymmanfaoedd; o eglwysi, 2847; ac o gymmunwyr, 250.521. Dywed y *Baptist Handbook* am y flwyddyn hon fod llawn un filiwn o bersonau yn dal cyssylltiad â'r enwad Bedyddiedig yn y Deyrnas hon.

Gyda golwg ar America, "Gwlad y Bedyddwyr," dywed y *Freeman* am Ebrill 10, 1868, fod gan y Bedyddwyr yn yr Unol Daleithiau,—*Universities* ac Athrofeydd, 49; ond bod chwech o honynt wedi bod mewn math o atalfa mewn canlyniad i'r rhyfel cartrefol; eglwysi, 17,000; Cymmunwyr, 1,775,000. A dywed mewn rhifyn arall fod yno o ran barn, dros bum' miliwn a hanner, sef tua un o bob chwech o'r holl boblogaeth, yn Fedyddwyr o ran eu daliadau crefyddol!

Mae yr *Herzog's Real Encyclopædia* yn rhoddi rhif y Bedyddwyr proffesedig trwy y byd yn 4,638,000; a'r Annibynwyr yn 1,469,000. Y Bedyddwyr yn fwy na thri am bob un. Cofier fod amryw o enwadau a arferant fedyddio credinwyr trwy drochiad heb fod i mewn yn y cyfrif uchod.

---

Cyhoeddiadau y Bedyddwyr Cymmreig ydynt,—"Y Bedyddiwr," Misol, Blaenau. Y "Greal," Misol, Llangollen. Yr "Athraw," Misol, Llangollen. Y "Gwyliwr," Pythefnosol, Cwmafon. "Seren Cymmru," Wythnosol, Caerfyrddin.

Yn canlyn ceir cyfres o'n Hathrofeydd, Athrawon, Myfyrwyr, &c., yn y Deyrnas Gyfunol.

| *Lle.* | *Sefydlwyd.* | *Rhif y myfyrwyr.* | *Athrawon.* |
|---|---|---|---|
| Bristol...... | 1770 ... | 18 | Parch. F. W. Gotch, Ll.D.<br>,, E. W. Claypole, Ysw., B.A., B.Sc |
| Rawdon ... | 1804 ... | 18 | Parch. S. G. Green, B.A.<br>,, W. Skae, M.A. |
| Pontypool . | 1807 ... | 20 | Parch. Thos. Thomas, D.D.<br>,, Geo. Thomas, M.A.<br>,, J. Sully, Ysw., M.A. |
| Regent's Park ...... | 1810 ... | 45 | Parch. Jos. Angus, D.D., M.R.A.S.<br>,, Ben. Davies, L.L.D.<br>,, John Bridge, Ysw., M.A. |
| Hwlffordd . | 1839 ... | 19 | Parch. Thos. Davies, D.D.<br>,, G. H. Rouse, M.A., LL.B. |
| Chilwell ... | 1797 ... | 12 | Parch. W. Underwood, D.D.<br>,, W. R. Stevenson, M.A. |
| Athrofa Mr. Spurgeon . | 1861 ... | 80 | Parchn. C. H. Spurgeon, J. A. Spurgeon, G. Rogers. Mri. Ferguson, Gracey, a W. R. Selwyn, Ysw. |
| Llangollen | 1862 ... | 14 | Parch. H. Jones, M.A. |
| Chamber Hall, Bury | 1866 ... | 14 | Parchedigion H. Dawson, B. Evans, D.D., a James Webb. |
| Dr. Ward's Trust | ... | 5 | Mewn gwahanol *Universities* ac Athrofeydd. |
| | | 245 | |

Gwelwn fod tair o'r Athrofeydd uchod yn perthyn i Gymmru, yn cynnwys rhyngddynt, y nifer o dri ar ddeg a deugain o fyfyrwyr o dan addysgiaeth chwech o athrawon rhagorol.

Mae genym, fel Bedyddwyr, egwyddorion gwerthfawr i'w lledaenu. Mae genym fanteision, na fedd un enwad arall arnynt i ledaenu holl egwyddorion Gair Duw yn eu purdeb dihalog. Mae genym faes mawr o'n blaen, a gwaith

mawr i'w gyflawni; ond y mae gallu mwy o'n tu—Gallu Duw; oblegyd dyma orchymyn mawr a diweddaf ein Brenin ni,—"Ewch, gan hyny, a gwnewch ddysgyblion o'r holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi. Ac wele, yr ydwyf Fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen.

ARGRAFFWYD GAN DAVID GRIFFITHS, CWMAVON.

7 8

553521

HEc
S

Stokes, William
Hanes y Bedyddwyr. [Tr. by J.Rowlands.

University of Toronto
Library

DO NOT
REMOVE
THE
CARD
FROM
THIS
POCKET

Acme Library Card Pocket
LOWE-MARTIN CO. LIMITED